

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Cywyddau Ymryson Syr Dafydd Trefor

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Alaw Mai Edwards, BA, MPhil, PHD

Barry James Lewis, MA, MPhil, PHD

Eurig Salisbury, BA, MPhil

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPhil, DLitt, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Yr Athro Peredur Lynch, BA, PHD

# CYWYDDAU YMRYSON SYR DAFYDD TREFOR

golygwyd gan

RHIANNON IFANS



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
2012

□ Prifysgol Cymru ©, 2012.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 82 3

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Dull y golygu*

Lluniwyd testunau cyfansawdd o'r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Os oes llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth drafod trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlv); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd gwaith y bardd rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

## *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Bwrdd Golygyddol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr', staff y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Mr Daniel Huws, Mr Dafydd Ifans, Mrs Elen Wyn Simpson, a Mr Einion Wyn Thomas. Y mae arnaf ddyled neilltuol, unwaith yn rhagor, i'r Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd.

## Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xix
CYWYDDAU YMRYSON SYR DAFYDD TREFOR	
RHAGYMDRODD .....	1
TESTUN	
1. I ofyn geifr gan bedwar person plwyf (Syr Dafydd Trefor) .....	21
2. Ateb i'r cywydd gofyn geifr (Gruffudd ap Tudur ap Hywel).....	26
3. I ofyn alarch gan Faredudd ap Tomas o Borthaml dros Ddafydd ap Gwilym (Syr Dafydd Trefor).....	31
4. Ateb i'r cywydd gofyn alarch (Gruffudd ap Tudur ap Hywel).....	34
5. Y baich drain (Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn) .....	36
6. Casglu'r alarch (Gruffudd ap Tudur ap Hywel) .....	38
7. I ofyn gordderch a thelyn o law Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn (Syr Dafydd Trefor).....	41
8. Ateb i'r cywydd gofyn gordderch a thelyn (Gruffudd ap Tudur ap Hywel) .....	48
9. I fferi Porthaethwy (Syr Dafydd Trefor) .....	51
10. Y don a'r gwŷr eglwysig (Gruffudd ap Tudur ap Hywel).....	55
11. I geryddu dychanwr (Syr Dafydd Trefor).....	60
12. Nychdod y bardd (Gruffudd ap Tudur ap Hywel).....	64
13. Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn (Ieuan Delynor).....	68
14. Ateb dros Syr Wiliam (Syr Dafydd Trefor).....	72
15. Mawl i'r marchog a dychan Syr Dafydd (Ieuan Delynor).....	76
16. I Siôn Pilstwn (Ieuan ap Madog ap Dafydd) .....	80
17. Mawl Syr Wiliam Gruffudd a dychan iddo am garu (Ieuan Delynor).....	84
18. Mawl a dychan am ddwyn lle'r bardd yn y Penrhyn (Ieuan ap Madog ap Dafydd) .....	88
19. Marwnad Syr Dafydd Trefor (Ieuan ap Madog ap Dafydd).....	93

NODIADAU.....	99
GEIRFA.....	187
Enwau personau.....	204
Enwau lleoedd .....	206
LLAWYSGRIFAU .....	207
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	213
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU A'R EIRCHIAID .....	215
MYNEGAI I'R BEIRDD.....	217



# Byrfoddau

## Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AP *Yr Areithiau Pros*, gol. D. Gwenallt Jones (Caerdydd, 1934)
- ArchifMR <<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/>>
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J.G. Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Bangor
- Bangor (Penrhos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Penrhos) ym Mhrifysgol Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BCN *Y Beibl Cymraeg Newydd* (Swindon, 1988)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Bl BGCC *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybie, 1994)
- Bodewryd Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Bodley Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen

- 1 Br 'Llyfr Cyntaf y Brenhinoedd' yn yr Hen Destament
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- ByCyAt *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)
- CA *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938)
- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Can 'Caniad Solomon' yn yr Hen Destament
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CH William Gwyn Lewis, 'Astudiaeth o ganu'r beirdd i'r Herbertiaid hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1982)
- CLC<sup>2</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1991)
- CMRWBM *A Catalogue of the Manuscripts relating to Wales in the British Museum*, ed. Edward Owen (4 vols, London, 1900–22) (Cymmrodorion Record Series No. 4)
- CO<sup>3</sup> *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth D.H. Evans (ail arg., Caerdydd, 1997)
- 2 Cor 'Ail Lythyr Paul ... at y Corinthiaid' yn y Testament Newydd
- Cy *Y Cymmrodor, The Magazine of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1877–1951

- Cylchg HC *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 1960–
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- CyT *Cyfoeth y Testun*, gol. Iestyn Daniel, Marged Haycock, Dafydd Johnston a Jenny Rowland (Caerdydd, 2003)
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- Dafydd Trefor: Gw Irene George, ‘Syr Dafydd Trefor: ei oes a’i waith’ (M.A. Cymru [Caerdydd], 1929)
- Dat ‘Datguddiad Ioan’ yn y Testament Newydd
- DE *Gwaith Dafydd ab Edmwnd*, gol. Thomas Roberts (Bangor, 1914)
- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a T. Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DGIA Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DG.net ‘Gwefan Dafydd ap Gwilym’, gol. Dafydd Johnston *et al.*: <dafyddapgwilym.net>
- DiarC *Diarhebion Cymru*, gol. William Hay (Lerpwl, 1955)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols, Aberystwyth, 1991–3)
- L. Dwinn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, gol. S.R. Meyrick (Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)
- Egl Ph Henri Perri, *Eglvryn Phraethineb* (Llundain, 1595; adargraffiad 1930)
- R. Wallis Evans: Dar R. Wallis Evans, ‘Y daroganau Cymraeg hyd at amser y Tuduriaid gan roi sylw arbennig i’r cywyddau brud’ (M.A. Cymru [Caerdydd], 1935)

- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GCBM ii *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr*, ii, gol. Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDGor *Gwaith Dafydd Gorlech*, gol. Erwain H. Rheinallt (Aberystwyth, 1997)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGGr *Gwaith Gruffudd Gryg*, gol. Barry J. Lewis ac Eurig Salisbury (Aberystwyth, 2010)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i Deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIBH *Gwaith Ieuan Brydydd Hir*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)

- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
- GILIV *Detholiad o Waith Gruffudd ab Ieuan ab Llewelyn Vychan*, gol. J.C. Morrice (Bangor, 1910)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1994)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2004)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)
- GLIGt *Gwaith Llywelyn ap Gutun*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2007)
- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch'*, gol. Elin Jones (Caerdydd, 1989)
- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMBr *Gwaith Mathau Brwmffild*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2002)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)

- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950– )
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSCMB ‘Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor’ (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd ‘Sypyn Cyfeiliog’ a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSDT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel ap Llywelyn Fychan*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GWL ii<sup>2</sup> *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwynedd Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943– )
- HSt *Harlech Studies*, ed. B.B. Thomas (Cardiff, 1938)
- Iago ‘Epistol Cyffredinol Iago’ yn y Testament Newydd
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)

- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- Judas ‘Epistol Cyffredinol Judas’ yn y Testament Newydd
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols, London, 1907–13)
- LL *The Text of the Book of Llan Dâv*, ed. J. Gwenogvryn Evans and John Rhys (Oxford, 1893)
- J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)
- LSEW *List of Sheriffs for England and Wales: From the Earliest Times to A.D. 1831*, Lists & Indexes No. IX (Public Record Office, London, 1898)
- Luc ‘Yr Efengyl yn ôl Luc’ yn y Testament Newydd
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*, ed. J. Morris Jones and John Rhys (Oxford, 1894)
- LIB *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, gol. S.J. Williams a J.E. Powell (Caerdydd, 1942)
- LIC *Llyfr Colan*, gol. D. Jenkins (Caerdydd, 1963)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LII *Llyfr Iorwerth*, gol. Aled Rhys Wiliam (Caerdydd, 1960)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MA<sup>2</sup> *The Myvyrian Archaiology of Wales* (second ed., Denbigh, 1870)
- MAng A.D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982)
- Marc ‘Yr Efengyl yn ôl Marc’ yn y Testament Newydd
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Mathew’ yn y Testament Newydd
- MCF <<http://maldwyn.llgc.org.uk/>> Mynegai Cyfrifiadurol i Farddoniaeth, Llyfrgell Genedlaethol

- Cymru, Aberystwyth (rhoddir y dyddiad y codwyd yr wybodaeth mewn cromfachau)
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OCD<sup>3</sup> *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed., Oxford, 1996)
- ODCC<sup>3</sup> *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- OED<sup>2</sup> *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- P *A Welsh and English Dictionary*, ed. W. Owen-Pughe (London, 1793–1803, 1832)
- PACF J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- R *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhÿs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- RCAHM (Anglesey) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire*, ‘Anglesey’ (London, 1937)
- RCAHM (Caernarvonshire) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire*, ‘Caernarvonshire’ (3 vols, London, 1956, 1960, 1964)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (2 vols, London, 1898–1910)
- Salm ‘Llyfr y Salmu’ yn yr Hen Destament



- 1 Sam 'Llyfr Cyntaf Samuel' yn yr Hen Destament
- SCWMBLO F. Madan and H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford* (Oxford, 1924)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- TCHSG *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 1939–
- D.R. Thomas: HDSStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of St. Asaph* (3 vols, Oswestry, 1908–13)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TNA Yr Archifdy Gwladol (The National Archives) yn Llundain
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TW (Pen 228) Geiriadur Syr Thomas Wiliems, *Thesaurus Linguae Latinae et Cambrobritannicae*, yn Pen 228
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP<sup>3</sup> *Trioedd Ynys Prydein: The Triads of the Island of Britain*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR<sup>2</sup> Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)

- B. Willis: Bangor      Browne Willis, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor and the Edifices belonging to it* (London, 1721)
- WLI (Geir)              *Geirlyfr yn Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, gol. J.C. Maurice (Bangor, 1908)
- WS                        *A Dictionary in Englyshe and Welshe*, ed. William Salesbury (London, 1547; repr. 1877, 1969)
- WVBD                    *The Welsh Vocabulary of the Bangor District*, ed. O.H. Fynes-Clinton (London, 1913)
- Wy                        Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- YB                        *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1965–99; gol. Gwyn Thomas (Dinbych, 2002); gol. Gerwyn Williams (Dinbych, 2007–9)
- YCM<sup>2</sup>                    *Ystorya de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YEPWC                  *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YMTh                    *Ymddiddan Myrddin a Thaliesin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1951)

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	g.	ganrif
a.	<i>ante</i>	g.	gwrywaidd
adf.	adferf	gn.	geiryn
amhff.	amherffaith	gol.	golygydd, golygwyd
amhrs.	amhersonol		gan
anh.	anhysbys	grb.	gorberffaith
ardd.	arddodiad, -iaid	grch.	gorchmynnol
arg.	argra'ad	grff.	gorffennol
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
At.	Atodiad	gw.	gweler
b.	benywaidd	Gwydd.	Gwyddeleg
ba.	berf anghyflawn	H.	Hen
be.	berfenw	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	<i>circa</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c. (g.)	canrif	ll.	lluosog; llinell
C.	Canol	Llad.	Lladin
cf.	cymharer	llau.	llinellau
cfrt.	gradd gyfartal	llsgr.	llawysgrif
Clt.	Celteg, Celtaidd	llsgrau.	llawysgrifau
cmhr.	gradd gymharol	m.	marw; mewnol
Crn.	Cernyweg	myn.	mynegol
Cym.	Cymraeg	n.	nodyn
cys.	cysylltair, cysylltiad	neg.	negydd, -ol
d.g.	dan y gair	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
dib.	dibynnol	pres.	presennol
dyf.	dyfodol	prff.	perffaith
e.	enw	prs.	person, -ol
eb.	enw benywaidd	pth.	perthynol
e.c.	enw cyffredin	r	<i>recto</i>
ed.	<i>edited by, edition</i>	repr.	reprint
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	S.	Saesneg
eith.	gradd eithaf	<i>sc.</i>	<i>scilicet</i>
e.p.	enw priod	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	td.	tudalen
f.	ffolio	un.	unigol
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	v	<i>verso</i>
ff.	ffolios	vols	<i>volumes</i>



## Rhagymadrodd

Cyflwynir yn y gyfrol hon ganu ymryson Syr Dafydd Trefor,<sup>1</sup> ynghyd â marwnad iddo o waith Ieuan ap Madog ap Dafydd. Casglwyd ynghyd gywyddau pum ymryson a ddatblygodd rhwng Dafydd Trefor a phedwar o feirdd ei gyfnod, sef Gruffudd ap Tudur ap Hywel, Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn, Ieuan Delynor, ac Ieuan ap Madog ap Dafydd.

Y mae'n anodd diffinio unrhyw *genre* yn gwbl foddhaol:<sup>2</sup> 'genres at all levels are positively resistant to definition'.<sup>3</sup> Dyna farn Dr Bleddyn Owen Huws yntau wrth iddo astudio *genres* y cywydd: 'mae'n amhosibl dadlau fod i *genres* ffiniau sefydlog. Y mae o hyd ryw ymestyn ac ystumio'n digwydd'.<sup>4</sup> Gellir dweud am ymryson ei fod, fel arfer, yn gystadleuaeth neu'n ddadl farddol, ond y mae'n llawer mwy na hynny ar dro. I oresgyn y broblem o ddiffinio anfoddhaol, dyfeisiodd Dugald Stewart y ddamcaniaeth fod 'tebygrwydd teuluol' rhwng darnau o waith a'i gilydd, ac mai yn nhermau 'teulu' y dylid ystyried bod cerddi yn ffurfio'n uned.<sup>5</sup> Datblygwyd y ddamcaniaeth hon gan yr athronydd Ludwig Wittgenstein, ac meddai Alastair Fowler yn yr un cyd-destun:

Literary genre seems just the sort of concept with blurred edges that is suited to such an approach ... What produces generic resemblances, reflection soon shows, is tradition: a sequence of influence and imitation and inherited codes connecting works in the genre. As kinship makes a family, so literary relations of this sort form a genre. Poems are made in part from older poems ... and may yet be the mother of a subsequent representative.<sup>6</sup>

<sup>1</sup> Ar fywyd a gwaith Syr Dafydd Trefor ac eithrio'r cywyddau ymryson hyn, gw. GSdT.

<sup>2</sup> Am archwiliad hanesyddol o'r *genre* hwn, fodd bynnag, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Beirdd y Tywysogion: arolwg', LICy xi (1970–1), 3–94; ac am ymdriniaeth â'r traddodiad ymryson mewn cyfnod diweddarach, gw. Ann Matonis, 'Barddoneg a rhai ymrysonau barddol Cymraeg yr Oesoedd Canol Diweddar', YB xii (1982), 157–200. Gw. hefyd Beti Rhys, 'Ymrysonau'r beirdd' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1932); Bobi Jones, 'Pwnc mawr beirmiadaeth lenyddol Gymraeg', YB iii (1967), 253–88; Rachel Bromwich, *Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1972), 14–17, 21–4; *id.*, *Aspects of the Poetry of Dafydd ap Gwilym* (Cardiff, 1986), 46–50, 68–70; Saunders Lewis, *Braslun o Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (ail arg., Caerdydd, 1986), 70–94; J. Hunter, 'Cyd-destunoli ymrysonau'r Cywyddwyr: cipolwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, 3 (1997), 33–52; Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirmiadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1528* (Caerdydd, 2005), 375–400.

<sup>3</sup> Alastair Fowler, *Kinds of Literature: An Introduction to the Theory of Genres and Modes* (Oxford, 1982), 40.

<sup>4</sup> Bleddyn Owen Huws, 'Astudio *genres* y cywydd', *Dwned*, i (1995), 74.

<sup>5</sup> Alastair Fowler, *op.cit.* 40–2.

<sup>6</sup> *Ib.* 41–2.

Yn sicr y mae'r ymryson a fu rhwng Edmwnd Prys a Huw Machno, ymryson a ysbardunwyd gan gywydd gofyn gordderch a chledd,<sup>7</sup> yn cydnabod yr ymryson a fu rhwng Dafydd Trefor a Gruffudd ap Tudur ap Hywel ar destun tebyg, sef gofyn gordderch a thelyn (gw. cerddi 7–8):

Syr Dafydd, saer wawd afiaith,  
Trefor gynt, trwy ferw a gwaith  
A wnaeth gerdd i bennaeth gwŷr,  
Burlain pawb, Siambrian pybyr,  
I erfyn telyn at Iôr  
A gordderch hen i gerddor.  
O châi'r naill, chwarae a wnaî;  
Na ddae arall, ni ddorai!<sup>8</sup>

Yn gyntaf, gair am fater pob un o ymrysonau'r gyfrol. Yn achos tri o'r pum ymryson hyn, gwelir mai cywydd gofyn o waith Dafydd Trefor a ysgogodd yr ymryson, ac a fu'n achos yr ymddadlau. Nid dyma'r unig enghreifftiau yn hanes barddoniaeth Gymraeg o gywydd gofyn yn datblygu i fod yn gywydd ymryson. Rhestra Dr Bleddyn Owen Huws enghreifftiau pellach:

Dyna inni'r ymryson cyfeillgar rhwng Rhys Goch Eryri a Llywelyn ap Moel y Pantri ynghylch y gwregys a geisiai Rhys Goch yn rhodd gan Syr Wiliam Tomas o Raglan ... a chywyddau gofyn a ysgogodd dri ymryson y bu Edmwnd Prys ynglŷn â hwy, sef yr ymryson enwog â Wiliam Cynwal yn dilyn cywydd i ofyn bwa, yr ymryson rhyngddo a Siôn Phylip yn sgil cywydd i ofyn dagr, a'r un rhyngddo a Huw Machno ar gorn cywydd i ofyn gordderch a thelyn.<sup>9</sup>

Cywydd gofyn geifr yw cywydd agoriadol ymryson cyntaf y gyfrol hon (cerddi 1–2): cais am anrheg, eto, yn ysbarduno anghydfod. Yn hytrach na gofyn am *un* anrheg gan *un* darpar noddwr, gofyn Dafydd Trefor yn galonnog hyderus am afr gyfeb—yr un—gan bedwar person plwyf yn sir Gaernarfon, sef gan Syr Morgan ap Hywel, person Llanddeiniolen; Syr Huw Maellan, person Clynnog Fawr; Syr Huw ap Gronwy, rheithor Llandwrog; a

<sup>7</sup> BL Add 10314, 295 ymlaen.

<sup>8</sup> BL Add 10314, 297; golygydd y 6 llinell gyntaf yn Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 169–70. Sylwer bod neges ll. olaf cywydd Edmwnd Prys yn atseinio neges cwpled clo cywydd Dafydd Trefor: *Am y dêl adre'r delyn / Ni wŷr Dduw waeth na ddô'i'r un*, gw. 7.77–8.

<sup>9</sup> Bleddyn Owen Huws, *op.cit.* 169, ond sylwer mai gofyn gordderch a chledd a wna'r bardd. Ar ymryson Rhys Goch Eryri a Llywelyn ab y Moel, gw. IGE<sup>2</sup> 157–78, 359–67; GSCyf (cerddi 14–16), 114–29, 165–92; GRhGE (cerddi 7–9), 79–98, 198–214. Ar yr ymryson rhwng Syr Dafydd Trefor a Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn dilyn cywydd i ofyn geifr gan bedwar person plwyf, gw. cerddi 1–2 a'r nodiadau ar y cywyddau. Am yr ymryson rhwng Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal, gw. YEPWC 3–6, 240–1; am yr ymryson rhwng Edmwnd Prys a Siôn Phylip, gw. J.W. Roberts, 'Edmwnd Prys: hanes ei fywyd a chasgliad o'i weithiau' (M.A. Cymru [Bangor], 1938), 195–208, 229–45; am yr ymryson â Huw Machno, gw. *ib.* 209–28.

Syr Rhisiart Amhredudd, rheithor Llanrug, cyd-glerigwyr i Ddafydd Trefor yn esgobaeth Bangor. Y mae'r anrheg y gofynnir amdani yn un anghyffredin, ac y mae lluosowgrwydd y darpar noddwyr hefyd yn tynnu sylw.

Haerir bod Dafydd Trefor yn glaf, ac y byddai llaeth iachus y geifr yn dod ag ymwared iddo.<sup>10</sup> Anfantais yr haelioni o safbwynt Dafydd Trefor fyddai dwyn *Ysmoneth ... / I'm hafod* (llau. 59–60), sef gorfodi annibendod llwyr ar ei dŷ a'i dir, a hynny ar gyfrif natur lwth y geifr. Y mae'r anrheg, o reidrwydd, yn gleddyf daufiniog.

Pa mor ddidwyll yw'r cais? A oedd ei natur wamal, grafangus, yn gwahodd ateb dilornus? Ar yr olwg gyntaf dyma gais ymddangosiadol ddiniwed, ond yng nghyd-destun yr oes a diwylliant y canu gofyn ymddengys yn un rhy farus i'w anrhydeddu. Nid yw'n syndod fod ateb Gruffudd ap Tudur ap Hywel ar ran y pedwar person plwyf yn un negyddol a digon ysmala. Er bod Dafydd Trefor yn well offeiriad na'r Pab ei hun, meddir, yr oedd hefyd yn ferchetwr o fri; ac am y geifr—*ciwed uffern!* (ll. 60)—dylid eu gwahardd o Fôn, boed yr offeiriad yn symbol ei iechyd ai peidio.

Pwnc yr ail ymryson yw'r alarch (cerddi 3–6). Cywydd gofyn sy'n agor yr ymryson hwn eto, ac ysgwier plas Porthaml yn Llanidan, Maredudd ap Tomas, yw'r darpar noddwr. Nid yw hwn, mwy na'r cywydd gofyn geifr, yn gywydd gofyn sy'n dilyn llwybr cwbl draddodiadol. Egyr yn rhith alarches ifanc (o eiddo Dafydd Trefor) sy'n aeddfedu ac yn bwrw ei phlu er mwyn ailymddangos yn alarches wen: ei hunig nod yw cymryd gŵr. Daliwyd hi'n llwyr dan hudoliaeth cân y telynor Dafydd ap Gwilym sy'n digwydd mynd heibio i'r llyn lle y mae'n ymdecáu, a'i gyngor ef yw ar iddi rwydo un o elyrch mawr hardd Maredudd ap Tomas. Ar ffurf deialog rhwng y bardd (Gruffudd ap Tudur ap Hywel) a'r alarches y lluniwyd y cywydd ateb: gwell fyddai ganddi farw, meddai, na mynd gyda Hywel, y dihiryn hwnnw sy'n negesydd i Ddafydd Trefor. Penderfyna'r alarch ofyn i'r gog fynd yn negesydd drosti at Efa, meistres Porthaml, i'w pherswadio i roi ceiliagwydd gwyn i'r negesydd yn hytrach nag alarch.

Erbyn hyn y mae Dafydd Trefor wedi colli diddordeb yn yr ymryson, fe ddichon, ac y mae bardd arall wedi camu i'r adwy, sef Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn. Ef sy'n datblygu'r stori yn y trydydd cywydd drwy ddweud iddo weld meddwyn yn mynd heibio gan gario baich gwaedlyd ar ei ysgwydd un noswyl Fair. Daw'n eglur mai anrheg i Hywel oddi wrth deulu Porthaml yw'r baich—ceiliagwydd yn hytrach nag alarch! Enwir Dafydd Trefor yn symbylydd y tric budur hwn. Hywel Adda, gwas bach Dafydd Trefor, ym mhedwerydd cywydd yr ymryson (o waith Gruffudd ap Tudur ap

<sup>10</sup> Sylwer mai teitl y gerdd yn llsg. CM 27, 145, yw *Cowydd I ofyn 4 Gafr i Bedwar person Iddo Ei hûn sef S' D: Trefor Gwr afiachus*.

Hywel), sy'n dod â'r hanes i'w uchafbwynt ac yn cloi'r stori. Daw Hywel Adda â'r alarch o Borthaml i Lanallgo, ond pan wêl hen geiliagwydd anghynnes yng ngenau'r sach y mae'n cynddeiriogi ac yn bwyta'r aderyn i ginio.

Y mae yng nghywyddau'r ymryson addasu ar *genres* eraill y cywydd er mwyn eu defnyddio, mewn modd naturiol iawn, at ddiben amgen. Agorir drwy ddefnyddio *genre* y canu gofyn. Cenir clod y darpar noddwr, Maredudd ap Tomas, yn ôl y disgwyl ond digwydd hynny ar ganol y cywydd yn hytrach nag ar ei frig, yn gyflwyniad i'r cais. Fe'i disgwyldid yn gynnar yn y cywydd, yn ddull o seboni'r noddwr a'i gael i gynhesu at yr eirchiad, ac at ei ddeisyfiad. Dyma enghraifft o'r ymestyn a welir yn natur gynhenid y cywydd gofyn traddodiadol.

Nid yw hon yn gyfres o gywyddau ymryson a luniwyd yn ôl y dull traddodiadol. Stori garlamus gan fwy nag un bardd yw'r ail ymryson, a phob bardd a'i ran i chwarae yn natblygiad y stori honno. Y mae i'r hanes rannau a fyddai'n cartrefu yn hapus mewn unrhyw ymryson traddodiadol ei rediad, er enghraifft y dilorni ar Hywel Adda, ei naifrwydd yng nghartref uchelwr Porthaml, a'i ddiffyg hygredded o ganlyniad i hynny. Ond y mae'r naratif ei hun yn rhan cyn bwysiced â'r elfen o weld bai ac o fwrw anghlod, er mai ychydig yn aneglur yw rhediad y stori.

Y mae dilorni sefyllfa resynus unigolyn yn nodwedd amlwg ar yr ymrysonau, ac y mae'r canu yn llawn o ymosodiadau ar ymddangosiad hwn a'r llall o gymeriadau'r naratif. Yn yr ymryson hwn cyfeiria Hywel Adda mewn modd digon dilornus at ei ymddangosiad ef ei hun yn sgil ei anturiaethau yn casglu geifr ar ran Dafydd Trefor:

Rhwygo 'mhais, difantais fu,  
 Rhemwth, cael fy ngoframu;  
 Yn grwn fo'm gyrrai i'r fall  
 Yr awron i le arall,  
 I Borthamal, o falais,  
 Lewyrch gwyn, alarch a gais.<sup>11</sup>

Manylion personol o'r fath a ddaliai ddychymyg cynulleidfâ. Deuir ag anghlod ar Hywel Adda wrth i'r gwrandawyr ddychmygu'r olwg wyllt a oedd arno allan ar y llechweddau yn yr oerfel yn hela geifr yn ei nerth, ond hefyd y mae yma awgrym cryf fod Dafydd Trefor yn sicr o fod yn ddiffygiol yn ei synhwyrâu yn ei anfon allan yr eildro—ar drywydd alarch y tro hwn.

Gordderch a thelyn yw mater y trydydd ymryson (cerddi 7–8). Yma eto gwelir cywydd gofyn sy'n dwyn nodau anghyffredin gan ei fod yn mentro gofyn *am ddwyrodd* (ll. 40) lle y byddai gofyn am un yn fwy arferol. Er hynny, erbyn diwedd y cywydd, y mae Dafydd Trefor yn ailfeddwl ac yn bodloni i roi heibio'r awydd am gariadferch ar yr amod ei fod yn cael

<sup>11</sup> Gw. 6.13–18.



anwesu telynrawn o eiddo Syr Wiliam Gruffudd:

Telyn wen siambren sydd

I'm llenwi mewn llawenydd. (llau. 59–60)

Efallai i'r newid cyfeiriad hwn effeithio'n uniongyrchol ar y cywydd ateb. Ynddo y mae'r bardd, Gruffudd ap Tudur ap Hywel (ar ran Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn), yn trafod telyn a chrwth yn hytrach na thelyn a gordderch. Ei neges eglur yw y dylai Dafydd Trefor roi'r gorau i feddwl am delyn a chanolbwyntio ar ganu'r crwth, yr unig offeryn cerdd y mae'n addas i'w ganu.

Nid yw croesi dosbarth cymdeithasol yn faen tramgwydd wrth ganu cywydd gofyn, fe ymddengys. Gofynnodd Dafydd Trefor yn rhydd a hyderus am nifer o roddion: gyr o eifr, alarch, a rhodd ddwbl o ordderch a thelyn. Ei ddarpar noddwyr oedd brawdoliaeth o bedwar person plwyf, yr uchelwr Maredudd ap Tomas o Borthaml, a'r marchog urddol Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn. Croesir ffiniau cymdeithasol yma yn gwbl ddi-hid, ac ymddengys fod yr eirchiad ar yr un gwastad â'r rhoddwr yng nghyd-destun *genre* y canu gofyn. Yn sicr nid oes unrhyw argoel yn yr enghreifftiau hyn fod angen i'r deisyfwr ymagweddu'n wasaidd wrth fynd ar ofyn y darpar noddwr.

Trewir nodyn ychydig yn wahanol yn y pedwerydd ymryson (cerddi 9–12) gan fod cywydd agoriadol yr ymryson hwn i bob golwg yn gerdd fawl i fferi Llywelyn ab Einion, fferi a hwyliai yn ôl a blaen rhwng Porthaethwy (ar dir Môn) a'r tir mawr. Fe'i canwyd, o bosibl, ar adeg dathlu darfod i Lywelyn ab Einion ennill yr hawl i ffermio'r fferi yn 1503: fe'i canwyd er gwybodaeth i ddarpar deithwyr ac i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth hwn ar draul gwasanaeth sawl fferi arall a deithiai draw i sir Gaernarfon o lannau Môn.

Ni cheir yr argraff fod hwn yn gywydd heriol mewn unrhyw ffordd, ac y mae'n fater rhyfeddod ei fod wedi ennyn ymateb mor ddeifiol. Yn ail gywydd y gyfres (o waith Gruffudd ap Tudur ap Hywel) y mae'r don a'r fferi yn cynnal sgwrs, neu'n hytrach sesiwn holi ac ateb, ar destun yr offeiriadaeth. Nodir tri phroffesiwn a oedd yn ymwneud â chynnal bywyd ysbrydol yr ardal, sef y mynaich (ll. 21), y pardynwyr (ll. 25), a'r offeiriaid (ll. 33). Gorfodid y fferi i gario'r mynaich a'r offeiriaid yn ddi-dâl oherwydd eu bod yn dal swyddi o anrhydedd yn y gymdeithas, ond y gwir amdani yw eu bod yn unigolion trythyll waeth pa mor anrhydeddus y swydd yr oeddynt yn ei dal. Cyngor y don yw fod y fferi yn cwyno i'r esgob am anniweirdeb yr offeiriaid, er ei bod yn cydnabod na wnâi hynny fawr o les parhaol. Ysbaddu'r offeiriaid oedd yr unig ffordd ymlaen mewn unrhyw ymgyrch i lanhau'r offeiriadaeth o'i llygredd, meddir.

Y mae'n amlwg fod Dafydd Trefor wedi cymryd y mater yn bersonol gan ei fod yn ateb cywydd ymosodol (er ei ddonioled) Gruffudd ap Tudur ap Hywel, ac yn mynd i hwyl wrth warchod ei fuddiannau ei hun yn ogystal ag enw da ei gyd-weithwyr yn esgobaeth Bangor. Ei brif arf yn y gwrth-

ymosodiad hwn yw'r Ysgrythur, a'r adran honno o'r Efengylau sy'n gwahardd barnu eraill: *Peidiwch â barnu, rhag ichwi gael eich barnu; oherwydd fel y byddwch chwi'n barnu y cewch chwithau eich barnu, ac â'r mesur a rowch y rhoir i chwithau. Pam yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd, a thithau heb sylwi ar y trawst sydd yn dy lygad dy hun?*<sup>12</sup> Ond os yw'n rhaid i Ruffudd ap Tudur ap Hywel gael cenfigennu a gweld bai, yna dylai gyfyngu ei enllibio i achosion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Dafydd Trefor ei hun, ac atal ei dafod rhag enllibio ei gyd-offeiriadon sydd, meddai, yn *goed arian*:

Os wrthy' mae'r genfigen  
Na ladd yr holl wŷr o lôn;  
Cân i mi acw'n y man,  
Gad eraill yn goed arian. (llau. 63–6)

Yn wir, byddai'r mynaich yn gocyn hitio mwy haeddiannol na'r offeiriad, meddai:

Dod dy gerdd, du wyt a gwych,  
Yn y man ar y mynych. (llau. 67–8)

Er bod Dafydd Trefor yn barod i gymryd cyfrifoldeb am unrhyw fai a fwir ar yr offeiriad, nid yw'n estyn llaw faddeuol at y mynaich, a gwelir yma dindra digamsyniol oddi mewn i'r gymdeithas grefyddol ym Môn.

Ateb Gruffudd ap Tudur ap Hywel, wrth gloi'r ymryson, yw nodi diffyg cydymdeimlad y bardd-offeiriad tuag at salwch Gruffudd. Cyhuddir Dafydd Trefor o edliw i Ruffudd ei salwch, ond ni fyn Gruffudd ddigio ar gyfrif hynny. Gwelir yn amlwg fod traddodiad yn mynnu nad oes hawl gan yr un a ddifenwir i gymryd ato nac i bwdu yn wyneb ymosodiadau personol.<sup>13</sup> Disgwylir iddo ymateb yn ôl rheolau cydnabyddedig y *genre*, a syrthio ar ei fai pan fo'r cyhuddiad yn un dilys—ac os nad yw'r cyhuddiad yn dal dŵr dylai dderbyn y tynnu coes yn rasol er mwyn anrhydeddu'r traddodiad barddol Cymraeg, cryfhau'r cyfeillgarwch rhwng y beirdd, a thynhau'r cwlwm cymdeithasol.

Nodwedd ddiddorol ar yr ymryson hwn yw'r elfen o *cautelae* a welir ynddo. Dyma'r hyn a elwir gan Ann Matonis yn 'driciau pledio', sef 'ymgais y bardd i ateb y cyhuddiadau a daflwyd ato trwy ddefnyddio'r un ymadroddion neu eiriau allweddol a ddefnyddiwyd yn y cyhuddiad'.<sup>14</sup> Dyma'r safon a ddefnyddid wrth ddadlau achos mewn llys barn, a gwelir bod y nodwedd hon ar yr ymrysonau yn deillio yn y pen draw o rethreg ac arferion llys:

<sup>12</sup> Gw. Math vii.1–3.

<sup>13</sup> Ymhellach, gw. Jerry Hunter, 'Professional poets and personal insults: *ad hominem* attacks in Late Medieval Welsh *ymrysonau*', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, xiii (1993), 54–65; *id.*, 'Cyd-destunoli ymrysonau'r Cywyddwyr: cipolwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 37.

<sup>14</sup> Ann Matonis, *op.cit.* 166.

Fel arfer, disgwylid ateb i bob cyhuddiad ac yn gyffredinol byddai'r ateb yn ailadrodd geiriau'r cyhuddiad. Y mae ymrysonau llenyddol y cyfnod, er nad ydynt mor gaeth yn eu trefniant â'r ddadl gyfreithiol, yn ddigon agos at y dull gweithredu hwnnw i awgrymu fod yr awduron yn gyfarwydd â'r traddodiadau cyfreithiol ac â dulliau gweithredu'r ymrysonau hynny. Ceir yn yr ymrysonau ddigon o dystiolaeth o ganolbwyntio ar iaith y cyhuddiad gwreiddiol. Wrth wrthod a gwrthbrofi'r cyhuddiadau, y mae'r beirdd yn ailadrodd y cyhuddiad gwreiddiol i'r fath raddau fel na ellir amau nad yn fwriadol y gwnaent hynny.<sup>15</sup>

Gwelir strategaeth debyg yn ymryson y fferi.

Ai gwir mai'r awen i gyd  
Sy i'th glwyfo o'r saith glefyd? (11.5–6)

yw cwestiwn dirmygus Dafydd Trefor. Caiff ateb llawn. Nage, meddai Gruffudd, nid yr awen a'i gwnaeth yn sâl, nac ychwaith drydar adar. Bu'r Apostol Paul yn glaf, ond nid o achos yr awen:

Bu Bawl Abostawl o'i ben  
Glwyfus nid am gael awen:  
Er crio o'r cawr afiach  
O'i ben fyth ni bu fo'n iach. (12.13–16)

Yn 'Nychdod y bardd'<sup>16</sup> dyfynnir cwestiynau haerllug Dafydd Trefor yn 'I geryddu dychanwr'<sup>17</sup> ac etyb Gruffudd ap Tudur ap Hywel gyhuddiadau Dafydd Trefor fesul un i brofi ei fod yn siarad drwy ei het.

Y mae pumed ymryson y gyfrol hon (cerddi 13–18) yn wahanol i'r ymrysonau eraill ar sawl cyfrif. Dyma'r hwyaf o'r pump, ac nid Dafydd Trefor oedd symbylydd yr ymrysona y tro hwn. Cywydd 'Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' o waith Ieuan Delynor a roes gychwyn i'r ffræ hon, a neidio i achub cam Syr Wiliam Gruffudd a wnaeth Syr Dafydd wrth ateb y dychanwr. O'r chwe chywydd sy'n rhan o'r ymryson, dim ond un a luniodd Dafydd Trefor, sef ail gywydd y gyfres. Datblyga'r ymryson i fod yn gecru milain rhwng Ieuan Delynor ac Ieuan ap Madog ap Dafydd, marwnadwr Dafydd Trefor.

Dadleuir dau achos yn yr ymryson. Y prif achos yw'r mater o ddychanu marchog urddol ar gam. Y mae anrhydedd Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn yn y fantol gan fod Ieuan Delynor wedi ei ddychanu ar goedd gwlad am gyboli gyda merch o'r enw Gwenonwy. Dyma gyhuddiad cwbl gyfeiliornus yn ôl cywydd ateb Dafydd Trefor. Y mae'r ail achos yn un personol iawn rhwng beirdd a'i gilydd, ac yn troi o gwmpas statws honedig tri bardd a arferai ymweld â'r Penrhyn ar eu teithiau barddol, dau o'r tri hynny yn ffafir gŵr y plas a'r trydydd yn ffafir ei wraig, yr Iarllles Siân:

<sup>15</sup> *Ib.* 188–9.

<sup>16</sup> Gw. 12.23–8.

<sup>17</sup> Gw. 11.7–12.

Yn yr ymryson hwn, heblaw'r hyn a honnir yn erbyn Syr Wiliam Gruffudd, fe welir tipyn o genfigen bersonol rhwng Ifan Dylynior ar y naill law a Syr Dafydd Trefor ac Ieuan ap Madog ar y llall o ran eu hymweliadau â'r Penrhyn. Yr oedd Ifan yn ffafr Siân, a'r ddau arall ym mhlaidd Syr Wiliam. Ai manteisio ar hyn a wnaeth Dr Glyn a Siôn Pilstwn i gynnu tipyn o goelcerth?<sup>18</sup>

Yr oedd Dr Wiliam Glyn a'i gyd-ddihiryn Siôn Pilstwn wedi gweld eu cyfle i geisio elwa ar y sefyllfa er mwyn creu tipyn o hwyl ar draul teimladau brau'r bardd gwrthodedig, Ieuan Delynor. Beio gormodedd bwyd a diod wrth fwrdd Dr Wiliam Glyn a wna Dafydd Trefor am gynnwys y cywydd cyntaf, ac y mae'n taro nodyn cellweirus wrth ddychanu'r bardd (Ieuan Delynor) a'i feistr (Dr Wiliam Glyn). Meddai am Ieuan Delynor, *Aeth gair dy fyned o'th go*!<sup>19</sup> Gwelir yma berthynas agored hyfryd rhwng Dafydd Trefor a'i gyfoeswyr, yn feirdd ac uchelwyr.

Ar ôl canu un cywydd, y gellid ei alw ar sawl cyfrif yn gywydd cymod, ni chymer Dafydd Trefor ran bellach yn yr ymryson hwn. Cymerir ei le gan Ieuan ap Madog ap Dafydd (ei farwnadwr), a rhyngddo ef ac Ieuan Delynor y mae gweddill y canu. Unig gyfraniad Dafydd Trefor i'r ymryson yw camu i'r drin unwaith i amddiffyn enw da Syr Wiliam Gruffudd mewn un cywydd, ac yna ddiflannu i'r cysgodion. Y mae fel petai'n anwybyddu cywydd ateb Ieuan Delynor (cerdd 15) wrth i hwnnw ailagor a datblygu'r ymryson drwy ailmosod ar Syr Wiliam Gruffudd a'i awydd afresymol i roi lle Ieuan Delynor yn brifardd (hunanhonedig) y Penrhyn i arall.

Codir yr hen ddadl ynghylch tarddiad yr awen. Gynt a chwedyn canwyd cywyddau niferus ar yr un pwnc.<sup>20</sup> Cyhuddiad pennaf Edmwnd Prys yn erbyn Wiliam Cynwal (ymhen rhyw hanner canrif) yw ei fod yn canu celwydd, a thrafodir hynny yng nghyswllt y sôn am awen. Diffinia Edmwnd Prys y ddwy awen ar ddull ymryson Siôn Cent a Rhys Goch Eryri:

Yr oedd Siôn Cent wedi mynnu fod 'Deuryw awen' yn y byd, yr 'Awen gan Grist' a gafodd yr angylion a'r proffwydi, a'r awen gelwyddog 'O ffwrn natur uffernawl' a gafodd prydyddion Cymru.<sup>21</sup>

Dyma gefndir cyhuddiadau tebyg a welir yn ymrysonau'r gyfrol hon. Cyhudda Ieuan Delynor Ddafydd Trefor o ganu yn ôl *awen goeg* (15.63), sef awen y diafol, yn hytrach na chanu yn ôl ysbrydoliaeth Duw.

Er nad yw Dafydd Trefor yn ymateb i'r cyhuddiad hwn, codir yr abwyd gan Ieuan ap Madog ap Dafydd (cerdd 16). Y mae'r bardd hwn yn symbol ei iechyd ar gyfrif yr holl ffraeo, ac felly ymosodiad ar Siôn Pilstwn yw

<sup>18</sup> Henry Lewis, 'Cywyddau ymryson Ifan Dylynior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', B xvii (1958-62), 163.

<sup>19</sup> Gw. 14.4.

<sup>20</sup> Am drafodaeth lawn ar y traddodiad ymryson yng Nghymru, gw. Bobi Jones, 'Pwnc mawr beiriadaeth lenyddol Gymraeg', YB iii (1967), 253-88.

<sup>21</sup> YEPWC cxxxv.

pedwerydd cywydd yr ymryson am mai ef, Siôn Pilstwn, a fu'n corddi'r dyfroedd: y mae'n ddauwynebog ac yn gamgyhuddwr. Atebir y cywydd gan Ieuan Delynor (cerdd 17) sy'n mynnu unwaith eto fod Syr Wiliam Gruffudd yn ferchetwr diegwyddor, gan ychwanegu y tro hwn ei fod hefyd yn dynn â'i arian ac yn rhoddwr crintachlyd i'r beirdd. Yn y cywydd clo (cerdd 18) cyhuddir Syr Wiliam Gruffudd o gymell bardd newydd i ddod i ganu i'r Penrhyn a'i anwybyddu ef, Ieuan ap Madog ap Dafydd. Dr Wiliam Glyn—gŵr trythyll arall—sy'n cael ei feio am fwydo fflam y cweryl y tro hwn.

Yn y cywydd olaf hwn cyfyd dadl arall ynghylch awen. Credai Ieuan Delynor ei fod yn canu yn ôl awen Tudur Aled, ond haera Ieuan ap Madog ap Dafydd yn wahanol:

Doedai gael awen Dudur;  
Doedaf (mor ynfyd ydoedd!)  
Mai awen gam Ingram oedd.<sup>22</sup>

Yr oedd sgiliau ymryson yn uchel eu parch ymysg aelodau'r gymdeithas farddol gan fod cystadlu yn y modd hwn yn un ffordd o gadw'r arfau barddol yn loyw. Gallai llwyddiant mewn ymryson olygu clod mawr i fardd, fel y gallai aflwyddiant olygu dirmyg. Nid yn unig yr oedd ymrysona yn dod â bri i'r bardd, ond yn ôl Gramadegau'r Penceirddiaid yr oedd yn un o dri pheth a fedrai wella ei awen:

Tri pheth a wellaa awen kerdawr: ymrysson, a llewenyd, a chanmawl.<sup>23</sup>

Yr oedd i ymrysona ddibenion pwysig eraill. Yr oedd yn fodd o godi trafodaeth, ac un o drafodaethau pwysicaf yr ymrysonau Cymraeg yw'r ymdriniaeth a geir â'r grefft farddol. Dyma thema sy'n codi ei phen yn yr Eidal, Ffrainc, Lloegr a Chymru wrth i feirdd Ewrop ymgodymu â chwestiynau yn ymwneud â safon ac â natur barddoniaeth eu gwlad.

Natur hwyliog, gellweirus sydd i nifer o ymrysonau barddol y gyfrol hon, ond wrth osod yr ymrysonau hyn yn eu cyd-destun Cymreig dylid pwysleisio bod, yn hanesyddol, ochr biwis i nifer sylweddol o'r dadleuon barddol. Yr ymryson cyntaf yng nghyfnod y Cywyddwyr oedd hwnnw rhwng bardd arall o Fôn, Gruffudd Gryg,<sup>24</sup> a Dafydd ap Gwilym. Y dehongliad traddodiadol ar yr ymryson hwnnw yw ei fod yn amlygu agwedd wrthgyferbyniol y ddau fardd tuag at gonfensiynau *amour courtois*. Ni hoffai Gruffudd arfer Dafydd o gwyno'n gyson ynghylch ei brofiadau carwriaethol a drwghoffai, yn benodol, ormodiaith ei gywyddau serch,

<sup>22</sup> Gw. 18.32–4; ystyrid bod *Ingram*, o bosibl Siôn Ingram, prior Penmon, yn canu o dan ddylanwad awen amheus gan ei fod yn cadw gordderch yn 1504, gw. A.I. Price, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923), xiii.

<sup>23</sup> Gw. GP 17.

<sup>24</sup> Arno, gw. GGGr; E.D. Jones, 'Cartre Gruffudd Gryg', *Cylch LIGC* x (1957), 230–1; Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gruffydd Gryg i dir Môn', *YB* xiii (1985), 146–54; Dafydd Wyn Wiliam, 'Y traddodiad barddol ym mhlwyf Bodedern, Môn', *AAST*, 1969–70, 39–79.

meddir; yn wir, y mae'n 'bradychu ei benceirddiaeth drwy ganu celwydd'.<sup>25</sup> Ymateb Dafydd ap Gwilym yw dilorni natur barddoniaeth Gruffudd Gryg gan ddweud mai dynwarddwr ydoedd. Credid yn draddodiadol fod yn yr ymryson ddadl ynghylch pa mor fedrus eu llaw oedd y naill fardd a'r llall, ac ynghylch statws y ddau o fewn y frawdoliaeth farddol. Ond y mae Dr Barry J. Lewis yn herio'r dehongliad hwn, ac o'r farn nad oes anghytundeb egwyddor rhwng Gruffudd Gryg a Dafydd ap Gwilym.<sup>26</sup>

Dau ymryson pwysig yng nghyfnod y Cywyddwyr (y ddau bwysicaf, o bosibl) oedd hwnnw rhwng Rhys Goch Eryri a Siôn Cent ynghylch tarddiad awen,<sup>27</sup> a hwnnw rhwng Guto'r Glyn a Hywel Dafï<sup>28</sup> ar gyfrif gwerth y canu mawl, ymryson sy'n barhad o'r ymryson cyntaf i bob pwrpas. Ond efallai nad ymryson a wna Rhys Goch Eryri a Siôn Cent yn gymaint â chyfnewid syniadau,<sup>29</sup> a cheisio dod ag egwyddorion y gelfyddyd farddol yn eglurach ym meddwl y beirdd.

Ymryson mawr olaf y Cywyddwyr yw'r ymryson hir hwnnw rhwng Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal yn ystod y blynyddoedd 1581–7.<sup>30</sup> Ynddo y mae Edmwnd Prys am i'r beirdd ddilyn safonau dyneiddiol wrth lunio eu cywyddau. Yr oedd yn ymwybodol iawn o lenyddiaeth oes y Dadeni Dysg yn Ewrop, a gwerthfawrogai etifeddiaeth lenyddol traddodiad clasurol Groeg a Rhufain. 'Hoeliwyd sylw llawer o'r dyneiddwyr ar bosibiliadau cymhwyso safonau clasurol at yr ieithoedd brodorol,'<sup>31</sup> ac yr oedd Edmwnd Prys ymysg yr arloeswyr eiddgar hynny. Ond nid oedd troi ar Gynwal nac ar y beirdd proffesiynol eraill, a pharhau yn eu rhigolau traddodiadol fu eu hanes hwy.

Nid yw beirdd y gyfrol hon yn mynd i'r afael â'r pynciau mawr hynny a aeth â bryd prif ymrysonwyr cyfnod Beirdd yr Uchelwyr mewn ffordd mor ddwys. Natur ychydig yn wahanol sydd i'r ymrysonau hyn rhwng Dafydd Trefor a'i gyd-feirdd o boptu glannau'r Fenai. Gwelwyd mai ar sail tri chywydd gofyn, un cywydd mawl a dathlu, ac un cywydd cymod y canwyd ymrysonau'r gyfrol hon. Dyma sail ychydig yn anghyffredin i lunio corff o ganu ymryson. Y mae yma lawer o ysgafnder ac o hwyl, llawer o bryfocio a

<sup>25</sup> Saunders Lewis, 'Dafydd ap Gwilym', LICY ii (1952–3), 207–8. Am y cerddi ymryson, gw. GDG<sup>3</sup> cerddi 147–54 (DG.net cerddi 23–30).

<sup>26</sup> Gw. GGGr 'Ailystyried yr ymryson', tt. 10–19.

<sup>27</sup> Gw. IGE<sup>2</sup> 181–60 (cerddi LX a LXI); GRhGE; D.J. Bowen, 'B'le bu'r ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri?', YB xxiii (1997), 100–17.

<sup>28</sup> Ar gerddi'r ymryson, gw. GGI<sup>2</sup> 173–8; ar Hywel Dafï, neu Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys o Raglan (*fl.* 1450–80) a rhoi iddo'i enw yn llawn, gw. ByCy 380; CLC<sup>2</sup> 354; Dafydd Evans, 'Ysgarmes ar Fynydd Llangeinwyr', Cylchg LIGC xxv (1987), 44–52; D.J. Bowen, 'Tri chywydd gan Hywel ap Dafydd ab Ieuan ap Rhys', *Dwned*, v (1999), 71–88.

<sup>29</sup> Dyma awgrym Bobi Jones, *op.cit.* 269.

<sup>30</sup> Gw. YEPWC; Enid P. Roberts, 'Wiliam Cynwal', TCHSDd xii (1963), 51–85.

<sup>31</sup> CLC<sup>2</sup> 154. Ymhellach gw. R. Geraint Gruffydd, 'The Renaissance and Welsh literature' yn *The Celts and the Renaissance: Tradition and Innovation*, ed. Glanmor Williams and R.O. Jones (Cardiff, 1990), 17–39; Ceri Davies, *Welsh Literature and the Classical Tradition* (Caerdydd, 1995); *Renaissance in the Celtic Countries*, ed. Ceri Davies and John E. Law (Oxford, 2005).

thynnu coes, ac yn sicr lawer o ormodiaith, fel yn wir a gaed rhwng Guto'r Glyn a Llywelyn ap Gutun.<sup>32</sup> Ond hefyd, yn ymhlyg yn rhialtwch y cywyddau ymryson hyn, y mae sylwadau o bwys.

Eisoes gwelwyd beth yw rhai o'r sylwadau hynny. Enynnodd mater yr offeiriadaeth drafodaeth egnïol yn y pedwerydd ymryson (cerddi 9–12) gan ganolbwyntio ar ei hanniwirdeb. Anniwairdeb honedig Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn yw pwnc ymryson olaf y gyfrol (cerddi 13–18). Torri crib Ieuan ap Madog ap Dafydd yw'r mater arall a drafodir ynddo, ynghyd â statws beirdd yn gyffredinol, a thaliadau i'r beirdd a ffefrid. Ac wrth gwrs trafodir 'celwydd' y farddoniaeth, a tharddiad yr awen.

Yr oedd y beirdd hefyd yn awyddus i ddilorni barddoniaeth ei gilydd o ran ei chynnwys a'i harddull yn ogystal ag o ran ei deallusrwydd. Cyhuddid cyd-feirdd o ganu cerddi a oedd yn dila eu cynnwys ac yn angherddorol eu sain. Dylai'r beirdd eu trwytho'u hunain yn hanfodion cerdd dafod, meddir, cyn merwino clustiau'r gynulleidfa â hen drawiadau. Cyhuddir Dafydd Trefor gan Ieuan Delynor o fod â'i lygad ar y merched wrth iddo weinyddu'r offeren, ac felly nad yw'n ddim syndod ei fod yn nyddu penillion mor ddinod:

Enbyd ar ffyrfryd 'fferen  
O daw dryll pennill o'r pen;  
Nid hwyrach, dieiriach dysg,  
Droi meddwl ar drem addysg.  
O troes mewn meddwl traserch,  
Eithr mwy ni thry er merch. (15.77–82)

Byddai bychanu bardd oherwydd anaeddfedrwydd ei arddull yn torri at yr asgwrn a gellid credu y byddai'n sicr o ennyn cywydd ateb. Ond er i Ddafydd Trefor gael ei enllibio yn y fath fodd ynghylch safon ei ganu, tawedog yw'r bardd ac ni chynhyrfir ei awen.

Cyplysis y diffeithwch hwn ym myd yr awen â diffygion tebyg ym myd cerdd dant. Absennir dawn gerddorol, neu ddiffyg dawn, y datgeiniaid:

Pa remial ar bob talfainc  
A ga'd o'th god gyda'th gainc?<sup>33</sup>

yw cwestiwn Dafydd Trefor i Ieuan Delynor.

Ynghyd â'u diffygion celfyddydol, tynnid sylw at nodweddion anghynnes ym mhersonoliaeth neu fuchedd y beirdd a'r cerddorion. Gwelwyd mai ei ddilorni ei hun a wnaeth Hywel Adda, ond y dull mwyaf arferol oedd taflu sen ar arall. Gellir nodi enghreifftiau lu o ddisgrifiadau amharchus, nifer ohonynt yn anweddu: '*Mae Hywel yr aneilun, / Drwyn gwlyb a'r drofa'n ei glun?*' (4.25–6); [*c*]ythrel *gofelyn* (16.37); *gwrach* (17.40); *tennyn* (18.16); *neidr ddiroidlas* (18.23); [*t*]arian *y durew* (18.29). Dichon fod gwreiddyn yr

<sup>32</sup> Gw. GLIGt cerddi 11–14.

<sup>33</sup> Gw. 14.7–8.

arfer hwn yn *vituperatio* y llenyddiaethau clasurol, ond fe'i gwelir yn gyffredin hefyd yn llenyddiaeth Cymru yn ystod yr Oesoedd Canol.

Yr oedd codi'r materion hyn ar agenda pob ymrysonwr. Ond un o'r materion mwy sylweddol ei arwyddocâd y dymunai Dafydd Trefor ei wyntyllu oedd mater dychanu unigolyn o fewn ei gymdeithas. Yn rhediad yr ymryson a ganwyd o ganlyniad i'w gywydd mawl i fferi Porthaethwy y mae ganddo adran sy'n trafod iawnderau'r sawl a ddychenir. Yn ei gerdd 'I geryddu dychanwr' (cerdd 11) pwysleisir gwirionedd y Cwmp a bod y natur ddynol yn ffaeledig, ond rhybuddir y dylid bod yn ofalus iawn wrth dychanu unigolion am eu drygioni.<sup>34</sup>

Diachos oedd y dychan,  
Er hyn o lid mae rhai'n lân.  
Rhyfedd, medd llyfr a'n rhifai,  
O bai fyw neb heb ei fai. (llau. 41–4)

Dyfynnir y llinellau hyn o waith Dafydd Trefor gan Henri Perri yn *Eglvryn Phraethineb* am eu bod yn enghraifft o *anhagreb*,<sup>35</sup> yn tynnu'r colyn o eiriau llawn dicllonedd drwy ddefnyddio geiriau llawn tynerwch ac esmwythyd yn eu lle—agwedd bwysig ar waith y bardd-offeiriad hwn.

Nodwyd bod yn y gyfrol hon gywyddau pum ymryson a ddatblygodd rhwng Dafydd Trefor a phedwar o feirdd ei gyfnod, sef Gruffudd ap Tudur ap Hywel, Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn, Ieuan Delynor, ac Ieuan ap Madog ap Dafydd. Beth felly am y pedwar bardd hyn?

#### *Gruffudd ap Tudur ap Hywel*

Ceir tri chofnod ar ddeg o dan enw Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn MCF (5 Mehefin 2009). O'r rheini gwelir bod cymaint â chwech ohonynt, hanner ei gynnyrch, yn gywyddau ymryson â Dafydd Trefor, sef cerddi 2, 4, 6, 8, 10, a 12 y gyfrol hon. Ond beth am y gweddill?

#### *Ac ni chais borfa na chae*

Dryll o'r gerdd 'Ateb i'r cywydd gofyn geifr' sy'n dechrau â'r llinell *Pa berson? Pwy a byrsiodd?* (gw. cerdd 2) sydd yma.

#### *Dyn wyf ym mhurdan Ofydd*

Ymddengys fod T. Gwynn Jones o'r farn mai cerdd o waith Tudur Aled yw'r cywydd sy'n dechrau â'r llinell *Dyn wyf ym mhurdan Ofydd*, ac fe'i cyhoeddwyd ganddo yn rhan o'i ganon.<sup>36</sup> Fe'i cyhoeddwyd hefyd yn GLMorg 528, yn Atodiad ii y gyfrol, a than y teitl 'Nychdod y bardd'. Y

<sup>34</sup> Ar agwedd y gramadegau barddol tuag at ddychan, gw. y nodyn cefndir i gerdd 11.

<sup>35</sup> Gw. Egl Ph 25.

<sup>36</sup> Cyhoeddwyd y gerdd ymhlith gweithiau Tudur Aled, gw. TA cerdd CXXIII.



ddau fardd dan sylw yn ymdriniaeth Dr A. Cynfael Lake ar awduraeth y gerdd yw Lewys Morgannwg a Thudur Aled, ac fe'i dyfernir i Dudur Aled.<sup>37</sup> Ond fe'i priodolwyd, ar gam fe ymddengys, i Ruffudd ap Tudur ap Hywel yn llawysgrif CM 23, ii, 178<sup>v</sup>, llawysgrif sy'n dyddio o c. 1600, a cheir y cwpled cyntaf yn rhestr John Jones Gellilyfdy yn llawysgrif Pen 221, 23.

*Doed wŷr Mers ar deid i'r môr*

Priodolir y cywydd hwn i Robert ap Gruffudd Leiaf yn ogystal ag i Ruffudd ap Tudur ap Hywel. Ei deitl yn llawysgrif Llst 123, 338 yw *Cyw i ofyn Siac âp i Sion Moel dros Huw Lewis*. Fe'i dyfarnwyd gan Dr Bleddyn Owen Huws i Robert Leiaf, a'i gyhoeddi dan y teitl 'I ofyn mwnci dof gan Siôn Moel o Fiwmares dros Huw Lewys o Brysaeddfed'.<sup>38</sup>

*Edliwaist lle y gwelaist gur*

Dryll o'r gerdd 'Nychdod y bardd' sy'n dechrau â'r llinell *Gruffudd, os gwawdydd ydwy*' (gw. cerdd 12) sydd yma (sef llau. 29–86).

*Er Duw lle'r ydych wŷr da*

Cadwyd yr unig gopi o'r cywydd hwn yn llawysgrif Wy 1, 152, ac ysywaeth y mae cyflwr y llawysgrif honno yn peri trafferthion i ddarllenwyr, ond enwir *Wiliam* yn y llinell olaf.

*Pa drwmp a ganwyd pa drin*

Cywydd marwnad a ganwyd i Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn yn 1531 yw hwn.

*Prins mawr aer parawns a'i medd*

Cywydd moliant di-deitl i Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn sydd yma.

Dafydd Trefor a Gruffudd ap Tudur ap Hywel yw unig ymrysonwyr tri o'r pum ymryson a gyflwynir yn y gyfrol hon, sef yr ymryson ar gyfrif y geifr (cerddi 1–2), yr ymryson ar gyfrif y cywydd i ofyn gordderch a thelyn (cerddi 7–8), a'r ymryson a gododd yn sgil llunio'r cywydd 'I fferi Porthaethwy' (cerddi 9–12). Y mae Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn cymryd rhan hefyd (ynghyd â Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn) yn yr ymryson a ganwyd o ganlyniad i ofyn alarch gan Faredudd ap Tomas o Borthaml (cerddi 3–6). Ni chymer Gruffudd ap Tudur ap Hywel unrhyw ran yn y pumed ymryson, sef 'Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' (cerddi 13–18).

Monwysyn oedd Gruffudd ap Tudur ap Hywel, yn hanfod o Dal-y-llyn

<sup>37</sup> Gw. GLMorg 26 o dan y pennawd *Yferch hirwen farchwriol*.

<sup>38</sup> Bleddyn Owen Huws, *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Barddas [Abertawe], 1998), 59–60, 128–9.

ym mhlwyf Llanfihangel Tre'r-beirdd, yng nghwmwd Twrcelyn,<sup>39</sup> ac ymddengys ei fod yn ŵr dibriod. Yn ôl llawysgrif LIGC 3050D [= Mos 147] atebwyd cywydd Dafydd Trefor 'I ofyn geifr' gan *Gryffydd ap Tudur ap howel gwr bonheddic osir fon*, ac mewn dau briodoliad arall dywedir yn eglur mai un o *dir Mon* ydoedd. Wrth ddisgrifio hwyliad fferi Porthaethwy *Parth â'th iaith* 'tuag at dy bobl',<sup>40</sup> deellir yr awgrym yn llythrennol gan gael yma dystiolaeth fod Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn frodor o'r ynys. Ond yn llawysgrif Card 4.10 [= RWM 84], ii, 1205, ceir yr epithet a ganlyn: *Gryff: ap Tudur ap Ho<sup>ll</sup> alias Hiraethog* sy'n uniaethu Gruffudd ap Tudur ap Hywel â Gruffudd Hiraethog, ar gam yn sicr.

Ceir y nodyn rhagarweiniol a ganlyn o flaen teitl y gerdd 'Ateb i'r cywydd gofyn geifr' (cerdd 2): *Mae Gryffydd ab Tudur ab Howel yn ateb Tros y personiaid Eraill*. Yr oedd wedi ennill ffafr offeiriaid sir Gaernarfon a'r rheini wedi ymddiried iddo'r dasg o ateb ar eu rhan, a gwelir olion arddull ychydig yn fwy soffistigedig ar y cywydd ateb hwn nag a welir ar y cywydd gofyn. Sylwer ar y cyfartaledd uchel o gynganeddion croes yn y cywydd, ar y cymeriad llythrennol ar y llythyren *P* (llau. 1–10), y llythyren *C* (llau. 11–16, 57–8), cwpledi ar *A* (llau. 17–18), *N* (llau. 45–8), a chwpled ar y llythyren *Y* (llau. 53–4). Yn yr un cywydd y mae uned ddisgrifiadol ragorol (llau. 45–60) a gellid gweld y cywydd yn cartrefu'n gyfforddus mewn dosbarth (neu deulu) o ddyfalgerddi.

### *Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn*<sup>41</sup>

Un gerdd o'i eiddo a gofnodwyd yn MCF (5 Mehefin 2009), sef 'Y baich drain' (cerdd 5), trydydd cywydd yr ymryson a ysbardunwyd gan gywydd Dafydd Trefor 'I ofyn alarch gan Faredudd ap Tomas o Borthaml dros Ddafydd ap Gwilym' (cerdd 3). Ni wyddys dim am y bardd hwn, ond ar sail yr un gerdd hon gellir dyfalu ei fod yn aelod o'r frawdoliaeth farddol ym Môn, ac iddo ganu'r cywydd hwn cyn 1527.

### *Ieuan Delynor*

Yr oedd Ieuan Delynor (neu Ifan/Ieuan Dylyniwr)<sup>42</sup> yn fardd yn ogystal ag yn delynor ac yr oedd yn ei flodau *c.* 1520–67. Canodd Ieuan Delynor dair o gerddi'r gyfrol hon, sef cerddi 13, 15 a 17. Brodor o blwyf Aberdaron ydoedd o bosibl ac y mae lle o'r enw Llain Ifan Delynor yn y plwyf hwnnw.<sup>43</sup> Os ardal Aberdaron oedd cartref y bardd treuliodd dymor, o leiaf,

<sup>39</sup> Cofnodir ei ach yn P.C. Bartrum: WG2 'Cadrod Hardd' 2(B).

<sup>40</sup> Gw. 10.8.

<sup>41</sup> Nis rhestrir yn ByCy nac ychwaith yn CLC<sup>2</sup>, ond y mae'n sicr o fod yn un o'r mân feirdd cynhyrchiol a diddorol a ganai yng nghylch plasty Porthaml ym Môn.

<sup>42</sup> Arno, gw. ByCy 388 ond y mae rhai camsyniadau yn y cofnod hwn.

<sup>43</sup> Gw. Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', TCHSDd xv (1966), 82.

y tu allan i'w filltir sgwâr gan fod cywydd gan Huw ap Richard ap Siôn ap Madog o Fodwrda ar glawr dan y teitl *K. yn gofyn i Ifan Dylyniwr beth oedd yn i ddal allan oi wlad ag yn erchi iddo ddowod adre erbyn i henaint*.<sup>44</sup> Deisyf Huw ap Rhisiart o Fodwrda arno i ddychwelyd i'w gynefin gan ei fod bellach yn henwr:

nid ynfaist yn ifank  
yn Llyn na hen wr na llank ...  
Dyred i Aberdaron,  
gwn hir ith fagwyd yn hon.<sup>45</sup>

Ymddengys enw Ieuan Delynor ar restr graddedigion Eisteddfod gyntaf Caerwys yn 1523, lle y cadarnhawyd gradd disgybl pencerddaidd (telyn) iddo.<sup>46</sup> Siawns felly nad oedd yn gerddor safonol, profedig. Ond er ei fod yn gallu tynnu mêl o dannau'r delyn, fel bardd yr oedd yn gyff gwawd. Yng ngeiriau Ieuan ap Madog ap Dafydd, nid oedd fawr o brydydd:

Melys oedd ei fys a'i fawd,  
Difai i ddiawl ei dafawd.<sup>47</sup>

Digon tebyg yw tystiolaeth Dafydd Trefor am ddoniau Ieuan Delynor, sef ei fod yn well telynor nag ydoedd o fardd:

Os ceisio hwylio helynt  
Llywelyn ap Gutun gynt,  
A cheisio gwreiddio mewn gradd  
Â dwygrefft odidowgradd,  
Dy law ar dant a lowir,  
A gwaith dy dafod nid gwir,  
A'th gywydd newydd, na wad,  
Aeth lawer i'th oleuad.<sup>48</sup>

Nid yw Ieuan Delynor yn ddim o'i gymharu â Llywelyn, a oedd yn gryn feistr ar gerdd dafod a cherdd dant. Er yr holl gyhuddiadau yn erbyn Ieuan Delynor fod ei farddoniaeth yn ddiafael, eto fe'i cyhuddir gan Ieuan ap Madog ap Dafydd o ddwyn ei le yn y Penrhyn:

Bûm heb ymgel â'm helynt  
I'r Penrhyn, a'm gofyn gynt;  
Dygodd rhyw ddyn a'm digie,  
Tennyn o dir Llŷn, fy lle;

<sup>44</sup> Cyhoeddwyd y cywydd yn llawn yn Bob Owen, 'Ifan Dylyniwr', B xviii (1958–62), 27–9.

<sup>45</sup> *Ib.* 28 (llau. 20–1), 29 (llau. 9–10).

<sup>46</sup> Dyfynnir y rhestr (o gopi Pen 155, 94 o lyfr Gruffudd Hiraethog i Risiart Mostyn) yn D.J. Bowen, 'Graddedigion eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', *LlCy* ii (1952–3), 130; gw. hefyd Daniel Huws, 'Rhestr Gutun Owain o wŷr wrth gerdd', *Dwned*, x (2004), 83.

<sup>47</sup> Gw. 16.41–2.

<sup>48</sup> Gw. 14.9–16.

Cafas hwnnw aur cyfan,  
Gwledd a sir Arglwyddes Siân.<sup>49</sup>

Y mae'r cyhuddiad hwnnw ynddo'i hunan yn awgrym o safon farddol, ac yn wir ceir gan Ieuan Delynor rediadau o gymeriad llythrennol yn ei gywydd 'Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' sy'n atyniadol iawn.<sup>50</sup> Y mae'n cynganeddu'n dynn gan ddefnyddio canran uchel o gynganeddion croes, ac efallai nad oes ryfedd fod Ieuan Delynor wedi dwyn lle Ieuan ap Madog ap Dafydd yn y Penrhyn. Diau fod cysylltiad Ieuan Delynor â'r Penrhyn yn un agos, ac yn achos cenfigen i sawl bardd arall is ei statws yn y plas hwnnw:

Mawr yw'r genfigen fy mod  
Yn eiste' yma'n wastod!<sup>51</sup>

Ond nid dim ond yn yr ymryson hwn y dychanwyd Ieuan Delynor. Sylwodd Dr Enid Roberts fod y telynor Ifan Penllyn wedi ei ddychanu, ac wedi rhybuddio Syr Edward Pilstwn o Faelor rhagddo:

Ifan Delynor yfai  
Be holl fedd Gwynedd a gâi,  
A'i gyfell, bellbell y bôn',  
Acw ar ddwyradd cerddorion,  
Daliai Wiliam lle delai  
Yn draeth fir Llundain yn drai.<sup>52</sup>

Gofyn Dr Roberts ai Wiliam Penllyn, y telynor, a enwir tua diwedd y dyfyniad.

Goesodd un farwnad i Ieuan Delynor,<sup>53</sup> ac fe'i canwyd gan Wiliam Cynwal ar farwolaeth Ieuan yn *henwr* (ll. 8). Ynddi fe'i disgrifir yn *athro Bangor* (ll. 10)—ar gyfrif ei gysylltiad agos â'r Penrhyn, o bosibl, a nodâ Dr Enid Roberts fod lle o'r enw Tyddyn Siôn ab Ifan Delynor yn Llandygái.<sup>54</sup> Y mae'n ddiddorol gweld bod ei farwnadwr yn clodfori Ieuan Delynor oherwydd safon ei gerddoriaeth *Dewr wiwbab cerdd* (ll. 45) (er y gallai *cerdd* gyfeirio at gelfyddyd cerdd dafod yn ogystal â cherddoriaeth), ac oherwydd safon ei farddoniaeth *eurwawd ieithydd* (ll. 64), yn enwedig ei gerddi serch:

Breg ni bu mewn brig na bôn,  
Brawd addysg i brydyddion.  
Ofer ydoedd fawr adwy  
I ganmol merch ganmil mwy. (llau. 59–62)

<sup>49</sup> Gw. 18.13–18.

<sup>50</sup> Gw., e.e., 13.13–32.

<sup>51</sup> Gw. 15.57–8.

<sup>52</sup> Enid Roberts, 'Marwnadau telynorion', TCHSDd xv (1966), 83.

<sup>53</sup> Gw. *ib.* 112–13.

<sup>54</sup> *Ib.* 84.

*Ieuan ap Madog ap Dafydd*

Canodd Ieuan ap Madog ap Dafydd dair o gerddi'r gyfrol hon. Dwy o'r rheini yw 'I Siôn Pilstwn' (cerdd 16) a 'Mawl a dychan am ddwyn lle'r bardd yn y Penrhyn' (cerdd 18), sef y pedwerydd a'r chweched o gywyddau'r ymryson ag Ieuan Delynor am iddo ddychanu Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn. Ieuan ap Madog ap Dafydd hefyd a ganodd yr unig farwnad a ganwyd i Ddafydd Trefor (cerdd 19).

Rhestrir gyda'r tri chywydd uchod ddau gywydd pellach o waith Ieuan ap Madog ap Dafydd yn MCF (5 Mehefin 2009). Y cyntaf o'r rheini yw *Cyw: dychan i Badrig Gwyddel a ddoethe o Fanaw i sir Fon, ac i ddav wr mawr oedd yn ei fyntimio ef i hel llancesi iddyn, &c.*<sup>55</sup> a gopiwyd o dan y teitl uchod i lawysgrif Llanstephan 122, 545, gan Wiliam Bodwrda,<sup>56</sup> copiyydd llawysgrifau yn nhir Llŷn a brawd yng nghyfraith Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn.<sup>57</sup> Cadwyd copi arall o'r cywydd yn llaw David Richards (1725–82) yn llawysgrif CM 20, 28, copi lle yr enwir yn ei deitl y *ddav wr mawr*. Y cyntaf o'r rheini yw Maredudd ab Ieuan ap Robert o Ddolbenmaen yn Eifionydd ond yn ddiweddarach o Benanmaen<sup>58</sup> y dywedir iddo briodi deirgwaith a chael un ar hugain o blant cyfreithlon yn ogystal â nifer o blant anghyfreithlon.<sup>59</sup> Y llall yw Robert ap Rhys, ac y mae'n debygol iawn mai cyfeiriad at Robert ap Rhys o Blas Iolyn ym Mhentrefoelas sydd yma: bu ef farw tua diwedd y flwyddyn 1534, ac nid oes dim dau nad oedd yntau hefyd yn aderyn go frith.<sup>60</sup> Sonnir am brif wrthrych y gerdd, Padrig Wyddel, fel *Mansgmon, a mab maeth Môn*, a'i fod wedi teithio o *Fanaw dir i Fôn draw*, ond ni cheir unrhyw wybodaeth am y bardd ei hun yng nghorff y cywydd.

Y gerdd arall yw cywydd a gopiwyd i lawysgrif Wynnstay 1, 155. Gwelir enw Ieuan ap Madog ap Dafydd yn glir wrth droed y cywydd hwn, ond nid oes iddo deitl. Egyr y cywydd â'r llinell *Rhyfedd oni ddaw rhyfel*; ysywaeth y mae corff y cywydd yn peri peth anhawster i ddarlennenwyr oherwydd traul ar y llawysgrif. Serch hynny, y mae enw *Syr Wiliam ... / Gruffydd* (llau. 9–10) i'w weld yn eglur ynddo, a chyfeirir at y *siambrlen hen* (ll. 70). Felly

<sup>55</sup> Llst 122, 545–7.

<sup>56</sup> Ymhellach arno, gw. R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Felteyrn)', Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, 'Bywyd a gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 410–49; *id.* 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10, *passim*.

<sup>57</sup> Yr oedd Wiliam Bodwrda yn frawd i Gwen, gwraig Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn. 'Mae'n ddigon tebyg fod Bodwrda yn treulio cryn dipyn o'i amser tua'r Penrhyn yn ystod deng mlynedd olaf ei oes', gw. Dafydd Ifans, 'Bywyd a gwaith Wiliam Bodwrda', 87–8.

<sup>58</sup> Canodd Tudur Aled gywydd moliant i Faredudd ab Ieuan ap Robert, gw. TA cerdd LIV; canodd Lewys Môn yntau gywydd mawl iddo, gw. GLM cerdd XLVIII; a chanodd Lewys Daron gywydd mawl a chywydd marwnad iddo, gw. GLD cerddi 20–1.

<sup>59</sup> Gw. L. Dwnn: HV ii, 158.

<sup>60</sup> Enid Roberts, 'Teulu Plas Iolyn', TCHSDd xiii (1964), 62. Ar y cymeriad lliwgar a chafalir hwn, gw. 'Moliant i Robert ap Rhys o Blas Iolyn', GSDT cerdd 3 a'r cyfeiriadau pellach yno.

hefyd enw *Master Robert wiwber wedd / Salbri* (llau. 25–6) a oedd yn byw, neu a ddaliai dir, yn Rhuthun (ll. 47).<sup>61</sup> Un o deulu plas Lleweni oedd Robert Salsbri, a daeth yn berchennog ar stad y Plas Isaf, Llanrwst yn ddiweddarach. Ef oedd tad William Salesbury.

Cerdd olaf y gyfrol yw cywydd ‘Marwnad Syr Dafydd Trefor’ o waith Ieuan ap Madog ap Dafydd (cerdd 19).<sup>62</sup> Dyma un o’r *genres* hawsaf i’w adnabod, os nad ei ddiffinio.<sup>63</sup> Galar personol y bardd a fynegir yn y cywydd. Yn hytrach na’i fod yn cymryd arno swyddogaeth gyhoeddus ac yn gweithredu fel tafod i’r gymdogaeth gyfan y mae’n ymollwng i’w hiraeth ingol ei hun. *Du arna’ y trig dyrnod trwch* (ll. 7), meddai Ieuan ap Madog ap Dafydd, ac y mae pedwaredd adran y cywydd yn uchafbwynt i’w wewyr meddwl:

Fy nadal, fy Nuw, ydoedd,  
Fy newis gâr, fy nysg oedd.  
O gau ei arch, gwae fyfi  
Nad wyf yn farw dani! (llau. 67–70)

Serch hynny, gellid dadlau bod yn y farwnad gyfeiriadau (prin) at eraill sydd hefyd yng ngafael angerdd yr un golled: *gwae ni o’r dydd!* (ll. 11), *Ein sylf wen* (ll. 60).

Tybed felly ai gwaith comisiwn yw’r farwnad hon, ai canu am ei loes ei hun, iddo ef ei hun, er mwyn ei ryddhau ei hun o gaethiwed trallod a wna’r bardd? Y mae’n anodd derbyn y byddai bardd proffesiynol yn canu marwnad heb ddisgwyl tâl amdani. Os felly, tybed ar gyfer pwy y lluniwyd y cywydd marwnad hwn?

Un posibilrwydd yw mai ar gyfer cynulleidfa eglwys Dafydd Trefor yn Llanallgo y’i canwyd. Y mae’r manylu ar ddefodau angladdol Eglwys Rufain yn awgrymu cynulliad crefyddol. Neu y mae’n gwbl bosibl fod marchog y Penrhyn, Syr Wiliam Gruffudd, wedi mynd i’w boced i noddi’r gerdd yn arwydd o barch ac i gydnabod ei ddiolchgarwch i un a fu’n driw iddo ar hyd ei oes ac a ganodd o’i blaid. Pwy bynnag a dalodd amdani, y mae’n dda inni wrth y farwnad hon gan ei bod yn cyfoethogi’r darlun o fywyd a marwolaeth y clerigwr o fardd.

A oedd Dafydd Trefor yn ymrysonwr wrth reddf? Cymharol fach yw cyfanswm ei gynnyrch ymrysonol, os yw hynny’n llinyn mesur. O blith y pedwar bardd a fu’n ymryson â Dafydd Trefor, yr un sy’n gwrthdaro ag ef

<sup>61</sup> At y Robert Salsbri hwn yr aeth Wiliam ap Gruffudd ap Diews i chwilio am loches wedi iddo syrthio i Afon Conwy, gw. ‘Marwnad Wiliam ap Gruffudd ap Diews pan oedd ef fyw’, GSDT cerdd 6.

<sup>62</sup> Trafodwyd adran olaf y farwnad hon yn GSDT 10–11; am olygiad o lau. olaf y farwnad sy’n wahanol yn ei fanylion i olygiad y gyfrol hon, gw. GLM 353 (XCIX.1–16).

<sup>63</sup> Gw. Dafydd Elis Thomas, ‘Agweddu ar y cywydd marwnad’ (Ph.D. Cymru [Bangor], 1987); Nerys Ann Jones, ‘Marwnadau Beirdd y Tywysogion: arolwg’, CyT 176–99.

amlaf yw Gruffudd ap Tudur ap Hywel, a chanwyd ganddo chwech o gywyddau'r gyfrol hon: sylwer mai dim ond chwech o gywyddau'r gyfrol sydd o waith Dafydd Trefor ei hun. Ac er mai barddoniaeth Dafydd Trefor yw sail ambell anghydfod, nid bob tro y mae'n ymladd ei achos ac yn dilyn y ddadl i'w therfyn. Ar un wedd gellid haeru iddo ganu tri chywydd gofyn, un cywydd mawl ac un cywydd cymod yn hytrach na chanu amryfal gywyddau a fyddai'n cymell cyfnewid geiriau croes. Efallai fod Dafydd Trefor, ym mêr ei esgryn, yn fwy o gymodwr nag ydoedd o gynhennwr.

Cwestiwn difyr yw hwnnw ynghylch lleoliad y canu ymryson. Tybed ai yng ngŵydd yr uchelwyr y'i cenid, a chan y beirdd a fu'n cyfansoddi'r cywyddau? Gwyddys bod y beirdd yn datgan eu cerddi mawl a'u cerddi serch gerbron yr uchelwr a'i westeion ar adeg gwledd yn neuadd y llys:

byddai'r un mor naturiol synio y datgenid cywyddau ymryson yng ngŵydd penteulu a'i geraint, a bod y cywyddau hynny wedi eu noddi ar adegau, os nad bob amser. Gallasai hynny fod yn wir am yr ymryson enwog rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri. Beth bynnag am Siôn Cent, yr oedd Rhys yn amlwg yn clera ar hyd ei oes, ac yn hytrach na thybied yn ein cyfer fod rhyw negesydd wedi cludo'r cywyddau rhwng cartrefi'r naill a'r llall, byddai'n werth dyfalu a fu iddynt gael eu cyfansoddi pan oedd y ddau fardd ynghyd dan ryw gronglwyd neu'i gilydd.<sup>64</sup>

Gan mor ddifyr rhai o gywyddau'r gyfrol hon, y mae'n talu ffordd i ystyried tybed nad yng nghartrefi uchelwyr Môn y'u datgenid? Nid dadleuon dysgedig tebyg i ddadl Rhys Goch Eryri a Siôn Cent yw eiddo dadleuwyr Môn yng nghyfnod Dafydd Trefor, ond diau y byddai uchelwr Porthaml, er enghraifft, yn gwerthfawrogi'r arlwy.

Beth oedd cymhelliad y bardd i fod yn rhan o ymrafael o'r fath? Y mae'n sicr fod elfen gref o falchder ynghlwm â'r proses. Lluniwyd nifer o'r cerddi er hunanfodhad y bardd naill ai i'w amddiffyn ei hun, neu i gadw wyneb ei noddwr, ac yr oedd yr ymrysonwyr mwyaf brwd yn benderfynol o yrru'r ornest yn ei blaen nes cael y trechaf ar y gwrthwynebwr. Yr oedd y bardd a'i lygad ar y geiniog yn ogystal, a cheid gwobr am gerdd gomisiwn. Ond y mae'n bosibl mai difyrrwch y gwrandawyr, a'u clod a'u cymeradwyaeth, oedd ar uchaf meddwl y beirdd.

A yw'n haws cael diffiniad o *genre* y cywydd ymryson bellach? Efallai nad yw, ond y mae modd adnabod elfennau yn y cerddi hyn a ychwanegodd at ddifyrrwch y dorf. Yr oedd yn hanfodol fod y cerddi yn atyniadol i'r glust ac i'r meddwl. Nodwedd ar gywyddau ymryson Dafydd Trefor a'i gyfeillion barddol yw'r elfen gref o sgwrsio sydd ynddynt—llawer ohono ar ffurf deialogau ac mewn araith union. O ganlyniad, y mae uniongyrchedd i'r dweud. Byddai'r nodwedd hon yn amheuthun i'r gynulleidfa ac yn fodd o

<sup>64</sup> D.J. Bowen, 'B'le bu'r ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri?', YB xxiii (1997), 100.

ychwanegu at bleser perfformiadol y datgeiniad yn ogystal ag at ddifyrrwch y gwrandawyr.

Yn ail, ac yn ddelfrydol, dylai ymryson fel uned gyfleu'r synnwyr o gyfres o gerddi cysylltiedig. Amrywiol iawn yw cryfer y llinyn cyswllt rhwng un gerdd a'r llall yn rhai o'r ymrysonau hyn. Y mae'r cywyddau a ganwyd ar sail y cywydd gofyn alarch yn llac iawn eu cyswllt â'i gilydd. Ar y llaw arall, y mae ambell rediad yn gryfach ei strwythur: cynhelir yr un thema, a honno'n goferu o un gerdd i'r llall, er gwaethaf y ffaith fod gwahanol feirdd wedi camu i'r drin i barhau'r ymryson mewn ambell achos.

Yn drydydd, dylid ceisio cynnal tensiwn yr ymryson. Efallai na fyddai pob rhan o'r ymryson yn cael ei datgan o fewn cyfnod un wledd neu amgylchiad, a bod yn rhaid aros rhywfaint am y bennod nesaf, fel petai. Os ar ffurf llythyrau y'u cludid o un man i'r llall, yn ddelfrydol byddai gofyn llunio cywydd min dibyn i gynnal y diddordeb nes y ceid y rhan nesaf i law. O ran naws, amrywiol iawn yw tensiwn y gwahanol ymrysonau hyn.

Nodwyd natur ddychanol rhai o'r ymrysonau, ac er bod yr elfen honno weithiau'n gryf, dro arall yn ysgafnach, yng nghywyddau'r gyfrol hon, fe ymddengys yn elfen greiddiol. Y mae'n aml fel cyhuddiad ar ddyn, yn priodoli i berson natur lygredig, lai na pherffaith. Dyna un o'r gemau mwyaf llachar yn ffurfafen yr ymryson o safbwynt cynulleidfa o realwyr, fel a geid yn ddi-os yn llysoedd mân-uchelwyr Môn.

Beth bynnag ei atyniad i gynulleidfa oedd ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, yn sicr ni ellir gwadu dawn y *genre* hwn i roi pleser, ac wrth wneud hynny nid ydoedd nac anniddorol nac amherthnasol.



## 1

*I ofyn geifr gan bedwar person plwyf  
gan Syr Dafydd Trefor*

4 Gŵr claf ydyw Syr Dafydd,  
 Gŵr afiach iawn, gŵr iach fydd;  
 Pawb a'i rodd pybyr iddaw  
 A'i gyngor i Drefor draw,  
 Llafur mewn dolur a dig  
 Draw a phasio drwy fffisig.  
 8 Llaeth gafrod, oes llith gyfryw  
 Ym Môn i fab o myn fyw?  
 Efrydd yn mynd i afra,  
 Geifr blithion gwynion a ga';  
 Gyrraf, ni ddymunaf meirch,  
 12 Drwodd at fy mhadrëirch.

16 F'ewyrth sydd ŵr o fywyd  
 A gyfarcha' 'n gynta' i gyd:  
 Syr Morgan, gwinllan heb gau,  
 Ap Hywel, hwnnw piau;  
 Gŵr dethol i Ddeiniolen  
 A chob o aur uwch ei ben,  
 20 Rhodded afr, yn rhwydda' dyn,  
 Gyfebr, myfi a'i gofyn,  
 Fffisigwraig, mewn craig y cra',  
 Llysieuwraig yn llaswyr.

24 Gwnaf beunydd gywydd ar gân  
 Er moli Syr Huw Maelan;  
 Dwyrent iddo a dyrrwyd,  
 Buan o Lÿn, Beuno lwyd;  
 Gafr hwn fydd llwdwn o'r llu,  
 28 Gafr ymwan i'm goframu.  
 Syr Huw arall ni phalla,  
 Fab Gronwy 'mysg y ddysg dda,  
 Gŵr urddol, graddol i'r grog,  
 32 Pwrs ein tir, person Twrog;  
 Ar afr hwn Duw a ro rhad,  
 Gafr aruthr ei gweryriad.

- 36 Eurwyd Syr Rhisiart, aren,  
Amhredudd, penllywydd llên,  
Person Mihangel felyn  
O Rug a'i wisg o ra gwyn:  
Gafr hwn (oes gyfryw â hi?),  
40 Mae'n dinnoeth a'i myn dani.
- Pedeirgafr y pedwargwyr  
A'u mynnod, gormod yw'r gyr;  
Cudynnau, sym cedenod,  
44 A gleiniau dan yddfau nod;  
Bwbachesau, blychau blew,  
Pruddion yn pori eiddew,  
Pibau llaeth mewn pebyll onn,  
48 Tunellesau tinllaesion;  
Chwiorydd drwy'r gwÿdd yn gwau,  
Barflaesion, a bawr lysiau;  
Os ha' blodeua mewn dail,  
52 Os gaeaf ysu gwiail.  
Plant y fall! Aent i'r allor  
Heb haen o caen' fynd i'r côr;  
Torri gwewyr anturiant,  
56 Sistio'n wych, siastio a wnânt;  
Llafur wrth gael llefrith gwyn  
A mynnod ac ymenyn.
- Ysmoneth, ac ni methain',  
60 I'm hafod yw'r hyddod rhain.  
Golud gan Ddai ap Gwilym,  
Ofera' ei waith, afra ym.  
O daw gŵr du a garwn  
64 Â cherdd i'ch geifr, chwerddwch, gwn;  
I ddiawl! Ni'm dawr a ddelon',  
Na'r geifr fyth, na'r gŵr, i Fôn.

*Ffynonellau*

A—Bangor (Mos) 11, 145 B—Bangor (Penrhos) 1573, 116 C—BL Add 14882 [= RWM 31], 91<sup>r</sup>, 92<sup>r</sup> D—BL Add 14962, 18<sup>r</sup> E—BL Add 14966, 239<sup>r</sup> F—BL Add 14969, 81<sup>v</sup> G—BL Add 14979, 53<sup>r</sup> H—BL Add 31085, 27<sup>v</sup> I—Card 1.550, 64 J—Card 2.4 [= RWM 11], i, 66 K—Card 2.68 [= RWM 19], 594 L—Card 2.114 [= RWM 7], 381 M—Card 4.10 [= RWM 84], ii, 1204 N—CM 10, 466 O—CM 27, 145 P—J 139 [= RWM 14], 148 Q—LIGC 3050D [= Mos 147], 463 R—LIGC 21248D [= Mos (heb ei

rhifo)], 201<sup>v</sup> S—Llst 54, 29 T—Llst 120, 21<sup>v</sup> U—Pen 112, 144 V—Pen 159, 186 (*llau. 39–40*)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Y mae 22 o gopïau o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod cyn 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopïau agos ohonynt. Ymranna'r 22 llawysgrif yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r cyfnod cyn 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

### *Llawysgrifau'r cyfnod cyn 1700*

A—Bangor (Mos) 11, 145

B—Bangor (Penrhos) 1573, 116

C—BL Add 14882 [= RWM 31], 91<sup>r</sup>, 92<sup>v</sup>

E—BL Add 14966, 239<sup>r</sup>

F—BL Add 14969, 81<sup>v</sup>

G—BL Add 14979, 53<sup>r</sup>

J—Card 2.4 [= RWM 11], i, 66

K—Card 2.68 [= RWM 19], 594

L—Card 2.114 [= RWM 7], 381

O—CM 27, 145

P—J 139 [= RWM 14], 148

Q—LIGC 3050D [= Mos 147], 463

R—LIGC 21248D [= Mos (heb ei rhifo)], 201<sup>v</sup>

T—Llst 120, 21<sup>v</sup>

U—Pen 112, 144

V—Pen 159, 186 (*llau. 39–40*)

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–38 [*V*]. 1 *O* ydwif. 3 *FLPQUTU* oi radd; *J* bybyr. 4 *J* itrevor; *J* traw. 5 *AEK* pybÿr a dolÿr mewn dig *gyda* llafur a dolÿr mewn dig *yn amrywiad yn E*, *O* pybur yw dolÿr mewn dig. 6 *AE* draw a fysedd *gyda* draw a ffassiai *yn*

*amrywiad yn E, B* llafvr fffasio, *C* draw a fffasse, *KO* draw ai fysedd; *B* llyfr ffyssidig, *AE* drwy fywsig *gyda* drwy fffisig y *testun yn amrywiad yn E*. 7–8 [C]. 7 *B* gafrod a llith, *T* geifrod oes llith, *J* geifyr oes llith, *P* gafrod os llith, *Q* gafr nidoes llith. 9 *BFL* ymynd, *C* wy mynd, *J* [yn] myned, *P* yw mynd, *O* wy/n/ mynd, *R* yn myned, *U* vy myned; *ELPQRTU* afraf, *J* afaraf. 10 *AEKO* brithion; *O* a gwnion [a]. 11 *ABEFGKLPURU* ddamvna i meirch, *T* ddamuna eu meirch. 12 *Q* trwodd; *Q* fymhatreieirch, *J* ypadrieirch, *P* fynghadrieirch. 13 *K* sydd n wr. 14 *ACEJK* [A] kyfarcha yn gynta, *O* Cyfarch yn gynta, *Q* kyfarchaf /n/gyntaf. 15 *AKO* [Syr] organ; *AK* y gwnllan heb gaü, *B* gwinllan i gav, *O* Gwiwlan heb gau. 16 *AKO* y power; *AKO* y fo piaü, *C* hwn i piav, *GL* hwnw i piav, *P* hwnnw apiaü, *QU* hwnnw y piav, *T* hwnnw au piau. 17 *Q* gwr vrddol; *F* [i], *J* o. 18 *AF* a chob avr. 19 *AEO* rhodded afr rhwydd yw y dyn, *B* rrodded f afr rrwydda dyn, *C* rhodded afr rwyddaled dyn, *F* rhodded i afr rhwydda dyn, *GLPRT* rrodded e afr rrwydda dyn, *K* rhodded afr rhyfedd yw y dyn, *U* Rhoded e afr rhwydda dyn. 20 *AKE* geifr ai nai ai gofyn *wedi ei gywiro mewn llaw wahanol yn gyfabr ai nai ai gofyn yn E, B* gyfebr a myfi ai gofyn, *O* Or geifr i nai ai gofyn, *Q* gyfebr ai nai /n/ i gofyn. 21 *AEKO* ynghraig y kra, *C* mewn kraig ir kra, *P* mewn kraig i kr. 22 *C* llyswyrwraig (llyseuwraig), *Q* llysvwraig; *Q* llyswyra. 23 *CF* gwnawn. 24 *C* maynan. 25–6 [R]. 25 *B* dyriwyd, *F* dvriwyd, *J* drewyd, *Q* diriwyd. 26 *BCF* byan o lynn bevno lwyd, *GLPTU* bvan o lyn a bevno lwyd, *J* byan olyn abeno lwyd. 27–8 [JR]. 27 *AE* fydd lllownbwn ir llu, *O* fydd llawnbwn y llu, *Q* fydd dwn lwdr or llv. 28 *Q* ym wen; *FPT* yn gofram. 29 *R* yr hww. 30 *ABCEJKQ* ap gronw; *AE* y dysg da, *G* i ddysc ai dda, *J* iddysc iddysc aidda, *O* addusc dda. 31 *AEKO* gwr vrddol greddfoll. 33 *O* Ai afr; *AEK* düw a fo *gyda* Duw a ro y *testun yn amrywiad yn E, O* Duw a fo/n/, *Q* dvwr fo ro. 34 *B* arw; *J* gwerrydriad. 35 *C* er evrwyd; *J* syr i Rys; *O* auren. 36 *FJ* fab myredydd, *RT* ap Mhredydd; *K* pen llowydd a llên, *R* [pen]llywydd llen. 37 *T* perso; *C* mihengel wallfelyn, *J* fihangel felyn, *LTU* fihengel wallt felyn, *P* fihangel wallt melün (fihangel wallt felün), *Q* mihengel melyn. 38 *O* Wr ag; *J* ar wisc, *P* a wisg; *C* oeira gwyn, *J* oria gwyn, *U* o ira gwyn. 39 *P* os. 40 *Q* tinoth; *Q* tani. 41–66 [V]. 42 *EK* gormod ir gwyr, (*E*) gorfod y gwyr, *R* gorfod ir gwyr, *O* gormod yw'r gwyr. 43 *C* kydwyne; *BCFGJR* sy im, *LTU* sym i. 44 *AEK* [A] gleinie; *AEKO* yddfe yn nod. 45 *Q* bwbache; *A* yn blyche blew, *J* boche blew, *Q* fwblache blew. 47 *J* lleth; *AK* pebyll hon, *J* bebyll on. 48 *Q* tyne lysav; *Q* tin laesion. 49 *AK* drwy gydd yn, *J* trwy goedydd yn. 50 *Q* byr laesion; *A* [a] brofai, *E* profa i, *KO* profai. 51 *AEJKOQR* haf; *AEKOQR* blodeuaf, *J* blode daf; *J* adail. 53 *AEKO* merched y fall; *AEKO* [aent] ar; *K* allar. 54 *BQ* haen pei kaen, *C* o chaen. 56 *AEK* sowdio/n/ wych, *B* swstio n wir, *CFGR* siwstio yn wir, *JQ* sistio yn wir, *O* Sowndio/n/wych; *AEKO* sadio a wnan, *B* siasteia a nan, *J* yn sest awnan, *Q* siasdio nan. 57 *A* llafr, *EO* llafar, *J(U)* llawen. 58–66 [C]. 58 *J* amyned ag. 59–60 [J]. 59 *BFG* *LRTU* fysmonaeth, *P* fü hysmonaeth; *EO* ag nis methain, *L* ag methain, *P* os

methain, *QR* ag ni fethain, *T* ac [ ] methain, *U* ac y methain. 60 *AEKO* vn hafod *gydag* ym hafod *yn amrywiad yn E*. 61 *LPTU* golvd dauidd ap gwilym. 62 *AEKQ* ofer i waith, *J* ofer if i waith, *O* Ofer waith; *O* ô afra im. 63 *ABEJKLTUOP* daw r; *R* wr. 64 *R* ir. 65 *AEK* i ddiawl nim tawr na ddelon, *BFJQ* i ddiawl am dawr na ddelon, *G* I ddiawl am dawr addelon, *LPT* i ddail im dawr a ddelon, *O* I ddail im tawr na ddelon, *R* i ddiawl om dawr na ddelon, *UI* ddail nimdawr addelon. 66 *R* na gwr o fon.

### *Teitl*

[*CGJS*], *A* Cowydd y geifr, *B* cowydd i ofvn geifr gan S<sup>r</sup> Morgan ap Howel S<sup>r</sup> Huw Maelan, S<sup>r</sup> Huw ap Gronw a S<sup>r</sup> Richard ap Mredydd *gyda* gan S<sup>r</sup> Morgan ap Howel S<sup>r</sup> Huw Maelan, S<sup>r</sup> Huw ap Gronw a S<sup>r</sup> Richard ap Mredydd *mewn llaw ddiweddarach*, *DEFLPR* kowydd i ofvn geifr, *HMT* I ofyn geifr, *IQ* llyma y kowyddav afv rrwng Syr dd trefor person llann allgo ymon a gryff ap tudur ap howel ynghylch geifr, *K* kywydd i ofyn geifr o waith Syr dd trefor, *N* Cywydd i ofyn Geifr S<sup>r</sup> D.T., *O* Cowydd I ofyn 4 Gafr i Bedwar person Iddo Ei hûn sef S<sup>r</sup> D: Trefor Gwr afiachus, *U* kowydd i bedwar person ne offeiriaid i erchi Geifyr i S<sup>r</sup> Dafydd Trefor.

### *Priodoliad*

*ACFHMPSTV* S<sup>r</sup> dd Trevor, *BEGI-LNQRU* Sir Dauidd trefor ai kant, *D* D Trevor, *O* Syr Dafydd Trefor ai cant sef person Llanallgo.

### *Trefn y llinellau*

*AEKNO* 1–6, 9–10, 7–8, 11–12, 14, 13, 15–46, 49–50, 47–8, 51–6, + swydd merch y sydd ym mon / cwtio ewigod cwtogion, 57–66.

*BDFGLPSTU* 1–66.

*C* 1–6, [7–8], 9–12, 14, 13, 15–57, [58–66].

*H* 1–26, [27–8], 29–56, [57], 58, [59–60], 61–6.

*IQ* 1–6, 9–10, 7–8, 11–12, 14, 13, 15–66.

*J* 1–26, [27–8], 29–58, [59–60], 61–6.

*M* 1–54, 56, 55, 57–66.

*R* 1–24, [25–8], 29–66.

*Ateb i'r cywydd gofyn geifr  
gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

Pa berson? Pwy a byrsiodd?  
 Pentwr aur, punt yw ei rodd;  
 Prelad (ac ympir eilwaith)  
 4 Plwy' Gallgof yw, p'le gwell gwaith?  
 Pe bai gowrt y Pab a'i gôr,  
 Pwynt Rhufain, penna' yw Trefor.  
 Padriarch y pedreuwaith,  
 8 Pedyr yw y pedair iaith;  
 Proses deg parhaus ei stôr,  
 Peris yfed pwrs Ifor;  
 Curad, coruniad, câi rent,  
 12 Carw mewn côr a mynwent;  
 Cob dan ffwr, capten y ffydd,  
 Cawr cryf yn caru crefydd;  
 Closio i lyfr, clowsio o lên,  
 16 Cyn y ffair canu 'fferen,  
 A mynd i wtres â merch,  
 A rhoddi megis Rhydderch.  
 Dwy grefft a fydd herwydd haint,  
 20 Gwin a garodd gan geraint.  
 Y mae bai am y bywyd  
 A'r bai ef a'i gŵyr y byd:  
 Chwannog yw, â chân geuawg,  
 24 Iwrch y rhiw, i erchi rhawg.

Ac un a ennyg y gŵr  
 Yn ei gais yn negeswr:  
 Dafydd bencerdd addefai,  
 28 O châi well, erchi a wnâi.  
 Bryd y person, bwriadu,  
 Yw taro i frig y tir fry  
 A mynnu da, mwy no dau,  
 32 Er dywod i'r beudyau;  
 Cael rhawd o fynnawd i Fôn  
 O gaer bleth, a geifr blithion,

36 A rhoi hafod yn rhyfedd,  
 Ac ni myn na gwin na medd;  
 A Dai a fyn, wedi'i fod  
 Yn Rhufain, ran o'r hafod;  
 40 Y naill o'r ddeuwr yn wych,  
 Cais chwaneg, caws a chwennydh,  
 A'r llall, anodd deall dyn,  
 Yn mynnu cadw 'menyn;  
 Ac ni chais borfa na chau  
 44 I'r adar ond yr ydau.

Ni adan' berllan, o bydd,  
 Nas torran', os ty' irwydd,  
 Na chae irlas, na chorlan  
 48 Ni chaid o'u plith, na choed plan.  
 Gwae'r yd (nid gwiw aredig)  
 Sy 'n y fron, ysan' ei frig;  
 Mintai'r fall, maent hwy ar faes,  
 52 Codau unllun cudynllaes;  
 Ysbail o'n hadail ynn oedd,  
 Ysbryd o anysbydoedd;  
 Llu gwedi gael, llygaid gwêr,  
 56 Siaffer o waith Liwsíffer;  
 Carnau dilithr, cyrn diawlaid,  
 Cneifio'r coed cynnar y'u caid;  
 Pla yw'r wâr yn pilio'r wern,  
 60 Caed offer ciwed uffern!

Na bo i'r ddeuwr biau  
 Ennill o hyn na'i wellhau;  
 Ni'm tawr fyth, ni ato Mair fod,  
 64 Amen, na geifr na mynnod.

### *Ffynonellau*

A—Bangor (Mos) 11, 147 B—Bangor (Penrhos) 1573, 117 C—BL Add 14882 [= RWM 31], 93<sup>r</sup> D—BL Add 14966, 240<sup>r</sup> E—BL Add 14979, 54<sup>v</sup>  
 F—BL Add 31085, 24<sup>r</sup> G—Card 1.550, 68 H—Card 2.4 [= RWM 11], i, 21  
 I—Card 2.68 [= RWM 19], 597 J—Card 2.114 [= RWM 7], 383 K—Card 4.10 [= RWM 84], ii, 1205 L—CM 10, 469 M—CM 27, 147 N—LIGC 3050D [= Mos 147], 466 O—Llst 120, 22<sup>r</sup> (*llau. 43–60*) P—Pen 112, 147

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Y mae 16 o gopïau o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod cyn 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopïau agos ohonynt. Ymranna'r 16 llawysgrif yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r cyfnod cyn 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau'r cyfnod cyn 1700*

- A—Bangor (Mos) 11, 147
- B—Bangor (Penrhos) 1573, 117
- C—BL Add 14882 [= RWM 31], 93<sup>r</sup>
- D—BL Add 14966, 240<sup>r</sup>
- E—BL Add 14979, 54<sup>v</sup>
- H—Card 2.4 [= RWM 11], i, 21
- I—Card 2.68 [= RWM 19], 597
- J—Card 2.114 [= RWM 7], 383
- M—CM 27, 147
- N—LIGC 3050D [= Mos 147], 466
- O—Llst 120, 22<sup>r</sup> (*llau. 43–60*)
- P—Pen 112, 147

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–42 [O]. 1 *H* abarsodd *gydag* a byrsiodd *mewn llaw ddiweddarach*. 2 *ADIM* pentwr o aür, *C* pa wr yw; *C* penna i rodd, *M* pwynt yw. 3 *C* prelad ym ag ympyr i waith. 4 *C* y pwy; *BEHJP* gallgo yn, *C* gantlle wyn, *N* gallgo ym. 5 *A* Pe bae gwyr ei pab, *C* ar ben gwrs y penna, *D* pe bae gwyr y Pab (pe bae gwr y Pab), *IM* pe bae gwŷr y pâb. 6 *B* pwynt rryfedd; *ADIM* pen yw trefor, *CN* penna trefor. 7 *B* y pedeiriaith, *C* yn y pryddwaith. 8 *ADIM* pedr yw ef ir pedair, *C* pedair yw yn y pedair, *N* pedr yw awyr pedeir. 9 *BEN* pyrhaps ystor, *C* pyrhav ys for. 10 *BN* paris, *C* per, *M* perais; *C* nifor pvr i nefor. 11 *B* corynniad caer went. 12 *EH* carv mewn, *JP* karw mawr. 13–14 [C]. 13 *B* cob kann ffwr, *N* kapdan ffwr. 14 *ADIM* karw kryf *gyda* cawr cryf y *testun yn amrywiad yn D*; *AHI* yn küro, *M* yn curio. 15 *ADIM* kleinsio i Lyfr, *BN* klosiai lyfr, *C* keissio i lyfr, *H* kliosie lyfr; *ADI* klownsio



o lên, *BEJ* klowssie o len, *H* klowise olen, *M* clownsio len, *N* klowais i len, *P* klowse o len. 16 *EJ* kanv i fferen, *N* kaw'n y fferen. 17 *H* amyned *gydag* a mynd *mewn llaw ddiweddarach*. 18 *C* a rhoddi neges Rytherch, *H* ar roddi mwy nordderch *gydag* ar roddi mwy na Rhydderch *mewn llaw ddiweddarach*. 19 *J* greft; *B* ffydd; *C* o herwydd. 20 *ADIM* gwen a, *C* gwan a; *C* gen gwyrant, *E* gen gywraint, *H* gan gowraint, *M* gwn geraint. 22 *AD* edwyn gael a diwyne i gyd *gydag* ar bai fo ai gwyr ygyd *yn amrywiad yn D*, *C* ar bai ef a gwyr y byd, *I* edwyn gael ai diwyne i gyd, *M* Edwÿn gael a'i diwne gÿd, *N* ar bai ef a wyr y byd. 23 *I* chân; *J* geffawg. 24 *AIM* wrych yr hiw, *B* erchi a rroi, *JP* i iwrc'h o rriw, *N* i wrych yr hiw; *B* iwrc'h y rrawg, *JP* ai erchi rrawg, *N* [i] erchi r rhawc. 25 *ADIM* ag vn yn vnig ir gwr, *H* ag vn anys ygwr, *N* ag vn o enyg y gwr, *P* ac vn a gynnic y gwr. 26 *BHN* gas; *ADIM* ai negeswr. 27 *ADIM* Dafydd benkerdd a difai, *B* a dafydd bencerdd difai, *EJ* dafydd benkerdd a ddevai, *H* dafydd benkerdd da difai, *N* Dafydd benkerdd wlch difai. 28 *ABDEHIM* o chae yn well erchi a wnai, *C* o chae i well erchi a wnai, *N* achri yn wych erchi awnai. 29 *H* yberson bwriavay. 30 *ADIM* tario ar frig y tir fry, *H* taro ifrig, *N* yn toro i frig. 31–2 [*BN*]. 31 *H* ynill da anen ill dav. 32 *ADI* a dowod yw feüdüaü, *C* a dywod ir bedevav, *E* ar dywod ir bevdivav, *H* yno dowod ir bevdayv, *M* A dowad iw fedauaü. 33 *M* rhawod o; *AI* o fôn. 34 *C* o goer blith, *N* o gyfrbleth; *M* [a] Geifr, *P* y geifr; *B* brithion *gyda* blithion *mewn llaw ddiweddarach*. 35 *H* hafo *gyda* hafog *mewn llaw ddiweddarach*. 37 *ADI* o dai i ofyn, *M* Od a'i i fôn; *I* gwedi. 39 *M* naill y ddauwr, *N* naill or ddevwyr. 40 *BCEH* cais chwannog. 42 *N* mynv kael ymenyn. 43 *ADIM* ni chais na fforfa na chaü, *B* ag ni chaiff borfa na chae. 44 *P* yr adyr *gydag* yr adar *mewn llaw ddiweddarach*. 45 *C* nid a dan, *N* nidawan. 46 *C* or ty, *O* os tyf. 47–8 [*AIM*]. 47 *H* nagay. 48 *H* oi blith; *H* blan. 50 *H* sy ynform; *ADIM* os ân yw frig. 51 *C* mintai fall, *I* mintai/r fal fall. 52 *C* kodi; *AIM* kydenllaes, *O* cednllaes. 55 *EHP* gwedi i gael; *IM* llygaid a gwer. 56 *ADIM* siaffar gwaith. 57 *B* dilyth; *H* krin; *C* diawlid, *H* dewlaid, *N* dialaid. 58 *BEJNO* kneio r, *C* pilior, *H* kynoi r; *M* cynarf. 59 *O* wâr y; *H* plvor. 60 *JOP* kayad. 61–4 [*O*]. 61 *B* na vo, *CP* ni bo; *N* ddevwyr. 62 *ADIM* na gwellhaü. 63 *B* in tir ni, *N* in tir byth; *ABDI* na ato, *M* nat, *N* na ater; *N* [Mair] bod.

### Teitl

[*CE*], *A* Ateb i hwn, *BD* ateb ir cowydd uchod, *F* I Berson Trefor, *GN* kowydd yn erbyn y kowydd or blaen, *H* cowydd i berson trevor, *I* Ateb i hwnw o waith gr ap tüdyr ap howel, *J* llyma ateb ir kowydd vchod, *K* Ir un achos, *L* Atteb i hwnnw. G.T.H., *M* Cowydd ateb o blygyd y Geifr gan G: ab Tudur ab Howel *a cheir y nodyn rhagarweiniol a ganlyn o flaen y teitl* Mae Gryffydd ab Tudur ab Howel yn ateb Tros y personiaid Eraill, *O* I'r geifr. *O* Atteb i'r cywydd uchod y gwelais yn dda ar ffrwst dynnu r pennillion hyn sy yn canlyn, *P* kowydd ateb ir kowydd uchod.

*Priodoliad*

*AIJOP* gruff ap Tudvr ap hoell ai kant, *BLM* gruff ap tvdvr ap howel, *C* gruff ap hoell ap tudr ai kant, *D* Gruff: ap Howel ap Tudur. nev, Gruff: ap Tudur ap Howel. *E* gruff ap tvdr ap holl alys heraythoc ai k, *F* Gruff: ap Tud: ap Howell o dir Mon, *GN* Gryffydd ap tudur ap howel gwr bonheddic osir fon ai kant, *H* gruff ap tudvr ap howel odir mon ai kant, *K* Gryff: ap Tudur ap Ho<sup>ll</sup> alias Hiraethog,

*Trefn y llinellau*

*AILM* 1–46, [47–8], 49–64.

*BGN* 1–30, [31–2], 33–64.

*C* 1–12, [13–14], 15–64.

*DEJKP* 1–64.

*F* 1–26, 28, 27, 29–30, 32, 31, 33–64.

*H* 1–30, 32, 31, 33–64.

*O* [1–42], 43–60, [61–4].

*I ofyn alarch gan Faredudd ap Tomas o Borthaml  
dros Ddafydd ap Gwilym gan Syr Dafydd Trefor*

- Alarch: ‘Pwy’r dwylo piau’r delyn  
A glywaf draw gerllaw’r llyn?  
Pwy sy’n canu fry mor frau  
4 Yr organ uwch yr argae?  
Ai’r fronfraith, frau araith frig?  
Ai Siôn Maswn, sŵn miwsig?  
Ai’r llatai gynt? Ai’r Llwyteg  
8 A gân y darian mor deg?’
- Dafydd ap Gwilym: ‘Ai gweddw wyt? Nage ddim!  
Y’m gelwir Dai ap Gwilym.’
- Alarch: ‘Troes Duw’r dŵr hyd drws dy dŷ,  
12 Os Dai wyt, nos da yty!  
Parabl hygar wrth garu  
Gennyt i ferch gynt a fu.’
- Dafydd ap Gwilym: ‘Pwy wyt tithau, hyglau hawnt,  
16 Simwr welw, sy mor alawnt?’
- Alarch: ‘Alarches wyf i berson  
Llanallgo, gan syrthio sôn.  
Er Duw, Dai, Gwalchmai’r gwin,  
20 Dywaid, arian yw d’ewin,  
I ba ddŵr ydd a’ i wra?  
Ymbluo ’dd wy, i ble ’dd a’?’
- Dafydd ap Gwilym: ‘Dos at Fredudd, ddyhuddwr  
24 (Merch a gân, march a gŵr),  
Mab Domas, gwanas y gwin,  
A ddwg Brân o ddeg brenin;  
Mawr urddas ei blas a’i blwy,  
28 O fyw Efa fo â fwyfwy.  
Merch i Rys, mawr echrysaint  
A dorro swyn Duw a’r saint;

- 32 Fy achwyn, ei chlafychu  
 Acw liw dydd o'r clwy' du;  
 O orfedd Efa araul  
 Y rhoed y clip ar yr haul;  
 Codi ei phen ar obennydd  
 36 Oedd ei rhoi'n des hanner dydd.  
 O daw cymanfa i'n mysg  
 Neu dyrfa fawr neu derfysg  
 Fo red yn ôl Maredudd  
 40 Yn gyfa' ei wlad, yn gyfludd.  
 Cyd gallwn, o gydgellwair  
 I fawr ei goed, fwrw gair,  
 Ni sai' mil ar y sy ym Môn  
 44 Yn ei wyneb yn union.  
 Nid llai'r dyrnod arfodig  
 Gan y braich, er gwynnu'r brig.  
 Ei lawenydd ar lannerch  
 48 Agori ei safn â gair serch,  
 A chi buan ei waneg  
 A march o dŷ a merch deg.  
 Llyn ag elyrch llawn golud,  
 52 Ystôr o draul gwas dewr drud.  
 Rhanned alarch o'r rheini,  
 Mawr, teg, yn gymar i ti:  
 Edyn balch a wyngalchwyd  
 56 O fewn y llyn, a fu'n llwyd;  
 Llong fawr, lle eang a fyn,  
 Ar y dŵr yw'r aderyn;  
 Y reiwl yw ar y lan,  
 60 Yn reiwlach na'r wylan;  
 Dyrru o'r adar ereill,  
 Mynnu o'r llyn mwy na'r lleill.  
 Codi hwyliâu cyd helynt  
 64 A bwrw cân uwch brig gwynt;  
 Rhwyfo'r dŵr rhof a'r darren,  
 Bwrw dwy balf, bwrda â'i ben  
 A'i ddwy adain o'i ddeudu  
 68 O'i drwsio'n blât dros ei blu.  
 Hwnnw a gei, heini gywen,  
 Yn geiliog yt dan glog wen.  
 Dod weddi, heb dorri dydd,  
 72 At Fair ado yt Fredudd

I gael oes cyd â Moesen  
A mynnu ôd ym Môn wen.'

*Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 405 B—Pen 112, 161 C—Wy 1, i, 128, 131  
(*llau. 1–10, 59–74*)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *AB* Pwy yw r dwylaw. 5 *C* Ai bronvraith. 11–58 [*C*]. 11 *B* Troes Duw dwr. 12 *B* os da wyt. 17 *A* alerches. 29 *A* merch rys i mawr ychryssaint. 31 *A* i chylfychv. 35 *A* kodi ffen. 36 *B* oi rhoi n des. 37 *A* kymynfa. 45 *A* arfadig. 57 *A* eng. 60 *A* ereiolach, *C* y reiolach. 61 *AB* dyryrio radar, *C* derreirio r adar. 65 *A* rrwyfo i dir, *C* rhwyfo dwr. 66 *C* bwrديو. 69 *AB* hwnw a gai, *C* hwnn a gai.

*Teitl*

[*C*], *A* kowydd i ofvn alarch i mreidd ap thomas o borthamal yn hir mon, *B* kywydd i meredydd ap Tomais o Borthamal ap [ ] i erchi alarch i syr Dafydd Trefor person llanallgo.

*Priodoliad*

*AB* Sir dauidd trefor ai kant, *C* Syr Davydd Trefor.

*Ateb i'r cywydd gofyn alarch  
gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

- Alarch: 'Y gog fedleilas a gân  
Ar irgoed lais yr organ,  
Brau y cefaist mewn brig gwiail  
4 Araith deg i'r eithaf dail;  
Canu'r wy' y gân ar wyll,  
Coelia' i 'ch Ebryw, cloch Ebrill,  
Purlas bryd â'r perlais brau,  
8 Parodd ofn, prudd wyf innau.
- Y gog: Pwy'r milwr gwedd palmer gwyn  
Sy mor wiw, simwr ewyn,  
Alarch wisg golerwych wen,  
12 Geseiliad wyd, gasulwen?  
Beth a wnei di, wisg liain,  
Yn brathu drwy berthi drain?'
- Alarch: 'Myned, och nad wy 'm Mynyw!  
16 O'r dŵr ydd a' i Dre Ddryw.'
- Y gog: 'Ai lladd a wnaethost i'r llyn  
Gelain, y macwy gwelw-wyn?'
- Alarch: 'Nage, gwae finne am fôr,  
20 Trof rhag fy rhoi i'r Trefor.  
O châi, am ei wych awen,  
Mewn twyll fawr, fy mantell wen  
Yntau a'm bwriai mewn bâr  
24 Ymysg ieir am ysgyfar.'
- Y gog: 'Mae Hywel yr aneilun,  
Drwyn gwlyb a'r drofa'n ei glun?'
- Alarch: 'Hwnnw, os daw, yn hons du,  
28 Yn foel, wedi'i ddyfalu,  
Gwae lle dêl, gwell oedd elawr  
No mynd gyda'r cythrel mawr.

- 32 Myfi 'n santwari a sai',  
Ym bywyd! Pwy a'm beiai?  
Dos dithau, gog, flewog flwch,  
I groŷwfan pob digrifwch,  
I dai Porthamal a'i dôl,
- 36 Neuadd wŵr, ne' ddaearol.  
Cân beriaith cyn y borau  
Gerbron 'y meistres, gair brau;  
Merch Rhys fry, ni necy neb,
- 40 A wrendy pob gwiriondeb.  
Arch di rodd, eurddrych roddion,  
O'r llys fawr i iarlles Fôn  
Beri i'r gŵr brau rhagorol,
- 44 Er Mair, na yrred i'm hôl;  
Gwyn y tyfais, gwnaed hefyd  
Drofa i'r rhain drwy fawr hud:  
Rhoed geiliagwydd nawmlwydd nâd
- 48 Â lliw gwyn yn llaw ei gennad.'

*Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 407 B—J 139 [= RWM 14], 418 C—Pen 112,  
164 D—Wy 1, i, 131 (*llau. 1–28*), 129 (*llau. 29–48*)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

3 *D* brav ceûaist; *B* ymrig gwiail. 4 *D* araith da ar eithaf d[ ]. 8 *B* parodd fanerch. 11 *ABD* galarch. 12 *ABD* geseilwyd, *BD* geseilwyd, *C* geseilud. 14 *AC* berthi a drain. 17 *B* i wneythost; *D* or llyn. 20 *AC* troya, *B* troyas, *D* Troiaf. 23 *AC* yma fom bwrie. 24 *D* ystûar. 28 *D* wedy nyvalu. 29 *D* llei. 31 *C* Myfi ym, *D* myvi ir. 33 *B* does dithe. 34 *A–D* groefan. 37 *A* beraith. 41 *D* arch di n wych. 44 *C* ir. 45 *C* Gwn yt tyfais, *D* gwynn y tyfaist. 48 *A* yn llaw r genad.

*Teitl*

[*D*], *A* kowydd etto irvnriw alarch, *B* kowudd alarch, *C* kowydd ir doededic Alarch ac i ateb y kowydd or blaen.

*Priodoliad*

*ABC* grvffvdd ap Tvdvr ap hoell ai kant, *D* Gr ap Tud<sup>r</sup> ap [ ].

*Y baich drain**gan Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn*

Noswyl Fair, fy llaswyr fu  
 Ar fy mysedd i Fam Iesu  
 A sonio cyn oes henaint  
 4 Mal Sawl a fu'n moli saint,  
 Pan welais, ni soniais i,  
 Henwr aruthr hwy no Eryri  
 Ac ar ysgwydd, gair asgen,  
 8 Swp rhudd fal y siopwr hen;  
*Gwden* oedd gadwyn iddo,  
 Mieri fil am ei war fo,  
 Gŵr un fodd â'r gerwyn fail,  
 12 Ebwch gau, â'r baich gwiail:  
 Gŵr meddw mawr, gormodd maint,  
 Gwas garir megis Geraint;  
 Yntau'r clip tywyll, hylltraul,  
 16 Pwn rhwth, a fu'n poeni'r haul.

'Nage, Hywel y'm gelwir,  
 Wŷr Adda hen, irwydd, hir.'

20 'Ple buost yn plâu bywyd?  
 Pestel cain, pa ystol cyd?'

'Yn y plas, dinas a dâl,  
 I'th ymyl fry 'm Mhorthamal;  
 Llawenydd mewn lle unoed  
 24 Y gŵr a'r wraig orau 'rïoed.  
 Aros y bûm, eres barch,  
 A selu dewis alarch;  
 Anrheg Nudd i ddyhuddo,  
 28 Pwrs un draul â'r person draw.'

'Mae medd-dod gwedi codi,  
 Ffrwyn dost, yn dy ffroenau di;  
 Mae ar dy war gymar gŵydd,  
 32 Edyn amlwg deunawmlwydd.'



‘Och am fôr hyd ’y nghorun  
I ysgar haint, os gwir hyn!’

36 ‘Cerdda lle bo gwyllo gŵydd,  
Cei log am y ceiliagwydd.’

40 ‘Minnau af at Syr Dafydd  
Dan braw’ er fy mod yn brudd,  
Fo yrr y ffrwd o Fôr Ffrainc  
I Drefor adar ifainc.’

44 ‘Dos yn grwm, un swm â sach,  
Drwy byllau adre bellach;  
Gwna rost erbyn geni’r wŷn  
O goginiaeth y gwanwyn;  
Myn dyweirch a mawn duon  
A thân mawr o eithin Môn;  
Trwsia’r bêr, wtreswr byd,  
48 Tro’n dorllaes, â’r trwyn dyfrllyd;  
Ys da fael o’i rostio fo  
Deirnos, cei Ynyd arno!’

### *Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 409 B—Pen 112, 166 C—Wy 1, i, 130, 135

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *B* Hollwyl Vair. 2 *C* ar vyseidd. 3 *C* cynn naws. 9 *AC* gwodyn, *B* Gwydn. 10 *C* mieri vyth. 15 *C* ynte y clips. 18 *C* erwydd. 19 *A* ple bvodd; *B* ym plav, *C* yr plav. 20 *B* pestyl kam. 24 *AB* wraig gore. 30 *AB* ffroen di. 33 *C* voi. 35 *C* llei. 39 *C* y ffrwyd. 40 *B* irvaink. 44 *AB* a choginiaeth ddechre gwanwyn. 48 *C* trv n dorllaes. 49 *AB* fael yn i. 50 *C* deirnos gael.

### *Teitl*

[*C*], *A* llyma gowydd arall ir doededig alarch, *B* kowydd i atdeb y kowydd vchod ac etto ir doededic Alarch.

### *Priodoliad*

*AB* william ap dd ap Ieuan ap ll ai kant, *C* Wm ap dd ap Ieun ap ll.

*Casglu'r alarch*  
*gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

- Hywel Adda hael oeddwn,  
 Helaeth gorff hylith y gwn;  
 Pob tu i'r ddwywlad a adwen,  
 4 Odid tŷ â diod hen.  
 Ni myn Syr Dafydd fy mod  
 Heb boen, mi yw'r mab hynod,  
 A'm cymell gyda chellwair  
 8 Er cerdd, lle tebyg y cair,  
 A'm gyrru, pe y'm carai,  
 Drawst du noeth, drosto a wnâi.
- Bûm yn casglu fry 'n y fron  
 12 O'r cymau afrod ceimion;  
 Rhwygo 'mhais, difantais fu,  
 Rhemwth, cael fy ngoframu;  
 Yn grwn fo'm gyrrai i'r fall  
 16 Yr awron i le arall,  
 I Borthamal, o falais,  
 Lewyrch gwyn, alarch a gais.
- Dyfod yno groeso a gawn:  
 20 Be dôi ddeugant, bwyd ddigawn!  
 Cael bragod, cael gwirodau,  
 Cael cyfedd, cael broesfedd brau,  
 Cael gwinoedd yno, cael gwynfyd,  
 24 Cael bara bwn, cael brig byd,  
 Ac wrth ymannerch ar gudd  
 Ymradwy yna â Mredudd:  
 'Dal,' heb ef, 'genef dy god,  
 28 Diau alarch sy'n dywod;  
 Prynawn ni'th nacawn o'th ged,  
 Gwylia n'ad gael ei gweled.'
- Ei dwyn i Lanallgo i dir  
 32 Yn gaead a wna' yn gywir;

- Llawen fydd gŵr llên, nid llai,  
 Paun claeaf, pan y'm clywai.  
 A bost pan welais ei ben  
 36 Crychwyn, yna rhoi crechwen:  
 Minnau'n brudd, grinrhudd groenrhwd,  
 Yn cael ceiliagwydd i'm cwd!  
 Ni mynnai sôn, berson barch,  
 40 Na'i weld am na bai alarch;  
 Mredudd, ŵr cymeradwy,  
 A'i rhoesai, ni mynnai mwy.  
 Dig ym fu, dugum fo  
 44 A'i amcanu i'm cinio.  
 Cyneuais dân anianol,  
 Ei werth o fawn wrth ei fol;  
 Yntau fyth, er tân, a fu  
 48 Yn wydn, heb anwaedu.  
 A mi'n gyfin mewn gofal  
 I'm tŷ a'r chwys am y tâl,  
 Yna y doeth, brau eirddoeth brys,  
 52 Y teiliwr i'm tŷ, Lewys  
 Ap Tudur, gweadur gwawd,  
 Bwriai ei fod yn barawd;  
 Bu o'i rodd air byr oedd well,  
 56 Barn y byd, bwrw'n y badell  
 Bargaen ffagodau byrgoed,  
 A berwi'r corff â brig coed.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14969, 258<sup>v</sup> B—Card 1.550, 52 C—Card 2.114 [= RWM 7], 409 D—J 139 [= RWM 14], 194 E—LIGC 3050D [= Mos 147], 122 F—Pen 112, 166

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

3 *D* tŷ/r; *ABE* [a] adwen, *D* i adwen. 8 *ACEF* lle i tebig. 10 *B* draws dy noeth; *C* drosda. 14 *E* kemwth; *B* fyngofranu. 15 *ABE* yrowon fom gyrrai ar wall. 18 *D* i gais. 19 *B* dywaid yno; *ABE* kroeso a gawn, *D* gyrru fo gawn. 20 *ABE* pe. 22 *AE* broysedd, *B* br, *D* brwysfedd. 24 *D* brig vd. 26 *D* yno. 29 *ABE* o ged. 30 *ABE* kael. 31 *ABE* [i] dir. 33 *ABE* llon. 34 *D* yn klowai. 35 *D* i bost. 36 *ABEF* yno, *D* yna/n/. 37 *D* gronnrd. 40 *D* [am]. 41 *ABE* gwr. 43 *D* dir. 46 *D* o fewn. 48 *BD* enwaedü. 49 *A* gofyn, *B* gyfyng, *D* gyfan, *F* gyfing. 51 *D* [y]; *ABDE* evrddoeth. 58 *A* a berw/r/ korff, *BE* [A] berw/r korff, *CF* [A] berwir korff.

*Teitl*

*A* Cowydd i alarch, *BE* kowydd i ofyn alarch, *C* y pydwerydd kowydd i ralarch, *D* kowüdd alarch, *F* kowydd etto ir doededic Alarch.

*Priodoliad*

*AE* Gruffydd ap Howel ap tudyr ai kant, *B* Gruffydd ap Howel ap Tudur ai Cant (1450), *CDF* grvffydd ap Tud<sup>r</sup> ap hoell ai kant.

*I ofyn gordderch a thelyn o law Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn  
gan Syr Dafydd Trefor*

Cariad merched a'm curiai  
 (Mae arnaf bwnc mawr a bai),  
 A'r merched a gâr marchog  
 4 A'r gwiail aur ar ei glog;  
 Rhy hen y'm gwelen' o'm gwedd,  
 Rhy wynion yw'r rhianedd!  
 8 Gwae'r sawl yn caru y sydd  
 Graffed Syr Wiliam Gruffudd:  
 Hydraf gŵr hyd draw a gair,  
 Hyfaf, gallaf ei gellwair.  
 Ef a wnaeth yn famaethod  
 12 Lawer un o eiliw'r ôd  
 A minnau sy fal monnyn  
 Neu mal brawd moel heb yr un.  
 Digiodd swrn, deg iddo sy,  
 16 Degymed un deg ymy;  
 Ceiliog gwrol clog arian  
 A fyn o'r ieir fwy no'i ran:  
 Ni chilia un o chlyw wynt  
 20 Tarw rhywiog trwy'r rhewynt;  
 Nid rhaid am un gannaidd gu  
 I bennaeth ond whibanu,  
 Meinir allan o'i maenol  
 24 A rydd naid rwydd yn ei ôl.  
 Pob siort aeth ar ei ffortun,  
 A gwyllo'r wy' heb gael 'run!  
 Rhai'n hen a greden' i'r grog,  
 28 Rhai'n ieuainc, rhy wynafog;  
 Oni rydd un o ruddiau ôd  
 O'r rhai ieuainc o'r hafod,  
 Fo ddamwain y rhydd ymy  
 32 Un hen i warchod fy nhŷ.  
 Gair rhwydd gan yr arglwyddes  
 A wnâi fy chwedel yn nes:  
 Dâm Siân, hyd yr amcanwn,  
 36 A rydd help ar y rhodd hwn.

40 Mae rhai'n sôn uwchlaw Conwy  
Na ddawr pei cawn un neu ddwy;  
Mae rhan heb ofyn ond rhodd,  
Minnau ddiriwn am ddwyrodd.

44 Rhaid gofyn telyn i'm tŷ  
O ddi ddyn i'w diddanu;  
Tannau pêr, tyner hyd hon,  
Rhawn a leisiai'n hirlaesion;  
Ebillion gwynion ar gân  
A ch'weirgorn gwych ei organ;  
48 Lluosog lais brigog, brau,  
Sown melys sy 'n ei 'mylau;  
Mae hanner cainc fer i'm co'  
A cha' arall ei chweirio;  
52 Y nos ei chymryd a wnafl,  
Ar fy mol yr ymaelaf;  
Dyhuddo'r ferch, draserch dro,  
Fain ei gwasg oni gysgo;  
60 Cripio â'm dwylo'r delyn,  
Hepian fy hunan o hyn;  
Ysbort arall nis galla',  
Mae'n dda gan wen ddyn a'i gwna.  
Telyn wen siambrlen sydd  
I'm llenwi mewn llawenydd.

64 Dêl ym wych delyn i'm ôl  
A gordderch marchog urddol.  
O gŵyr ym ddewis a'i gael,  
Mi wn ddewis em dduael,  
Un winau, ddoeth a wna'n dda,  
Un wen, odid na neidia.  
68 Rhiain pan gyrcho'r heol  
A wyra ei hael ar ei ôl  
A'i bys i'm gwegil, a'i bâr,  
A'i llygad ar ddyn lliwgar;  
Gwell ym un a faco llo  
72 Orhenaidd no'r wawr honno,  
Neu ddynes sad, ddiweniaith,  
A wylia'r gell lawer gwaith.

76 Er gofyn gwenddyn mewn gwawd  
Acw i wrda mewn cardawd,

Am y dël adre'r delyn  
Ni wŷr Dduw waeth na ddô'r un.

### *Ffynonellau*

A—Bangor 556, 81 B—Bangor 13512, 70 C<sup>1</sup>—BL Add 14874 [= RWM 51], 87<sup>r</sup> (*llau.* 37–78) C<sup>2</sup>—BL Add 14874 [= RWM 51], 280<sup>r</sup> D—BL Add 14962, 15<sup>r</sup> E—BL Add 14965, 189<sup>r</sup> F—BL Add 14969, 1 G—BL Add 14975, 143<sup>v</sup> H—BL Add 14978, 275<sup>r</sup> I—BL Add 31058, 133<sup>r</sup> J—BL Add 31085, 11<sup>v</sup> K—Brog (y gyfres gyntaf) 5, 336 L—Brog (y gyfres gyntaf) 6, 56 M—Card 1.550, 71 N—Card 2.114 [= RWM 7], 394 O—Card 3.68, 245 (*llau.* 42–74, 77–8) P—Card 4.10, i [= RWM 84], 653 Q—Card 4.156 [= RWM 64], 393<sup>r</sup> R—CM 5, ii, 419 (*llau.* 73–8) S—CM 27, 202 T—CM 39, 7<sup>v</sup> U—CM 242, 201 V—CM 454, 419 W<sup>1</sup>—Gwyn 2, 30<sup>r</sup> W<sup>2</sup>—Gwyn 2, 136<sup>v</sup> X—J 137 [= RWM 12], 102 Y—LIGC 162D, 112 Z—LIGC 165C, 129 a—LIGC 668C, 71 b—LIGC 832E, 12 c—LIGC 834B, 104 d—LIGC 3047C [= Mos 144], 116 e—LIGC 3050D [= Mos 147], 451 f—LIGC 3056D [= Mos 160], 403 g—LIGC 5269B, 129<sup>v</sup> h—LIGC 5272C, 159<sup>r</sup> i—LIGC 6499B, 237 j—LIGC 9048E, 69<sup>r</sup> k—LIGC 9166B, 338 l—LIGC 10748D, 6 m—LIGC 11816B, 44<sup>v</sup> n—LIGC 13125B, 520 o—LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1], 49<sup>v</sup> p—LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5], 33 q—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech 1], 197 r—Llst 54, 33 s—Llst 120, 22<sup>v</sup> t—Pen 73, 75 (*llau.* 1–20, 25–60) u—Pen 112, 304 v—Pen 114, 67 w—Pen 198, 232 x—Pen 239, 110

Nodir yn y rhestr uchod fod copi o'r cywydd i'w weld yn llawysgrif Card 3.68, 245: dyna'r wybodaeth a roddir yn rhestr gynnwys y llawysgrif. Bellach, fodd bynnag, dilynir td. 241 llawysgrif Card 3.68 gan dud. 246 ac felly dim ond llau. 42–74, 77–8, a gadwyd; codwyd teitl y gerdd o restr gynnwys y llawysgrif. Dylid nodi hefyd fod rhai darlenniadau yn llawysgrif LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5], 33, yn aneglur oherwydd traul ar y llawysgrif. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlenniadau amrywiol*

Y mae 52 o gopïau o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Gan fod y gerdd yn digwydd mewn cynifer o lawysgrifau ni ddangosir darlenniadau llawn o'r holl lawysgrifau yma. Codwyd darlenniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlenniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–10, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlenniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlenniadau eraill yn gopïau agos ohonynt. Ymranna'r 52

copi llawysgrif yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybod-aeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

E—BL Add 14965, 189<sup>r</sup>

G—BL Add 14975, 143<sup>v</sup>

H—BL Add 14978, 275<sup>r</sup>

N—Card 2.114 [= RWM 7], 394

R—CM 5, ii, 419 (*llau.* 73–8)

W<sup>1</sup>—Gwyn 2, 30<sup>r</sup>

W<sup>2</sup>—Gwyn 2, 136<sup>v</sup>

X—J 137 [= RWM 12], 102

e—LIGC 3050D [= Mos 147], 451

f—LIGC 3056D [= Mos 160], 403

h—LIGC 5272C, 159<sup>r</sup>

j—LIGC 9048E, 69<sup>r</sup>

p—LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5], 33

s—Llst 120, 22<sup>v</sup>

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

[1–72] *R.* 1 *ENW<sup>2</sup>efhps* karv. 3 *W<sup>1</sup>* [A'r]; *GW<sup>1</sup>* gar y marchog. 6 *EGNW<sup>1</sup>Xefhps* yw[’r] rrianedd, *H* vy rhyanedd. 7 *G* a gwae’r, *H* gway; *E* sawl a garo sydd, *GW<sup>1</sup>* sawl n karv sydd, *H* swrn yn karv y sy, *Nefhps* sawl ar a garo sydd, *W<sup>2</sup>* sawl i garu [y] sydd, *X* sawl a garo y sydd. 9 *e* hyd tra a. 10 *EGh* hyfaf y gallaf gellwair, *Nes* hyfa i gallaf i gellwair, *W<sup>1</sup>* a hyfa i galla i gellwair, *W<sup>2</sup>X* a hyfa i gallaf gellwair. 11 *GH* y fo a, *W<sup>2</sup>* efo a; *W<sup>2</sup>j* o vamaythod. 12 *W<sup>2</sup>* llawer yn vn; *G* o ddeiliwr od, *W<sup>1</sup>fp* o liwr od, *W<sup>2</sup>* llyw ar od. 13 *E* a minne fal y mynwn, *Nfps* a myne fel y monyn, *W<sup>2</sup>* minne sydd fal monnyn, *X* mine y sydd ym an vn, *eh* amine fal y mynvn. 14 *X* meddw rwydd ni medda y rvn. 15–16 [*W<sup>2</sup>*]. 15 *Hj* digio, *W<sup>1</sup>* digwydd; *X* ysy. 16 *j* degemmed werth deg. 17 *ENefhps* keiliog evraid. 18 *W<sup>2</sup>* fo fyn or. 19–24 [*W<sup>2</sup>*]. 19 *Eh* ni chel wen, *G* ni choilia gwen, *H* ni choylie wen, *Ns* ni choel wen, *W<sup>1</sup>f* ni chilia wen, *e* ni choelia wen; *G* o chwywr gwynt. 20 *j* darw; *j* drwy r. 21–4 [*ENefhps*]. 21 *GW<sup>1</sup>* ar ddivn, *H* am ddyn, *X* ir ddyn. 23 *W<sup>1</sup>* meinir yno oi maenol. 24 *j* rwyd; *W<sup>1</sup>* [ei]. 25 *W<sup>2</sup>* pob ysbort sydd ar, *X* aeth pob siort ar. 26 *H* ai gwilio rwy, *W<sup>1</sup>fp* [A] gwilior wyf, *W<sup>2</sup>* [A] gwilio i rwyf, *X* ai gwilio i rwy, *e* ag wylo i rwyf. 27–8 [*H*]. 27 *NW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>s* rrai hen; *e* grede ir. 28 *s* [n]; *Eh* iefaink or rhyw nafog, *G* ifaink yn rhy nwyfog, *Ns* ifaink yn rry nafog, *W<sup>1</sup>* ifeiank rhy nafog, *W<sup>2</sup>X* Iefaink rhy anafog, *e* ifaink or rywynafo, *j* ieuaink rhiw anafog. 29 *E* om rhydd, *W<sup>2</sup>* odaw;



*EGHNW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xefhps* vn [o]. 31–4 [*W<sup>2</sup>*]. 31 *EGHNW<sup>1</sup>efhps* o ddamwain, *X* oddainwain; *Eh* rhodded imy, *G* e rydd imy, *X* eddaw ymy. 32 *HNXs* i gynal yn hy. 33 *X* a gair rhwydd; *H* wrth yr arglwyddes, *X* [gan] yr arglwyddes, *fp* gan farglwyddes. 34 *HX* a wna. 35 *W<sup>1</sup>* gan sian; *Eh* yd yr amkanwn, *X* lle ir ymkanwn, *fp* hyd yr amkanon. 36 *W<sup>1</sup>* a rrydd i, *fp* [*A*] rhydd; *Eh* help o roddi hwn, *Ns* help ir rrodd hwn, *W<sup>1</sup>X* help ar rrodd hwn, *W<sup>2</sup>* help arodd hwn, *e* help or rodd hwn, *fp* help ar y rhodd honn. 37–8 [*W<sup>2</sup>*]. 37 *ENhs* mae son, *efp* y mae son; *GHW<sup>1</sup>X* vwch konwy, *N* yw law konwy. 38 *E* na ddawn; *W<sup>1</sup>* vn pe; *G* kawn vvn ddwy, *H* kae ymy ddwy, *W<sup>1</sup>X* kawn onyn ddwy, *fp* keisiwn i ddwy. 39 *W<sup>2</sup>* [*Mae*]; *EGHW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xh* rhai ni, *Nefps* rrai heb. 40 *ENW<sup>1</sup>efhps* mine a ddirwyn, *G* mine ddiria, *W<sup>2</sup>* mine addiraf, *X* mine addiriwn, *j* minney dderiwn; *W<sup>2</sup>* [*am*]. 41 *GW<sup>1</sup>* Pau ta kael telyn, *X* am hynn bod telyn; *W<sup>1</sup>* mewn ty. 42 *GHP* ddyn oi. 43 *EGHNW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xefhps* tyner i ton. 44 *Eh* a lleisiav, *GW<sup>1</sup>X* o leisiav; *Eh* hir llaesion. 45 *GHX* a gan. 46 *Eh* vwch [*ei*] organ, *Hj* wych y organ, *W<sup>2</sup>* gwych oorgan, *X* ywych i organ. 47 *Eh* lleisiog llais, *N* llaosog llais, *e* lleiossog a llais, *fs* lliosog llais, *j* Levysog lais. 48 *EGHNW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xefhs* swn. 50 *EHNW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xefhps* o chaf, *G* o chai; *EHW<sup>1</sup>W<sup>2</sup>Xefhp* arall yw, *Ns* arall oi. 51–2 [*W<sup>2</sup>*]. 51 *GHW<sup>1</sup>* ar nos. 52 *EHNW<sup>1</sup>Xefhs* i rimialaf, *G* i rimiela. 53 *Ne* drof. 54 *Ne* gysgof. 55–6 [*j*]. 55 *H* ar. 56 *GW<sup>1</sup>* er hvn, *p* fal hyn. 59–62 [*W<sup>2</sup>j*]. 59 *G* wen ir, *W<sup>1</sup>X* wen i; *HNefps* y sydd. 60 *W<sup>1</sup>X* am lleinw. 61 *W<sup>1</sup>* del yn, *X* del y, *e* dal yn; *W<sup>1</sup>* yn ol. 63–4 [*W<sup>1</sup>*]. 63 *EGHNXefhps* os gwir ym, *W<sup>2</sup>* os bydd ym; *X* yw gael. 64 *EGNefhs* mi a wn, *X* miawn i; *H* mia a yn, *W<sup>2</sup>* mi awna im; *E* [*em*]. 65–6 [*W<sup>2</sup>*]. 65 *ENXefhps* a wnai dda, *GHW<sup>1</sup>* a wna dda. 67 *GHXj* y rhai; *Eh* pan gerddo r, *H* pan el ir, *W<sup>1</sup>* pan ddel ir. 68 *W<sup>1</sup>* a wyrail /i/, *W<sup>2</sup>* hi awyra i. 69 *HI* bys, *X* a bys; *Ns* oi bar, *e* a bar. 70 *Eh* llewgar. 71 *G* gwell oedd, *W<sup>2</sup>* gwell yw; *W<sup>2</sup>* afacko i llo, *f* i fagv llo. 72 *G* or haner nar. 73–8 [*p*]. 73 *ENRefhs* ne ddynes yn ddiweniaith. 74 *EGHRefhs* a wilier, *W<sup>1</sup>* a wela/r/, *W<sup>2</sup>* awilio r, *X* a wiliai/r/; *W<sup>1</sup>* gwall; *Eeh* llawer. 75 *ERefh* gwenddyn a gwawd, *GX* gwennfvn mewn gwawd, *HW<sup>1</sup>* gwenddyn er gwawd, *Ns* gwenfvn a gwawd, *W<sup>2</sup>* gwen fwyn yn wawd. 77 *Eh* am y del i mi/r/ delyn, *Ns* am ydel ym y delyn. 78 *EHNXehs* nywr dduw oedd waeth na ddoer ddyn, *G* i ddyw oedd waeth na ddoe ddyn, *R* ni ddawr fyth na ddever fyn, *W<sup>1</sup>* ni bai waeth na ddelai/r/ ddyn, *W<sup>2</sup>* niwrdduw a waeth na ddoer fyn, *f* ni ddawr fyth na ddeve/r/ ddyn.

### Teitl

[*C<sup>1</sup>Rprv* (ond gw. priodoliad llgr. v)], *AUit* kowydd ei ofyn Telynn a Gordderch i S<sup>r</sup> William Gruffyth, *B* Cowydd i ofyn dwy rôdd gan Syr william gryffydd yn gynta un oi ddêg mameth yn ail Telyn i ddfyrry'r amser os cae fe'r delyn ni cheisiey'r fameth, *C<sup>2</sup>* ky i ofyn Merch ag Chwenych telyn, *DZ* Cywyð i ofyn Gordderch a Thelyn i S<sup>r</sup> Wiliam Gruffyð (Siambren Gwynedd), *Ehn* Cowydd i ovin gordderch a thelyn yn rhodd gan Syr wiliam gruff siambren gwynedd, *FX* kowydd i ofyn telyn, *G* kowydd i

ofyn telyn i Sr William gruff a gordderch hefyd, *HO* kowydd iofyn gwraig a thelyn i syr wiliam grið, *I* kywydd i ofyn Telyn i S<sup>r</sup> Wiliam Gruff: o garn<sup>r</sup>von marchog, *JW*<sup>2</sup> i ofyn telyn a gordderch gen sir Wm Gruffudd, *K* Cywydd i ofyn Telyn i S<sup>r</sup> Wiliam Gruffydd o Gaernarfon Marchog o waith S<sup>r</sup> Dafydd Trevor, *L* kowüdd i ofyn telyn a merch, *Me* Cowydd i ofyn gordderch a thelyn, *N* llymar kowydd awnaeth sir dd trefor i ofvn telyn i sir william gruffydd, *Pm* kowydd i ofyn telyn, i, Sr wiliam gryff a gordderch hefyd, *Q* Gofyn Telyn a merch y maer bardd Iddo ê Eihÿn: gan S<sup>r</sup> William Griffith, *S* kowydd i ofyn Telyn Rawn ag vn o ordderchadon Sr wiliam Gruffydd, *T* Cywydd i ofyn Telyn Gan Ferch Ifangc, *VW*<sup>1</sup> kowydd i ofyn Telyn rawn ag i ofyn vn o ordderchadon Syr wiliam grvffvdd y marchog *gyda* Cow: i Sir W<sup>m</sup> Gruffudd, i ofyn delyn a gordderch *mewn llaw wahanol yn W*<sup>1</sup>, *Y* Cowydd I ofyn gwraig a thelyn I William Gruffudd, *a* Cywydd i ofyn Telyn a Gordderch gan Syr William Griffith, *b* Cowÿdd i ofyn Telÿn ag Ordderch gann Syr Wiliam Gruffydd o'r Penrhÿn, *c* I ofyn i S<sup>r</sup> wiliam Gruffydd ddwy rodd. Y gynta yw vn oi famhaethod ef yr ail Telyn /i/ ddyfyrv yr amser ag /o/ chai fo/r/ delyn, ni cheissiei ef /r/ vn or Mamhaethod., *d* kowydd i ofyn Telyn i S<sup>r</sup> W<sup>m</sup> gr, *f* k: i S<sup>r</sup> Wiliam gr y marchog or penrhyn i ofyn iddo vn oi gariadav a thelyn, *g* K: i ofyn i S<sup>r</sup> William gr ddwy rodd y gynta yw vn oi famhaethod ef yr ail Telyn i ddyfyrv yr amser, *j* kywyð i erchi telyn i Syr William Gryffyð ag un oi ordderchadeu y wnaeth Offeiriad o Wyneð, *k* kowyð i ofyn telyn agordderch gan S<sup>r</sup> W<sup>m</sup> Gruffydd y Siambrlen, *lx* Cowydd i ofyn Merch a Thelvn, *o* Cowydd i ofvn merch a thelyn i mr William Griffith, *q* Gofyn telyn a merch, *s* I'r delyn, *u* kowydd i S<sup>r</sup> Wiliam Grvffydd or Penrhyn i erch dwy rodd, y gynta yw vn oi famhaethod ef: ac ail oedd Telyn i ddyfyrv/r/ amser ac o chae fo yr delyn, ni cheissie fo yr vn oi famhaethod ef, *w* kowydd I ofyn Telyn a Gordderch.

### *Priodoliad*

[*jkpt*], *AC<sup>2</sup>DEFJPQUVW<sup>2</sup>ahqrs* Syr Dauydd Treuor, *BC<sup>1</sup>GHIK-ORSW<sup>1</sup>XYc-gilnouwx* Syr dauidd Trefor ai kant, *T* Syr Dafydd Trefor ai Cant BA 1500, *Z* O waith Syr Dafydd Trefor, Offeiriad Llanallgo ym Môn. oddeutu 1480, *b* Syr Davÿdd Trefor Offeiriad Llandegai a'i Cant. 1480, *m* Sr Davydd Trevor llên o fôn, *v* S<sup>r</sup> dd Trefor: ai k i S<sup>r</sup> W<sup>m</sup> grd or Penrhyn i erch vn oi ordderchadon a thelyn gyda hi.

### *Trefn y llinellau*

*AGJPM* 1–2, 7–8, 3–6, 9–16, 19–20, 17–18, 21–48, 51–60, 49–50, 61–78.  
*BENUacefshinrsu* 1–16, 19–20, [21–4], 17–18, 25–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, 61–78.  
*C<sup>1</sup>* [1–36], 37–40, 42, 41, 43–8, 51–60, 49–50, 61–78.

- C*<sup>2</sup> 1–14, [15–16], 17–18, [19–24], 25–8, 39–40, 42, 41, 43–4, 47–8, 45–6, 49–50, [51–2], 29–30, [31–6], 37–8, 67–70, 53–8, [59–66], 71–8.  
*DFSXZb* 1–16, 19–20, 17–18, 21–48, 51–60, 49–50, 61–78.  
*H* 1–16, 19–20, 17–18, 21–6, 29–48, 51–60, 49–50, 61–78.  
*Id* 1–16, 19–20, 17–18, 21–40, 42, 41, 43–8, 51–60, 49–50, 61–78.  
*K* 1–16, 19–20, 17–18, 21–40, 42, 41, 43–8, 51–60, 49–50, 61–6, [67–74], 75–8.  
*Lq* 1–16, 19–20, 17–18, 21–8, [29–30], 31–48, 52, 51, 53–60, 49–50, 61–78.  
*M* 1–10, 21–4, 11–16, 19–20, 17–18, 25–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, 61–78.  
*O* [1–41], 42–8, 51–60, 49–50, 61–74, [75–6], 77–8.  
*Q* 1–16, 19–20, 17–18, 21–48, 52, 51, 53–60, 49–50, 61–78.  
*R* [1–72], 73–8.  
*T* 1–6, [7–12], 13–16, 19–20, 17–18, 21–8, [29–30], 31–48, 52, 51, 53–60, 49–50, 61–78.  
*V* 1–16, 19–20, 17–18, 21–48, 51–60, 49–50, 61–2, 65–6, 63–4, 67–78.  
*W*<sup>1</sup> 1–16, 19–20, 17–18, 21–48, 51–60, 49–50, 61–2, [63–4], 65–78.  
*W*<sup>2</sup> 1–14, [15–16], 17–18, [19–24], 25–8, 39–44, 47–8, 45–6, 49–50, [51–2], 29–30, [31–4], 35–6, [37–8], 63–4, [65–6], 67–70, 53–8, [59–62], 71–8.  
*Y* 1–16, 19–20, 17–18, 21–6, [27–8], 29–48, [49–50], 51–7, [58–78].  
*g* 1–16, 19–20, [21–4], 17–18, 25–8, [29–30], 31–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, 61–78.  
*j* 1–54, [55–6], 57–8, [59–62], 63–78.  
*k* 1–16, 19–20, [21–4], 17–18, 25–36, [37–78].  
*lx* 1–16, 19–20, 17–18, 21–8, [29–30], 31–48, 51–60, 49–50, 61–78.  
*o* 1–16, 19–20, 17–18, 21–6, [27–8], 29–46, [47–8], 51–4, 57–8, 55–6, 59–60, 49–50, 61–4, [65–6], 67–78.  
*p* 1–16, 19–20, 17–18, [21–4], 25–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, 61–72, [73–8].  
*t* 1–16, 19–20, [21–4], 17–18, 25–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, [61–78].  
*v* 1–54, [55–6], 57–8, [59–62], 63–78.  
*w* 1–2, 5–6, 3–4, 7–12, [13–14], 17–26, [27–8], 15–16, 29–48, 51–2, 55–6, 53–4, 57–60, 49–50, 61–78.

*Ateb i'r cywydd gofyn gordderch a thelyn  
gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

- 4 Syr Dafydd, awenydd wyd  
Trwy freuder, Trefor ydwyd;  
Cwysaidd wawd ceisio sydd dau  
Rhan fwyn, a'i rhoi a wnafl innau.
- 8 Myfi'n ben siambrlen y sy  
Ac annwyl dlysau genny';  
Cawn roddion, cyfeirion call,  
Oherwydd eu rhoi i arall.
- 12 Mawr yw 'nhasg, mae ar fy nhŷ  
Telyn a chrwth i'm teulu;  
*Dir roddi*, dwyrodd ydynt,  
Dau i'w rhoi, od ân' ar hynt.
- 16 Ni syrr y delyn y sy,  
Ni chŵyn fod heb ei chanu;  
Y crwth cryg, sarrug a sur,  
Ni sigyl o bydd segur.
- 20 Y mae tafod athrodwr  
A drwsiwyd draw dros y dŵr  
A fenyg wrth ddyn feinael,  
O gas, nad oes dim i'w gael;
- 24 Eraill a ddywaid eiriau  
Nad da mo'r cyweirgorn tau.  
Dy feddwl sy ddi-bŵl byth  
A'r llaw'n hael, llin wehelyth;
- Eurer dy dafod arian,  
Breuder ac irder a gân!
- 28 Dy weithred, ni chaf gredu  
Ei bod yn y man y bu;  
Os dôn' i'th barlwr, ystôr,  
Yng nghongol gwna fy nghyngor:
- 32 Rhoi'r delyn, cryw emyn cras,  
A'i mwnwgl am y wanas,  
A chymell cainc yn chwimwth  
Dan y crest ar dannau'r crwth;

36 Gyr yn ôl y reiol rudd,  
Gwyl er rhywbeth gael rhybudd;  
Mae hi'n aros, mwyn eiriau,  
Mewn dig rhyngom *ni* ein dau:  
40 Myfi'n arbed, o'm credi,  
Dros y dŵr yn d'aros di;  
Dithau'n ddirgel dy helynt,  
Er hyn, y mae rhai a'i mynt,  
44 Rhwng y ddwystol, ddyn olau,  
Ydd aeth heb yr un o'r ddau.

Rhaid yw i wen gymen gael  
Rhyw drof i'w rhoi ar drafael;  
Nid wyl er na ddown ein dau  
48 I'w bywyd, arall biau!

### *Ffynonellau*

A—Card 1.550, 74 B—Card 2.114 [= RWM 7], 397 C—CM 242, 204  
D—LIGC 668C, 73 E—LIGC 3050D [= Mos 147], 506 F—LIGC 6499B,  
240 G—Wy 1, i, 93

Dylid nodi bod llawysgrif G yn llawysgrif hynod aneglur ei darlleniadau oherwydd traul ar y dalennau perthnasol. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd saith copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir. Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopïau agos ohonynt.

### *Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

B—Card 2.114 [= RWM 7], 397  
E—LIGC 3050D [= Mos 147], 506  
G—Wy 1, i, 93

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

3 *E* kwyssiad. 4 *G* [a'i]. 6 *E* ac aml. 8 *G* or herwy[ ]. 11 *BEG* di yrddodi. 12 *EG* o dai. 18 *G* adowssiwyd yd dros. 35 *E* yr eiriol rudd. 37 *B* maen aros. 44 *B* i ddaeth y heb. 48 *E* arall obiav.

*Teitl*

[G], *A* Cowydd Atteb dros Syr Wiliam Gruffydd i S<sup>r</sup> Dd. Trevor am y Cowydd y sy or blaen., *B* llyma atteb sir william gruffydd i ddynes, *C* Cywydd atteb ei yr cywyð o'r blaen., *D* Cywydd atteb i Syr Dafydd, *E* kowydd ateb dros syr wiliam gryffydd i syr dd trevor am ykwyð sy or blaen yn yr wythfed ar higain nolen y maer kowydd ygwnaethbwyd yr atteb iddaw yr hwn a gewchi wrth gyfri tua dechre/r/ llyfr, *F* kowydd ei atteb y kowydd or blaen.

*Priodoliad*

*ABEF* gruffydd ap Tvdvr ap hoell ai kant, *CDG* Gr ap Tud<sup>r</sup> ap Hoell.

*I fferi Porthaethwy  
gan Syr Dafydd Trefor*

Y fferi fawr i ffair Fôn  
Wrth osod ei phorthwysion,  
Mynych wrth fy nymuniad,  
4 Porthaethwy, fu 'nhramwy'n rhad;  
Aber syber, diseibiant  
Llei credir, llei coelir cant;  
8 Gorau unlle a gweiriwyd,  
A gorau yw llong y gŵr llwyd;  
Llong Lywelyn orwyn eirwir  
Yn mynnu hap Menai hir,  
12 Mae ar y cort ym mrig hon  
Llun baner Llen ab Einion.

Gwylan dinlydan ledwyllt,  
Derw ei hais, dŵr a hyllt;  
Gwennol yn didol deudir  
16 A gâi hwp ar ei gwe hir;  
Gwylog a wnaeth ei gwely  
I dario ar frig y dŵr fry;  
20 Crud meirch llei cariyd merched,  
Corodyn i'r rhonllyn y rhed;  
Pompren i bob awenydd,  
Pont a dâl punt yn y dydd;  
24 Môr-gaseg hoywdeg hydyn  
A drwsiai ei llwyth dros y llyn;  
Hwch a fwrw, o chyfeirir,  
Dorllwyth o dylwyth i dir;  
32 Ei ffroen a ddeil, a'i ffriw'n dda,  
Er chweffrwd ni chyffrydia;  
I dâl y ffrwd deil ei ffriw,  
Gweinidog pob gwan ydyw;  
Cunnog gragennog, annwyl,  
Cerwyn hen, carwn ei hwyl;  
Bol mwy na baeol y maidd,  
Ysgâl ardd ysgyleraidd;

- 36 Dullwyd, gyda dwy allawr,  
Fynachlog yn feichiog fawr,  
A'i chôr yn ystlys gorfainc  
A'i chrib mewn gwymon a chrainc,  
40 A phrior hon o ffrîw'r rhyd,  
A'i chwffaint oedd wych hefyd.  
Morwyn yn cynllwyn canllwyth,  
Merch a lwnc y march a'i lwyth;  
44 Yn mynd rhwng Arfon a Môn  
Y chwery freichiau hirion;  
Ni bu'n y byd anial bach  
Un horen anniweiriach;  
Ni bu w'r bed *Eryri*  
48 Na bu a wnaeth â'm bun i:  
Ymysg holl offeiriaid Môn,  
Menych a brodyr mwynion.  
Ef a w'r hon, pan fo rhaid,  
52 Droï toryn i dreneriaid.

- Nid aber mewn maner mwy,  
Nid porth eithyr Porthaethwy,  
Porth Cymru yn llethu'r lleill,  
56 Porth i wyro'r pyrth ereill,  
Porthwyr a meirch, Porth Aur Môn,  
Porth Iesu i'r Porthwysion!

### *Ffynonellau*

A—Bangor 13512, 150 B—Bangor (Mos) 11, 122 C—Bangor (Penrhos) 1573, 119 D—BL Add 10314, 155<sup>r</sup> E—BL Add 12230 [= RWM 52], 81<sup>r</sup> F—BL Add 14882 [= RWM 31], 93<sup>v</sup> G—BL Add 14962, 17<sup>r</sup> H—BL Add 14966, 236<sup>r</sup> I—BL Add 14969, 81<sup>r</sup> J—Bodewryd 2, 171 K—Card 2.68 [= RWM 19], 592 L—Card 2.114 [= RWM 7], 385 M—Card 3.68, 190 (*teitl yn unig*) N—Card 4.156 [= RWM 64], 659 O—CM 10, 463 P—CM 27, 144 Q—J 139 [= RWM 14], 411 R—LIGC 162D, 85 S—LIGC 279D, 246 T—LIGC 834B, 226 U—LIGC 3049D [= Mos 146], 452 V—LIGC 5269B, 213<sup>v</sup> W—LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1], 42<sup>r</sup> X—Llst 54, 32 Y—Llst 120, 22<sup>r</sup> Z—Llst 135, 20 a—Pen 104, 199 b—Pen 112, 150

Dylid nodi nad yw tt. 186–93 wedi'u cynnwys yn y ffilm a wnaed o lawysgrif Card 3.68 ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru. O ymgynghori â Llyfrgell Ganolog Caerdydd ac â'r llawysgrif wreiddiol, gwelwyd nad yw tt. 186–93 yn rhan ohoni erbyn hyn; ymddengys, felly, eu bod wedi diflannu rywbryd cyn i'r llawysgrif gael ei ffilmio. Nodir hefyd fod llinellau 27–37 ar



ymyl y ddalen yn llawysgrif BL Add 14882 a bod ymylon eithaf y ddalen honno wedi breuo; nid yw llinellau 38–42 i'w gweld o gwbl oherwydd breuo eithafol ar waelod y ddalen. Y mae testun Llst 135, 20, yn gyfuniad o linellau o dri o gywyddau'r ymryson hwn (cerddi 9–11), fel a ganlyn: 9.7–14, 9.5–6, 9.27–8, 9.31–2, 9.37–8, 9.17–18, 9.23–4, 9.21–2, 9.1, + drws ervi ywch drws arvon, 9.43–4, 10.59–60, 10.57–8, 10.61–2, 10.65–6, 10.31–2, 11.53–6, 10.73–4, 9.51–2. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Y mae 27 o gopiâu o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Gan fod y gerdd yn digwydd mewn cynifer o lawysgrifau ni ddangosir darlleniadau llawn o'r holl lawysgrifau yma. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r 27 copi llawysgrif yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

### *Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

C—Bangor (Penrhos) 1573, 119

F—BL Add 14882 [= RWM 31], 93<sup>v</sup>

L—Card 2.114 [= RWM 7], 385

Y—Llst 120, 22<sup>r</sup>

Z—Llst 135, 20

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 Z vawr dros ffair. 2–4 [Z]. 4 C yn rramwy, F fyn ramwy. 5 C ddi seibiant. 6 CF lle kredir; F lle koelir. 7 Z vnllong y gwyrwyd. 11–16 [LY]. 11 F kard. 12 CF lwn; C lwyn ap einion, F llin ab meinion. 14 C hais a dwr. 15–16 [Z]. 16 C ag a hwp, F aga i hwp. 17 C gwiwlong. 19–20 [Z]. 19 F lle; C carriwyd y merched. 20 LY kar odynd; L rranllyn. 22 F pont yw a dal. 24 Z drws y llyn. 25–6 [Z]. 27–42 [LY]. 27 Z ay ffroen. 29–30 [Z]. 32 Z kerwyn hil. 33–6 [Z]. 33 F bod mwy; C biol a maidd, F [...] a maidd. 34 C ycal ardd, F ysg[...]rydd. 37 Z ay chryd ar ysllys. 38–42 [F]. 39–42 [Z]. 43 C ymynd. 44

*C* i chware, *Z* vn chware; *Z* a breyche. 45–50 [Z]. 45 *C* ni bv bryd vn mabi bach, *F* nibv peda mali bach. 46 *CF* vn oyren. 47 *C* wr hyd yr yri, *F* wr peda rwri, *LY* wr bed yrwri. 48 *Y* na bo. 50 *C* ar. 51 *C* fo feder honn, *Z* ar hon a wyr. 52 *F* drw torvn o; (*Y*) draeturiaid. 53–8 [Z]. 54 *F* pyrth. 55 *FL* gymrv; *C* yn llygrvr.

### *Teitl*

[XZ], *AMRS* Cowydd i ysgraff porthaethwy, *BE* Cowydd ir llong, *CJ* Cowydd ei Borthaythwy *mewn llaw wahanol yn C*, *D* I Ddyfalu ysgraff Porthaethwy, *F* [...]sgraff [...]aythwy, *G* Cywyð i ðyfalw'r Ysgraff, *H* Cowydd mol: ir llong ar fferi Porthaythwy, *ITV* kowydd i ddyfalw ysgraff, *K* kywydd ir llong o waith dd trefor, *L* kowydd i ysgraff borthaethwy ag ir porthwyssion, *N* Clod Ir llong: ner fferi, *O* Cywydd ir Llong. S<sup>r</sup> D.T., *P* Cowydd Moliant i Llong ne i ffeir oedd gynt yn mhorth Aethwy o waith S<sup>r</sup> Dafydd Trefor, *Q* kowüdd i ysgraff porthaethwy ar i porthweision, *U* kowydd iysgraff borthaethwy, *W* kowydd a fv rhwng dd trefor a Gruff ap Tudur ap howel, *Y* I yscraph porth Aethwy, *a* kowydd i yskreff porthaethwy, *b* kowydd moliant i ysgraff porth aethwy ac yw phorthweission.

### *Priodoliad*

[M], *A-EHJKLOQSTVWZb* Syyr davydd trefor ay k, *FINPUXYa* S<sup>r</sup> dd Trefor, *G D. Trevor*, *R* Syr Dafydd Tradvor.

### *Trefn y llinellau*

*ADGINTUV* 1–26, [27–42], 43–58.

*BEHKOP* 1–24, 27–8, 25–6, 29–32, + sarff yw (*gydag* ydo *yn B*) hi wedi (*gyda* rôl *yn O*) tori tid / a dwylan yn i dylid, 33–4, [35–6], 37–58.

*CJRSWa* 1–58.

*F* 1–37, [38–42], 43–58.

*LQXYb* 1–10, [11–16], 17–26, [27–42], 43–58.

*Z* 7–14, [2–4], 5–6, [25–6], 27–8, [29–30], 31–2, [33–6], 37–8, [15–16], 17–18, 23–4, [19–20], 21–2, 1, + drws ervi ywch drws arvon, [39–42], 43–4, + 10.59–60, + 10.57–8, + 10.61–2, + 10.65–6,+ 10.31–2, + 11.53–6, + 10.73–4, [45–50], 51–2, [53–8].

*Y don a'r gwŷr eglwysig  
gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

- 4 Fferi: 'Y don gyfanllon, gefnllwyd,  
Gwal o ddŵr, galw ydd wyd,  
Rheol hylithr, rhòl heli,  
Dy nawdd, fun, edwyn fyfi!'
- 8 Fferi: 'Mi yw ysgraff, dorbraff derwbren,  
Parth â'th iaith, Porthaethwy wen.'
- 12 Fferi: 'O daith pardwn y deuthum,  
Yn lle balch, yn Enlli bŵm.'
- 16 Fferi: 'Fo'm soeliwyd ym heb selab,  
Eithr y pwnc aeth ar y Pab.'
- 20 Fferi: 'Rhwyfo 'dd wyf tua Rhufain  
Rhai oedd wa'rddedig o'r rhain.'
- 24 Fferi: 'Yn gardodau, gweddai i'r gwŷr,  
Y bu raid dwyn y brodyr.'

Ton: 'Beth dreneriaid dirieidfawr  
Â'r meirch a'r costrelau mawr?'

28 Fferi: 'Y trenter a gymerwn  
Ym mraich porth, a'r march a'r pwn;  
Yn un y'u caid o fewn ced  
Syth uthur o'r Saith Weithred:  
Dwyn diod i dylodion,  
32 Da yw'r modd, medd pobl dir Môn.'

Ton: 'Beth offeiriaid, dirieidwyr?'

36 Fferi: 'Ai gwaeth er cymryd y gwŷr?  
Ni phwyswyd wrth gyffesu  
O'r farn er dim ar a fu  
Ond cymryd (mynud, nid mawl)  
Offeiriaid yn gorfforawl.'

40 Ton: 'Drwg fuost, nid bost yw bai  
Eu mynnu er eu mwnai.'

44 Fferi: 'Ni bŵm yn cymryd o'm bodd,  
Ni mynnais ond o'm hanfodd;  
O'r dŵr, lle'r oeddwn ar did,  
Â'r tennyn gwlyb y'm tynnid,  
A'm cael wrth 'mafael â'm ceg  
A'm gyrru tua'r garreg.  
48 Gwae fi o'r hynt! A'm gwŷr fy hun  
(Dau flaid!) a'm dalief iddyn';  
Minnau a wingwn am angau  
I'r 'ffeiriaid gwymp mewn ffrwd gau;  
52 I ddiawl aen', ddelwau enwir,  
Er dim nes eu myned i dir!  
Ac er eu dwyn â'u gwrdaeth  
Ni chawn wisg na chynhysgaeth,  
Na'm dwyn i ddim daioni,  
56 Na mawr ymgytal â mi;  
Mae i bob un ohonyn' hwy  
Furnaidd furiones fawrnwy'  
A honno yn pinio pân,  
60 Ar rudd sad y rhydd sidan,  
A minnau, pawb a'i menyg,  
Yn gweini pawb mewn gwn pyg.

- 64 Y don hael, adain heli,  
O'r môr moes gyngor i mi!
- Ton: 'Dos, gwch, â dwyais gam  
I Fangor yn ddifingam;  
Traetha i'r esgob cefnog hedd  
68 Eu gorwedi â'u gwragedd.'
- Fferi: 'Eu gyrru hwynt dan gerrig  
Y maent megis chwarae mig;  
Trannoeth, nis terrir yna,  
72 Adre y dôn' i dyrru da;  
Myn y tân! Ni mynnant hwy  
Daring wrth gosb na dirwy.'
- Ton: 'Mynnu disbaddu bob un,  
76 Dyna fydd rhaid amdanyn!'

*Ffynonellau*

A—Bangor (Penrhos) 1573, 120 B—BL Add 14882 [= RWM 31], 94<sup>r</sup> C—Card 2.68 [= RWM 19], 585 D—Card 2.114 [= RWM 7], 386 E—J 139 [= RWM 14], 413 F—LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1], 41<sup>r</sup> G—Pen 112, 151 H—Llst 135, 20 (*llau. 31–2, 57–62, 65–6, 73–4*)

Dylid nodi bod testun Llst 135, 20, yn gyfuniad o linellau o dri o gywyddau'r ymryson hwn (cerddi 9–11), fel a ganlyn: 9.7–14, 9.5–6, 9.27–8, 9.31–2, 9.37–8, 9.17–18, 9.23–4, 9.21–2, 9.1, + drws erwi ywch drws arvon, 9.43–4, 10.59–60, 10.57–8, 10.61–2, 10.65–6, 10.31–2, 11.53–6, 10.73–4, 9.51–2. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd wyth copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r wyth copi llawysgrif yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r

hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

A—Bangor (Penrhos) 1573, 120

B—BL Add 14882 [= RWM 31], 94<sup>r</sup>

D—Card 2.114 [= RWM 7], 386

H—Llst 135, 20 (*llau. 31–2, 57–62, 65–6, 73–4*)

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–31 [H]. 2 *A* ddwr in galw, *B* ddwr ai galw. 3 *B* rovol; *A* hylith rrol a heli, *D* hylithr roll heli. 4 *A* dy nawdd di am edwyn i, *B* dy nawdd ti a weddiwni, 5 *B* [ti]; *A* im gweddiaw. 6 *A* yn sawd; *BD* i rwy nessa draw. 7 *AB* dдорbraff dderwbrenn. 8 *A* porth a thaith. 9 *A* ple i bvost; *B* gafll fost govelyb. 10 *A* ar trwm lwyth ar torr, *B* ar tor lwyth ar tor. 12 *B* enlli y bym. 13 *B* yn a trai. 14 *B* i rrodio menai. 15 *A* fom saliwyd, *B* fom seliwyd; *AB* ymhob silab. 17 *A* ai mynav, *B* a myn ni; *B* ym. 18 *B* diarbed aeth ym erbyr. 19 *A* rrywyfo i rwyf. 20 *B* rhaid oedd wraddedig orrain. 22 *A* yn ymgrafu. 23 *A* [Yn]; *A* gweddier, *B* gweddir. 24 *B* ddwyn. 25 *A* diriedfawr, *B* direidfawr. 26 *B* ai meirch ai. 27 *A* os traenter. 28 *A* ymraich yporth, *B* y mraych y borth; *B* ai bwn. 29 *A* yn lle vn cad ofvn ceg, *B* yn lle vn kadwfn ked. 30 *B* syth rythyr; *A* nar saith. 32 *AB* da r modd; *DH* bobl; *H* tir. 33–56 [H]. 33 *A* diriedwyr, *B* direidwyr. 34 *D* [er]. 36 *B* ar faner dim ar. 37 *B* onid. 38 *A* y ffeiriad. 39 *A* nid er bost bai, *B* nid bost y bai. 40 *A* i mynud. 41 *A* ni bv y ffeiriad om bodd, *B* ni bym i kymryd om bodd. 42 *D* anfod. 45 *A* am cael ag afael im ceg, *B* am cael wrth ymafel im keg. 46 *A* am y gareg. 47 *A* [fi]. 48 *B* daliodd. 49 *A* [a]. 50 *A* ne i ffeiriad; *A* gwyp y, *B* gwyp ir. 51 *AB* i ddail. 52 *AB* i dwyn i dir. 53 *B* [eu]; *A* oi gwardaeth, *B* ai gwrdaith, *D* ai gwrdaeth. 56 *D* mawr gyttal. 57 *H* y may bob vn honynt hwy. 58 *AB* fvriiad feiriones, *H* vyrnad vyriones. 59 *H* maen hwythe yn pinie paan. 60 *A* a rrydd siad or rhvdd sidan, *B* arhvdd sadd arwydd sidan, *H* arf sad ar eday sidan. 62 *AB* yn gweini poen, *H* vn gwiny poen. 63–4 [H]. 65 *B* dwyais o gam. 66 *A* ddifongam. 67–72 [H]. 68 *B* gorweigi. 69 *B* I gyrry rowran dan gerrig. 71 *A* tarien. 73 *H* mynnent. 74 *A* daring er cosb, *H* daring wrth gost. 75–6 [H]. 76 *AB* dyna sy raid.

*Teitl*

[H], *A* Cowydd ir Don mewn llaw ddiweddarach a chydag acen grom ar yr n, *B* kowydd ymryson, *C* kywydd y donn ag i ddesgreibio peth ar y gwyr Eglwysig, *D* llyma ateb ir kowydd vchod, *E* ateb ir kowüdd vchod, *F* yr ail ko.: *G* kowydd ateb ir kowydd vchod.

*Priodoliad*

*AC*–*G* gruff ap Tvdvr ap hoell ai kant, *B* gruff ap hoell ap tud<sup>r</sup> ai kant, *H*  
Syyr davydd Trevor ay k.

*Trefn y llinellau*

*ABD*–*G* 1–76.

*C* 1–26, [27–30], 31–76.

*H* 59–60, [33–56], 57–8, 61–2, [63–4], 65–6, [1–30], 31–2, [67–72], 73–4,  
[75–6].

*I geryddu dychanwr  
gan Syr Dafydd Trefor*

Gruffudd, awenydd annwyl,  
(Pa riwl yw hwn? Pa ryw hwyl?)  
Ap Tudur, awdur ydwyd  
4 Da dy gerdd, odidog wyd!  
Ai gwir mai'r awen i gyd  
Sy i'th glwyfo o'r saith glefyd?  
Pa rwnial, anial unawr,  
8 Yr wyd ar bob hanner awr?  
Ai sŵn môr? Ai sôn merydd?  
Ai si'n dy glustiau y sydd?  
Ai drudwy sydd drwy dy siad?  
12 Ai gwyddau yn arg'weddiad?  
Ni 'dewaist ym un dwyawr  
Un lle i'm ffust ar y llawr  
Na lle i 'mhadell, o'm llw,  
16 Ell oediog, ar y lludw.  
Ni chawn fy ngherdd uwch fy nghod,  
Wych unwaith, heb ei channod.  
Lliwiaist imi gael llawer  
20 O hyfrod, gafrod a gwêr  
A'm llefrith, mal gw lith, am glod,  
A'm hymenyn a'm mynnod  
A'm hafod oll a'm hufen  
24 A'm caws a'm hafodwraig hen.

Os ar ysgraff y craffwn,  
Porthaethwy, seithfwy dy sŵn!  
Twrnio llei taerit arni  
28 Wingo'n ôl angau i ni;  
Ni awn unwaith yn wenyn  
O'r bad i dir boda dyn!  
Haeru ei bod am bechodau  
32 Yn Enlli gynt, y llong gau,  
A'i myned i Romani  
Ar draws y môr drosom ni



36 A'n cyhuddaw'n aflawen  
 I'r esgob, llaesgob wŷr llên;  
 Lliwiaist, beiaist ein bywyd,  
 Ynn bawb o 'ffeiriaid y byd,  
 40 A'n lliw a'n modd oll, a'n maeth  
 A'n diwyg a'n gwrdaaeth.

Diachos oedd y dychan,  
 Er hyn o lid mae rhai'n lân.  
 Rhyfedd, medd llyfr a'n rhifai,  
 44 O bai fyw neb heb ei fai.  
 O beiai ddyn byw neu ddau,  
 Antur nas beir yntau;  
 Brychau i giliau ein golwg  
 48 A welai draw o liw drwg;  
 Ni weli, ben Bryden brad,  
 Drawst, du logail, dros dy lygad.  
 Bwrw sglander a berw  
 52 I ferched teced eu tw';  
 Lliwiaist iddynt eu lliain  
 A'u rhwysg a'u diwyg i'r rhain,  
 A'u sidan llei gosoden'  
 56 A'u pân a'u nodwyddau pen.  
 Yn ifanc ni wnâi Ofyd  
 Ogan i ferch (gwyn ei fyd!)  
 Na Dafydd, ffydd oedd ei ffordd,  
 60 Broffwyd, lydan ei briffordd;  
 Nid Gawen am feinwen fodd  
 Na'i orchwyl a'th anerchodd.

64 Os wrthy' mae'r genfigen  
 Na ladd yr holl wŷr o lôn;  
 Cân i mi acw'n y man,  
 Gad eraill yn goed arian;  
 Dod dy gerdd, du wyt a gwych,  
 68 Yn y man ar y mynych:  
 Ai'n decach, bellach, i'r byd,  
 Ai'n serthach, croeso wrthyd!

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14882 [= RWM 31], 95<sup>r</sup> B—Card 2.68 [= RWM 19], 588 C—  
 Card 2.114 [= RWM 7], 389 D—Egl Ph, 25 (*llau. 26–7*)–26 (*llau. 1–2*)  
 (*llau. 41–4*) E—J 139 [= RWM 14], 150 F—LIGC 644B, 25<sup>v</sup> (*llau. 9–70*)

G—LIGC 1559B, 331 (*llau. 41–4*) H—LIGC 1579C, 35 (*llau. 41–4*) I—LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1], 40<sup>r</sup> J—Llst 135, 21 (*llau. 53–6*) K—Llst 169, 174<sup>v</sup> L—Pen 112, 155 M—Pen 159, 190 (*llau. 41–4*)

Y mae dalen ar goll yn llawysgrif LIGC 644B rhwng ffolio 24 a ffolio 25 (yn ôl y rhifiant newydd) a hynny sydd i gyfrif am gollu llinellau cyntaf y cywydd; y mae ôl traul ar y llawysgrif hon a bu blerwch wrth ei hailrwympo. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd tri chopi ar ddeg o'r cywydd hwn neu ran ohono, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

### *Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

A—BL Add 14882 [= RWM 31], 95<sup>r</sup>

C—Card 2.114 [= RWM 7], 389

D—Egl Ph, 25 (*llau. 26–7*)–26 (*llau. 1–2*) (*llau. 41–4*)

J—Llst 135, 21 (*llau. 53–6*)

M—Pen 159, 190 (*llau. 41–4*)

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–40 [DM]; 1–52 [J]. 2 C pa rwol; A hyn para hwyl. 5 A may dawen. 7 A pa rimial. 12 C yn gyweiddiad. 16 A oll oidiog. 23 C hafon. 27 A lle ir hayryt. 28 A ol am angav. 32 A yn llong. 33 A Rwmain gyda Romani mewn llaw wahanol. 34 C drossom i. 36 A wr. 40 A gwrdeiyth, C gwrdaeth. 43 C am rrfai. 44 A fyw vn heb. 45–70 [DM]. 45 A beie. 47 A y golwg. 48 A a weli. 49 A ni weli pan brydi yn brad. 54 J y rhwysk; A a diwic yrhain. 57–70 [J]. 60 A proffwyd llydan. 61 C ni gawen am. 62 C nai horchwyl. 66 C a gad; A arall; A dilewyd arian gan law wahanol a rhoi eirian yn ei le. 68 A man ag i mynych. 70 A groeso.

*Teitl*

[*FJM*], *A* ateb, *B* Ateb i hwnw, *C* llyma ateb ir kowydd vchod, *DH* Egraph mywn Prydydhiaeth, *E* kowüdd ateb nid ir diwetha, *G* Egraph, *I* y trydydd, *K* Co. yn ateb i Gruffyð ap Tudr ap Hoel a ganasai i wyr Bangor, *L* kowydd ateb i kowydd or blaen.

*Priodoliad*

[*I*], *AGM* syr dd trevor, *BCEFJKL* Syr dd Trefor ai kant, *DH* D. Tr. len.

*Trefn y llinellau*

*AK* 1–70.

*B* 1–10, 12, 11, 13–70.

*CEL* 1–60, 62, 61, 63–70.

*DGHM* [1–40], 41–4, [45–70].

*F* [1–8], 9–70.

*I* 1–8, [9–70].

*J* [1–52], 53–6, [57–70].

*Nychdod y bardd*  
*gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel*

- Gruffudd, os gwawdydd ydwy',  
 Gŵyr Dduw gwyn, gorweiddiog wy',  
 Cloi berw, cla' heb orhoen,  
 4 A'm pen a'm holl gorff mewn poen;  
 Ni wn pa ryw sŵn a sai'  
 I'm pen, ond ef a'm poenai.  
 Nid yr awen fodrwyawg,  
 8 Wych ei rhodd, a'm nychai 'rhawg.  
 Nid da i'r porth nac i'r pen  
 Drydar na gŵydd na drudwen,  
 Nac aderyn i dario,  
 12 O'm tyb, ped aderyn to.  
 Bu Bawl Abostawl o'i ben  
 Glwyfus nid am gael awen:  
 Er crio o'r cawr afiach  
 16 O'i ben fyth ni bu fo'n iach.  
 Chwi, Trefor, i'm cynghori,  
 Â cherdd chwyrn ni chwerddwch chwi;  
 Brigog y cenwch bregeth,  
 20 Barwn pur, brau ymhob peth;  
 Y llên â'r awen rywiawg,  
 Noder hyn a'i natur 'rhawg.  
 'Pa si sy'n berwi'n dy ben?  
 24 Pa ruo'n poeri awen?  
 Ai sŵn dŵr y sy 'n dy iad  
 A fwrw i ti freferad?  
 Ai myned geifr mewn dy gwm?  
 28 Ai digwydd gwyddau degwm?'  
 Edliwiaist, lle gwelaist gur,  
 Im dalm o'm clwyf a'm dolur  
 A'm hafiechyd a'm nychodd,  
 32 A'm bai ni byddai o'm bodd!  
 Clefyd oedd enbyd i ddyn  
 Ei ddyfod cyn ei ddyfyn;  
 Gwn wir, ni sorraf, gwan wyf,  
 36 Cul yw f'adain, claf ydwyf.

Na sor dithau 'n oes irwydd  
 Er y sôn am y geifr y sydd.  
 Gwir yw fod yr hafodydd  
 40 A'u caws, ni ellir mo'r cudd,  
 Ac un eurwisg, gwen araf,  
 Yn dwyn llywodraeth yr haf,  
 A gown pân gyda'i hannod:  
 44 I'r ferch gwnelid da i fod.  
 Llawer gwir, lle'r awn o gyd  
 I'r ddadl, drwg ei dd'wedyd;  
 Ni dd'wedai'r difai air du  
 48 Er ei chwilio a'i chwalu;  
 Llaw lân, ddiogel helynt,  
 A'i chau yn gystal â chynt;  
 Geuog a fydd, draenog dro,  
 52 O ddi ymliw a'i deimlo;  
 Hwnnw fydd garw gwrol  
 Gan braw' y gwna brol.  
 Mae trawst ar fy llygad draw  
 56 Ni cha' weled i chwiliaw;  
 Mae rhai a'u golwg yn rhydd  
 Yn gweled beiau ei gilydd.  
 Coeliais fod bai i'm calyn  
 60 Erioed yn fwy nog yr un.  
 Ni wada', hyn a ydoedd,  
 Na wader yr arfer oedd;  
 Na chwerwa di; er chwarae,  
 64 I'th dai main, rhof a th'di mae;  
 Adde' i saint na haeddais i  
 Os eraill y sy'n sorri;  
 Ni chwyn, er haeddu chwaneg,  
 68 A'i haeddodd, dihangodd yn deg.

Nid wyf un allu i'm dydd,  
 Difost, â'r Proffwyd Dafydd,  
 Na'm tw' Ofydd na'm tafod,  
 72 Achos mawr ni cheisia 'mod;  
 Nid tebyg neb wynebwynt  
 Eu gair a'u gwedd i'r gwŷr gynt.  
 Ni sorrai Gwalchmai er gair  
 76 O gellid ei roi'n gellwair;  
 Cellwair y gair a garwn,  
 Ceir gair yn gellwair, od gwn.

- 80 Ni cherais i ferch anair,  
Fain ei gwasg, fwy nog i Fair;  
O gariad yr wy'n gorwedd  
Ar y ferch a'm gyr i fedd;  
84 Nawdd pob merch wy'n ei erchi,  
O cha' ei nawdd, iach ydd awn i;  
Ni ofynna', myn f' einioes,  
Er gair mawr nawdd gŵr i'm hoes.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14882 [= RWM 31], 96<sup>r</sup> B—Card 2.114 [= RWM 7], 391 C—J 139 [= RWM 14], 153 D—LIGC 644B, 25<sup>v</sup> E—Llst 169, 178 F—Pen 112, 158

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd chwe chopi o'r cywydd hwn neu ran ohono, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–12, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r grŵp i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

### *Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

A—BL Add 14882 [= RWM 31], 96<sup>r</sup>

B—Card 2.114 [= RWM 7], 391

### *Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *A* o wowdydd, *B* os owdydd. 4 *A* om pen. 9 *A* nag i dir pen. 12 *A* peda deryn y to, *B* pette yderyn to. 25 *B* a swyn; *A* dwr sy yn. 26 *A* itti frefiad. 27 *A* ai myn geifr o vewn. 30 *B* [Im]. 31 *B* am feechaid. 32 *B* bydd. 34 *A* ddyfod heb i. 37 *B* [dithau]. 38 *A* er son. 39 *AB* bod. 40 *A* ar kaws. 41 *A* wen. 42 *A* ydaf. 54 *A* gan y braw ag ni wna brol, *B* gan braw i gwna brol. 56 *A* ni chae.

59 *A* koeliaf. 61 *A* ni wader hyn. 62 *A* na d wader. 64 *A* ath dai. 70 *A* difost ir brenin davydd. 72 *A* achos fawr; *A* vod. 78 *A* kar gair. 82 *A* ar ferch hyn am. 83 *A* wyf oi erchi. 84 *A* ag o cha i nawdd gwyh i dda[ ].

*Teitl*

[*E*], *A* kowydd ymryson *gyda* Gwrthatteb *mewn llaw wahanol*, *B* llyma atteb ir kowydd vchod, *C* atteb ir kowüdd vchod, *D* y pedwerydd, *F* kowydd atteb ir kowydd uchod.

*Priodoliad*

*A* gruff ap tudur ap ho[ ], *B–F* gruff ap Tvdvr ap hoell ai kant.

*Trefn y llinellau*

*ADE* 1–64, 66, 65, 67–86.

*BCF* 1–86.

*Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn  
gan Ieuan Delynor*

Y post hael, hapus, dulwyd,  
A baedd gwyllt, o bai ddig, wyd;  
Derwen, a nenbren ein hiaith,  
4 Dewr er taro drwy'r teiriaith;  
Os difalch i'th ystafell,  
Ni bu erioed wynebwr well;  
8 Mae'r ddihareb, myrdd arian,  
Amdanad, y gleisiad glân:  
Ni cheir un fyth yn chwyn fo  
O fawrnerth heb fai arno.

Aer llydan fal iarll ydwyd,  
12 Datgeiniad anynad wyd;  
Baril mawr, bu ar ôl medd,  
Barwn rhoed, bur anrhydedd,  
Beili, proffwyd, bol praffa',  
16 Bwt o win ar ôl byd da.  
Ystyr iawngof, stôr angerdd,  
Ystyriol cyff ystrwla cerdd;  
Di adwaenost, da d'wyneb,  
20 Dant noeth o du hwnt i neb;  
O chân un iwch yn annoeth  
Gamfesur mewn difyr doeth,  
Deli'n ddig o ffymigddull  
24 Dan dy ddaint, adwen dy ddull;  
Pob acen o'th awenydd,  
Pob prifgaine ar dy faine fydd;  
Rhodio wnai 'r hyd y neuadd,  
28 Riwlïo a gwrando pob gradd;  
Twrch ar ystum, torch aur restr,  
Tarw anllad, taer ewinllestr,  
Tŵr durwisg fel tarw durudd,  
32 Tremyniad, rhoddiad aur rhudd.

O gwyl merch mewn gwiaïl Mai  
Dy lygad, hi lewygai;



- 36 Lleddfu wna merch, fwynerch fain,  
Lle 'dd elych, fal lladd elain;  
Mae'r gair dofair, gŵr difeth,  
Fod yn llai eich bai o beth,  
Ac yn wyneb Gwenonwy
- 40 Ni bu, stôr falch, bostiwr fwy;  
Cerdded a wnai ar drai'r dref,  
Cawr hoywdraul, fal carw hydref,  
Pleser hydd, o'r plas yr haf,
- 44 Pwrcaswr, i'r parc isaf,  
Ac o'r parc, wyf i'ch marcio,  
E ry y traed lawer tro  
O'r loets wen at seren serch
- 48 Acw i'r ardd, o cei'r ordderch,  
Ac o'r ardd landeg harddwych  
I'r plas a'r gwin, pleser gwych,  
Ac yno ni mag annwyd,
- 52 Tŷ ni bu well tân a bwyd.

- Dyfalu a wnei di fal Nudd,  
Byw priodol, bob prydydd,  
Pob pibydd ymennydd mawr,
- 56 Pob tâl in, pob telynawr,  
Pob crythor, trysor wyt draw,  
Pob pencerdd piau pynclaw.  
Ni ddaw bwngler i'th glera,
- 60 Ni baidd dyn, oni bydd da!  
Carw mes aur, côr mesurau,  
Cyrhaeddi frig pob cerdd frau;  
Coffor gwrdd, cyff aur gerddawr,
- 64 Caffom oes it, y cyff mawr.

### *Ffynonellau*

A—Bangor (Mos) 9, 100<sup>v</sup> B—BL Add 9817, 183<sup>r</sup> C—BL Add 14875 [= RWM 30], 225<sup>v</sup> D—BL Add 14889 [= RWM 25], 66<sup>r</sup> E<sup>1</sup>—Bodley Welsh e 7, 92<sup>v</sup> E<sup>2</sup>—Bodley Welsh e 7, 94<sup>r</sup> F—Card 4.10 [= RWM 84], 1183 G—LIGC 3051D [= Mos 148], 556 H—LIGC 6471B, 105

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

### *Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd naw copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn

cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–10, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copïau yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

B—BL Add 9817, 183<sup>r</sup>

C—BL Add 14875 [= RWM 30], 225<sup>v</sup>

E<sup>1</sup>—Bodley Welsh e 7, 92<sup>v</sup>

E<sup>2</sup>—Bodley Welsh e 7, 94<sup>r</sup>

G—LIGC 3051D [= Mos 148], 556

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–36 [E<sup>1</sup>]. 3 CE<sup>2</sup> on jaith. 4 C draw er. 5 E<sup>2</sup> difach. 6 B ni bv r vn wynebwr well. 7 B ariau. 8 B am danoch lwdn y gloch glau. 9 E<sup>2</sup> na chair ynfyth. 10 E<sup>2</sup>G yw fawrnerth. 11 BE<sup>2</sup>C gwr llydan; B ag iarll. 12 G atganiad; CE<sup>2</sup> anynad jawn wyd, G nynad iawn wyd. 18 CE<sup>2</sup> ystwrta. 19 B ti; B tav odineb, C daw dwyneb. 20 B tannt, C ytant; BE<sup>2</sup> or tv hwnt, C ytv hwnt. 26 B [fydd]. 28 CE<sup>2</sup> [a]. 29 B twrch ar ystym, CE<sup>2</sup>G twrch yw r ysdym. 30 C tor winllestr, E<sup>2</sup> tor ywinllestr, G torr ewyn llestr. 31 E<sup>2</sup> dewrwise. 33–4 [B]. 34 C hialywgai, E<sup>2</sup> hi alwgai. 35 C lleddfv ana. 37–64 [E<sup>2</sup>]. 37 E<sup>1</sup> dafair; G wr. 38 B llai y bai. 39 B gwenn onwyf. 40 C vostiwr; B fwyf. 41 B wnaif; B draif y dref, CE<sup>1</sup> drai ir dref. 43 B hvd. 45 B parch; B i cham farcio, C rwyf ich markiof. 46 B y traed a rydd, C vorydd y traed, E<sup>1</sup> foryd ytraed; C trof. 47 E<sup>1</sup> ir loich. 51 E<sup>1</sup> yna. 52 C na bwyd. 54 C briodol, E<sup>1</sup> priodo; B prydyd. 55 G pob prydydd y mynydd mawr. 56 B tal iawn, C tal nawn. 57–8 [BG]. 59 E<sup>1</sup> mwnler ith. 62 E<sup>1</sup> kyr heidd frik. 63 E<sup>1</sup>G kyff avr i gerddawr. 64 E<sup>1</sup> kaffo moes yt.

*Teitl*

[CE<sup>1</sup>G], A C. dychan &c. i S<sup>r</sup> Wiliam Gruffydd, B cowydd o waith ifan dylynior i syr W<sup>m</sup> gr drwy ddychymig doctor W<sup>m</sup> glynn a mastr sion pilstwn serssiant cyn i fynd yn farchog, D i S<sup>r</sup> Wil[ ]m gr[ ], E<sup>2</sup> Iein dylynior ai kant i S W<sup>m</sup> grd, F Cowydd i Sr W<sup>m</sup> Gr: Marchog or Penrhyn Drwy

Ddychymig Dr Wm. Glynn a M<sup>r</sup> Sion Pilstwn, cyn ei fynd ef yn Farchog, *H* kowvdd y Rys gryffydd o waith Jevan delynior.

*Priodoliad*

[*E*<sup>1</sup>], *AC* Jenn dalynior ai kant, *BFG* Ifan Dylynnior, *D* Jvan dylynior ai kant, *E*<sup>2</sup> S dd trefor ai kant i S W<sup>m</sup> grd, *H* medd arall Jevan delynior ai kant.

*Trefn y llinellau*

*AD* 1–60, + ni ddaw vn drwg rhag ofn draw / ith olwg nag ith ddwylaw /

Doeth (*A* rhoech) gyngor i gerddor gad / a chrevlon vwch arevliad, 61–4.

*BF* 1–32, [33–4], 35–56, [57–8], 59–64.

*C* 1–54, 57–8, 55–6, 59–64.

*E*<sup>1</sup> 14.1–22, 25–42, 13.[1–36], 37–60, + ni ddaw vn drwg rhag ofn draw / ith olwg nag ith wylaw / noeth gyngor i gerddor a gad / achrevlon ywch arailiad, 13.61–4.

*E*<sup>2</sup> 1–36, [37–64], 14.43–8, 53–66.

*G* 1–56, [57–8], 59–64.

*H* 1–54, 57–8, 55–6, 59–60, +ny ddaw vn drwg rhag ofn draw / ith olwg nag ythwylaw / rhoech gyngor y gerddor a gad / a chreulon ywch areiliad, 61–4.

*Ateb dros Syr Wiliam  
gan Syr Dafydd Trefor*

- Ifan, pa syfrdan y sydd  
Yn myned yn d'ymennydd?  
Pa fariaeth? Pa fyfyrrio?  
4 Aeth gair dy fyned o'th go'!  
Pa awen freithwen ar frys  
A dyfodd ar dy wefus?  
Pa remial ar bob talfainc  
8 A ga'd o'th god gyda'th gainc?  
Os ceisio hwylio helynt  
Llywelyn ap Gutun gynt,  
A cheisio gwreiddio mewn gradd  
12 Â dwygrefft odidowgradd,  
Dy law ar dant a lowir,  
A gwaith dy dafod nid gwir,  
A'th gywydd newydd, na wad,  
16 Aeth lawer i'th oleuad.
- Ysglendraist, beiaist heb wedd,  
Gogenaist Siambrlen Gwynedd  
Am ei fod acw'n rhodiaw  
20 O'r llys i'r parciau gerllaw.  
Yno, lle buost annwyl,  
Gormodd oedd dy rodd yr wyl!  
O dôi'n hwyr dan laswyrw  
24 Ar hyd y coed led troed draw,  
Taerut arno 'mhob teirawr  
Roi 'n ei loets riain i lawr.  
Os i'r gerddi i weddiaw,  
28 A'i lyfr a fynnai 'n ei law,  
D'wedut nad hynny ydoedd,  
Gwaetio rhyw gutog yr oedd.  
Yr arglwyddes a'th blesiai,  
32 Ifan, nid bychan y bai,  
Credai mai cywir ydwyd,  
A pha les oedd? Mor ffals wyd!

36 Hortaiaist, lle y cefaist bob ced,  
Farchog urddol o ferched.

Gwn a'i parodd: gwin purwyn  
A gwledd y doctor o'r Glyn.  
Ni cha' ennyd ddychanu  
40 Nemor ar y doctor du;  
Crochan aeth â'n harian ni,  
Crochanaidd y'n crechweni;  
Dwyn ei gas ni lafasa',  
44 Gormodd a ddysgodd o dda;  
Da y cad, y cwd llinad llên,  
Erioed achos Rhydychen.

Ifan, dy waith sy ofer,  
48 Goffâu clap ar dy gyff clêr.  
Meithrin chwileren ennyd  
Mewn mynwes gynnes i gyd  
Oedd dy gael uwchlaw'r aelwyd,  
52 Eginyn bardd, i gnoi bwyd.  
O thynnaist, mae yt waith ennyd,  
Yn dy ben enaid y byd,  
Gwyddiad gyda gwiw addysg  
56 Gwarant ar gerdd dant a'i dysg,  
A chrychiad brofiad a brig  
A mesur clymau miwsig.  
Ond da y gwnaeth, hyd y gwn i,  
60 Gelu arnad giliorni.  
Er dywad morwyn dawel  
Ato i'r ardd neu'r tŷ yr êl,  
Haerud na allai â hirwen,  
64 Mwy nag ych, ymwan â gwen.  
Diriaid na châi hwn dorri  
Draw'r gwayw ar dor dy wraig di.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 9817, 184<sup>r</sup> B<sup>1</sup>—BL Add 14875 [= RWM 30], 72<sup>v</sup> B<sup>2</sup>—BL Add 14875 [= RWM 30], 227<sup>v</sup> C—BL Add 31085, 18<sup>r</sup> D<sup>1</sup>—Bodley Welsh e 7, 92<sup>v</sup> (*llau. 1–42*) D<sup>2</sup>—Bodley Welsh e 7, 94<sup>r</sup> (*llau. 43–66*) E—Card 4.10 [= RWM 84], 1183 F—LIGC 3051D [= Mos 148], 559 G—LIGC 6471B, 108

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd wyth copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1600, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1600*

A—BL Add 9817, 184<sup>r</sup>

B<sup>1</sup>—BL Add 14875 [= RWM 30], 72<sup>v</sup>

B<sup>2</sup>—BL Add 14875 [= RWM 30], 227<sup>v</sup>

D<sup>1</sup>—Bodley Welsh e 7, 92<sup>v</sup>

D<sup>2</sup>—Bodley Welsh e 7, 94<sup>r</sup>

F—LIGC 3051D [= Mos 148], 559

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1–42 [D<sup>2</sup>]. 1 D<sup>1</sup> Jen *gyda llinell dros yr n*. 4 A waeth gair, B<sup>1</sup> aeth y gair, B<sup>2</sup>D<sup>1</sup> faeth gair; B<sup>1</sup> dy vynd oth go. 5 B<sup>1</sup> par awen; F fraisgwenn. 7 A rimial, B<sup>1</sup> rempial. 11 A gwreiddio pob gradd. 12 A dwygreff. 13 AD<sup>1</sup>F alwfir. 17 D<sup>1</sup> defelaist beiaist. 23–4 [D<sup>1</sup>]. 23 B<sup>1</sup>B<sup>2</sup> os ai n hwyr; B<sup>1</sup> i lasswyrw. 25 A tarrvd. 26 B<sup>1</sup> riain ar lawr. 27 B<sup>2</sup> [i]. 28 B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>F ai lyfr yttynne n i law. 30 A goettio, B<sup>1</sup> waittio ar, F coetio. 31 D<sup>1</sup> ar yr glwyddes; B<sup>1</sup> a blessing. 32 B<sup>1</sup> Jevan. 34 B<sup>1</sup> les yw. 35 B<sup>2</sup> [y]. 37 F parai; B<sup>1</sup> perwyn. 38 D<sup>1</sup> a glwledd. 39 B<sup>1</sup> chae. 40 D<sup>1</sup> y nemor. 42 A grochanaidd dann grechwenni, B<sup>2</sup> krochanaidd yn krychwenni. 43–66 [D<sup>1</sup>]. 46 F erioed iach o ryd ychen. 48 A goffa clau, B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>D<sup>2</sup>F koffav klap; F ar y cyff cler. 49–52 [B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>D<sup>2</sup>]. 49 F chwilyern. 51 F vwch llawr aelwyd. 52 F i gnoi n bwyd. 53 F mae n waith ennyd. 56 B<sup>1</sup> warant y gerdd. 57 B<sup>1</sup> a chlymiad; B<sup>1</sup> breisciad oi bric, B<sup>2</sup> brofiad oi bric, D<sup>2</sup> brofiad ai bric. 58 D<sup>2</sup> klymav a misic. 59 B<sup>2</sup>D<sup>2</sup>F [y] gwnaeth. 60 B<sup>2</sup> gliwrni, D<sup>2</sup> gliworni, F gylioni. 61 A er dyfod. 62 D<sup>2</sup> ne ir ty rel. 63 B<sup>1</sup> haeryt, D<sup>2</sup> haryd. 64 B<sup>1</sup> mwy nor ych. 65 B<sup>1</sup> dyrras na, B<sup>2</sup> dirras na. 66 B<sup>1</sup> draw waew ar.

*Teitl*

[ $B^1B^2D^2F$ ], *A* cowydd ateb o waith syrff dafydd trefor dros syrff  $W^m$  gruff ir cowydd vchod, *C* Dychan i Ryw Ieuan fardd a cherddor,  $D^1$  kowydd i Jenn dylynior, *E* Atteb Dros Sr  $W^m$  Gr., *G* [ ]udd ateb yr kowudd vchod.

*Priodoliad*

[ $D^1$ ], *A-CEF* Syr dd trefor,  $D^2$  S dd trefor ai kant i S  $W^m$  grd. *G*  $S^r$  dafudd trefor ai kant.

*Trefn y llinellau*

*AEF* 1–66.

$B^1B^2CG$  1–48, [49–52], 53–66.

$D^1$  14.1–22, [23–4], 25–42, [43–66], 13.37–60, + ni ddaw vn drwg rhag ofn draw / ith olwg nag ith wylaw / noeth gyngor i gerddor gad / achrevlon ywch arailiad, 13.61–4.

$D^2$  13.1–36, [14.1–42], 43–8, [49–52], 53–66.

*Mawl i'r marchog a dychan Syr Dafydd  
gan Ieuan Delynor*

- Y gŵr digrif gwridogrudd  
Yn dwyn yr aur gadwyn rudd,  
Syr Wiliam, wisg serloyw maith,  
4 Siambrlen, caterwen teiriaith:  
I waith deubeth y'th dybynt,  
Wrth aur a gwŷr Arthur gynt.  
Arthur oedd wrth arweddiad  
8 Yn benadur gloywddur gwlad;  
Rhinweddau ar hwn oeddynt  
Rhagor gŵr rhywiogryw gynt;  
Bu abl â dysg heblaw dyn,  
12 Bu ordd teulu, bardd telyn.  
Fy llew rhudd, felly rhoddwch,  
Fel Arthur a'i fflamddur fflwch,  
Y dwylaw ar y delyn  
16 A chanu tant a chnot ynn;  
Fo ddaw pob merch anerchfawr  
Ar ôl dy amnaid yr awr;  
A chyda'r tant, gwarant gwych,  
20 I roi nyddiad rhinweddwyd,  
Ni fu'n glir o fwnwgl iach,  
Lwysber wŷdd, lais bereiddiach;  
Ni chân neb â chwi o'n hiaith  
24 Mor gyfion ym mrig afiaith,  
Mêl i ostwng melyster,  
I ddal pwnc a meddwl pêr.  
Gwae un dyn a ganai dant  
28 Yn ddwl wedd, yn ddilwyddiant.  
Astudiwr â chlust ydwyd  
Hir a byr, dihareb wyd;  
Trwm uwchlaw gwŷr trimwchl gwych,  
32 Trumiog odidog ydych;  
Cywir iawngof cywreingerdd,  
Colofnau, cadeiriau cerdd.  
Caem roddion cymyreddwyd,  
36 Cawn y gwin er canu gwych.



40 Croyw gennyf, cry' ac uniawn,  
 Cadw'r un llys cadarn llawn  
 Fal prydydd gynt, wiw hynt wedd,  
 Yn Rhaglan mewn rhywiogwledd.

44 Nid âi eurwalch o'i darren  
 Er un blaidd haearnaidd hen;  
 Nid af i'm hoes, dof am win,  
 O baradwys barodwin.  
 Mae'r wledd ym ar lwydd yma  
 Mewn y llys ddaionus dda.  
 48 Y mae'r iarllles mor eurllawn  
 Mewn aur a dysg, maner dawn.  
 Llawen ym, o'r llin emaur,  
 Llys y gwin, llysau ac aur,  
 Gweled, gwawr loywdeg eirian,  
 52 Gwledd a sir Arglwyddes Siân.  
 Plas ir am win, pleser maith,  
 Parlyrau mewn perl eurwaith;  
 Llarieiddfyd gerllaw'r Wyddfa  
 56 Lloffydd y diodydd da.  
 Mawr yw'r genfigen fy mod  
 Yn eiste' yma'n wastod!

60 Mae dynion gweinion fal gwynt,  
 Athrodwyr aruthr ydynt,  
 A phob dyn, meddyn', ym Môn  
 Yn bwrw geiriau brigoerion,  
 Ac awen goeg iawn ei gwŷdd  
 64 Sy ar dafod Syr Dafydd;  
 Ni chlyw fai, ni choelia'i fod  
 Er a dyf, ar ei dafod;  
 Drwy gam, ail drwg ymaelydd,  
 68 Ei fwrw ni chred o farn chwŷydd;  
 O daw'r eilgwrs ar drolgwymp,  
 Ar ei gefn yr â i gwymp;  
 Y neillwers mae'n enillwr  
 72 A'i 'wenydd ar gywydd gŵr,  
 Ar gwrs arall, gŵr syriol,  
 I'r dwned y rhed yn rhòl;  
 Ni pherthyn, gwnaiff hyn yn ffòl,  
 76 Astudio yn wastadol.

- 80 Enbyd ar ffyrfryd 'fferen  
O daw dryll pennill o'r pen;  
Nid hwyrach, dieiriach dysg,  
Droi meddwl ar drem addysg.  
O troes mewn meddwl traserch,  
Eithr mwy ni thry er merch.
- 84 O thrown oddi wrth rianedd  
O Lŷn a Môn i lanw medd,  
Ni throf er pregeth yrhawg  
O'r lle reiwl, iarll rhywiawg;  
O bob tref y gall ef gael,
- 88 Gwynfydwr, gennyf adael,  
O bob plas rhyfas yrhawg,  
O'r gwledydd aur goludawg,  
O bob man, petwn cannoes,
- 92 Ond o un fan nid a' 'n f'oes.

*Ffynonellau*

A—BL Add 9817, 185<sup>v</sup> B—Card 4.10 [= RWM 84], 1184 C—LIGC 3051D [= Mos 148], 562

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd tri chopi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–10, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau'r llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700*A—BL Add 9817, 185<sup>v</sup>

C—LIGC 3051D [= Mos 148], 562

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

6 C wrth air a. 10 A rragor gair rrowiogwyr gynt. 14 C oi. 16 A tannt a channnd tyn. 20 C rhineddwyh. 33 C cowair iawngof. 34 C colonav. 35 C cymyreiddwyh. 39 A wiwbwynt wedd. 54 A perlyrav. 57 A yw cynfigen. 58 C yn eiste ynon. 61 A ffob vn. 65 C ni chel i fod. 68 A chwreydd *gyda ll. drwy'r e*, C chwrydd. 73 C siriol. 74 C mewn dwned. 77 C ar ffyryd. 78 C pennyl. 84 A [i] lanw, C i lenwi. 90 C gwledydd mawr.

*Teitl*

[C], A ag yno ir atebe ifan dylynior ir marchog ag i syr dd trefor, B Atteb ir Marchog ag i S<sup>r</sup> D: Trefor.

*Priodoliad*

A Jeinn dylynior, BC ifan dylynior.

*Trefn y llinellau*

ABC 1–92.

*I Siôn Pilstwn**gan Ieuan ap Madog ap Dafydd*

Y tŵr llwyd a'r tor llydan  
 A egyr lys y gaer lân,  
 Siôn hirwyn a synhwyrwyd,  
 4 Palis da ei nerth, Pilstwn, wyd.  
 Mawr yw dy rwysg, mordwy i rai,  
 A'th dŵr maen wrth dor Menai;  
 Y carw iach yn cau ar wŷr,  
 8 Llys Edwart nid llai sawdwyr;  
 Wrth Arthur y'th fesurwyd,  
 Mwdwl aur am Eidol wyd;  
 Dy glod bêr hyd y seren,  
 12 Milwr o waed Maelor wen.  
 Tair swydd yt o'r oes heddiw  
 A ddoeth, llyna gyfoeth gwiw:  
 Sarsiant y'th alwant i'th oes,  
 16 Dan Harri yn dwyn hiroes;  
 Mawr fu'r cwnstabl ym Mablon,  
 Mwy dan sêr mae d'enw, Siôn.

Er tair swydd a ddigwyddai  
 20 Hynod fydd enwi dy fai:  
 Gwneuthur yn fwyn ddau wyneb,  
 A throi bai lle ni wnâi neb;  
 Brau at un bwrut anair  
 24 Yng nghefn dyn, anghyfion d'air;  
 Ni all dyn cywir, gwirion  
 Na'th frawd ymddiried i'th fron;  
 Mae'r doctor i'th gynghori,  
 28 Nid da iawn aeth o'n tu ni;  
 Y mae'n ungest mewn angerdd  
 O'r castell yn cymell cerdd,  
 Peri, wrth drin gloyw-win gwledd,  
 32 Canu i bendefig Gwynedd;  
 Am a fu heb ganu gwir,  
 O du Wiliam y dielir.

36 Llunïaf gerdd yn llwyn y gog  
 Am ei erchi o'r marchog.  
 Gyrrech gythrel gofelyn  
 I'w blas a'i lancwas o Lÿn,  
 40 Gŵr a wnaeth fyfyrïaeth fawr,  
 Da ei lun, iawn delyniawr;  
 Melys oedd ei fys a'i fawd,  
 Difai i ddiawl ei dafawd;  
 Canodd eiriau nid cynnes  
 44 Ar fainc, gyda phrifgainc ffres,  
 Swrn o ddychan i'm annwyl;  
 Mwy dyly ei ladd na gwadd gŵyl.  
 Yn faril y rhoen' f'eryr,  
 48 Yn fwt gwin, ynfyta' gwÿr;  
 Yn hydd o flaen cynydd cau,  
 Drwy gân, ac yn darw gwinau;  
 Â gaîr sâl ei ddyfalu  
 52 Yn ei dorch deg yn dwrch du.  
 Eich campau mewn drysau draw,  
 Iach oedd, a fwriech iddaw.  
 Perffaith y'i cad yn wladwr,  
 56 Dewr ei gorff, diweiria' gŵr;  
 Cadwai mewn clod briodas,  
 Uwchlaw neb mae i'r wyneb ras;  
 Ni ddug, dan ei lurig lân,  
 60 Bechod, mwy no dyn bychan;  
 Ni chad ar ffordd â gordderch,  
 Na'i ddal yn minial â merch,  
 Nac wrth ffenestr tÿ estron,  
 64 Fal y'th gad yn siarad, Siôn.  
 Tydi'n ffals ac yn galsyth,  
 Chwannog i ddyn fonog fyth;  
 O daw rhiain drwy'r heol  
 68 Mewn oed i dewgoed yn d'ôl,  
 Fo'i gwÿl y llall o gil llwyn  
 Almari ar fol morwyn.  
 Pa sôn yr awron yr wyd?  
 72 Anlladach dunnell ydwyd.

Yr wyf fi yn w'r afiach,  
 Duw mawr a'm gwna'n awr yn iach!  
 Am a wnaethoch o noethi  
 76 Mwstwr ar fy meistir i,

Gorwedd heb ryfedd yr wyf:  
Oni chwitiaf na chotwyf!

*Ffynonellau*

A—BL Add 9817, 187<sup>v</sup> B—Card 4.10 [= RWM 84], 1185 C—J 140  
[= RWM 15], 531 D—LIGC 3051D [= Mos 148], 566

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd pedwar copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–8, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau'r llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700*

A—BL Add 9817, 187<sup>v</sup>  
C—J 140 [= RWM 15], 531  
D—LIGC 3051D [= Mos 148], 566

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *D* y twr wyd. 4 *CD* palis dann nerth. 5 *A* [i] rai, *C* [i] r ai. 7 *A* [Y]. 10 *D* mwld. 11 *C* y fferen. 13 *CD* tair swydd y tores heddiw. 14 *C* [llyna] dy gyfoeth gwiw, *D* dyna gyfoeth gwiw. 18 *CD* ymae. 20 *C* fūd. 23 *A* bwrryd, *C* bwrit. 28 *CD* nid tai neb aeth. 29 *C* [Y] mae yn. 34 *C* [y]. 35 *D* llwnia gerdd. 37 *CD* gythrel gwarrfelyn. 40 *CD* dai lvn ifan dyluniawr. 41 *CD* melys yw i fys. 42 *C* a difai. 46 *AC* mwy dyle i ladd, *D* mwy dylei ladd. 50 *C* [ac]. 51 [*A*]; *CD* ag arr sal. 52 *A* yni dorch des i dwrch dv. 65 *C* tydi ffals. 67 *A* o daw r rriain. 68 *AB* i degoed. 72 *C* dewell (dynnell). 74 *C* gwna awr. 75 *D* am a wnaethost.

*Teitl*

[D], *A* ag yna ir atebai ifan ap madog dros ywr cowydd hwnn, *B* Atteb ir Cowydd uchod, *C* kowüdd moliant y M<sup>r</sup> sion pilstwn.

*Priodoliad*

*AB* ifan ap madog, *C* Jfan amhadog ai kant, *D* ifan amhadog.

*Trefn y llinellau*

*AB* 1–50, [51], 52–78.

*CD* 1–78.

*Mawl Syr Wiliam Gruffudd a dychan iddo am garu  
gan Ieuan Delynor*

- Y rhywiogwalch aur hygoll,  
 Ac yn ei ddwrn Gwynedd oll,  
 Yn llew ffriwlew ar y Ffranc,  
 4 Ac i ryfel gŵr ifanc,  
 Yn oen rhywiog, yn rheol,  
 Yn llew a nerth llu 'n ei ôl.  
 O cyffroir y cyff rhywiog  
 8 (Carw a nerth cawr yn ei og),  
 Od â'n ddig o dan ei ddant  
 Y gwŷr enwog a grynant.  
 Pedrog i gadw'r marchog mau,  
 12 Penrhyn Nudd, paun rhinweddau!  
 Mae marchogwaed, merch wiwgoeth,  
 Ym mreichiau dug mawrwydych doeth;  
 Iarlles Siân o'r llys enwog  
 16 A rydd grym arwydd y Grog;  
 Gwell gennyf, gallu gwenfun,  
 Ei gair hi no'r gŵr ei hun;  
 A thrwy dir gweithred arian  
 20 Ac aur a sêl yw gair Siân.
- Dwyn ei nawdd, myn Duw, ni wnaif;  
 Dau o'r byd nid arbedaf,  
 24 Nac Ifan, er ei gofwy,  
 Amhadog, na'r marchog mwy.  
 Dau wni, nid bri er eu bod,  
 Yn hyf a gân fy nhafod.  
 Eich dychan dan y manwydd,  
 28 A'ch gwawd, Syr Wiliam, i'ch gwŷdd.  
 O thrown, newidiwn fal nos,  
 Ar ddychan—yr oedd achos.  
 Mewn deubeth y mae'n debig  
 32 Eich amcan, fro arian frig,  
 I ŵr oedd yn wareiddwydych  
 Yn Ewias gynt yn was gwydych;



36 Pan fynnodd, c'ledodd fel clau,  
 Prydodd oes prydyddesau;  
 Felly chwithau, eurglau gledd,  
 Yn rhoi Ifan yn rhyfedd;  
 40 Eich prydydd fal gwlydd gwlad,  
 Gwrach ydyw fal gwarcheidwad.  
 Wrth eraill, gwŷr a'th eura,  
 Caled a wyd yn cloi da;  
 44 Cest rhoddwin, cist y rhuddaur,  
 Cywrain wyd yn cronni aur.  
 Cawr rhyfel, carw hoyw ifanc,  
 Coffor byr, cyff aur y banc,  
 48 Brawn tew wyt megis bryn teg,  
 Bwla unwedd mewn bloneg,  
 Brest lydan, loyw organ lais,  
 Bur waeddlawn o bereiddlais;  
 52 Aeddfedu, addef ydwyd,  
 Oddfyn doeth, addfain nid wyd.  
 Yr arglwyddes o'r gwleddi  
 Disgwylied, a chadwed chwi!

56 Mi glywais, ofeg lawer,  
 Eich bod, wedi'ch diod bêr,  
 O lys ir dan laswyrw  
 Yn rhodio drwy'r rhydau draw,  
 A'ch cael yno yn ael nos  
 60 Yng nglan Ogwen ynglŷn agos,  
 Ac o'r sarn gadarn yn gwau  
 Ysgŵd dros yr esgidiau;  
 Ac eilwaith, dan ymgelu,  
 64 I'r loets fraith wedi'r lets fry;  
 Eich helynt, fal wybrwynt walch,  
 Yw glan Ogfaen g'lenigfalch,  
 A disgin yn drablin dro  
 68 Heb ffael hwyad i'w phluo,  
 Ac ar hynt ei gyrru hi  
 O'r mawrwalch *i'r* mieri;  
 Mi a'ch gwelais, ni beiddiais bin,  
 72 Yn dulio rhwng ei deulin.  
 Nid hwyrach cyn pen teirawr  
 Na'ch câr merch er eich gair mawr.  
 I'r gwagedd mewn gorwegi  
 76 No'r sarsiant mwy yw chwant no chwi,

- A gwaeth fyth no'r gwaith a fu  
 O bai 'wyllys heb allu.  
 Ni bydd rhad murniad mawrnerth,  
 80 Mae'r cwnstabl yn abl o nerth.  
 Tripheth ar w'r nid rhyffol,  
 Serchog a rhywiog yw'r rhòl,  
 Caru merch ar lannerch lân,  
 84 A cheisio mêl ei chusan,  
 A chwedi'i chael, gafael gu,  
 Un wych alawnt, ei chelu.  
 Gair da iawn gwŷr diannoeth,  
 88 Gwnewch gyngor y doctor doeth,  
 Ac na wneloch, anwylwin,  
 A wnêl y gŵr yn ôl gwin.

*Ffynonellau*

A—BL Add 9817, 189<sup>r</sup> B—Card 4.10 [= RWM 84], 1186 C—J 140  
 [= RWM 15], 534 D—LIGC 3051D [= Mos 148], 569 E—Llst 123, 156

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd pum copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–10, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopïau agos ohonynt. Ymranna'r copïau yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau'r llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700*

A—BL Add 9817, 189<sup>r</sup>  
 C—J 140 [= RWM 15], 534  
 D—LIGC 3051D [= Mos 148], 569  
 E—Llst 123, 156

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *C* hügoll. 3–4 [*ACD*]. 5 *CD* rhowiog ir heol, *E* rhywiog yn yr reol. 6 *C* llew i nerth, *E* llew noeth; *E* a llv. 7–8 [*ACD*]. 9 *AE* odd dan, *D* oddann. 13 *A* mae r marchogwaed. 14 *C* mor wych. 16 *AE* ar wedd i r grog. 17–18 [*ACD*]. 21 *C* myn dü; *E* mi naf. 22 *C* daw or. 24 *CE* amhadog ar. 25–8 [*ACD*]. 25 *E* nid bai er. 29 *D* o thrown ni wyddwn fal nos, *E* othrown nediwn fal nos. 32 *A* ach amcan; *E* ffro arrian ffrig. 33 *CD* yn ireiddwych. 34 *E* (Eneas). 39–40 [*ACD*]. 42 *AE* caled iawn wyd. 44 *E* wyd fal coron avr. 46 *A* corff ir byrr. 49 *A* lydan fal organ. 50 *A* ber. 51 *CD* addfedaist addfed ydwyd. 55 *AE* mi a glowais oddeg; *C* lawen. 56 *C* ben. 57 *C* oi lüs; *D* avr. 59–60 [*ACD*]. 61 *C* ag ar sarn. 62 *A* yscwd aeth dros isciadiav. 63 *C* y gelü. 64 *E* ir loetis; *C* fraith wedü lets, *D* fraith ar letys, *E* fraith wedi/r/ leits. 66 *AE* ogwen, *C* ogfan; *E* glenigwalch. 67 *C* y drablin. 68 *E* oi flvo. 69–72 [*ACD*]. 70 *E* mawrwalch mewn mieri. 74 *E* nach gar. 75–6 [*ACD*]. 79 *C* rhad mowrnad. 80 *AD* abl i nerth, *C* abl y nerth. 81–6 [*E*]. 84 *C* mel a chüsan. 86 *C* yn wych alawnt yw chelu.

*Teitl*

[*D*], *AB* ateb i sr *W<sup>m</sup>* gruff ag i Jenn ap madog, *C* moliant i Sr wiliam gr ag ateb ir kowydd vchod, *E* *Cy. mol. S<sup>r</sup>* wiliam Gruff. a dychan iddo am garv &c.

*Priodoliad*

*A* Jenn dylynior, *B* Ieuan Delyniwr, *CE* Jfan delynior ai kant, *D* ifan dylynior.

*Trefn y llinellau*

*A–D* 1–2, [3–4], 5–6, [7–8], 9–16, [17–18], 19–24, [25–8], 29–38, [39–40], 41–58, [59–60], 61–8, [69–72], 73–4, [75–6], 77–90.  
*E* 1–80, [81–6], 87–90.

*Mawl a dychan am ddwyn lle'r bardd yn y Penrhyn  
gan Ieuan ap Madog ap Dafydd*

- 4                   Hudol yw'r byd a 'heda,  
                      Traean awr yw'r tro a wna;  
                      Cariad arglwydd a swyddau  
                      Y sydd yn berygl na sai';  
                      Un meistr nid oes, mwstwr dig,  
                      Ond Iesu, Un dewisig.
- 8                   Ucho i Wiliam ni choeliaf,  
                      Hyder o Dduw Nêr a wna;  
                      Tybiwn yn gerth na'm gwerthai,  
                      Wrda gwych, er da a gâi;  
12                   Clywais mewn man wrth ganu,  
                      Brwydyr fawr, mai bradwr fu.  
                      Bûm heb ymgel â'm helynt  
                      I'r Penrhyn, a'm gofyn gynt;  
                      Dygodd rhyw ddy'n a'm digie,  
16                   Tennyn o dir Llŷn, fy lle;  
                      Cafas hwnnw aur cyfan,  
                      Gwledd a sir Arglwyddes Siân.  
20                   'Hudrwydd y marchog hydraul  
                      Sy fal gwynt neu helynt haul,  
                      Tebyg, mae rhai a'i tybynt,  
                      I'r delor ddigyngor gynt  
                      A ddug y neidr ddiroidlas  
24                   O'i phlu, a'i gyrrodd o'i phlas.  
                      Dyn unfodd denodd i'w dai,  
                      Suddas i'r neb nis haeddai!  
                      Cyrchu'r plas ni lafasaf:  
28                   Ei weled, na ched ni chaf.  
                      Ifan darian y durew,  
                      Gwawdwr fflwch, a gwrid rhaff flew,  
                      Ag odlau i'n cefnau i'n cur,  
32                   Doedai gael awen Dudur;  
                      Doedaf (mor ynfyd ydoedd!)  
                      Mai awen gam Ingram oedd.

36 Tybiodd â'i farf y'm tarfai  
 O lawndy gwin Landygái;  
 Ni'm gyr â'i ffrost ar osteg  
 O'r Penrhyn, haul tywyn teg;  
 40 Nid af o'r wlad ffynadwy  
 Er Ifan liw mulfran mwy.

Rhoes mewn cof, rheswm cywydd,  
 Absen i'r siambrlen ysydd.  
 Od yw y modd y dywod  
 44 Ei gampau, gwaec finnau ei fod,  
 A'i fynd o'i blas i'w laswyr  
 I'w goed ei hun gyda hwyr,  
 A'i ddal isgil mor filain  
 48 Â'r gwalch ar ryw fwyalch fain;  
 Er mynd dros sarn ar garnfais  
 Ar ôl gwen, cymen y cais,  
 Fo allai'r gwalch difalch du  
 52 Euro'i glych er eu gwlychu.

Duw anial, fo'n diwynwyd,  
 A'n llew pendefigaidd llwyd  
 Wrth solas yn ei seler  
 56 Ag ynni poeth y gwin pêr:  
 Malais y doctor melyn  
 A'i bwrs hael a beris hyn.  
 Bwrw'i hun a thestunio  
 60 Atom a wnâi ei fai fo.  
 O gwelai ferch anerchfwyn,  
 Anllad ei llygad, mewn llwyn,  
 Rhwng ei osber a'i 'fferen,  
 64 Fo sbiai'n gall wall ar wen.  
 Mae cwd melfed, o'm credir,  
 Y sarsiant, ni warant wir.  
 Hwyliai fal llong bob congol,  
 68 A'i fad drwg ei nâd 'n ei ôl.  
 Ni all y gŵr cywir gwirion  
 Na'i frawd ymddiried o'i fron.  
 Fo a fwriai ar f'eryr  
 72 Fynudie ni welse wŷr.  
 Ni chela' i'm hoes lle troes trin  
 Ei fai yntau a'i fontin.

- 76 Fo âi dan gêl i hela  
 Gyda'i glun, ond un nid â,  
 A'i ddal ar feinir hirwallt  
 Yn hyrio gwen yn nhor gallt:  
 Cyff mawrglod ar gyffoden,
- 80 Gormod llwyth car ar war wen;  
 O ddi un lwys dan ei law,  
 Gŵr blwng a gâr ei blingaw.  
 Fo ddoedai ei ddiwydion
- 84 Arfer ansyber ar Siôn.  
 Ni chdi ferch gan ordderchwr  
 Ei phrifie, fo'i gwylie'r gŵr.
- 88 Er eu gair gwall, nis gallan'  
 Amherchi clod marchog glân;  
 Pan faen' o'u bost yn costio  
 Fo gdi'n rhad ei farchnad fo;  
 Gwell gan ddyn lân i'w hannerch
- 92 Y siambraen sy sylfaen serch.

*Ffynonellau*

A—BL Add 9817, 190<sup>v</sup> B—Card 1.20, 86 C—Card 4.10 [= RWM 84], 1187 D—Card 4.110 [= RWM 47], 198 E—J 140 [= RWM 15], 543 F—LIGC 3051D [= Mos 148], 572 G—Llst 123, 153

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd saith copi o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–6, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copiâu yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau'r llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700*A—BL Add 9817, 190<sup>v</sup>

E—J 140 [= RWM 15], 543

F—LIGC 3051D [= Mos 148], 572

G—Llst 123, 153

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *AEG* a hedaf. 2 *AG* tro a wnafl, *E* troi awnafl. 3 *E* arglwydd ai swyddau, *G* arglwydd y swyddau. 4 *E* na sai. 5 *AEG* [Un]. 6 *AFG* iesv wr dewisig. 7 *G* vchwi Wiliam. 8 *E* hyder ar ddüw, *F* hyder om dw. 13 *C* mewn ymgel. 15 *E* [a'm]; *A* digief. 16 *EFG* denyn; *A* fy llef, *EFG* im lle. 17 *G* hwnnw i avr. 19 *F* hvdrydd yw marchog, *G* hûdryf y marchog. 21–4 [*AEF*]. 25 *AEF* dyn oi fodd; *G* oi dai. 26 *F* svddas yw r neb. 27 *G* cyrchv oi blas. 30 *A* gwowdyr, *G* gwodwr. 31 *A* ag odle'n, *E* ag odle im; *EF* cefne mewn cvr. 32 *EF* doedai mai awen. 33 *G* doedais mae ynfvd. 34 *A* igram. 36 *AG* o lowndai gwinn. 37 *EG* fost. 41 *G* roes; *G* resswm. 42 *F* siambrenn; *AE* [y]. 44 *A* o gampe. 48 *G* or gwalch; *E* ar i fwyalch, *F* ar y fwyalch. 49 *EF* mynd trwy r sarn. 50 *EFG* cymenn fv r cais. 51 *G* allai yn gwalch. 52 *E* eür glüch. 53 *EF* anial im diwynwyd, *G* annial in diwynwyd. 54 *E* am y llew, *FG* am llew; *G* pendefigiaeth. 55 *F* ynn solas. 56 *E* ag ynn. 59–60 [*AEF*]. 64 *G* fo wylie yn gall wall i wen. 65 *A* fom credir, *G* ni chredir. 66 *G* Sion Serssiant. 67 *EF* chwithav fal llong, *G* chwiliav yn vn llong. 68 *EF* inad yn ol. 69–70 [*AEF*]. 71 *G* y fo; *E* [a]. 72 *F* fynvdie, *G* fynidiai; *A* welsse i wyr, *EF* welei wyr, *G* welsay wyr. 73 *EF* ni chelain foes. 74 *G* i fai yntav yn vn fontin. 77 *A* ni ddal. 79 *AEF* cyff melfed. 80 *EG* gormodd; *E* lwyth. 81 *G* o doe ddyn lwys. 83–4 [*AEF*]. 85 *E* ni chad ferch. 86 *F* i ffrife, *G* i ffrifai; *E* fo gwylie y gwr. 88 *E* marchod; *F* clann. 89 *E* o kost, *F* oi cost, *G* ai bost; *EF* ynn bostio. 90 *E* [ei]. 91 *E* ddü; *E* y annerch, *G* i hannerch.

*Teitl*

[*F*], *A* ateb syr wiliam gruff ag ifan ap madog ir cwnstabl ag ifan dylynior, *B* Cwydd Cymmod Syr William Gruffudd o'r Penrhyn, Siambrlain, *C* Atteb Sr W<sup>m</sup> Gr. ag Ieuan ap Madog ir Cwnstabl ag i Ieuan Delyniwr, *D* Cywydd Cymmod Syr William Gruffudd o'r Penrhyn, Llandegai, Siamberlain, *E* yr penrhyn, *G* Cy: mol. S<sup>r</sup> Wiliam Gruff: a dychan i Ienn dylyniwr am ddwyn lle /t/ bardd yn y Penrhyn.

*Priodoliad*

*A* Ienn ap madog, *BDG* Ienn ap Madog ap dd ai cant, *C* Ieuan ap Madog, *EF* ifan amhadog.

*Trefn y llinellau*

*ACEF* 1–20, [21–4], 25–58, [59–60], 61–8, [69–70], 71–82, [83–4], 85–92.

*BD* 1–28, + Mae ysgil yn fy ngwilio, / Groglath ond teirllath yw'r to, 29–34,  
 + Er darfod marw Edw wydyn, / Y fawd gwaetha tafawd dŷn, / Mae'i  
 gerdd gyda'r mab gorddu, / Meddai bawb a'r modd y bu, 35–40, + Mewn  
 rhyw fodd mi'n rhyfeddu, / Mor ynfyd o'i febyd fu, 41–86, + Er ei bod a'i  
 drwc odlef, / Drygblant a'u trawant mewn trêf, 87–92.

*G* 1–28, + mae ysgel yn fyngwilio / groglath o deirllath o dô, 29–34, + er  
 marw Iedw wydyn / y fawd gwaetha tafawd tyn / mae i gerdd gida /r/ mab  
 gorddû / medd bawb ar modd i bû, 35–40, + mewn rhyw fodd mi yn  
 rhyfeddv / mor ynfyd oi febyd fv, 41–86, + er i bod a dryc odle / drycblant  
 ai trûwant mewn tre, 87–92.



*Marwnad Syr Dafydd Trefor  
gan Ieuan ap Madog ap Dafydd*

Torred pen y llawenydd,  
Och o'r awr! dirfawr fu'r dydd;  
Trist i Fôn yw'r trwst a fu,  
4 Dydd cwyn a diwedd canu;  
Marwolaeth! mawr fu'r wylaw,  
Blin y troed o'r blaned draw;  
Du arna' y trig dymod trwch,  
8 Dug orawen digrifwch;  
Côr gwyn (lle cria gwingerdd)  
Llanallgo sy'n cuddio cerdd;  
Gwinau y doeth, gwae ni o'r dydd!  
12 Amser Duw am Syr Dafydd.

Marw a wnaeth, mawr wae 'n ieithoedd,  
Ysbrydol o urddol oedd;  
Cau'r ddôr ar Drefor heb dranc,  
16 Hyn yw gwaedd hen ac ieuanc;  
Trwm fu'r gradd wrth ei gladdu,  
Ar wyl Fair ei arwyl fu;  
Troï anap oedd, trwy wenwyn,  
20 Gael o'r nod ddyfod a'i ddwyn;  
Pan weles y poen elyn  
A'r frech gas ar ei fraich gwyn,  
Archodd gorff Crist yn ddistaw  
24 A'i gu rad drwy gariad draw;  
Gofyn, iawn gyfiawn un awr,  
Olew, ac yna elawr;  
Gwnaeth ei gyffes i'r Iesu,  
28 O'i fodd i Fair ufudd fu;  
Pan aeth i'r nef o'i glefyd  
I riwlio bwrdd yr ail byd,  
Ni chlywir byth uwchlaw'r bedd  
32 Mwy o'r canu 'mrig Gwynedd.  
Daeth angel at ei wely,  
Duw gwyn a'i dyfyn i'w dŷ.

- 36 Parod yno'r ymprydiai,  
I ganu i'r Iesu 'r âi.  
Llawen fu llu tra fu fo,  
Tristwch sy heddiw trosto.
- 40 Cerddgar heb wedd oedd, meddyn',  
Os cerddgar ar y ddaear ddyn;  
Ei galon mewn haelioni  
A'i ben ef oedd nef i ni.  
44 Fo ddug gamp o ddeg cwmpas  
A ddoi o frud Adda Fras;  
Hysbys fu yn canu cerdd  
Ar iawngof yr awengerdd.  
48 Eryr od ar wŷr ydoedd  
A llwyn aur ar wŷr llên oedd.  
Pan noded y penadur  
Trymach ei gŵyn na dwyn dur;  
52 Gwae fi na wn ganu 'n ei ôl:  
Torred asgwrn troed ysgol!  
Gwaeddwn am eryr gwiwddoeth,  
Terfysg ar y ddysg a ddoeth;  
Croyw yng nghôr Mair ddiwair wen  
56 A phur glywed ei 'fferen;  
Ei galon mewn dwyfron deg,  
Gwiw'r ymodau gramadeg.
- 60 Wrth fur tew gyda'r llew llwyd  
Ein sylf wen a sylfaenwyd;  
Yn ei arch o'r dywarchen  
Dan y teils mae'r dwned hen;  
64 Gwae a welais roi gwialen  
A daear frîsg ar wisg wen  
A chloi fry uwchlaw ei fron  
Caregl a menig hirion.  
68 Fy nadal, fy Nuw, ydoedd,  
Fy newis gâr, fy nysg oedd.  
O gau ei arch, gwae fyfi  
Nad wyf yn farw dani!
- 72 Tri meddwl trwm a wyddwn,  
Pennaeth hardd, er pan aeth hwn;  
Eos nid oes na nos na dydd,  
Na lle i annog llawenydd.

- 76 Tri bardd a wyddwn trwy'r byd  
A fu annwyl, fyw ennyd:  
Tudur (Pa nad da ydoedd  
I eilio dysg?) Aled oedd;  
Lewys â'i air o Liwon,
- 80 Ac i'r ne'r aeth mab maeth Môn;  
Duw a ddug, wedi'i ddigiaw,  
Syr Dafydd yn drydydd draw.  
Torres y dadl, trist ydoedd,
- 84 Dyddbrawd ar gerdd dafawd oedd.  
Aeth eu rhinwedd i'r bedde:  
Tair awen i nen y ne'.  
Mi a'i gwn fyth, mae gwayw 'n f'ais,
- 88 Meirw gwŷr mawr a gerais;  
A Duw 'Nhad wy'n ei adaw  
Ym mhlaid y tri enaid draw.

*Ffynonellau*

A—Bangor (Mos) 11, 171 B—BL Add 10313, 174<sup>r</sup> C—BL Add 14966, 188<sup>v</sup> D—BL Add 31059, 123<sup>v</sup> E—BL Add 31085, 15<sup>r</sup> F—Card 1.20, 42 G—Card 2.114 [= RWM 7], 566 H—Card 4.110 [= RWM 47], 187 I—J 139 [= RWM 14], 343 J—LIGC 666C, 74 K—LIGC 1553A, 84 L—LIGC 19901B, 46<sup>r</sup> M—Pen 221, 69 (*llau. 1–2*)

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 207–12.

*Dull cofnodi'r darlleniadau amrywiol*

Cadwyd tri chopi ar ddeg o'r cywydd hwn, ac fe'u rhestrir uchod. Codwyd darlleniadau llawn o bob llawysgrif a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; codwyd darlleniadau amrywiol o sampl o linellau, sef llinellau 1–10, o lawysgrifau a ddyddir i'r cyfnod ar ôl 1700, ynghyd â theitl y gerdd, priodoliad, a threfn ei llinellau. Dangosir isod drefn llinellau pob copi, ynghyd â'r teitl a'r priodoliad lle y'u ceir.

Dangosir darlleniadau llawn o lawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700 yn unig, gan fod y darlleniadau eraill yn gopiâu agos ohonynt. Ymranna'r copïau yn grwpiau. Sicrhawyd bod pob casgliad o lawysgrifau yn cael ei gynrychioli yn narlleniadau'r llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700; lle nad oedd darlleniadau llawysgrif ddiweddar wedi eu cynrychioli, codwyd darlleniadau'r casgliad i chwilio am ddarlleniadau arwyddocaol, a nodi'r hynodrwydd lle y'i ceid. Os bernid bod llawysgrif ddiweddar fel petai'n cadw gwybodaeth gynnar ac yn gofnod o hen lawysgrif, nodwyd y darlleniadau hynod.

*Llawysgrifau a ddyddiwyd i'r cyfnod cyn (ac yn cynnwys) 1700*

A—Bangor (Mos) 11, 171

C—BL Add 14966, 188<sup>v</sup>D—BL Add 31059, 123<sup>v</sup>

G—Card 2.114 [= RWM 7], 566

I—J 139 [= RWM 14], 343

K—LIGC 1553A, 84

L—LIGC 19901B, 46<sup>r</sup>

M—Pen 221, 69

*Darlleniadau'r llawysgrifau*

1 *L* Torres. 2 *L* duw mor fawr. 3–90 [*M*]. 3 *K* fu/r/ trwst, *L* y Trwst. 4 *L* y dydd kwyn. 5–8 [*L*]. 5 *I* mawr yw wylaw. 6 *I* troed i blaned, *K* troed y blaned. 7 *GIK* duw arna; *K* [*y*]. 9 *L* kor gwn galch; *GIK* kria gwynedd, *L* keir ag angerdd. 10 *K* cedd. 11–12 [*L*]. 11 *K* Guener doeth. 13 *I* marw wnaeth; *C* wae /n/ eithoedd, *L* wae i nithoedd. 15 *K* Cau/r/ cor. 16 *I* gwae. 17 *CDGK* trwm fyr gwadd, *I* trwm fyr wadd, *L* trwm fy y gwaedd. 19 *G* troi i anap, *L* Anap; *L* oedd gael o wenwyn. 20 *L* neu/r/ nod; *AC* dyfod oi dwyn, *D* ddyfod oi ddwyn, *G* ddyfod ei ddwyn, *I* ddyfod, yw ddwyn, *L* oedd ddyfod oi ddwyn. 21–38 [*ACDGIK*]. 21 *L* Pen. 22 *L* Y frech. 24 *L* oi gyrad. 25 *L* A gofyn yn yr vnawr. 26 *L* ag yno. 27–42 [*L*]. 43 *L* fo a ddivg. 47–50 [*L*]. 50 *I* dwyn gwur. 51–2 [*ACDGIK*]. 53–60 [*L*]. 54 *DGI* terfysc ar addysc. 55 *A* diwair. 59 *C* gida/n/. 60 *A* a sylfl wenn, *DGI* y syfl wen, *K* Y sylf wen. 61 *DG* yn i arch oi, *IK* Yn i arch ai, *L* lle y mae r Arch ai. 62 *D* teil; *A* mae/r/ meirig hen. 63 *L* Gwae in weled. 64 *I* ffrisg ar wisg. 67 *K* Vy nodl fy nuw ydoedd, *L* fo ai rhoed mewn arch yngharchar. 68 *L* fy nysg oedd fy newis gar. 69–74 [*L*]. 69 *GI* o gavf i arch; *D* fi. 72 *D* penaeth hardd er pennaeth hwn, *I* Pan aeth hardd yr pennaeth hwn. 73 *DI* Oes nid oes na nos na dydd, *GK* oes nid oes nos na dydd. 74 *I* [*i*]. 77 *AK* pann nad, *I* pam nat. 78 *KL* elio. 79 *L* A Lewis gair o Lifon. 80 *KL* [*Ac*]. 81 *A* wedi ddugiau, *L* gwedi i ddigiau. 83–4 [*L*]. 83 *GIK* [*y*]. 86 *I* gair awen i nen i ne, *L* Tair Awen sy/n/ nen ne. 87–8 [*L*]. 87 *I* mi agwn. 88 *K* Marw y gwyr, *GI* marw gwyr. 89 *L* [*A*] duw fynhad; *K* r/wy/n/ei adaw, *L* y rwy yn dadudaw.

*Teitl*

[*M*], *A* Cowydd marwnad am Syr Dafydd Trefor, *B* Marwnad am Syr Dafydd Trefor, *C* Cow: Mar: Syr Dafydd Trefor, *D* Cowydd marwnad am ssyr davydd trevor o waith Ievan ap madoc ap davydd, *EI–L* Marunad Syr Davyd Trefor, *FH* Cywydd Marwnad yr un Syr Dafydd Trefor, *G* llyma gowydd barnad sir Dauidd Trefor.

*Priodoliad*

[*M*], *AD* Iefan ap Madoc ap Dd, *BCE* Ifan ap Madoc ap Dafydd, *F–K* Ieun ap Madog ap dd a'i kant, *L* Gruffudd ap Ienn ap llin Vychan ai kant.

*Trefn y llinellau*

*A-EGIK* 1–20, [21–38], 39–50, [51–2], 53–90.

*FHJ* 1–90.

*L* 1–4, [5–8], 13–14, 9–10, [11–12], 43–6, [47–50], 51–2, [53–60], 15–26,  
[27–42], 63–6, 61–2, 67–8, [69–74], 75–82, [83–4], 85–6, [87–8], 89–90.

*M* 1–2.



# Nodiadau

## 1

Yn wahanol i'r cywydd gofyn arferol sy'n cyfarch un darpar noddwr, yn y gerdd hon y mae'r bardd yn mynd ar ofyn pedwar darpar gymwynaswr. Cywydd i ofyn geifr gan bedwar person plwyf yw hwn, sef Syr Morgan ap Hywel, person Llanddeiniolen; Syr Huw Maelan, person Clynog Fawr; Syr Huw ap Gronwy, rheithor Llandwrog; a Syr Rhisiart Amhredudd, rheithor Llanrug. O gymharu tystiolaeth y cywydd â'r rhestr o offeiriaid plwyf esgobaeth Bangor yn y flwyddyn 1504<sup>1</sup> a gyflwynwyd i'r Archesgob Warham ar farwolaeth Thomas Pigot, esgob Bangor, gwelir bod bywoliaeth dau o'r pedwar person plwyf yn cyfateb, sef Llandwrog a Llanrug. Yn achos Syr Huw Maelan, rhestrir ef yn offeiriad eglwys Boduan gan A.I. Pryce ond, a dilyn yr awgrym *Buan o Lŷn* (ll. 26), ymddengys ei fod, adeg llunio'r cywydd, yn dal dwy fywoliaeth ar yr un pryd, sef Clynog Fawr a Boduan.

Y mae pedair rhan i'r cywydd hwn. Cyflwynir y sefyllfa druenus adeg llunio'r cywydd yn y cywair tafod-mewn-boch (llau. 1–12). Y mae'r eirchiad yn glaf, ond drwy gyfrwng trugaredd ei gyd-fforddion yn y ffydd y mae'n hyderus y daw ymwared. Â'r bardd ar ofyn pedwar cyd-weithiwr iddo, a'i obaith yw y bydd rhodd o afr gyfeb gan bob un o'r pedwar clerigwr yn fodd i ddwyn iachâd i Ddafydd Trefor. Ystyrir llaeth y geifr hyn yn feddyginiaeth i *efrydd* 'un anafus, egwan' (ll. 9) a lle y byddai eraill yn gofyn meirch (ll. 11)<sup>2</sup> dymuniad Dafydd Trefor yw cael geifr llaethog, llesol.

Yn yr ail adran (llau. 13–40) cyflwynir y pedwar person plwyf y disgwylir ganddynt rodd. Ymddengys fod y cyntaf ohonynt, sef Syr Morgan ap Hywel o blwyf Llanddeiniolen, yn *ewythr* (ll. 13) i Ddafydd Trefor, ond nid oes modd profi ai perthynas waed yw hon, neu ddull cwrtais o gyfarch noddwr, ai ynteu deitl o barch wrth gyfarch hynafgwr.

Ceir newid cywair yn y drydedd adran (llau. 41–58). Wedi canmol y darpar noddwyr, melltithir eu rhoddion. Byddai pedair gafr gyfeb, ac yng nghyflawnder yr amser bedair gafr ynghyd â'u mynnod, yn anrheithio'r tirwedd. Difenwir y geifr ar gyfrif eu trachwant anghymedrol wrth fodloni eu gwanc am fwyd. Yn yr adran olaf (llau. 59–66) y mae'r bardd yn agored

<sup>1</sup> A.I. Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923), 81–2.

<sup>2</sup> Am geffyl (boed yn farch, yn gaseg neu re o gesig, neu'n ebol) y gofynnid amlaf yn y cywyddau gofyn, gw. Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 66.

ei amarch tuag at y geifr a thuag at Ddafydd ap Gwilym, eu gwarchodwr a'r un a fu'n eu cynnull. Lle y byddai cywydd gofyn confensiynol yn cloi drwy ddymuno nawdd Duw ar y rhoddwr a'i rodd, yma wfftio bychanus, cellweirus a geir.

Dau gywydd sydd i'r ymryson hwn, sef cerddi 1–2 y gyfrol hon. Yn llsgr. Ll. 120, 22<sup>r</sup>, fodd bynnag, dilynir y ddau gywydd ymryson hyn gan gywydd sy'n dwyn y teitl *Ir geifr o gywydd arall*. Nid trydydd cywydd yr ymryson mo hwnnw, ond rhan o gywydd o waith Llywelyn ap Gutun yn gofyn am eifr a bwch gan Ifan ap Gruffudd ap Siancyn (efallai o'r Cryth ym Meifod a Pheniarth).<sup>3</sup>

- 1 **Syr Dafydd** Syr Dafydd Trefor, offeiriad plwyfi Llanallgo a Llaneugrad ym Môn, a lluniwr y cywydd hwn.
- 2 *f*led-lafarog o dan yr acen neu gamosodiad f.ch = ch..f.
- 3 **pawb** Pob un o'r pedwar person plwyf.  
**rhodd** Sylwer mai eg. yw *rhodd* yma, cf. E.G.B. Phillimore, 'A fragment from Hengwrt MS. No. 202', Cy vii (1886), 138 *Ada6 ma6r a rod bychan*.
- 4 **Trefor** Syr Dafydd Trefor (gw. ll. 1).
- 11 **meirch** Mewn Cym.C. caniateid cadw'r gysefin (yn ogystal â threiglo) gwrthrych ffurfiau 1 un.pres.myn. yn terfynu yn *-af*, gw. Treigladau 201.
- 13 **ewyrth** Cf. GSDT 9.3, 16, 74 am ddefnydd Dafydd Trefor o'r ffurf dafodieithol hon yn hytrach na'r ffurf safonol *ewythr*. Nid yw'n glir a ddylid deall *ewythr* yn ei ystyr lythrennol i olygu brawd i dad neu fam, ynteu ai cyfeiriad llac i olygu cyfaill neu noddwr sydd yma. Efallai fod y ddadl o blaid y posibilrwydd cyntaf yn gryfach gan fod y bardd, yn ogystal â chyfeirio at Forgan ap Hywel fel ewythr iddo, yn ei alw'i hun yn *nai* (gw. ll. 20n) i Forgan os derbynnir darlenniad llsgrau. AKEOQ (er y gellid mai parhau'r ddelwedd deuluol a wneir). Gellid yma hefyd yr ystyr 'teitl o barch wrth gyfarch hynafgwr', gw. GPC 1265–6.  
**bywyd** Sef 'cyfoeth', cf. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 31 (llau. 30–1) [g]wr o vgeint pynt o bhywyd, ... [g]wr o dhecpynt ar hvgeint o bhywyd.
- 15 **gwinllan** Disgrifir Morgan ap Hywel fel 'gwinwydden ddidwyll', cymhariaeth addas iawn yng nghyd-destun ei broffesiwn gan fod *eistedd dan ei winwydden* (gw. yr Hen Destament 'Llyfr Micha' iv.4, 'Llyfr Sechareia' iii.10) yn arwyddo diogelwch, llwyddiant, a digonolrwydd.

<sup>3</sup> Ar gywydd Llywelyn ap Gutun 'Gofyn geifr a bwch', gw. GLIGt cerdd 4; ar y llau. a gopiwyd i llsgr. Ll. 120, 22<sup>r</sup>, gw. *ib.* 4.27–50. Cf. hefyd cywydd Ieuan ap Huw Cae Llwyd 'Y geifr', gw. HCLI cerdd LII.



- 15–16 **Syr Morgan ... / Ap Hywel** Person *Deiniolen*, gw. ll. 17. Yn ôl rhestr offeiriaid plwyf 1504 yr oedd *Dom. Morgan (?) ap Howell ap Mad* yn berson Llanberis, gw. A.I. Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923), 82.
- 17 **Deiniolen** Llanddeiniolen yng nghwmwd Is Gwyrfai, sir Gaernarfon, gw. WATU 111. Nodir mai Huw Elis oedd rheithor Llanddeiniolen yn 1504, a bod Siôn ap Dafydd ap Maredudd yn ei gynorthwyo, gw. A.I. Pryce, *op.cit.* 82.
- 18 **cob** Deallir yr ystyr arferol ‘hugan neu ŵn hirllaes dilewys a wisgir gan glerigwyr’, gw. GPC 523, yn ffigurol yma am ‘orchudd’.
- 20 **myfi** Y mae’r llsgr. hynaf, sef Card 2.114 [= RWM 7], 381, yn cynnig y darlleniad *gyfebr myfi ai gofyn* a’r ail hynaf, sef LIGC 3050D [= Mos 147], 463, yn cynnig y darlleniad *gyfebr ai nai /n/ i gofyn*. O dderbyn yr ail ddarlleniad gellid gweld yma dystiolaeth (ansicr) i berthynas waed rhwng Dafydd Trefor a Morgan ap Hywel, gw. GSDT 1–2. Gan y gwneir pwynt o gyfarch Morgan yn gyntaf o’r pedwar offeiriad tystir, o bosibl, i berthynas agos. Sylwer bod mwy o linellau yn y darn sy’n ei gyflwyno ef: rhoddir 10 ll. iddo ef a 6 ll. i’r tri arall.
- 21 **ffisigwraig** Deallir yr ystyr ‘iachawr’, gw. GPC 1290, a bod yr afr yn pori am lysiau yr oedd iddynt elfen(nau) meddyginiaethol.  
**cra’** Gwelir yma air mwys; ar y naill law y mae’r afr yn cribinio porthiant a chynhaliaeth oddi ar wyneb y graig, ac ar y llaw arall dylid cadw mewn cof fod i’r gair *craf*, *cra* yr ystyr ‘garlleg gwyllt’ sydd â rhinweddau iachusol; ar *cra* y *geifr*, gw. P. Diverres, *Le plus ancien texte des Meddygon Myddveu* (Paris, 1913), 52. Digwydd *craf* yn elfen mewn enwau lleoedd, e.e. *Crafgoed* yn Llanddona ym Môn, ergyd carreg o Lanallgo a Llaneugrad, lle yr oedd Dafydd Trefor yn gweinigogaethu.
- 24 **Syr Huw Maelan** Person Clynnog Fawr yn Arfon (gw. ll. 26). Yn ôl rhestr offeiriaid plwyf 1504 yr oedd y swyddogion a ganlyn yn gwasanaethu yng Nghlynnog Fawr ar y pryd: *Mag. Mathew Pole, Provost; Dom. John Boderwyd, V; Dom. Hugh Conway; Dom. John Howell, Cap.* gw. A.I. Pryce, *op.cit.* 81. Yn yr un rhestr ceir enw Huw Maelan yn offeiriad eglwys Boduan yn Llŷn (gw. WATU 23 d.g. *Buan*) a Gruffudd ap Dafydd ap Lli yn gurad iddo. Daliai Huw Maelan y ddwy fywoliaeth ar yr un pryd, gw. ll. 25n.
- 25 **dwyrent** Ystyr ffigurol *rhent* yw ‘bywoliaeth eglwysig’, a’r ddwy fywoliaeth oedd Clynnog Fawr a Boduan.
- 26 **Llŷn** Gw. WATU 146.  
**Beuno** Beuno oedd nawddsant Clynnog Fawr yng nghwmwd Uwch Gwyrfai yn sir Gaernarfon (gw. WATU 45), a chysegrowyd eglwysi Aberffraw a Threfdraeth ym Môn iddo yn ogystal; ymhellach arno, gw.

WCD 42–4; LBS i, 208–21; TWS 74–88.

- 28 **ymwan** Be. yn cael ei ddefnyddio fel a. ‘chwareus’.
- 29–30 **Syr Huw ... / Fab Gronwy** Rheithor Llandwrog, gw. A.I. Pryce, *op.cit.* 82.
- 32 **Twrog** Llandwrog yng nghwmwd Uwch Gwyrfai, sir Gaernarfon, gw. WATU 109.
- 33 **rhad** Cadw cyse<sup>2</sup>n gwrthrych berf 3 un.pres.dib. oedd rheol lenyddol eglur y cyfnod Canol, gw. Treigladau 213.
- 35–6 **Syr Rhisiart ... / Amhredudd** Rheithor Llanrug, gw. A.I. Pryce, *op.cit.* 82.
- 37 **Mihangel felyn** Yr Archangel Mihangel, gw ODCC<sup>3</sup> 1089. Yn narluniau Andrea del Sarto, Raphael, Guido, Rubens, a Leonardo da Vinci milwr penfelyn oedd Mihangel, ‘ei dalcen yn uchel ac agored, ei wallt golau yn llaes dros ei war, a’r ddwy adain o’i ysgwyddau, cleddyf yn ei law, ac yn aml ar ei darian y geiriau “Quis ut Deus”’, gw. D. Gwenallt Jones, ‘Buchedd Mihangel a’r *Legenda Aurea*’, B v (1929–31), 13. Ystyrid Mihangel, yn ogystal â’r geifr, yn gyfrwng iachâd, cf. GHS 20.77 *Cyrch at Fihangel eli*, ac yng Nghaergustennin a Rhufain yr oedd Mihangel yn ffigiwr nefol; dywedir bod Guto’r Glyn yn edrych fel Mihangel yn ei fantell newydd, gw. GHS 24.53–4 *Mantell Mihangel felyn / Y sy glog eos y Glyn*. Ai cymhariaeth debyg sydd yma?
- 38 **Rug** Nid cyfeiriad at y Rug, plasty yn Edeirnion yn ardal Corwen, gw. WATU 185, ond cyfeiriad at y ffaith fod Rhisiart Amhredudd yn rheithor Llanrug, gw. llau. 35–6.
- 44 **nod** Marc ar anifail i ddynodi i ba braidd y perthyn rhag iddo grwydro oddi wrth y ddiadell.
- 46 **eiddew** Planhigyn bythwyrdd dringol a ystyrid gynt yn gysegredig i Bacchus, sef duw gwin a meddwdod yn y traddodiad Rhufeinig.
- 51–2 **Os ha’ ... / Os gaeaf ysu gwaiail** Haf neu aeaf yr un yw hanes y geifr, sef bwyta’n lwth a difetha canghennau gwyrddlas, deiliog.
- 53 **Plant y fall!** Ar yr ystyr ‘*Furies (in Greek mythology), brood of hell*’, gw. GPC 2818. Cf. 2.60 *ciwed uffern!*
- 54 **haen** Deallir yma yr ystyr ‘gorchudd, gwisg’. Yr oedd y geifr yn ddigon hy i fynd i’r eglwys, at yr allor hyd yn oed, a gwneud hynny’n noeth.
- 55 **torri gwewyr** Gellir yma ‘lleddfu pang(feydd), lleddfu ing’; ar *torri ... poen ‘to relieve pain*’, gw. WVBD 537; ond hefyd y mae yma flas geirfa ffug-arwrol: ‘dryllio gwaywffyn’.
- 56 **sistio** Ffurf affetig ar S. (*to*) *insist* ‘mynnu, hawlio’, gw. GPC 3294 d.g. *sistiaf*: *sistio* lle y dyfynnir yr enghraifft hon. Gwelir yn y ll. enghraifft o ddylanwad cryf geirfa S. ar farddoniaeth Gymraeg erbyn dechrau’r 16g.

**siastio** Deellir yma ffurf ar (*to*) *chasten* ‘cosbi, ceryddu’.

- 59 **ysmoneth** Ffurf lafar ar *ysmonaeth* / *hwsmonaeth* er mwyn ateb gofynion y gynghanedd lusg; y mae arlliw ddrwg i’w ystyr yma, sef ‘llanastr, annibendod, anhrefn’, gw. GPC 1934–5; WVBD 496.
- ni methain’** Pan geid *ni* o flaen berf caniateid cadw cysefin *m* yn y cyfnod Canol, gw. Treigladau 355.
- 61 **Dai ap Gwilym** Sef Dafydd ap Gwilym, telynor o deulu Llwydiarth, Llannerch-y-medd yng nghwmwd Twrcelyn ym Môn. Dichon mai ar ei ran ef y canwyd y cywydd i ofyn almari (gw. GSDT cerdd 7) a’r cywydd i ofyn telyn (gw. *ib.* cerdd 12), a digwydd cyfeiriad pellach ato yn rhan o’r ymryson a ysbardunwyd gan gywydd Dafydd Trefor i ofyn alarch, gw. isod cerdd 3. Am ach Dafydd ap Gwilym, gw. PACF 103; P.C. Bartrum: WG2 ‘Carwed’ 2(B). Gw. hefyd Dafydd Wyn Wiliam, *Traddodiad Cerdd Dant ym Môn* ([Bodedern], 1989), 17; GSDT 7.10n, 12.27n.
- 61–2 **Golud ... / ... afra ym** Nodir yma fod Dafydd ap Gwilym yn elwa ar ei waith yn hel geifr i Ddafydd Trefor, er cymaint o drafferth a achosai hynny.
- 62 **gafra** Deellir yma ‘bugeila geifr; hel geifr at ei gilydd’, gw. GPC 1371. Posibilrwydd arall yw cywasgiad o *afaraf*, eith. *afar* ‘tristwch, alaeth’, gw. GPC 41.
- 63 **gŵr du** Sef Dafydd ap Gwilym, y gŵr pryd tywyll, gw. ll. 61n.
- 65 **delon’** Deellir yma gyfeiriad at y geifr ac at Ddafydd ap Gwilym.

## 2

Ateb i gywydd Dafydd Trefor yn gofyn geifr gan bedwar person plwyf (gw. cerdd 1) sydd yma. Yn llsg. CM 27, 147, rhoddir y teitl a ganlyn i’r cywydd hwn: *Cowydd ateb o blygyd y Geifr gan G: ab Tudur ab Howel*<sup>1</sup> gyda’r nodyn rhagarweiniol a ganlyn o flaen y teitl: *Mae Gryffydd ab Tudur ab Howel yn ateb Tros y personiaid Eraill*. Erys un copi ar bymtheg o’r ateb hwn ar glawr, o gymharu â dau gopi ar hugain o’r cywydd gofyn.

Y mae pedair rhan i’r cywydd ateb. Molawd i Ddafydd Trefor yw’r adran gyntaf (llau. 1–24) lle y pwysleisir ei ragoriaeth dros offeiriad eraill, a hyd yn oed dros y Pab ei hun (llau. 5–6). Clodforir Dafydd Trefor am ehangder ei ddyg, am ddoethineb ei arweiniad, ac am ei haelioni. Deuir â’r adran i ben ar nodyn gwrthgyferbyniol, sef drwy nodi gorhoffedd yr offeiriad o gwmni merched, a thrwy awgrymu nad oedd Dafydd Trefor yr hyn a ddylai fod, ac yntau’n ŵr eglwysig. Cefnogwr cais Dafydd Trefor am eifr yw’r pencerdd Dafydd ap Gwilym, ac arno ef y canolbwyntir yn yr ail adran (llau.

<sup>1</sup> Ar Ruffudd ap Tudur ap Hywel, gw. y Rhagymadrodd tt. 5–7, 12–14 *et passim*.

25–44). Ymddengys iddo fod ar bererindod i Rufain (llau. 37–8) a bod ei brofiad yno wedi peri iddo ymwrthod â moeth gwin a medd a throi ei fryd yn hytrach at fugeila geifr, a byw ar laeth a menyn. Canu tafod-mewn-boch sydd yma, a fyddai'n achos sbri i gynulleidfa Gruffudd ap Tudur ap Hywel.

Y geifr eu hunain yw testun y drydedd adran (llau. 45–60) a gair o gondemniad hallt a geir i'r rheini. Dinistr a llastr fydd unig ganlyniad eu derbyn i'r fro. *Ciwed uffern* (ll. 60) yw'r gorau y gellir ei ddweud amdanynt. Deuir â'r cywydd i ben gyda deisyfiad taer ar Fair i rwystro hynt y geifr i Fôn (llau. 61–4).

Gwelir olion arddull ychydig yn fwy soffistigedig ar y cywydd ateb nag a welir ar y cywydd gofyn; sylwer ar y cyfartaidd uchel o gynganeddion croes, y cymeriad llythrennol ar y llythyren *P* (llau. 1–10), *C* (llau. 11–16, 57–8), *A* (llau. 17–18), *N* (llau. 45–8), a'r llythyren *Y* (llau. 53–4). Adleisir hefyd bwyslais y cyfnod ar arwyddocâd rhifau: deisyfwyd pedair gafr gan bedwar person plwyf ac adlewyrchir hynny yn y defnydd o'r rhif *pedwar*: *pedreuwaith* (ll. 7), *pedair iaith* (ll. 8).<sup>2</sup>

1 **person** Syr Dafydd Trefor yw'r person plwyf a fyddai'n elwa o dderbyn pedair gafr gyfëb yn rhodd gan ei gyd-offeiraiad.

**pysiodd** Ar *pysio* 'rhoddi neu gadw mewn pwrs, pocedu', gw. GPC 2965 lle y rhestrir yr enghraifft hon. Ond y mae'r ystyr 'gwario o bwrs, gwario'n hael' yn taro'n well yma, gw. ll. 2.

2 **punt yw ei rodd** Dyma enghraifft o wario'n hael, gw. ll. 1 ar *pysiodd*.

4 **Gallgof** Gwasanaethai Dafydd Trefor ym mhlwyf Gallgof Sant, yn offeiriad plwyfi Llanallgo a Llaneugrad (a oedd yn un fywoliaeth) ym Môn. Cysegrwyd eglwys y plwyf i sant Gallgof, un o feibion Caw Cawlyd, a dethlid ei ddydd gŵyl ar 27 Tachwedd yn ôl y rhelyw o Galendrau Cymreig y 15g. Yr un yw Gallgof ac Alleccus, neu Allectus, ac ymddengys mai ef yw'r Calcas mab Caw a enwir yn chwedl 'Culhwch ac Olwen', gw. CO<sup>3</sup> 8 (ll. 212), yn un o weinyddwyr y Brenin Arthur. Credir mai Gallgof oedd Sant Oilleoc y Merthydraethau Gwyddelig; os felly yr oedd yn un o feibion Brychan ac yn frawd i Santes Dwynwen. Brawd i Sant Gallgof oedd Eugrad, neu Egreas (gw. LBS ii, 468–9), ac yr oedd plwyf Gallgof dan awdurdod eglwys ei frawd yn Llaneugrad. Ymhellach ar Gallgof, gw. LBS i, 146–7 dan *S. Alleccus, or Gallgo, Confessor*; WCD 268, a td. 258 d.g. *Eugrad ap Caw*.

6 **Rhufain** Sedd y Pab; prifddinas yr Eglwys. Clodforir Dafydd Trefor

<sup>2</sup> Ar arwyddocâd rhifolion yn yr Oesoedd Canol, gw. E. Mâle, *The Gothic Image: Religious Art in France of the Thirteenth Century*, trans. D. Nussey (New York, 1972), 9–13, a ddyfynnir yn GIBH 129n6; arwyddocâd y rhif *pedwar*, meddir, yw'r pedair elfen sydd i'r byd materol, a'r cyfuniadau o'r pedair elfen hynny sy'n sail i'r holl greadigaeth faterol. Ar gyfansoddeiriau clwm gyda rhifolion, gw. GMW 47.

am fod yn safon teilyngdod ar hyd a lled byd Cred, ac yn batrwm o offeiriad. Enwir Rhufain eto yn ll. 38.

- 7 **pedreuwaith** Ffurf ar y rhif pedwar yw *pedr-* / *pedry-* sydd weithiau'n rhoddi ystyr dda (gw. GPC 2709) fel yma. Fe'i deellir i olygu 'perffaith, cyflawn', yn hytrach na phedair rhan benodol o waith offeiriad, cf. *pedryael* (gw. *ib.*); isod 8n d.g. *pedair iaith*; a'r nodyn cefndir, troednodyn 2.
- 8 **Pedyr** Pedr a enwir gyntaf ym mhob rhestr o'r deuddeg apostol, ac ef a ystyrir y pwysicaf ohonynt, gw. ODCC<sup>3</sup> 1269–70; felly hefyd yr ystyrir Dafydd Trefor yn bennaf offeiriad.

**pedair iaith** Y mae'n bosibl mai cyfeiriad sydd yma at gyflawnder dysg, yn hytrach nag at bedair iaith benodol, cf. GDC 5.8–10 *Yt ydd addolaf ... / ... ar fy ngliniau / O'm pedeiriath ddysg a'm paderau a'r cyfeiriadau pellach yn TYP<sup>3</sup> 286 d.g. Bedwyr m. Bedra6c; GPC 2707. Pwysleisir yma ddysg ac ysgolheictod Beiblaidd yr offeiriad, ac os at bedair iaith benodol y cyfeirir, yna y mae'n sicr mai Cymraeg, Saesneg a Lladin fyddai tair o'r rheini, ac efallai Roeg yn bedwaredd. Am gyfeiriadau pellach at bedair iaith, cf. GIRh 3.25n; GHS 13.39–42 *Yn ei ddysg, awenydd oedd, / Yr aeth llawer o ieithoedd; / Hwn a ddysgodd ohonun' / Bedair iaith heb ado'r un.**

- 9 **proses** Sylwer mai eb. yw'r gair yma; deellir yr ystyr 'adroddiad, stori, traethiad, traethawd; ?llith o'r Ysgrhythur', gw. GPC 2910.
- 10 **Ifor** Sef Ifor Hael o Fasaleg ym Mynwy, pennaf noddwr Dafydd ap Gwilym ac un a ddaeth i fri cenedlaethol ymysg y beirdd am ei hael-frydigrwydd; am gasgliad o gerddi iddo, gw. GDG<sup>3</sup> cerddi 5–11 (DG.net cerddi 11–17); cf. ll. 18n.
- 12 **côr ... mynwent** Clodforir Syr Dafydd Trefor am ei arweiniad doeth yn y gangell, sef wrth ganu offeren, yn ogystal ag wrth ei waith yn claddu'r meirw, sef dwy brif ddyletswydd offeiriad plwyf, cf. LIC 34 (llau. 28–9) *O deruyd guneuthur egluys en tref gayth a canu efferen endy a cladu corforoed en y monwent.* Sylwer bod *mewn* yn safle'r orffwysfa.
- 15 **clwsio** Deellir yma fod Dafydd Trefor, y bardd-offeiriad llengar, yn tynnu'n agos at ei lyfr ac yn ei ddarllen yn ddyfal, cf. 'Cerdd ddiolch i Dduw am y Beibl Cymraeg' o waith Syr Thomas Johns yn T.H. Parry-Williams, *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932), 370 (95.25a–b) *arfer ddarllen hwn yn glos, dan ddydd a nos mefyrio, / gair yr arglwydd ymhob man, mewn llys a llan y cymro.*

**clowsio o lèn** Ar *clowsio* 'rhygnu ar yr un tant, tafodi, dwrdio', gw. GPC 509, ac ar ddefnydd *clowsio* ar lafar yn Arfon, gw. WVBD 269; y mae'n amlwg fod yr offeiriad (*llèn*) yn dwrdio ac yn dweud y drefn.

- 17 **A mynd i wtres â merch** Nodir yma anlladrwydd natur Dafydd Trefor,

elfen sy'n islais gyson drwy'r ymrysonau, cf. 9.45–52 a'r trosiad yno o fferi Môn yn butain yr ymwelodd offeiriaid yr ardal â hi droeon.

- 18 **Rhydderch** Rhydderch Hael ap Tudwal Tutclyd, un o 'Dri Hael Ynys Prydain' ynghyd â Nudd Hael ap Senyllt a Mordaf Hael ap Serfan; yr oedd Rhydderch yn un o lywodraethwyr amlycaf yr Hen Ogledd yn ddiweddar yn y 6g. Ymhellach arno, gw. TYP<sup>3</sup> 5–7, 493–5. Topos yn y farddoniaeth oedd canmol noddwr am fod yn haelach na'r tri hyn; cf. ll. 10n.
- 19 **dwy grefft** Cyfeirir yn aml at ddwy gelfyddyd yn y farddoniaeth, sef cerdd dafod a cherdd dant. Er bod Statud Gruffudd ap Cynan yn gwahardd dyn rhag bod yn fardd ac yn delynor, ac yn cymell yr unigolyn i ddewis rhwng y ddwy grefft, yr oedd enghreifftiau o rai yn gwisgo'r ddwy het, cf. GSDT 12.9–10 *Prydydd ac awenydd gwych / A thelynor ...* (am Edward Sirc); GLD 79 (25.47) *Pencerdd y ddwygerdd agos* (am Dudur Aled). Ond tybed a awgrymir crefftau gwahanol yma, sef caru merched a charu gwin?
- haint** Awgrymir mai Dafydd Trefor yw'r haint, a hynny oherwydd ei ariangarwch.
- 21–4 Cyhuddir Dafydd Trefor o erchi yn drachwantus. Yr oedd trachwant yn un o'r Saith Pechod Marwol, gw. GIBH 5.15n am y rhestr *superbia* (balchder), *avaritia* (cybydd-dod), *luxuria* (trachwant), *invidia* (cenfigen), *gula* (glythineb), *ira* (llid), ac *accidia* (seguryd).
- 23 **Chwannog yw, â chân geuawg** Ar *geuog* 'euog', cf. LIA 58 (llau. 25–6) *Geuabc vyd yholl beithredoed*; pechod mawr yr offeiriad yw ei drachwant, cf. ll. 31 *mynnu da, mwy no dau*.
- 24 **iwrch** Cf. Can ii.9 *Tebyg yw fy anwylyd i iwrch neu lwdn hydd*. Pwysleisir yma natur anniwair y bardd; ergyd y ll. yw fod Dafydd Trefor yn erchi geifr, a'i fod ei hun yn drythyll gan fod darlun y cyfnod o afr yn ddelwedd o w'r anllad.
- 27 **Dafydd bencerdd** Dafydd ap Gwilym, y pencerdd telyn; ymhellach arno, gw. 1.61n. Y mae cynghanedd lusg y ll. hon yn anfodddhaol ar gyfrif odli *-ydd / add-*.
- 28 Bai 'gormodd odlau' lle yr odlir *châi* â'r brifodl *wnâi*.
- 38 **Rhufain** Awgrymir yma fod Dafydd ap Gwilym wedi bod ar bererindod i Rufain, ond tybed ai ychydig o dynnu coes sydd yma?
- 43 Twyll gynghanedd *c*.
- 44 **adar** Defnyddir y gair yn ffigurol a throsglwyddol mewn tafodiaith am rai direidus, afieithus, a chyfrwysgall, yma'n gyfeiriad at y geifr. Cf. cywydd Dafydd ap Gwilym 'Y Llwyn Celyn', llwyn a gyffelybir i gaer a'i ddail i gleddyfau. Bydd y llwyn hwn yn ddigon cryf i wrthsefyll chwant y geifr. Arno, gw. GDG<sup>3</sup> cerdd 29 (DG.net cerdd 40).

- 48 **plan** Cyfeirir yma at goed planedig, sydd wedi eu sefydlu'n gadarn eu gwraidd; ni fydd hyd yn oed y praffaf yn gallu gwrthsefyll ymosodiad difaol y geifr.
- 54 **Ysbryd o anys Brydoedd** Sef 'Ysbryd drwg o blith [y] demoniaid'.
- 55 **llygaid gwêr** Gellid yma *gwêr tawdd* 'tallow', gw. WVBD 181, a'r ystyr 'llygaid [fel] gwêr', hynny yw fod y geifr yn rhoi'r argraff o fod yn dwp.
- 56 **siaffer** Ar lafar ym Môn ceid yr ystyr a ganlyn i'r gair *siaffar*: 'cawg mawr o haearn bwrw a ddefnyddid gynt gan bobyddion i wresogi'r ffwrn cyn rhoi'r bara i mewn drwy losgi glo neu olog ynddo', gw. GPC 3258.
- Liwsiffer** Yn seryddiaethol arwydda'r seren fore, y fwyaf llewyrchus o'r holl blanedau; yma dynodir y diafol a cheir sawl ymadrodd yn cyffelybu'r geifr i lu'r diafol. Ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 1008. Acennir er mwyn boddhau'r gynganedd; proest i'r odl.
- 59 **gwâr** Benthyciad o'r *S. ware* 'nwydd(au), peth(au) ar werth' (gw. GPC 1576 d.g. *gwâr*<sup>2</sup>), yma'n ffigurol, ac yn gyfeiriad dilornus at y geifr; cf. CM 522, 66, *Tewch y war uffernol / A'ch lleisie anfelusol* (Siôn Cadwaladr a Huw Jones).
- gwern** Gellid yma gyfeiriad at un o nifer o gorsydd Môn, e.e. yn ardal Malltraeth, neu ardal y Gaerwen.
- 60 **offer** Efallai fod yma awgrym o'r be. *offeru* (o'r e. *offer*) 'llyffetheirio (dafad)', gw. GPC 2635, a dyhead am gael gefynnu'r geifr; cf. Philo Rectum, 'At Orychwylwyr y Cylchgrawn', *Cylch-grawn Cynmraeg; neu Drysorfa Gwybodaeth* (1793–4), 147, *Ni phaid yr offeiriaid offeru—Eneidiau*.
- ciwed uffern** Cf. 1.53 *Plant y fall!*
- 61 **deuwr** Dymuniad y bardd yw na fydd Dafydd Trefor na Dafydd ap Gwilym yn elwa o fod yn berchen ar rodd o bedair gafr gan y byddai pawb arall ar eu colled pe cyflwynid geifr i'r gymdogaeth.
- 63 **ni'm tawr** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. ddiffygiol *doraf*: *dori* yn unig a ddefnyddid yn wreiddiol, yn aml yn yr ymadrodd *ni'm dawr* 'ni faliaf'. *Dawr* yw'r ffurf gysefin ond caledid weithiau i *tawr*, gw. GPC 1076. Y mae'r ll. sillaf yn rhy hir; camosodiad m.t. = t.m.

Cywydd i ofyn am alarch yn anrheg o law Maredudd ap Tomas, ysgwïer plas Porthaml yn Llanidan ym Môn,<sup>1</sup> sydd yma, a hynny ar ran gwâr o'r enw

<sup>1</sup> Lluniodd Dafydd Trefor gywydd marwnad i Owain ei fab, gw. GSDT cerdd 4.

Dafydd ap Gwilym.<sup>2</sup> Ond gan fod yr alarch yn eiddo Dafydd Trefor (gw. llau. 17–18), yna drosto'i hun yr erchir y rhodd, ond ei fod yn defnyddio enw Dafydd ap Gwilym i atgyfnerthu ei neges. Dyma'r cywydd cyntaf mewn cyfres o bedwar cywydd i'r un alarch.<sup>3</sup> Cadwyd y pedwar cywydd, yn nhrefn eu canu, yn llawysgrif Card 2.114 [= RWM 7], llawysgrif a gopiwyd yn 1564–5, sef o fewn rhyw 36 mlynedd i farwolaeth Dafydd Trefor.

Ymryson rhwng tri bardd a welir yma: Dafydd Trefor a ganodd y cywydd gofyn agoriadol, Gruffudd ap Tudur ap Hywel sy'n ei ateb, Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn sy'n ateb hwnnw, cyn cloi'r ymryson ag ail gywydd o waith Gruffudd ap Tudur ap Hywel. Rhialtwch difyr ar raddfa leol a chymdogol yw'r ymryson, yn cynnig cameo o sawl golygfa gofiadwy wrth olrhain hanes y miri gwanwynol a fu rhwng gwŷr a'i gilydd. Serch hynny, ac efallai oherwydd hynny, nid yw plot yr ymryson yn rhy eglur.

Canwyd y cywydd cyntaf hwn ar ffurf deialog rhwng y bardd, yn rhith yr eirchiad, a'r alarch ei hunan. Y mae'n rhaid casglu felly nad oedd y myth am gân yr alarch yn gyffredin ym Môn, neu os ydoedd nad oedd Dafydd Trefor o'r un farn ag ef, oherwydd coelid bod alarch yn fud ar hyd ei oes ond bod iddo gân gwynfanus, ddolefus wrth farw.

Egyr y cywydd â chyfres o gwestiynau alarches ifanc sydd mewn penbleth ynghylch pwy yw'r datgeinydd sy'n ei chyfareddu (llau. 1–8); buan y cenfydd mai un o'r enw Dafydd ap Gwilym yw'r dewin hudolus. Daw'n amlwg fod yr alarches yn eiddo i Ddafydd Trefor, person Llanallgo (llau. 17–18), ei bod yn bwrw ei phlu llwydaidd er mwyn dod yn aderyn gwyn ysblennydd, a bod arni awydd cymar. Ar wra y mae ei bryd a hynny, yn ôl arfer elyrch, am oes. Dyma agoriad ychydig yn anghonfensiynol i gywydd gofyn gan ei bod yn arferol canu clodydd y person y dymunid elwa ar ei haelioni cyn gofyn rhodd ganddo. Gohiriwyd hynny yma yn hytrach na'i hepgor. Manteisia Dafydd ap Gwilym ar y cyfle i ganu mawl ar y cyd i Efa, meistres Porthaml, a'i gŵr Maredudd, yn batrwm efallai o'r bridodas ddelfrydol y mae'r alarches yn ei dymuno (llau. 23–54). Gofid i Ddafydd yw'r ffaith fod Efa yn glaf o'r clwyf du (llau. 31–2); pan yw hi'n orweiddiog y mae fel petai diffyg ar yr haul, ond pan yw'n codi ei phen ar glustog gellir ymhyfrydu yn ei goleuni ac yng ngwres ei chyfeillgarwch. Canmolir Maredudd am y ffordd y mae'n denu ffyddlondeb gwlad, ac am ei allu i daro dyrnod amserol er gwaethaf y ffaith ei fod yn mynd i oed, a'i wallt yn wyn (llau. 45–6).

I gloi'r cywydd try Dafydd at yr alarches, a'i hannog i gymryd un o elyrch mawr hardd Maredudd ap Tomas iddi ei hun, gyda'r awgrym y byddai hwnnw'n adlewyrchu doniau a champau ei feistr presennol. Disgrifir yr

<sup>2</sup> Canodd Dafydd Trefor ddau gywydd ar ran y telynor hwn o dir Môn, sef 'I ofyn almari gan Wiliam ap Maredudd ap Rhys o Lanfairfechan dros Ddafydd ap Gwilym' (gw. GSDT cerdd 7) a chywydd 'I ofyn telyn gan Edward Sirc dros Ddafydd ap Gwilym' (gw. *ib.* cerdd 12).

<sup>3</sup> Am y tri chywydd arall, gw. cerddi 4–6.



alarch yn helaeth (llau. 55–68) a hynny yn null arferol y beirdd o ddisgrifio'n fanwl y gwrthrychau y gofynnent amdanynt yn rhodd.

- 6 **Siôn Maswn** Sef crefftwr lleol, fe ddichon, a oedd mor hyddysg yn ei grefft o dorri a thrin cerrig fel y gellid cymharu tincial ei forthwylion â sain cerddoriaeth.
- 7 **Llwyteg** E.p., gw. GSDT 12.6n. Yma y mae'r alarch yn gofyn i'r bardd ai ef yw'r Llwyteg, ond nid felly yn ôl yr ateb negyddol a roddir yn ll. 9, 'Nage ddim!' Cyfeirir at y Llwyteg yn D.W. Wiliam, 'Ifan ab y Gof, Llywelyn ab Ifan ab y Gof, a Dafydd ab y Gof (Dafydd Athro): Tri Chyfansoddwr Cerddoriaeth o Fôn?', *Hanes Cerddoriaeth Cymru*, 4 (2000), 25–6.
- 8 **tarian** Trosiad am y delyn (yn ffurf tarian) y mae'r alarches yn cyfeirio ati yn ll. 1 uchod. Daw'n amlwg, gw. ll. 10, mai Dafydd ap Gwilym oedd y datgeiniad.
- 9 **gweddw** Ar ystyron *gweddw*, gw. GPC 1613–14; byddai ystyr fel 'gwag [o synnwyr], ffôl' yn taro'n berffaith yma.
- 10 **Dai ap Gwilym** Dylid cadw mewn cof hefyd mai Dafydd ap Gwilym oedd enw gŵr cyntaf Efa, mai ail ŵr iddi oedd Maredudd ap Tomas, a bod yma ymorchestu mewn amwysedd cyfeiriadol.
- 11 **Troes Duw'r dŵr hyd drws dy dŷ** Ai'r awgrym yw fod Dafydd ap Gwilym yn byw gerllaw'r llyn, a chan hynny fod tebygrwydd rhyngddo a'r alarch? Cf. *argae* yn ll. 4.
- 17 **alarches** Byddai'r ffurf wneud *alerches* (yn llsg. Card 2.114) yn ffurfio cynghanedd lusg reolaidd, oni bai fod twyll odl yma ar gyfrif y ddwy ffurf *alerches/be(r)son*.
- 17–18 **person / Llanallgo** Person Llanallgo (ynghyd â Llaneugrad) oedd Dafydd Trefor, y bardd.
- 19 **Gwalchmai** Y mae'n bosibl mai cyfeiriad at Walchmai ap Meilyr (*fl.* 1130–80), un o'r Gogynfeirdd cynnar ac aelod o deulu barddol ym Môn, sydd yma; ar ei fywyd a'i waith, gw. GMB 127–313. Ond y mae'n fwy tebygol mai'r marchog Gwalchmai fab Gwyar a oedd yn nai i Arthur ac yn un o'i brif ymladdwyr sydd mewn golwg yma; arno, gw. TYP<sup>3</sup> 367–71. Y mae'r ll. fel y mae sillaf yn rhy fyr.
- 20 **arian yw d'ewin** Arferid canu'r delyn â'r ewinedd a byddai'r telynor yn casglu cyfoeth iddo'i hunan drwy gyfrwng ei berfformiadau; byddai hefyd yn creu sain ariannaid. Ymhellach ar ganu'r delyn yn yr Oesoedd Canol, gw. Enid Roberts, 'Marwnadau telynorion', TCHSDd xv (1966), 80–117; A.O.H. Jarman, 'Telyn a chrwth', LlCy vi (1960–1), 154–75; Peter Crossley-Holland, 'Secular Homophonic Music in Wales in the Middle Ages', *Music & Letters*, xxiii (April, 1942), 135–62.

- 22 **ymluo** Y mae'r alarches yn bwrw ei phlu.
- 23–5 **Mredudd / ... / Mab Domas** Sef Maredudd ap Tomas o Borthaml ym Môn. Ar ei ach, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Llywarch ap Brân' 3(C). Digwydd enw Maredudd ap Tomas yn y weithred gyfreithiol a fu rhwng Owen Holland a Dafydd Trefor, gw. LIGC, papurau Carreg-lwyd 1824, sef dogfen fach femrwn, dyddiedig 20.x.1524, gw. GSdT 7.
- 24 Y mae'r ll. fel y mae sillaf yn rhy fyr.
- 26 **Brân** Olrheinir ach Maredudd ap Tomas i gyff Llywarch ap Brân, pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Llywarch ap Brân' 3(C).
- 28–9 **Efa ... / Merch i Rys** Efa, ferch Rhys ap Maredudd, neu Rys Fawr, o Blas Iolyn, y marchog a gariodd faner Harri VII ar Faes Bosworth yn sgil marwolaeth Syr William Brandon. Bu i Rys Fawr bum mab a chwe merch gyfreithlon, gw. PACF 204. Mam Efa oedd Lowri ferch Hywel ap Gruffudd Goch, gw. PACF 204, 290; P.C. Bartrum: WG2 'Marchweithian' 2(A4). Priododd Efa ddwywaith: ei gŵr cyntaf oedd Dafydd ap Gwilym o Lwydiarth, Llannerch-y-medd ym Môn (gw. WATU 135) a bu iddynt chwe mab, gw. PACF 103; P.C. Bartrum: WG2 'Carwed' 2(B). Ail ŵr Efa oedd Maredudd ap Tomas o Borthaml, a chawsant fab a dwy ferch, sef Jane, Richard a Lowri, gw. PACF 12; P.C. Bartrum: WG2 'Llywarch ap Brân' 3(C). Canodd Dafydd Trefor gywydd mawl i Robert ap Rhys, brawd Efa, gw. GSdT cerdd 3, a chywydd marwnad i Owain ap Maredudd, ei mab, gw. *ib.* cerdd 4.
- 29 **echrysaint** Sef 'haint peryglus, mallaint, clefyd trwm, pla, adwyth, dinistr; diffrwythdra (mewn aelod o'r corff), parlys' (GPC 1161). Ar ymgroesi yn fodd o amddiffyn y corff rhag haint, cf. GDG<sup>3</sup> 372 (141.9–10) (DG.net 63.9–10) *A chroesi rhag echrysaint / Y corff mau â swynau saint*. Yma y mae haint yn difetha swyn Duw.
- 32 **clwy' du** Awgryma Irene George ei bod yn bosibl mai cyfeiriad at y Pla Du 'neu rhywbeth tebyg' sydd yma er mai'r 'frech ddu' yw'r enw a roddwyd arno fynychaf, gw. Dafydd Trefor: Gw 325. Anrheithiwyd Ewrop gan y Pla Du yn 1348–9 ac y mae'n annhebygol iddo ailgydio ym Môn ar ddiwedd y 15g. neu ddechrau'r 16g. Cynigia GPC 514 dri phosibilrwydd wrth esbonio'r clwyf du, sef yn gyntaf y '*black plague*' (yn seiliedig ar awgrym Irene George), yn ail '*anthrax*', ac yn drydydd '*wart disease, black scab (in potatoes)*'. Y mae'n amlwg fod Efa wedi dod dros ei hanhwylder gan na chrybwyllir dim amdano yng nghywyddau eraill yr ymryson.
- 37 Y gytsain sy'n rhagflaenu'r acen yn unig a atebir yn y ll. hon. Ceisiodd Irene George oresgyn y bai drwy ddiwygio'r ll. yn *Od a gymanfa i'n mysg*, gw. Dafydd Trefor: Gw 107. O dderbyn yr awgrym, rhaid fyddai wrth gynghanedd anghytwys ddyrchafedig (sy'n gwbl afreolaidd).

- 41 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g.
- 42 **mawr ei goed** Sef un a chanddo ach helaeth.
- 60 **gwylan** Aderyn môr gwyn y gwelid digon ohonynt ar hyd glannau Môn, ond yma fe'i cymherir yn anffafriol â'r alarches sy'n fwy o faint ac a fyddai, efallai, yn wannach na'r wylan wedi iddi orffen bwrw ei phlu. Defnyddid *gwylan* hefyd yn ffigurol am ferch brydferth, ond y mae'r alarches hyd yn oed yn fwy ysblennydd.
- 61 **dyrru o'r** AB *dyryrio radar*, C *derreirio r adar*; deellir yma y f. *dyrru* 'gyrru, cymell neu orfodi (i fynd), gwthio, gyrru allan' (gw. GPC 1147), a fyddai'n gweddu i natur gwerylgar, ymladdgar yr alarch a'r bygythiad a osodai yn ffordd preswylwyr eraill y llyn.
- ereill** Cadwyd y ffurf er mwyn yr odl ag ail fraich y cwpled.
- 71 **torri dydd** Sef 'torri apwyntmant', gw. GSDT 3.67n, ond hefyd 'torri cymod', fel yma.
- 73 **Moesen** Moses; arno, gw. GSDT 5.27n. Bu Moses farw yn 120 mlwydd oed.
- 74 **ôd** Plu eira, yn drosiad am blu'r alarch.

## 4

Cywydd ateb i gywydd Dafydd Trefor yn gofyn alarch o law Maredudd ap Tomas, Porthaml, yw hwn.<sup>1</sup> Fe'i lluniwyd ar ddull deialog rhwng alarch Porthaml a'r gog. Corff y cywydd yw pa mor wrthun fyddai hi gan yr alarch gael ei roi i Ddafydd Trefor, ac nid yw ychwaith am gael ei roi i ryw ellyll o'r enw Hywel sy'n negesydd i Ddafydd Trefor: byddai'n well ganddo farw na mynd gyda'r dihiryn hwnnw (llau. 29–30). Try'r alarch at y gog (llau. 31–48) a'i hannog i fynd i Borthaml i eiriol ar y feistres yno am ei arbed; yn ail dasg y mae'r gog i beri bod Efa, meistres Porthaml, yn rhoi ceiliagwydd gwyn yn llaw'r negesydd yn hytrach na rhoi'r alarch iddo.

- 1 **cog** Dyma 'negesydd y gwanwyn' a phan glywid cân y gog am y tro cyntaf bob mis Ebrill ymatebid iddi'n frwd. Yr oedd gweld a chlywed cog yn argoel dda, yn enwedig felly ym myd serch.
- 3 Sylwer bod *f* heb ei hateb o dan yr acen.
- 5 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g.
- 6 **Ebryw** O'r S. *Hebrew* 'Hebraeg'; yma golyga 'iaith ddirgel ac urddasol' ac y mae'n gyfeiriad at geinder sain a deallusrwydd cân y gog: mewn Hebraeg yr ysgrifennwyd y rhan fwyaf o lyfrau'r Hen Destament, llyfrau y rhoddid pwys mawr arnynt er nad oedd Gruffudd

<sup>1</sup> Gw. cerdd 3.

- ap Tudur ap Hywel (fwy na Dafydd Trefor), gellir tybio, yn ysgolhaig Hebraeg. Tystir ymhellach i ffydd y bardd yn nothineb a dawn siarad y gog gan mai iddi hi y mae'n ymddiried y dasg o gyflafareddu ar ran yr alarch, gw. llau. 33–48.
- 9 Camosodiad m.l. = l.m ac *r* heb ei hateb.
- 12 **ceseiliad** ABD *gesseilwyd*, C *geseilud*; ar *ceseiliad*, ffurf lafar yn y Gogledd am '*as much as can be carried under the arms*', gw. WVBD 322.
- 15 **Mynyw** Dymuna'r alarch fod ym *Mynyw*, sef yn Nhyddewi (gw. WATU 162). Âi penydwy'r ar bererindod i Fynyw, gw., e.e., GDG<sup>3</sup> cerdd 99 (DG.net cerdd 129), lle y disgrifir yn y cywydd 'Pererindod merch' hanes taith merch i Dyddewi yn gosb am ladd y bardd. Trafodir yr arfer o bererindota i Fynyw yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the pilgrim movement', Cy xxiii (1912), 369–78.
- 16 **Tre Ddryw** Tŷ sylweddol, neu ystad fach efallai, ym mhlwyf Llanidan ym Môn, heb fod ymhell o Borthaml. Ymddengys ach teulu Tre'r Dryw yn P.C. Bartrum: WG2 'Môn' 1 ac yn PACF 139 dan Bodrwyn Cerrigceinwen, gan ddechrau gyda Huw Llwyd fab Ynyr Frych ap Madog y bu farw ei frawd, 'Evan, of Maes y porth', yn 1591 (ar Evan, gw. hefyd PACF 72, 139, 142), genhedlaeth neu ddwy ar ôl canu'r cywydd hwn. Cofnodir bod adfeilion hen gapel o'r enw Capel Beuno i'w gweld gerllaw Tre'r Dryw '(now demolished) ... and at the house was religiously preserved an ancient portable bell, popularly called Cloch Felen Beuno ... which came from the ruins of the chapel. It was described as a copper bell, of unusual shape, and was last seen in the eighteenth century', gw. LBS i, 218–19. Ymddengys yma fod yr alarch yn gwibio drwy berthi drain (ll. 14), naill ai ar ei ffordd i Dre'r Dryw (ai'r ergyd yw y byddai'r alarch yn cael noddfa yn Nhref'r Dryw rhag dwylo gwancus Dafydd Trefor (ll. 20), ac os felly onid oes yma chwarae ar enw gan mai'r dryw yw brenin yr adar mewn chwedloniaeth Gymraeg?) neu, ar y llaw arall, mewn ymgais i guddio rhag gorfod mynd yn agos i Dre'r Dryw (os felly ai cartref Hywel, yr eirchiad anghynnes, yw Tre'r Dryw?)
- 17–18 **lladd ... / Gelain** Ar *lladd celain* '*to commit murder, slaughter*', gw. GPC 2079. Lleisir amheuaeth fod yr alarch am bererindota i Dyddewi yn benyd am gyflawni llofruddiaeth, gw. ll. 15.
- 23 Cynghanedd sain yn cynnwys yr odl *-au / -ai*.
- 24 **ysgyfar** Sef ysgyfarnog. Drwgdybiaeth yr alarch o fwriadau Dafydd Trefor a geir yn llau. 21–4. Tymor bridio'r ysgyfarnog yw mis Mawrth ac yn ystod y mis hwn y mae ysgyfarnogod yn wylltach nag ar adegau eraill (hyn a roes fod i'r ymadrodd *as mad as a March hare*); pe câi Dafydd Trefor afael ar yr alarch, y mae'n berygl y buasai'n ei daflu i blith ieir (elyrch benywaidd) i fridio fel ysgyfarnog yn hytrach na'i

- gadw'n unig gymar i un alarches yn unol â'r cywydd gofyn gwreiddiol. Canwyd y cywydd ateb hwn yn nhymor cân y gog: *cloch Ebrill* (ll. 6) yw'r gog, a chan gofio pwysigrwydd y gog i fyd serch, yna byddai camp a rhemp yr ysgyfarnogod yn dal yn fyw ym meddwl y bardd.
- 25 **Hywel** Negesydd Dafydd Trefor a'r un a anfonwyd ganddo i gyrchu'r alarch o lyn Porthaml i'w roi'n rhodd; ar enw Hywel, cf. 5.17–18 *Hywel ... / Wyr Adda*, a 6.1 *Hywel Adda*; am ddisgrifiad (angharedig) o Hywel, gw. 5.6–16. Cynghanedd lusg yn cynnwys yr odl *-el / -eil*.
- 26 **trwyn gwlyb** Ychwanegu at wrthuni'r darlun a dynnir o *Hywel yr aneilun* (ll. 25) yw dweud ei fod yn atgas o ran ei ymddangosiad; a awgrymir bod Hywel yn 'gwlychu'r big' a than ddylanwad diod feddwol? Neu efallai nad oes yma dim ond honiad fod trwyn Hywel yn rhedeg drwy'r amser, cf. disgrifiad Richard White o William Salesbury fel un a feddai ar [*d*]rwyn *slwt*, gw. *Carolau Richard White* (1537?–1584), gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1931), 58. Cf. 5.48.
- 27 **hons** Ni restrir *hons* yn GPC nac yn WVBD ond tybed nad oes yma gywasgiad o'r gair *honos* 'un main a thal, llipryn, corpws hir' (gw. GPC 1897) y mae enghreifftiau ohono o'r 16g. ymlaen? Cyfeirir at Hywel fel dyn hirgoes (*garir* (5.14)), yn ddisgynnydd ifanc, tal (*irwydd, hir* (5.18)), ac o daldra mwy na'r cyffredin (*yistol 'ladder'* (5.20)).
- 31 **Myfi 'n santwari a sai'** Gellid aralleirio 'Yr wyf am aros (sefyll) yn [y] seintwar.'
- 35 **Porthamal** Plasty yn Llanidan, Môn; cedwir yr ynganiad lleol yma er mwyn hyd y ll.
- 39 **Merch Rhys** Sef Efa, ferch Rhys ap Maredudd o Blas Iolyn, a gwraig Maredudd ap Tomas, Porthaml. Ymhellach arni, gw. 3.28–9n.
- 41 Twyll gynghanedd *d* neu gynghanedd lusg wan.
- 45–8 Gan fod yr alarch wedi bwrw ei blu ac o'r herwydd yn wyn, bydded i Efa, drwy ryw ystryw neu hudoliaeth, fedru troi'r eirchiad oddi ar ei drywydd a'i gyfeirio at hen geiliagwydd gwyn, swnllyd yn ei le.
- 47 **ceiliagwydd** Y gwryw o rywogaeth yr wÿdd gan y byddai'n debyg o ran maint i'r alarch, er ychydig yn llai; defnyddir y term yn ffigurol am hurtn yn hynod am ei sŵn.

Dyma'r trydydd mewn cyfres o bedwar o gywyddau i'r un alarch.<sup>1</sup> Fe'i canwyd gan Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn, yr unig gerdd o'i eiddo a gofnodwyd yn MCF (21 Medi 2010). Egyr y cywydd â naratif y

<sup>1</sup> Am ddau gywydd cyntaf yr ymryson, gw. cerddi 3–4; am y pedwerydd, gw. cerdd 6.

bardd, yn rhagymadrodd i ddeialog rhyngddo a Hywel, negesydd Dafydd Trefor. Sicrheir geirwiredd y bardd drwy bwysleisio ei deyrngarwch i Fair a'i ymroddiad i grefydd gyfundrefnol y dydd gan mai ei weithred yn gweddio ar Fair, a'r llaswyr yn ei law, sy'n gefndir i'r hyn a welodd ac a wnaeth y bardd. Ac yntau'n gweddio, gwelodd hen ŵr meddw, hyll yn cerdded heibio iddo a swp gwaedlyd yn hongian wrth gadwyn o fieri ar ei ysgwydd. Anrheg o Borthaml oedd y baich hwnnw, a daw i ran y bardd agor llygaid Hywel i'r ffaith mai ceiliagwydd, nid alarch, yw'r rhodd (llau. 29–32). Yn ei ddadrithiad dymuna Hywel wynebu Syr Dafydd, ond cynghora'r bardd ef i fynd adref i rostio'r ceiliagwydd erbyn yr Ynyd.

- 1 **Noswyl Fair** Ai Noswyl Fair y Canhwyllau, a elwid hefyd Gŵyl Fair ddechrau'r gwanwyn, ar 2 Chwefror (gŵyl bwysig i'r beirdd) a olygir yma? Ymhellach ar yr ŵyl honno, gw. ODCC<sup>3</sup> 1350–1. Canwyd y cywydd cyntaf i ofyn alarch yn sŵn cân y gog ym mis Ebrill, ac y mae'n bosibl fod bron i flwyddyn wedi mynd heibio cyn canu'r trydydd cywydd hwn i'r un alarch; yn sicr y mae'r Ynyd yn agos (gw. ll. 50) os gellir derbyn llythyren y dystiolaeth. Ar eraill o'r amryw wyliau i Fair, gw. GPC 1759–60; ODCC<sup>3</sup> *passim*. Y gytsain sy'n rhagflaenu'r acen yn unig a atebir yn y ll. hon. Ceisiodd John Jones Gellilyfdy oresgyn rhywfaint ar y bai drwy ddiwygio'r ll. yn *Hollwyl Vair vy llaswyr vu* yn llsg. B.

**llaswyr** Dymuna'r bardd roi'r argraff ei fod yn ŵr duwiol, gweddigar a bod yr hanes y mae ar fin ei ddatgelu, o'r herwydd, yn wir bob gair. Cyfeirir yma at ddefosiwn i Fair a chyfrif gweddiâu'r defosiwn hwnnw gyda chymorth gleiniau'r rosari. Diau fod y bardd hefyd yn defnyddio enw Mair yn dyst i'w onestrwydd.

- 2 Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o sillaf.
- 4 **Sawl** Saul, mab Cis o lwyth Benjamin, a brenin cyntaf Israel. Neu o bosibl y rh. amhendant *sawl* 'pwy bynnag, y cyfryw'.
- 6 **hwy no Eryri** 'Hÿn nag Eryri'; cmhr. *hir* 'yn parhau am amser maith'. Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o ddwy sillaf ond gellir cywasgu *no Eryri*.
- 8 **siopwr** Ai'r dyn yn y lleuad yw'r *siopwr hen*? Cf. y dyn â'r baich gwaiail, ll. 12.
- 10 Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o sillaf.
- 12 **baich gwaiail** Defnyddiai'r beirdd ddelwedd 'y baich drain', neu amrywiad arno, sef 'y baich gwaiail', yn ddigon cyffredin. Fe'i codwyd o chwedl a oedd i'w chael drwy Ewrop yn yr Oesoedd Canol, chwedl y dyn yn y lleuad. Yng Nghymru y traddodiad oedd iddo gael ei alltudio i'r lleuad a'i garcharu yno am ei oes am iddo gasglu coed tân ar y Sul.

Dedfrydwyd ef i gario baich o goed bob dydd o'i fywyd, a'r baich hwnnw wedi ei glymu ar bolyn a gariai ar ei ysgwydd. Portreadwyd ef felly ar sêl yn dyddio o 1335, ac mewn darlun yn eglwys y Gyffin, gerllaw Conwy (ardal a oedd yn gyfarwydd iawn i Ddafydd Trefor, cf. cerddi 3 a 6), gw. Eurys I. Rowlands, 'Y baich drain', LICy iv (1956–7), 173; Reginald Pecock, *The Repressor of Over Much Blaming of the Clergy*, ed. Churchill Babington (2 vols, London, 1860), 1553; a cf. GGI<sup>2</sup> 73 (XXVII.5–6) *Yntau'r gŵr yn y lleuad / A'r drain o'r war hyd yr iad* ('I ofyn cymod Ifan Fychan ab Ifan ab Adda').

- 14 **Geraint** Geraint fab Erbin, arwr un o'r Tair Rhamant ac efallai arwr mewn hanes, a milwr nodedig; ymhellach arno, gw. TYP<sup>3</sup> 356–60 a cf. GGI<sup>2</sup> 198 (LXXIV.46) *Un faint â Geraint neu gawr* (Dafydd Llwyd o Abertanad).
- 15 **clip** Cf. 3.34.
- 17–18 **Hywel ... / Wŷr Adda** Enw teuluol sydd yma, cf. *Hywel Adda* 6.1n.
- 19 **plâu** Fe'i deallir yn fe. o *pla* yn dwyn yr ystyr 'plagio', a gellid aralleirio'r cwpled 'Ple buost yn plagio pobl sy'n mynd ymlaen â'u bywydau? / Pestl siapus, pa ysgol sydd gyhyd â thi?'
- 20 **pestel** Trosiad milwrol am un sy'n chwalu gelynyion, cf. GIG 37 (VIII.57) *Pestel cad* (am Owain Glyndŵr); hefyd trosiad am gal gan Ddafydd ap Gwilym, gw. *pestel crwn* yn 'Cywydd y gal', CMOC 26 (ll. 31).
- ystol** Ffurf amrywiol ar *ysgol* 'ladder' sydd yma i bwysleisio taldra; cf. *garir* ll. 14, ac ymffrost Hywel ei fod yn ŵr *irwydd*, *hir* (ll. 18). Y mae'r ffurf hon yn parhau ar lafar ym Môn.
- 21 **dinas a dâl** Sangiad yn dwyn yr ystyr 'y mae [Porthaml] yn rhoi noddfa werth chweil'.
- 22 **Porthamal** Porthaml, plasty yn Llanidan, Môn. Cedwir yr ynganiad lleol er mwyn yr odl.
- 27 **Nudd** Nudd Hael ap Senyllt, un o 'Dri Hael Ynys Prydain' ynghyd â Mordaf Hael ap Serfan a Rhydderch Hael ap Tudwal Tudclyd, y tri yn frenhinoedd neu dywysogion o'r Hen Ogledd; ymhellach arnynt, gw. TYP<sup>3</sup> 5–7, 451–2, 464–6, 493–5; R. Geraint Gruffydd, 'Cywyddau Tri-awdaidd Dafydd ap Gwilym: rhai sylwadau', YB xiii (1985), 168–70.
- 28 **person** Yr offeiriad plwyf, sef Dafydd Trefor. Edrychai Hywel ymlaen at dâl anrhydeddus o'i law gan fod pwrs y person wedi treulio i'r un graddau â chod Nudd ar gyfrif y mynych ddefnydd arni.
- 39 **Môr Ffrainc** Y Sianel rhwng Lloegr a Ffrainc. Tybed a oes yma gyfeiriad at ŵydd Ffrengig, y *swan-goose*?
- 39–40 Bydd y cerhyntoedd yn sicrhau bod Dafydd Trefor yn cael adar

ifainc yn hytrach na'r hen ddeunydd.

40 **Trefor** Dafydd Trefor, gw. ll. 28.

44 Dwy gytsain unrhyw yn ateb un: g.g.n. = g. n.

48 **trwyn dyfrllyd** Cf. 4.26. Dichon mai *wtreswr byd /... â'r trwyn dyfrllyd* yw gair olaf y bardd am Hywel.

50 **Ynyd** Sef dechrau'r Grawys, gw. ODCC<sup>3</sup> 966. Oherwydd oedran a gwytnwch y ceiliagwydd, bernid bod yn rhaid ei goginio'n hir. Arferid gwledda'n hael ar gig cyn y deugain diwrnod ympryd; pe digonid y ceiliagwydd am deirnos, ystyria'r bardd (a'i dafod yn ei foch) y byddai'n arlwy fras.

## 6

Dyma'r olaf mewn cyfres o bedwar o gywyddau i'r un alarch.<sup>1</sup> Fe'i canwyd gan Ruffudd ap Tudur ap Hywel yn ôl priodoliad tair o'r llawysgrifau,<sup>2</sup> ond gan Ruffudd ap Hywel ap Tudur yn ôl y tair llawysgrif arall.<sup>3</sup> Derbynnir mai'r bardd a ganodd gerdd 4 yw'r gŵr a ganodd y gerdd hon, ac nad oes ychwaith unrhyw arwyddocâd i'r dyddiad 1450 sydd wrth droed y gerdd yn llawysgrif Card 1.550.

Hywel Adda, y gŵr boldew, barus yw'r storïwr yn y cywydd hwn. Ymffrostia ei fod yn adnabod y wlad fel cefn ei law, pob tŷ yn y gymdogaeth sy'n gweini diod dda (ll. 4). Ar gyfrif hynny fe'i mabwysiadwyd gan Ddafydd Trefor yn was bach drosto, a hynny ar ddau achlysur go ryfedd. Tasg gyntaf Hywel Adda ar gais Syr Dafydd oedd mynd i'r cymoedd mynyddig i gasglu geifr ar ei ran (llau. 11–14);<sup>4</sup> ei ail dasg oedd mynd i Borthaml i gasglu alarch dros ei feistr (llau. 15–38). Hanes cyflawni'r ail orchwyl a geir yma. Croesewir Hywel Adda i ginio canol dydd ym Mhorthaml, ac wedi sgwrsio â Maredudd caiff alarch mewn sach yn rhodd yn y prynhawn, gyda'r siars nad yw i fusnesu yng ngenau'r sach. Ond wedi cario'r rhodd bob cam i Lanallgo siom oedd yn ei aros. Ceiliagwydd, nid alarch, oedd yn y sach.<sup>5</sup> Cafodd Hywel Adda ei dwyllo. Halen yn y briw oedd anfodlonrwydd Dafydd Trefor i amau Maredudd o

<sup>1</sup> Am y cywyddau eraill yn yr un ymryson, gw. cerddi 3–5.

<sup>2</sup> Sef Card 2.114, J 139 [= RWM 14], a Pen 112.

<sup>3</sup> BL Add 14969, Card 1.550, a LIGC 3050D [= Mos 147].

<sup>4</sup> Cyfeiriad at gywydd Dafydd Trefor 'I ofyn geifr gan bedwar person plwyf' (cerdd 1) yn datblygu'n gywydd ymryson. Cododd ymryson pellach rhwng Syr Dafydd Trefor a Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn sgil canu'r cywydd 'I ofyn gordderch a thelyn o law Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' (ar yr ymryson hwnnw, gw. cerddi 7–8); gan na chrybwyllir siwrnai i gasglu na gordderch na thelyn yn y cywydd hwn y mae'n deg tybio i'r ymryson hwnnw ddigwydd yn ddiweddarach.

<sup>5</sup> Bu Llawdden yn fwy ffodus; pan oedd yn sir Fynwy canodd un gerdd, sef cywydd 'I ddiolch i Rys ap Dafydd Goch o Wynllŵg a Gwrhái am ddau alarch', gw. GLL (cerdd 26).



unrhyw ddrwgweithred (llau. 39–42), a bodloni ar hen geiliagwydd fu raid i Hywel Adda. Yn ei lid, y mae'n penderfynu bwyta'r aderyn i ginio, ond er gwaethaf fflamau eirias y tân, ac anogaeth Lewys ap Tudur y teiliwr fod y cig wedi hen ddigoni, ni cheir fawr o flas ar y wledd (llau. 43–58).

- 1 **Hywel Adda** Cf. 5.17–18n.
- 3 **dwywlad** Sef Môn ac Arfon.
- 5 **Syr Dafydd** Bardd y cywydd cyntaf o'r pedwar cywydd a ganwyd i'r alarch, a pherson Llanallgo wrth ei alwedigaeth, gw. ll. 31.
- 12 **gafrod** Ll. *gafr*. Adroddir yn llau. 11–14 hanes Hywel yn mynd i gasglu geifr ar ran Syr Dafydd Trefor, ac y mae'n dannedd iddo ei gais. Ysgogodd y cywydd 'I ofyn geifr gan bedwar person plwyf' ymryson rhwng Syr Dafydd a Gruffudd ap Tudur ap Hywel, lluniwr y cywydd hwn; ar yr ymryson, gw. cerddi 1–2.
- 23 Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o sillaf.
- 26 **ymradwy** Gall fod yn fe. < *ym-* + *bradwy* 'treuliedig', &c., gw. GPC 304–5. Yn WL1 (Geir) 270 ceir yr ystyr 'wedi gwisgo: darfod' i *bradw* ac ar sail hynny awgrymir yma yr ystyr estynedig 'ymbil ar' a thrwy wneud hynny dreulio penderfyniad.
- Mredudd** Maredudd ap Tomas, meist'r Porthaml; ymhellach arno, gw. 3.23–5n.
- 27 **genef** Ffurf wneud ar *genau* a fabwysiadwyd er mwyn y gynghanedd sain.
- 29 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g.
- 31 **Llanallgo** Plwyf Syr Dafydd Trefor, yng nghwmwd Twrcelyn ym Môn, gw. ll. 5.
- 40 Twyll gynghanedd *b*.
- 43 Y mae'r ll. fel y mae yn rhy fyr o sillaf.
- 48 **anwaedu** Byddai tynnu gwaed yn gymorth i dyneru'r cig.
- 49 **cyfin** Ffurf ar *cyfyng*.
- 51 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir oni chywesgir *Yna y*.
- 52 **teiliwr** Gwneuthurwr dillad, S. *tailor*: arferid ei ddal yn gyff gwawd a'i ddifriô bob cyfle a geid, ac enghraifft bellach o hynny a welir yma; cf. GDG<sup>3</sup> 179 (66.35–6) (DG.net 64.35–6) *A fu sadler crwper crach / Neu deiler anwadalach?*
- 52–3 **Lewys / Ap Tudur** Brawd y bardd, fe ddichon, a theiliwr (gw. ll. 52) wrth ei grefft, ond tybed nad oedd hefyd yn fardd, *gweadur gwawd?*; neu ai *gwawd* 'dirmyg' sydd yma? Ni chofnodwyd yr un gerdd o'i eiddo yn MCF (21 Medi 2010).

Cadwyd 52 copi o'r cywydd hwn yn gofyn am ordderch a thelyn o law Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn. Yn y llawysgrif hynaf ohonynt, sef LIGC 9048E, 69<sup>r</sup>, a gopiwyd gan Syr Siôn Prys o Aberhonddu<sup>1</sup> yn ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg, priodolir y cywydd i *Offeiriad o Wyned* heb enwi'r offeiriad hwnnw, o bosibl er mwyn arbed wyneb y clerigwr, ac yn sgil hynny geisio cadw enw da'r offeiriadaeth yn gyffredinol. Y mae llawysgrif LIGC 832E, 12, a gopiwyd gan William Bulkeley, Brynddu, yn ystod hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, yn dyddio'r gerdd i'r flwyddyn 1480 ac yn ei phriodoli i *Syr Davydd Trefor Offeiriad Llandegai*, ond ni chafwyd unrhyw dystiolaeth bellach i gadarnhau bod y bardd erioed wedi gweinidogaethu i blwyfolion Llandygái. Ategir y dyddiad, fodd bynnag, gan llawysgrif ddiweddar arall, sef LIGC 165C, 129, a gopiwyd gan law anhysbys yn ystod y ddeunawfed ganrif neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; nodir y dyddiad 1500 yn llawysgrif CM 39, 7<sup>v</sup>, llawysgrif a gopiwyd gan Evan Pritchard yn 1797.

Lle y byddai eraill yn canu cywydd i ofyn am *un* rhodd, y mae Dafydd Trefor yma yn mentro gofyn *am ddwyrodd* (ll. 40).<sup>2</sup> Dyma gywydd chwareus ei ymagweddiad, yn agored a diymatal ei gellwair. Arwyddir yma felly lefel uchel o ymddiriedaeth o du'r bardd o ystyried bod yma offeiriad plwyf yn mynd ar ofyn marchog urddol, a bod byd o wahaniaeth statws a golud rhwng y naill ŵr a'r llall. Y mae dull y gofyn fel petai'n arwyddocáu perthynas eithriadol dda naill ai rhwng y glerigiaeth a'r uchelwriaeth, neu rhwng y ddau ŵr hyn ar lefel bersonol; yn wir yr oedd perthynas glòs rhwng y beirdd yn gyffredinol a Syr Wiliam Gruffudd. Ymddengys fod cydraddoldeb anrhydeddus yn nodwedd naturiol ar *genre* y cywydd gofyn ac nad oedd angen i'r eirchiad ymgreinio. Adlewyrchir parch y naill tuag at y llall yn y modd y mae'r bardd yn delweddu Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, sef yn arddull y canu mawl a'r canu brud: *ceiliog* (ll. 17); *tarw* (ll. 20). O'r tu arall, pan fo Ieuan Delynor yn canu ei gywydd 'Dychan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' (cerdd 13), geilw'r marchog am wasanaeth Syr Dafydd i ganu cywydd i ateb y dychanwr; y mae ganddo ymddiriedaeth

<sup>1</sup> Ar Syr Siôn Prys, gw. F.C. Morgan, 'The will of Sir John Prise of Hereford, 1555', Cylchg LIGC ix (1955-6), 255-61; E.D. Jones, 'Llyfr amrywiaeth Syr Siôn Prys', *Brycheiniog*, viii (1962), 97-104; R. Geraint Gruffydd, '*Yny lhygyr hwn* (1546): the earliest Welsh printed book', B xxiii (1968-70), 105-16; Daniel Huws, 'Gildas Prisei', Cylchg LIGC xvii (1971-2), 314-20; Ceri Davies, *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin 1551-1632* (Caerdydd, 1980), 25-47.

<sup>2</sup> Enghreifftiau eraill o ofyn am ddwyrodd yw'r cywyddau gofyn crib a drych, ceiliog bronfraith a'i gaets, cleddyf a dagr, cleddyf a gordderch, rapier a phwynadwy, gwin a siwgr, cleddyf a bwclod, garan a bytheiades, heb sôn am gywyddau sy'n gofyn am anrhegion lluosog megis 'I ofyn geifr gan bedwar person plwyf' (gw. cerdd 1), march a phedair caseg, ystalwyn a phedair caseg, chwech ar hugain o ddefaid: am restr o'r gwrthrychau y canwyd i'w gofyn rhwng c. 1350 a c. 1500, gw. Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350-c.1630* (Caerdydd, 1998), Atodiad II, 231-4.

lawn y bydd Dafydd Trefor yn abl i achub cam y bendefigaeth.

Y mae'r mater o ofyn gordderch yn fater diddorol. Yn ôl tystiolaeth y cywydd hwn yr oedd gan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn nifer o ordderchau. Ar hyd y cenedlaethau y mae tystiolaeth y bywyd uchelwrol yn cadarnhau bod cadw gordderchau yn ffaith yn hytrach nag yn freuddwyd, a cheir tystiolaeth debyg ymysg y glerigiaeth: tystiodd Dr Wiliam Glyn fod Syr Rowland de Veleville, cwnstabl castell Biwmares, a'i gaplan, yn puteinio gyda'u gordderchau.<sup>3</sup> Os dyna arfer Syr Wiliam Gruffudd a Dafydd Trefor hwythau ill dau, y mae'r offeiriad yn taflu'r bai a'r cyfrifoldeb am hynny ar ysgwyddau'r marchog, a barnu wrth deitl y cywydd. Teitl y cywydd fel y'i gwelir yn llawysgrif Bangor 13512, 70, yw *Cowydd i ofyn dwy rôdd gan Syr william gryffydd yn gynta un oi ddêg mameth yn ail Telyn i ddifyrry'r amser os cae fe'r delyn ni cheisiey'r fameth*, ac yn llawysgrif Pen 112, 304, *kowydd i S' Wiliam Gruffydd or Penrhyn i erch dwy rodd, y gynta yw vn oi famhaethod ef: ac ail oedd Telyn i ddyfyrw/r/ amser ac o chae fo yr delyn, ni cheissie fo yr vn oi famhaethod ef*. Synhwyrir yn y teitl elfen o drosglwyddo'r bai moesol i ysgwyddau Syr Wiliam Gruffudd am wendid offeiriad plwyf pe na châi hwnnw delyn i ddifyrru'r amser mewn dull addas i glerigwr.

Ceryddwyd nifer o glerigwyr esgobaeth Bangor gan yr Archesgob Warham yn 1505 am gadw gwagedd, ond erbyn 1536 fe'u ceir yn deisebu Thomas Cromwell am hawl i gadw 'cymdeithion aelwyd' fel yr arferid gynt, a'u dadl oedd y byddai hynny'n eu cadw rhag llygadu gwagedd dynion eraill. Yr oedd yn eglur iddynt fod priodi yn tramgwyddo'r gyfraith ganon, ond at ei gilydd derbyniai'r gŵr lleyg y 'priodasau' offeiriadol a'u teuluoedd.<sup>4</sup>

Gan mai erchi telyn at ei ddefnydd ei hun a wna Dafydd Trefor yma, digon rhesymol yw casglu bod y bardd-offeiriad hefyd yn delynor. Ategrir hynny gan natur fanwl y cywydd 'I ofyn telyn gan Edward Sirc dros Ddafydd ap Gwilym',<sup>5</sup> a noder yr wybodaeth gerddorol arbenigol a gyflwynir yno. Os gwir fod Dafydd Trefor yn delynor, dyfelir y gallai'r offeiriad fod yn cymryd rhan ymarferol ym merw bywyd cerddorol Môn, a'i fod o bosibl yn rhannu llwyfannau â Dafydd ap Gwilym a thelynorion eraill yr ynys. O gymryd y llinell *Rhy hen y'm gwelen' o'm gwedd* (ll. 5) yn dystiolaeth fod Dafydd Trefor yn ŵr aeddfed adeg canu'r cywydd hwn, gellid bwrw amcan ei fod yn delynor profiadol, telynor a oedd yn siarad o brofiad wrth lunio ail adran y cywydd (llau. 41–60).

Nid dyma'r unig gywydd gofyn *am ddwyrodd* (ll. 40) a ddatblygodd yn ymryson. Troediodd Edmwnd Prys (1543/4–1623) a Huw Machno (c. 1560–

<sup>3</sup> TNA, STAC 2/7 29\*; 2/17/347, ac a ddyfynnir yn S.J. Gunn, 'The regime of Charles, Duke of Suffolk, in North Wales and the reform of Welsh Government, 1509–25', *Cylchg HC xii* (1985), 469.

<sup>4</sup> WCCR<sup>2</sup> 339–40.

<sup>5</sup> GSDT cerdd 12.

1637)<sup>6</sup> yr un llwybr ar gyfrif ‘Cywydd i ofyn cleddyf a chariadferch’ (Huw Machno) o law Syr Robert Owain. Wrth agor ail gywydd yr ymryson pum cywydd hwnnw<sup>7</sup> y mae Edmwnd Prys yn cydnabod yr olyniaeth yr oedd ynddi: enwir Dafydd Trefor, cyfeirir at y siambrlen, a nodir y gwrthrychau yr aethpwyd ati i’w cyrchu:

Sr Dafydd saer wawd afaiaith  
 Trefor gynt trwy ferw a gwaith  
 A wnaeth Gerdd i bennaeth gwyr  
 Burlain pawb Siambrlan pybyr  
 I erfyn telyn at Jôr  
 A Gordderch hên i gerddor.  
 O chae’r naill chware a wnai  
 Na ddae arall ni ddorai.<sup>8</sup>

Y mae cywydd Dafydd Trefor yn ymrannu’n bedair rhan. Agorir y cywydd (llau. 1–40) ar nodyn o gymhariaeth: y mae’r bardd yn garwr aflwyddiannus o’i gymharu â’r digymar Syr Wiliam Gruffudd. Tra bo Dafydd Trefor, ar y naill law, yn glaf o serch (ll. 1), ar y llaw arall y mae merched o bob lliw a llun, yn hen ac ifanc, yn syrthio dan hudoliaeth y marchog. Unig obaith y bardd o ddenu cariad iddo’i hun yw gofyn i Syr Wiliam Gruffudd am un o’i gariadon ef, a chael cymorth *Dâm Siân* (ll. 35) i gydeiriol. Ond nid dyna’r unig beth y mae’r bardd yn ei ddeisyf. Testun ail adran y cywydd (llau. 41–60) yw’r eilbeth ar ei restr, sef gwrthrych arall o eiddo’r marchog: *Telyn wen siambrlen sydd / I’m llenwi mewn llawenydd* (llau. 59–60), a disgrifir y delyn rawn chwenychedig drwy ei chymharu â gordderch.

Erbyn diwedd y drydedd adran (llau. 61–74) gwelir newid yn safiad y bardd. Er iddo ddeisyf un o gariadon teg y marchog teimlai y byddai’n fwy llesol iddo gael gwraig lai ecsotig, un a fyddai’n hapus i ymroi i faterion y cartref. Ac er bod y bardd yn gofyn gordderch *mewn gwawd* (ll. 75), yr hyn sydd uchaf ar ei galon yw cael bod yn berchen ar delyn (llau. 75–8).

- 2 **pwnc** Cyfaddefir yma, efallai yn y traddodiad *amour courtois*, drafferthion y bardd yn nheyrnas serch: y mae’n dihoeni oherwydd cariad nas dychwelir; cf. TA 520 (CXXXVIII.9–10) *Penna trais yw poen traserch, / Penna cas yw pynciau serch*.

<sup>6</sup> Ymhellach amo, gw. D.L. James, ‘Bywyd a gwaith Huw Machno’ (M.A. Cymru [Abertawe], 1960).

<sup>7</sup> Am yr ymryson yn gyflawn, gw. J.W. Roberts, ‘Edmwnd Prys: hanes ei fywyd a chasgliad o’i weithiau’ (M.A. Cymru [Bangor], 1938), cerddi LIX–LXIII, ac am ymdriniaeth ar yr ymryson, gw. tt. xxxi–xxxvii. Am ymdriniaeth wahanol ar yr un ymryson, gw. Beti Rhys, ‘Ymrysonau’r beirdd’ (M.A. Cymru [Caerdydd], 1932), 494–505.

<sup>8</sup> BL Add 10314, 297; golygydd chwe ll. o’r cywydd yn Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), 169–70.

- 3 **a gâr marchog** Ceir esiamplau mynych yng ngwaith y beirdd o gadw cysefin y gwrthrych yn dilyn 3 un.pres.myn. y f., e.e., *A dry gwr yn drvgarog*, gw. Treigladau 189.
- 4 **gwial aur** Tystiolaeth y cywydd yw fod Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, eilun y merched, yn gwisgo mantell arian (gw. ll. 17) ac arni wial o aur; cf. 'Moliant Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan' o Dre'rŵr yn GLGC 293 (130.62) *mewn gwial o aur mae'n golerog*. Ail ystyr bosibl yw 'ffyn, canghennau' yn yr ystyr ffigurol 'cangen, disgynyddion, llinach', cf. 'Gwial Jesse', BI BGCC 92–103.
- 7 Cyfatebiaeth caled a meddal g = c.
- 8 **Syr Wiliam Gruffudd** Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn a thrydydd Siambren Gogledd Cymru (c. 1480–1531); arno, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6(B4). Yr oedd yn ŵr grymus a llywodraethol ym myd gwleidyddol ei gyfnod, gw. yr adran 'The dominance of Sir William Griffith' yn S.J. Gunn, 'The regime of Charles, Duke of Suffolk, in North Wales and the reform of Welsh Government, 1509–25', Cylchg HC xii (1985), 470–8.
- 9 Cyfatebiaeth caled a meddal d = t.
- 10 **Hyfaf, gallaf ei gellwair** Adlewyrchir yn y ll. hon y berthynas dda a fodolai rhwng y bardd a'i ddarpar noddwr. Dywedir mai Syr Wiliam Gruffudd, o blith holl aelodau'r bendefigaeth, yw'r un y mae'r bardd yn fwyaf hy arno ac y mae Dafydd Trefor yn medru bod yn fwy mentrus a beiddgar wrth dynnu coes Syr Wiliam Gruffudd na'r un pendefig arall.
- 13 **monnyn** Dyma'r engh. gynharaf a gofnodwyd yn GPC 2483, gyda'r ystyr 'person sorllyd neu bwdlyd'.
- 14 **brawd moel** Aelod o un o'r urddau mynachaid.
- 17 Cyfatebiaeth caled a meddal c = g.  
**ceiliog** Ceir adlais yma o'r canu brud, ac o'r mawl a fynegir yn sgil y ddelwedd o'r *ceiliog* yn ŵr dewr. Ar y canu brud, gw. Henry Lewis, 'Rhai cywyddau brud', B i (1921–3), 240–55; R. Wallis Evans: Dar; gw. hefyd *tarw* ll. 20n.  
**clog arian** Gw. ll. 4n.
- 20 **tarw** Dyfais o fyd y canu brud yw disgrifio arwr fel anifail nerthol, gw. ll. 17n d.g. *ceiliog*.
- 27 Sylwer ar yr odl lafar *hen / greden* 'sy'n cynnal y gynghanedd sain.
- 28 **gwynafog** Deallir yr ystyr *gwynafog*, *gwanafog* 'dicllon ... afrywiog, anynad, blin, piwis, gwrthnysig ...', gw. GPC 1771 i ddisgrifio'r *hen* (ll. 27). Byddai'r gwrthgyferbyniad rhwng yr *hen* ataliol a'r ieuainc gwyllt eu tymer yn taro'r nodyn priodol.
- 29 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.

- 33 **yr arglwyddes** Gw. ll. 35n.
- 35 **Dâm Siân** Gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) oedd Siân Stradling ferch Syr Tomas Stradling ap Syr Harri Stradling o Sain Dunawd, Morgannwg, ond cyfeirir yma at ail briodas Syr Wiliam Gruffudd â Siân ferch Siôn Pilstwn Hen ac Elen Chwitnai, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Puleston' (A1); PACF 275.
- 37 **Conwy** Crybwyllir Conwy ddwywaith yn GSDT, sef yn ll. agoriadol y cywydd 'Moliant i Robert ap Rhys o Blas Iolyn' (cerdd 3), ac yng nghwpled agoriadol y ffugfarwnad 'Marwnad Wiliam ap Gruffudd ap Dicws pan oedd ef fyw' (cerdd 6) a noder y cyfeiriadau mynych yn y gerdd honno at Lyn Conwy. Neu tybed a yw *uwchlaw Conwy* yn llawfer am Wynedd Uwch Conwy? Ymglywir â'r awgrym fod yr ardal yn agos at galon Dafydd Trefor, yn rhan o'i gylchdaith farddol ac yn borfa fras iddo.
- 40 **diriwn** Llsgrau. ENW<sup>1</sup>efhps *mine a ddirwyn*, G *mine ddiria*, W<sup>2</sup> *mine addiraf*, X *mine addiriwn*, j *minney dderiwn*. Dilynir darlleniad llsg. H a'r ystyr 'cymell, annog, gwasgu ar, pwyso ar' (gw. GPC 1035) ar draul darlleniad y llsg. hynaf, sef llsg. j, *dderiwn* 'to act stubbornly, or surlily', gw. P d.g. *deriaw*, gan na chofnodwyd yr enghraifft gynharaf o'r f. *deriaf*: *derio* hyd 1754 (gw. GPC 932); posibilrwydd arall yw *dirwyn*, gw. GPC 1039.
- 43–4 **Tannau ... / Rhawn** Telyn wedi ei llinynnu â thannau rhawn y mae'r bardd yn ei deisyf, gan mai dyna offeryn y prif ddatgeiniaid telyn. Nodwedd ar dannau rhawn, o'u cymharu â thannau coludd (sef perfedd dafad) neu dannau o fetel, yw eu bod yn cynhyrchu sain ddiog—grŵn neu suad melys, *hirllaes* 'hir ei barhad'. Ar ragoriaeth telyn rawn, cf. GIG 143 (XXXII.17–20) *Doeth yw ymadrawdd hawdd hoyw / Y delyn o rawn duloyw. / Y delyn rawn, dawn difas, / O rad y Drindod a'i ras* ('Cywydd moliant i'r delyn rawn a dychan i'r delyn ledr'). Ar y ddihareb 'Mwyn yw telyn rawn ymysg tylwyth,' gw. DiarC 172. Yn ôl Edward Lhuyd, cyfeiriad at flew ceffyl, ac nid unrhyw anifail arall, oedd *rhawn*, cf. *Archaeologia Britannica* (Oxford, 1707), 3b '*Rhaun*, Horse hair; and not us'd in Welsh for any other'. Gw. hefyd A.O.H. Jarman, 'Telyn a chrwth', LICy vi (1960–1), 154–75.
- 44 **hirlaesion** Tybed a ellid yma *yn nhir Leision*, cf. GSDT 8.14n d.g. *Coedleision*: '... yr oedd teuluoedd Mysoglen a Myfyrian o gwmwd Menai yn olrhain eu llinach at Leision'? Twyll gynghanedd rh = h. r.
- 45 **ebillion** Ar *ebill* 'peg neu bin trwy grib telyn, &c., sy'n dal y naill ben i dant fel y galler ei dynhau neu ei lacio', gw. GPC 1155–6. Gyda'r ebill y gosodir telyn mewn cywair i ganu.
- 47 **brau** Deallir yma fod y llais yn goeth, ac yn *lluosog* 'mewn harmoni'.

- 49 **hanner cainc** Dim ond hanner alaw fer sydd wedi dod i gof Dafydd Trefor a diau fod hynny mewn gwrthgyferbyniad â *Holl geinciau mesurau serch*, gw. DGG<sup>2</sup> 55 (XXXIV.30) sy'n priodoli'r ll. i Ddafydd ap Gwilym ond fe'i gwrthodir o'i ganon yn GDG clxxviii–clxxix.
- 52 **ymaelaf** Ar yr ystyr 'gafael, cydio, cipio, cymryd; ymgodymu, ymaflyd codwm, ymladd', gw. GPC 3756; fe'i defnyddir ar lafar ym Môn yn yr ymadrodd *colli'r melyd* 'colli'r frwydr'.
- 53 **merch** Trosiad am y delyn, cf. GSDT 12.33 *O cheir i Fôn y ferch ar faeth*.
- 55 **cripio** Y dull Gwyddelig o ganu'r delyn oedd â'r ewinedd yn hytrach nag â phennau'r bysedd, ac y mae'n sicr mai at hynny y cyfeirir yma er y byddai'r dull hwnnw yn fwy addas i'r delyn wifr nag i delyn rawn. Awgrymir bod Dafydd Trefor yn canu'r delyn i ddiddanu'r ferch; ni all ei diddanu a'i bodloni mewn unrhyw ffordd arall, gw. ll. 57.
- 58 *m.n* wreiddgoll.
- 59 **siambrlen** Daliai Syr Wiliam Gruffudd swydd Siambrlen Gogledd Cymru.
- 64 **dewis** Deellir yma yr a. 'gwyech'.  
**duael** Cf. ll. 65 *Un winau*.
- 68 **gwyr a ei hael** Cymaint yw atyniad Syr Wiliam Gruffudd i'r merched, y maent yn ceisio ei ddenu drwy ystum ael a llygad pan fo mewn man cyhoeddus.  
**ar ei ôl** Sef ar ôl Syr Wiliam Gruffudd.
- 69 **bys i'm gwegil** Ar y ddihareb *Gwell guegil y car noc wynep yr estraun*, gw. Henry Lewis, 'Diarhebion ym Mheniarth 17', B iv (1927–9), 9. Ystyr *i'm gwegil*, *ying ngwegil* yw 'behind one's back' GPC 1617; ar *a'i fys ar ôl pawb* 'spiteful, slandering', gw. WVBD 64–5.
- 71 Cyfatebiaeth caled a meddal g = c.
- 71–2 **Gwell ym un a faco llo / Orhenaidd no'r wawr honno** Â'r cwpled, cf. gwaith cyfoeswr i Ddafydd Trefor a ganai yn sicr rhwng y blynyddoedd 1503–32 (ac efallai cyn ac wedi hynny): *Gwell ym un a faco llo*, / *Gwawr henaidd, no'r wawr honno*, gw. GSH 22.47–8, ond y mae'n amhosibl penderfynu'n derfynol pwy oedd awdur y cwpled. Synhwyrir arlliw o wawd ynddo, ac o'r ystyr lafar *llo* 'hurtyn' (cf. yr enghreifftiau yn WVBD 351); *henaidd* 'dwl' (gw. GPC 1849). Am awdl ddychan i'r llo, gw., e.e., GMD cerdd 10. Diwygiwyd *Orhenaidd* yn *A'r henaidd* yn Dafydd Trefor: Gw 9.72 ond ni cheir tystiolaeth i hynny yn y llsgrau.
- 74 **gwyliar gell** Byddai'r wraig ddelfrydol yn 'gwarchod gartref', yn effro i anghenion y teulu, ac yn gwylio'n warchodol gan weini yn ôl yr angen.  
**llawer gwaith** 'Y mae'n llawer gwaith gwell imi gael ... na'r ordderch

honno.’

76 **acw** Unsill yw *Acw* yn y ll. hon.

77–8 Â’r cwpled clo, cf. llau. 7–8 cywydd Edmwnd Prys yn ateb y cywydd gofyn cleddyf a chariadferch o waith Huw Machno: *O chae’r naill chware a wnai / Na ddae arall ni ddorai*, gw. BL Add 10314, 297.

78 **[y]r un** Ni fyddai wahaniaeth gan y bardd pe na ddôî’r un ferch ato, cyn belled â’i fod yn cael telyn. Camosodiad r.dd. = dd.r.

## 8

Cywydd o waith Gruffudd ap Tudur ap Hywel (ar ran Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn) yn ateb y cywydd gofyn gordderch a thelyn. Ni phrofodd y gerdd hon yr un poblogrwydd â’r cywydd gofyn: erys saith copi o’r cywydd ateb hwn ar glawr, o gymharu â 52 copi o’r cywydd gofyn.

Egyr y cywydd drwy gyfarch Dafydd Trefor, a’i gydnabod yn ysbrydoliaeth brydyddol i’r beirdd. Gofynnwyd ganddo am delyn a gordderch, ond trafod yn nhermau telyn a chrwth a wna’r ateb. Cyngor Syr Wiliam Gruffudd yw fod Dafydd Trefor yn rhoi’r delyn a’i sain melys i hongian wrth ei gwddf ar hoelen, a’i fod yn hytrach yn canu cainc anfelys ar y crwth. Nodyn o siom sydd yn y ddau gwpled clo, a’r awgrym fod Dafydd Trefor a Wiliam Gruffudd ill dau wedi colli eu cyfle gyda’r *wen gymen* (ll. 45).

1 **awenydd** Y mae’r eirchiad, Dafydd Trefor, yn ysbrydoliaeth farddol oherwydd ei *freuder* ‘haelioni’.

3 **cwysaidd** Ni restrir y gair yn GPC ond fe’i deallir yn air o glod am farddoniaeth Dafydd Trefor, ac yn golygu ‘wedi ei dorri’n gwysi’, sef barddoniaeth gymen, unionsyth, sy’n agor tir newydd; [*g*]wawd *ceisio* ‘cywydd gofyn’. Cyfatebiaeth dd = dd.d.

4 **rhan fwyn** Sef ‘uned [o farddoniaeth] fonheddig [ei natur]’.

**a’i rhoi** Byddai *a rhoi* yn taro’n fwy naturiol, ond ni ddigwydd y darlleniad yn yr un llsg.

5 **siambrlen** Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o’r Penrhyn a thrydydd Siambrlen Gogledd Cymru (c. 1480–1531); arno, gw. 7.8n ynghyd â’r nodyn cefndir i’r gerdd honno.

7 **cyfeirion call** Sangiad i oleddfau *rhoddion*. Os ffurf l. *cyfair* ‘erw’ (ffurf nas cydnabyddir yn GPC) yw *cyfeirion* y mae’n cynnal y ddelwedd o dorri cwysi a welir yn ll. 3 ac yn dwyn yr ystyr ‘cyfoeth’, neu’n fanylach ‘cymaint o dir ag y gellid ei aredig mewn diwrnod (ym Môn ac Arfon mesurai gynt 3,240 o lathenni ysgwâr ...), gw. GPC 675; os ‘arwydd’ yw’r ystyr gellid deall bod y rhoddion yn ‘arwyddion doeth’, neu o gymryd *call* yn e. ‘arwyddion gŵr doeth’. Posibilrwydd arall yw’r



eg. *cyfar* ‘cydaredig’, eto’n cyfeirio at y weithred o gydbrydyddu o fewn yr un ymryson barddol. Os ffurf ar *cywair*, ll. *cyweirion*, sydd yma, gallai olygu ‘cyweirnodau’, &c., gw. GPC 828–9.

- 7–8 **Cawn roddion ... / Oherwydd eu rhoi i arall** Dihareb yn golygu ‘Po fwyaf oll a roddir, mwyaf oll a dderbynnir’; cf. DiarC 171, ‘Mwy a rowch, mwy a gewch’.
- 10 **telyn** Ar y diffyg treigladd i *telyn*, gw. Treigladau 189 a cf. 7.3n.
- 11 **dir roddi** BEG *di yrddodi*. Diwygiwyd yn *dir roddi* ‘rhoi yn llwyr’ er bod hynny’n peri peth anhawster o ran y gynghanedd. Telyn a chrwth Syr Wiliam Gruffudd yw’r *d[d]wyrodd*.
- 12 **dau** Gellid deall yma *dau* ‘two’ yn cyfeirio at y delyn a’r crwth, neu’n llai tebygol ddeall yr ystyr *tau* ‘eiddot ti’ a darllen *dwyrodd ydynt / Dau i’w rhoi* ‘eiddot ti yw’r ddwyrodd i’w rhoi’.
- 13 **syrr** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *sorri* ‘digio’.
- 15 Sylwer ar yr odl rhwng *-yg* ac *-ug* er mwyn llunio’r gynghanedd sain.
- 18 **y dŵr** Afon Menai; gw. hefyd l. 40. Y mae blerwch yma gyda’r gyng-hanedd: cyfatebiaeth caled a meddal t = d; crych a llyfn.
- 22 **cyweirgorn** Allwedd i gyweirio offeryn cerdd dant, yn enwedig y delyn a’r crwth, ystyr a fyddai’n addas yma, ond hefyd yn ffigurol am safon cywirdeb (cf. GGI<sup>2</sup> 219 (LXXXIII.9–10) ‘Marwnad Harri Ddu o Euas’: *Euas gynt wrth lais ei gorn / Ac Erging heb gyweirgorn*). Am enghreifftiau o *cyweirdant* yn cael ei ddefnyddio’n ffigurol, cf. GDG<sup>3</sup> 37 (13.115) *Cyweirdant y cywirdeb* (DG.net 6.103 *Cyweirdant pob cywirdeb*) (‘Marwnad Llywelyn ap Gwilym’); GGGr 4.39 *Cyweirdant mwyn a gwynir* (‘Marwnad Dafydd ap Gwilym’). Ymhellach ar ddefnydd y beirdd o dermau cerddorol, gw. Enid Roberts, ‘Marwnadau telynorion’, TCHSDd xv (1966), 80–117.
- 29 **parlwr** Ystafell ar gyfer derbyn ymwelwyr, neu ystafell mewn mynachlog (neu adeilad cyhoeddus arall) ar gyfer sgwrsio’n breifat: cyfeiriad at gyfrinachedd y bardd-offeiriad, fel *ying nghongl* ‘yn gyfrinachol’ y ll. nesaf. ‘Pan ddaw’r delyn a’r crwth i’th barlwr.’
- ystôr** Cyfarchiad tafod-mewn-boch at Ddafydd Trefor fel *ystôr*, sef ‘thus’, resin gwyn persawrus, a’r gorau ohono’n dryloyw. Fe’i cyfrifid yn un o’r perarogleuon gwerthfawr, a’i ddefnyddio’n arogldarth i ddynodi cyflwyniad sanctaidd a pheraidd gerbron Duw. Defnyddid *ystôr* (digwydd yr ynganiad *ýstor* hefyd) yn ffigurol i olygu ‘cynhaliwr, amddiffynnydd’, ac yn safon ymddygiad a haelioni, cf. ‘Cywydd mawl i Wiliam Parri’, GST i, 164 (40.1–2), *Y gŵr sy well nag aur Sieb, / Ystor in, nos da i’r wyneb; ib.* 355 (90.83) *Mastr Wiliam, ystor haelion*.
- 31 **cryw emyn** Deallir *cryw* yma i olygu ‘cawell’, sef bol yr offeryn a chartref yr *emyn* ‘cân foliant’.

- cras** Ar gelfyddyd telynor a chrythor, gw. MA<sup>2</sup> 1071. Yn ôl y traethodau cerdd dant yr oedd pum cywair a gelwid un o'r pump yn *gras gywair*, cf. IGE<sup>2</sup> 302 (llau. 5–6) *Da lon lais ar delyn loyw / Gras gyseingras gysongroyw* (Rhys Goch Eryri 'I Robert ap Meredith'); y pedwar cywair arall oedd is gywair, lleddf gywair, gogywair, a bragod gywair, gw. Enid Roberts, *art.cit.* 98. Yr oedd gan Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn gryn wybodaeth am y gelfyddyd o ganu offerynnau cerdd a thannau iddynt, gw. cywydd olaf yr ymryson rhyngddo ac Ifan Delynor (cerdd 18).
- 34 **crest** Cyfeirir yma at grest y crwth. Nid yw ystyr *crest* yn eglur: gallai'r marchog fod yn cyfeirio at ei arfbais ei hun a allai fod wedi ei lleoli ar frig yr offeryn, neu gallai fod yn cyfeirio at frig y llofr, sef y cynhalbren blaen; posibilrwydd arall yw ei fod yn cyfeirio at grib yr offeryn, sef y pren (addurnedig yn aml) sy'n arwain o'r llofr i lawr at yr ysgwydd ac sy'n cynnal pen uchaf y tannau.
- 35 **Gyr yn ôl y reiol rudd** 'Anfon yn ôl [y ferch sy'n gwisgo]'r dillad coch gwyh.' Cofnododd Dafydd ap Gwilym arfer merched y cyfnod o wisgo dillad o liw coch wrth ymbincio a pharatoi ar gyfer ffair, cf. GDG<sup>3</sup> 132 (49.1–6) (DG.net 138.1–6) *Rhai o ferched y gwledydd, / Sef gwnân' ar ffair, ddiddan ddydd, / Rhoi perls a rhubi purloyw / Ar eu tâl yn euraid hoyw, / A gwisgo rhudd, mwyfudd merch, / A gwyrdd, gwae ni fedd gordderch.*
- 36 **Gwyl er rhywbeth gael rhybudd** Ffurf 2 un.grch. y f. *gweled*; 'Gwêl rhag iti gael *rhybudd* 'cerydd' oherwydd '[dy] weithred.'
- 38 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy fyr yn y llsgrau. ond fe'i diwygiwyd er mwyn sicrhau'r saith sillaf angenrheidiol.
- 42 **mynt** Sef *myn*, ffurf 3 un.pres.myn. y f. *mynnu* a honno wedi magu cynffon *-t* er mwyn odli â *helynt* y ll. flaenorol.
- 43–4 **Rhwng y ddwystol ... / Ydd aeth** Syrthio rhwng dwy stôl, sef cael dau nod mewn golwg a methu â chyrraedd yr un. Cf. DiarC 243, 'Rhwng y ddwystol ydd â'r eisteddwr i lawr', 'Rhwng y ddwystol ac heb yr un'; *Rwng y ddwy stol ydd a r din i lawr*, gw. W. Salesbury, *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* (London, [1574]; adargraffiad Bangor, 1902).
- 46 **trof** Sef *tro* + *f*.
- drafael** Defnyddir *ar drafael* i olygu 'on a journey, travelling', a chlywir yr ymadrodd *ar ei drafaels* yn gyffredin hefyd yn yr ystyr 'yn galifantio', gw. GPC 3546.
- 47 **ein dau** Nid wyla'r ferch oherwydd na ddaw Dafydd Trefor nac ychwaith Syr Wiliam Gruffudd i'w bywyd, oherwydd y mae'n eiddo i arall, gw. ll. 48n.
- 48 **arall biau** Cf. GDG<sup>3</sup> 304 (115.53–4) (DG.net 52.53–4) '*Pren yng*

*nghoed*—*mawroed yw'r mau*— / '*Arall â bwyall biau*', a gw. y nodyn ar y cwpled lle y cyfeirir at ddihareb yn Llyfr Coch Hergest, R 1081.8, *Prenn yg koet arall bieu*.

## 9

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o bedwar cywydd ymryson ar gyfrif un o'r fferis a wasanaethai deithwyr rhwng Môn a'r tir mawr—yn deithwyr ar droed a hefyd yn farchogion (gw. llau. 19, 42). Er nad oes cyfeiriad yn y cywydd at yr arfer o gario nwyddau, nid yw'n amhosibl na wneid hynny. Yn ail gywydd yr ymryson cyfeirir at dafarnwyr neu werthwyr gwin *Â'r meirch a'r costrelau mawr*<sup>1</sup> ac y mae'n bosibl fod yma gyfeiriad at fasnach gwrw neu win. Yr oedd rhywfaint o fasnach dramor rhwng Môn a'r Cyfandir o'r 14g. ymlaen ac efallai cyn hynny, ond i Fiwmares y deuai'r rhan fwyaf o longau â gwin i ogledd Cymru o wledydd tramor, fodd bynnag, nid i Borthaethwy.<sup>2</sup> Er nad oes sôn penodol fod y fferi yn cario cargo o anifeiliaid i'w gwerthu, nid yw hynny ychwaith yn amhosibl. Ceir cyfeiriad dros dair blynedd o fis Chwefror 1407 ymlaen (tua chanrif yn gynharach na dyddiad y cywydd hwn) at arian (34s.) a oedd wedi ei dderbyn yng nghyswllt '*the passage of beasts at Porthaitho*':

indicating perhaps, the levying of a tax as a check upon the export of cattle from Anglesey. This is the only reference to cattle, in direct association with the Porthaethwy ferry, which has been met with prior to the close of the eighteenth century; but we may assume that they have been crossing there throughout the intervening years.<sup>3</sup>

Cadwyd 27 copi o'r cywydd hwn, y cynharaf (a gopiwyd i lawysgrif Llŷst 135, 20) yn dyddio o rywbryd ar ôl 1548, sef o fewn tuag ugain mlynedd i ddyddiad tybiedig marwolaeth y bardd. Copiwyd y rhediad llawn, sef pedwar cywydd yr ymryson, i lawysgrifau Card 2.114, 385 (llawysgrif a gopiwyd yn y cyfnod 1564–6), BL Add 14882, 93<sup>v</sup> (llawysgrif a gopiwyd yn 1591), J 139, 411 (llawysgrif a gopiwyd ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg), a Pen 112, 150 (llawysgrif a gopiwyd cyn 1610).

Cywydd disgrifiadol yw'r cywydd cyntaf hwn, yn dyfalu'r fferi ac yn disgrifio ei hwyliad draw i lannau Arfon, ond serch ei natur ddarluniadol, ddigynnen datblygodd y gerdd i fod yn destun ymryson rhwng Dafydd Trefor a Gruffudd ap Tudur ap Hywel. Canwyd y cywydd pan oedd Llywelyn ab Einion yn ffermio'r fferi (gw. llau. 9–12), rywbryd felly rhwng

<sup>1</sup> Gw. 10.26.

<sup>2</sup> David Thomas, *Hen Longau Sir Gaernarfon* (arg. newydd, Llanrwst, 2007), 30. Diddorol hefyd yw nodi bod rhyw *Willm Tona* wedi ei dalu 5s. 8d. am gario tri llwyth llong o gerrig o borthladd *Portaythewe* i Fiwmares fis Mai 1539 er mwyn atgyweirio muriau'r dref, gw. D. Koop & G. Peredur Jones, 'The repair of Beaumaris town wall, 1536–1538', AAST, 1935, 76.

<sup>3</sup> RCAHM (Anglesey) clxxv–clxxvi.

1503 a 1507.<sup>4</sup> Deellir mai llong hwylio ydoedd, wedi ei ffurfio o bren derw (ll. 14) ac arni faner y cychwr ar ei mast (llau. 11–12). O ran ei maint, efallai mai nifer fach o deithwyr a hwyliai ynddi ar unrhyw groesiad. Dyna dystiolaeth Syr Richard Bwlclai yn sicr. Oherwydd bod glannau Môn yn gyfarwydd i elynion y brenin, yn ôl Syr Richard Bwlclai mewn llythyr at Thomas Cromwell 9 Ebrill 1539, ofer fyddai disgwyl am gymorth o sir Gaernarfon i amddiffyn castell Biwmares ar adeg o ryfel gan fod y fferis a hwyliai rhwng Môn ac Arfon yn rhy fach i gario nifer arwyddocaol o filwyr—dim mwy na rhyw 12 i 16 ar y tro yw ei amcangyfrif ef.<sup>5</sup> Gall felly mai fferi un mast ydoedd:

Llong fechan un mast a ddefnyddid yn gyffredinol i fordeithiau ar hyd yr arfordir. Yn aml iawn yr oedd tri dyn—y capten a'i fêf a hogyn ifanc yn ddigon i redeg llong o'r fath ... Gydag un mast o hwyliau blaen-ac-ôl (*fore and aft sails*) a gwaelodion fflat er mwyn gorwedd ar draeth, gallai y smaciau yn enwedig mewn tywydd garw fod yn anodd i'w trin.<sup>6</sup>

Yn adran gyntaf y cywydd (llau. 1–12) clodforir prysurdeb y fferi a diwydrwydd y cychwr, a mawrygir porthladd Porthaethwy uwchlaw yr un arall ar wyneb daear. Yn ail adran y cywydd (llau. 13–52) clodforir golwg a symudiad y fferi a'i chyffelybu, ymhlith gwrthrychau eraill, i wennol (llau. 15–16) sy'n hynod am ei hehediad cyflym a gosgeiddig. Pentyrrir dyfaliadau, yn eu plith ddarlun o wylan, gwennol, gwylog, crud, corodyn, pont bren, ton, hwch, llestr pren at odro, casgen, bol, cwpan, mynachlog, a morwyn, a chaiff dychymyg afieithus y bardd dragwyddol heol i ehedeg gyda ffansi'r awen. Y mae'r islais rhywiol yn gryf:

There is a furtive sexuality in Trefor's frequent use of metaphors involving women and the sexual act which at times becomes nauseating, as when he likens a ferry-boat to a harlot much resorted to by clerics ... His over-heated imagination flickers so luridly around these preoccupations that it is hard to escape the conclusion that he would have done far better to emulate many of his fellows and taken a wife.<sup>7</sup>

Cloir y cywydd (llau. 53–8) yn dechnegol gelfydd â rhediad o linellau sy'n cadw'r cymeriad geiriol *nid* (llau. 53–4) a *porth* (llau. 55–8), ac yn syniadol â chanmoliaeth afradus i'r porthladd ac iddo arwyddocâd a phwysigrwydd yn ymylu ar y dwyfol.

Naws hysbyseb sydd i'r cywydd hwn felly, a thybed nad Llywelyn ab

<sup>4</sup> H.R. Davies, *A Review of the Records of the Conway and the Menai Ferries* (Cardiff, 1942), 50, 54–7.

<sup>5</sup> *A Calendar of Letters relating to North Wales 1533–circa 1700*, ed. B.E. Howells (Cardiff, 1967), 38.

<sup>6</sup> J. Geraint Jenkins, *Traddodiad y Môr* (Llanrwst, 2004), 26. Am astudiaeth o fywyd morwrol Môn, gw. Aled Eames, *Ships and Seamen of Anglesey 1558–1918: Studies in Maritime and Local History* ([London], 1981).

<sup>7</sup> WCCR<sup>2</sup> 341n5.

Einion a'i comisiynodd? Wedi'r cyfan yr oedd sawl fferi yn teithio draw i'r tir mawr, yn eu plith fferis Llan-facs, Porthesgob (sef croesiad cychod esgob Bangor), Biwmares, Abermenai, Tal-y-foel, Llanidan a Moel-y-don. Gellid dyfalu i Lywelyn ab Einion dalu Dafydd Trefor am gerdd fawl i'r ysgraff ar adeg dathlu iddo ennill yr hawl i ffermio'r fferi yn 1503.

Yn hanesyddol yr oedd cefndir tymhestlog i'r fferi hon, a bu'r frwydr i fod yr un mewn awdurdod drosti yn bwnc llog ar brydiau. Yr oedd fferi Porthaethwy yn wahanol i'r fferis eraill ar gyfrif y ffaith mai dim ond hanner y busnes a oedd yn eiddo i'r brenin; rhydd-ddeiliaid y dref a oedd yn berchen ar yr hanner arall, gan gymryd hanner elw'r fferm, ysgwyddo'r cyfrifoldeb am dalu hanner y treuliau cynnal a chadw, ynghyd â thalu hanner y gost o ddarparu unrhyw longau newydd y byddai eu hangen. O'r flwyddyn 1352 ymlaen, newidiwyd y drefn. Gosodid y fferi ar brydles fer o ychydig flynyddoedd ar y tro, ac ar ysgwyddau'r ffermwr y syrthiai'r cyfrifoldeb llawn am ei chynnal, sef o bosibl un o rydd-ddeiliaid Porthaethwy, neu efallai gwmni ohonynt.

Yn sgil trafferthion ynghylch taliadau rhent deddfwyd yn 1451 y dylid talu #3 6s. 8d. i'r brenin o'r flwyddyn honno ymlaen, waeth faint o elw a wnâi'r fferi;<sup>8</sup> yn 1491 Syr Wiliam Gruffudd a dalai'r dreth honno. Yn dilyn, y mae bwlch o dair blynedd ar ddeg yng nghyfrifon Môn a'r cofnod nesaf yw'r un am y flwyddyn sy'n dod i ben ar wyl Fihangel (29 Medi) 1504. Cawn yn awr fod y fferi wedi ei rhoi ar brydles i Lywelyn ab Einion ab Ieuan Goch (a enwir yn y cywydd hwn, gw. llau. 9, 12) ar rent o #14 y flwyddyn.

Yn y flwyddyn 1501, ddwy flynedd cyn i Lywelyn ab Einion gymryd at ei gytundeb pedair blynedd i ffermio'r fferi, bu anghydfod tanllyd ynghylch perchenogaeth fferi frenhinol Porthaethwy.<sup>9</sup> Ymddengys fod Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn rywsut neu'i gilydd wedi perchenogi'r rhan o'r busnes a arferai fod yn eiddo i rydd-ddeiliaid Porthaethwy. O ganlyniad rhoddwyd y fferi yn nwylo Rhisiart Bwlclai, Archddiacon Môn, o wyl Fihangel 1501 ymlaen i aros dyfarniad ar yr achos.<sup>10</sup> Er nad oes tystiolaeth gref fod gelyniaeth rhwng y ddau deulu yn y cyfnod hwn, erbyn 1509 ac ymlaen y mae prawf diamheuol fod gelyniaeth ddofn wedi gwreiddio, a bod teulu'r Penrhyn â'i fryd ar wrthweithio dylanwad teulu'r Bwlcleiaid ym mwrdeistref Biwmares. Penodwyd Rowland Bwlclai yn gwnstabl y castell yn 1502 a diau fod hynny'n cadarnhau rheolaeth y Bwlcleiaid dros yr ardal. Pan ddiswyddwyd Rowland Bwlclai yn 1509 a gosod Syr Rowland Viellville yn gwnstabl newydd yn ei le, gwelir yn hynny law Syr Wiliam Gruffudd, a oedd yn uchel ei barch yn y llys brenhinol. Canlyniad gosod y fferi yn nwylo Rhisiart Bwlclai yn 1501 i aros dyfarniad ar yr achos anghydfod oedd

<sup>8</sup> H.R. Davies, *op.cit.* 46.

<sup>9</sup> D.C. Jones, 'The Bulkeleys of Beaumaris, 1440-1547', *AAST*, 1961, 7-8.

<sup>10</sup> H.R. Davies, *op.cit.* 56.

i'r dyfarniad fynd yn erbyn Syr Wiliam Gruffudd ac iddo gael ei ystyried yn euog o dresbasu, gyda'r canlyniad iddo gael ei ddirwyo 60s. y flwyddyn am gyfnod o un mlynedd ar bymtheg, o ŵyl Fihangel 1501 am gyfnod yn ymestyn yn ôl hyd ŵyl Fihangel 1485.<sup>11</sup> Daeth diwedd ar rannu'r cyfrifoldeb am y fferi, a daeth y busnes yn eiddo i'r Goron.

Ni ddaeth daliad Llywelyn ab Einion i rym hyd 11 Tachwedd 1503, ac ar ŵyl Fihangel 1504 (a ddisgrifir fel blwyddyn gyntaf ei dymor) dim ond seithbunt o rent yr oedd Llywelyn ab Einion wedi ei dalu, sef y chwe mis o rent a oedd yn ddyledus ar 29 Mehefin.<sup>12</sup> Ond canfyddir yn nes ymlaen i'w dymor gael ei estyn hyd ŵyl Fihangel 1507, ac felly cafodd ei bedair blynedd. Amod y brydles oedd fod Llywelyn ab Einion yn adeiladu llong, ar ei gost ei hun, i gario ceffylau yn ôl a blaen dros y culfor ac y byddai'n gadael y llong honno ar ddiwedd tymor y brydles i'r ffermwr nesaf. Nid oes gair o sôn am haneru'r busnes, ac ni chyfeirir at yr arfer hwnnw o hynny ymlaen mewn unrhyw gofnod ynghylch y fferi.

Ymddengys ar un adeg fod tŷ at ddefnydd y fferiwr yn rhan o'r cytundeb. Ar sail adroddiad Thomas Heton yn 1505 awgryma H.R. Davies fod Llywelyn ab Einion yn ffermio'r fferi, ond mai Wiliam ap Rhys oedd yn byw yn nhŷ'r fferiwr. Nid oes sicrwydd ynghylch safle'r cartref hwnnw. Nid oedd tŷ ar Gomin Porthaethwy yn 1687 pan wnaeth Coningsby Williams gais am drwydded i godi tŷ yno at ddefnydd y fferiwr, a'r awgrym yw na fu tai o unrhyw fath ar y safle hwnnw erioed o'r blaen. Tybed nad yn sir Gaernarfon felly yr oedd tŷ fferiwr Porthaethwy? Awgrym pendant H.R. Davies yw fod safle cartref y fferiwr ar ochr Bangor i gored Treborth.<sup>13</sup>

Yn ôl y cofnodion swyddogol parhâi Llywelyn ab Einion i ddal y fferm yn 1508, ond erbyn hynny yr oedd yn talu rhent o #18 13s. 4d., y rhent uchaf erioed a dderbyniwyd am fferi Porthaethwy (yn 1510, serch hynny, gosododd Harri VIII y fferi gyfan am yr hen bris o #3. 6s. 8d.). Dyddiau cythryblus a drud fu'r rhain felly i Lywelyn ab Einion ab Ieuan Goch.

1 **i ffair Fôn** Gall fod yn enidol, h.y. 'y fferi fawr ar gyfer masnach Môn'.

1–2 Cf. cwpled agoriadol 'Moliant Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' yn GGI<sup>2</sup> 55 (XX.1–2) *Y Gŵr mawr a egyr Môn / Wrth osod ei phorthwysion*.

2 **porthwysion** Yr e.ll. 'badwyr ar fferi neu ysgraff, cychwyr', gw. GPC 2858, ond am yr ystyr 'trigolion Porthaethwy', cf. ll. 58n.

4 **Porthaethwy** Tref borthladd ym mhlwyf Llandysilio ar Ynys Môn, gw. WATU 181; gw. hefyd l. 54. Y mae'n bosibl mai oddi yno i safle'r George yn sir Gaernarfon y teithiai'r fferi.

5 **aber** 'Porthladd', yn gyfeiriad at Borthaethwy, ond diddorol yw nodyn

<sup>11</sup> *Ib.* 56.

<sup>12</sup> *Ib.* 55.

<sup>13</sup> *Ib.* 56–9.

WVBD 2 d.g. *abar* ‘“confluence”. Except in place-names this word is only used by fishermen, etc., when referring to the mouth of the river Saint at Carnarvon.’

- 9 **Llywelyn** Llywelyn ab Einion ab Ieuan Goch; gw. hefyd ll. 12. Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir ond gellid *L'welyn*, a cf. *Llen* (ll. 12).

**gorwyn** Cyfeiriad at hwyl(iau) claerwyn y fferi.

**geirwir** Haerir bod y fferi yn ‘uniawn ei gair’, sef bod Llywelyn yn ddyn busnes gonest.

- 10 **Menai** Culfor Menai sy'n gwahanu Môn oddi wrth y tir mawr.

- 12 **llun** Ar y diffyg treigladd, gw. Treigladau 425.

**baner** Arfer gyffredin gan wŷr o awdurdod oedd cario baner yn symbol o statws, yn enwedig felly wŷr eglwysig, a gwŷr gwleidyddol neu filwrol: ‘Such power may derive from early cultic or religious functions and related pageantry’, gw. Donald E. Meek, ‘The banners of the Fian in Gaelic ballad tradition’, CMCS xi (Summer 1986), 33.

**Llen** Llywelyn; er bod hwn yn dalfyriad anghyffredin yn y farddoniaeth, yr oedd yn dalfyriad digon cyffredin mewn dogfennau.

- 13 **gwylan** Cyffelybir y fferi i wylan, sydd (mewn ystyr ffigurol) yn arwyddocáu ‘merch brydferth’ yn ogystal â ‘dyn glwth’. Sylwer ar y cymeriad: *Gwylan* (ll. 13), *Gwennol* (ll. 15), *Gwylog* (ll. 17).

- 15 **gwennol** Fe'i defnyddir yn drosiadol oherwydd ei symudiad parhaus, ac am ei hystwythder ar adain.

**deudir** Môn ac Arfon, cf. ll. 43.

- 16 **hwp** ‘Gwth, ysgogiad’, neu efallai ‘antur’, a deallir bod y wennol yn cael ei gwthio ymlaen ar ei thaith gan hwyl wen y fferi yn ysgwyd yn y brisyn cryf. Posibilrwydd arall yw *hŵp* ‘cylch’ a'r darlun o'r hwyl yn bolio'n gylch o flaen y gwynt.

**gwe** Cf. *gwe* ‘hwyl’ y fferi â'r cyfeiriad yn *Odyssey* Homer at Calypso yn dod â rhodd i Odysseus, sef ‘a web of cloth to make him sails’.

- 17 **gwylog** ‘Un o amrywiol rywogaethau o adar môr o deulu'r carfil, yn enw. *Uria aalge* neu *Alca troile*’, *common guillemot*, gw. GPC 1764. Defnyddir y trosiad ar gyfrif lliw'r gwylog, sef brown tywyll a gwyn sy'n cyfateb i dderw'r llong a'i baner wen.

- 19 **crud meirch** Y mae'n amlwg fod y fferi yn cario teithwyr ar droed yn ogystal â marchogion, a'i bod yn allweddol i ffyniant economi'r ardal. Enillodd Llywelyn ab Einion y brydles ar yr amod ei fod yn cytuno i adeiladu ail long a fyddai'n abl i gario meirch, gw. y nodyn cefndir. Ond gallai *crud meirch* hefyd gyfeirio at gafn bwyta a fyddai yr un siâp â'r cwch.

- 20 **corodyn** Fe'i rhestrir dan *corod* yn GPC 564 a rhoi iddo'r ystyr ‘teclyn,

anwybeth, tegan', ynghyd â 'cydymaith, cyfaill' yn ail ystyr. Ond gw. hefyd G 166 d.g. *corot*. Am y pedair enghraifft o'r gair a ddigwydd yng nghanu Dafydd ap Gwilym dywed Thomas Parry mai'r ystyr 'peth bychan, teclyn, tegan' a weddai (gw. GDG<sup>3</sup> 462), ond awgrymir yn DG.net 31.8n y ceid 'ystyr dda iawn yma ... o'i ddeall fel y sawl a dderbyniai *corrodium*, sef ymgeledd mewn mynachlog', cf. S. *corrody*. Diau mai *corodyn* yw'r sillafiad cywir yn hytrach na *carodyn*, ac mai trwy gydweddiad â *caru* yr aeth yn *carodyn*, cf. yr awgrym yn T. Gwynn Jones, 'Byr-nodion', B i (1921–3), 41. Cf. hefyd D. Silvan Evans, *A Dictionary of the Welsh Language*, i (Carmarthen, 1893), sy'n gwahaniaethu rhwng *carodyn* 'lover, friend' a *corodyn* 'lavisher, benefactor, distributor' (gan ddilyn P). Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir ond gellid *C'rodyn*.

**rhonllyn** *Llyn* yw'r rhan o'r culfor neu o'r afon sy'n rhedeg yn araf, ac y bwrir rhwydi pysgota ynddi, ond yma golygir Afon Menai yn gyffredinol; deallir *rhôn* 'gwaywffon' yn ffigurol yn yr ystyr 'cynffon' o afon, culfor.

- 22 **punt yn y dydd** Ni ellir cymharu'r honiad hwn ag unrhyw gofnodion dyddiol swyddogol, ond y mae'n amlwg fod y tâl i deithio o lan i lan gyda'r uchaf a fu erioed ar gyfrif costau uchel y brydles, gw. y nodyn cefndir. Tybed a olygir wrth y gair *tâl* fod y cwch yn dod ag 'incwm' o bunt y dydd i'r cychwr?
- 24 **trwsiai** Y mae'r llsgrau. cynnar yn unfarn ar ffurf 3 un.amhff.myn. y f. *trwsio* 'paratoi'.
- llyn** Gw. *rhonllyn* ll. 20.
- 27 **ffroen** Yr ergyd yw fod pen blaen y fferi yn dal dŵr, a'i bod yn hardd ei *ffriw* 'ymddangosiad'.
- 28 **chweffrwd** Ar lif chwyrn y culfor, a'r cerhyntoedd croes peryglus, gw. Charles G. Robinson, *Coast and sailing directions relative to the North and North-east coast of Anglesey and part of the coasts of Caernarvon and Denbighshires including the Menai Straits and Conwy River to accompany the admiralty chart of the same portion* (Liverpool, 1837); Gwyn Pari Huws, *Y Fenai* (Llandysul, 2003), 52–5.
- cyffrydia** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *cyffrydio* 'chwifio, ysgwyd; crynu; cynhyrfu, cyffroi', gw. GPC 733.
- 29 **ffriw** Cyfeiriad at flaen uchel y fferi: gall ddal ei thrwyn yn hyderus i dalcen y llif. Tybed ai cyfeiriad sydd yma at y bwm neu'r polyn sy'n ymestyn allan o ben blaen llong hwyliau?
- 33 **baeol** Llsgr. *C biol*; y mae'r gair ar ymyl eithaf y ddalen yn llsgr. F ac y mae'r ddalen honno wedi breuo gormod i fedru ei darllen; ni cheir y ll. yn llsgrau. LYZ. Deallir yr ystyr 'ystên' foliog i ddal maidd 'whey'.



Diwygiwyd *a maidd yn y maidd*.

- 34 **ysgâl** Llsgrau. C *ycal ardd*, F *ysg[...]*rydd; ni chynhwyswyd y cwpled yn llsgrau. LYZ. Yma diwygiwyd yn *ysgâl* 'llestr, cwpan, bowlen, dysgl', &c., gw. GPC 3831 d.g. *ysgâl<sup>l</sup>*, a cf. GIG 147 (XXXIII.30) *Ysgâl anwadal ei naid* ('Cywydd y llong'). Yn wahanol i long Iolo Goch, y mae symudiad ysgraff Porthaethwy yn *ysgyleraidd* 'lithrig, llyfn'.
- ardd** Sef yr a. 'uchel', yma 'tal'.
- ysgyleraidd** Dilynir GPC 3244 '*sgler*, gw. *sglefr*' a chael yma a. sy'n disgrifio lithriad llyfn y fferi drwy'r dŵr, er mai'n ddiweddar (1833) y cafwyd cofnod o'r gair *sglerio*, *ysglerio* gyntaf, ac mai siroedd Môn a Chaernarfon sydd dan sylw yma, yn hytrach na dwyrain sir Gaerfyrddin lle y cofnodwyd y ffurf.
- 35 **dwy allawr** Yr awgrym yw fod pen blaen a phen ôl y llong yn uwch na'i chanol.
- 36 **mynachlog** Y mae yma adlais o'r ddelwedd oesol o'r Eglwys fel cwch. Cymharodd y diwinyddion cynnar yr Eglwys i arch Noa, symbol o waredigaeth a diogelwch; cymharodd eraill yr Eglwys i '*the barque of Peter*' (ar yr Apostol Pedr, gw. F.J. Foakes-Jackson, *Peter: Prince of Apostles. A Study in the History and Tradition of Christianity* (London, 1927)) gan ddwyn i gof ddyddiau cynnar Pedr yn bysgotwr wrth ei alwedigaeth; yn ddiweddarach galwyd ef a'i frawd Andreas yn 'bysgotwyr dynion', gw. Math iv.19. Nid yw'n syndod, felly, i'r llong gael ei delweddu fel mynachlog.
- 37 **côr** Cedwir *côr* 'cangell' yma i gyd-fynd â'r ddelwedd o'r fynachlog a'i dwy allor, ac er mwyn cadw'r cymeriad llythrennol *A'i chôr / A'i chrib*, er bod hynny'n peri'r bai 'trwm ac ysgafn' *chôr / gorfainc*. Golygir yma ganol y llong.
- 38 **crib** Yn hytrach na *crib* 'brig, crest' deallir yma (yn drosiadol) '*comb*' (naill ai i drefnu gwallt, neu gard i drin gwllân) a bod y fferi yn cribinio ei ffordd drwy wymon a chrancod. Ond dylai *crib* olygu 'rhan uchaf' y llong o ystyried cysondeb delweddol.
- 39 **prior** Tybed nad oes yma gyfeiriad at brior penodol, er nad enwir mohono? Cf. TA 401 (CII.88) *Dabre a'r march, da Brior Môn* ('Nid eir o Fon ond ar farch: I Syr Sion Ingram Prior Mon i ofyn march dros Fadog o'r Wyddgrug', a dyma'r unig gerdd a ganwyd sydd â chysylltiad â'r priordy). Yr oedd Siôn Ingram yn brior Penmon, priordy Awstinaidd heb fod ymhell o Borthaethwy. Olynodd William Ardescote yn 1468 a diau fod gan Ingram gysylltiadau teuluol â bwrdeistref Biwmares. Awgrymir yn y cywydd gofyn march i Siôn Ingram ychwanegu at adeiladau'r priordy; ailadeiladwyd cangell yr eglwys yn y 15g. a chodwyd cegin, ystafell dwymo 17.5 troedfedd wrth 16 troedfedd, a thŷ

ar gyfer y prior yn gynnar yn yr 16g., gw. RCAHM (Anglesey) 120, 122–3; MAng 290.

**o ffrîw'r rhyd** Clodforir pryd a gwedd y prior (cyfeiriad at gapten y llong, y mae'n debyg) a'i gyffelybu i donnau'r *rhyd* 'culfor', cf. GLGC 413 (188.41) *Gwenllian oedd lliwr waneg* ('Marwnad Gwenllian ferch Owain Glyndŵr').

- 40 **cwfaint** Yma gellid 'mynachlog', neu o bosibl 'cynulliad o grefyddwyr' yn gyfeiriad at y gynulleidfa o bobl a oedd ar y fferi; os felly y mae'n debyg mai cyfeiriad sydd yma at griw'r llong.
- 44 **breichiau** Sef hwyliau'r llong yn chwarae yn yr awel. Sylwer bod *h* heb ei hateb o dan yr acen, a cf. ll. 46.
- 46 Sylwer bod *h* heb ei hateb o dan yr acen, a cf. ll. 44.
- 47 **Eryri** Llsgrau. *C wr hyd yr yri, F wr peda rwri, LY wr bed yrwri.* Deallir yma gyfeiriad at le amlwg, a fyddai'n dwyn arwyddocâd mawr i gynulleidfa'r cywydd. O'r herwydd y mae'n demtasiwn gweld yma gyfeiriad at Eryri, gw. Ifor Williams, 'or, eryr, dygyfor, Eryri', B iv (1927–9), 137–41; *id.*, 'eryri', B v (1929–31), 137. Erys dau anhawster gyda'r ll. fel y mae, sef yn gyntaf dor cynghanedd, ac yn ail mai deheuol, i bob golwg, yw *bed*, ond fe'i ceir yn WS.
- 49 **offeiriaid Môn** Sef clerigwyr o bob perswâd, yn fyneich a gwŷr eglwysig. Yr oedd ym Môn, e.e., briordy Awstinaidd ym Mhenmon a mynachlog Ffransisgaidd yn Llan-faes, o fewn tafliad carreg i'r fferi; yr oedd mynachdy cyfoethog yng Nghaergybi, ac un arall llai o faint yn Llangaffo, gw. RCAHM (Anglesey) xci–xcii.
- 52 **toryn** Bachigol *tor* 'bol'.
- treteriaid** Gellid gweld yma ffurf l. *traenter, trenter* 'tafarnwr, gwerthwr gwin, &c.; bragwr; bwtler, isfwtler, gweinydd (gwin, &c.)', gw. GPC 3543; ond sylwer mai 1604–7 yw dyddiad y cofnod cynharaf a geir yno, efallai ganrif yn ddiweddarach na'r enghraifft hon. Ystyrir mai gair arall am 'offeiriaid' yw *treteriaid* gan eu bod yn gweini gwin yr offeren. Neu os 'gwerthwr' yw'r ystyr, ac os math o offeiriad oedd *trenter*, pa fath o offeiriad a fyddai'n gwerthu neu fasnachu wrth ei swydd? Gellid mentro cynnig mai'r ateb yw'r pardynwr, S. *pardoner*, a fyddai'n gwerthu maddeuebau. Tybed ai term Cymraeg cynnar am bardynwr yw *trenter*? Cf. agwedd Chaucer at y pardynwr sy'n elwa'n bersonol dan glogyn gwasanaethu'r edifeiriol, gw. *The Pardoner's Prologue and Tale: from The Canterbury Tales by Geoffrey Chaucer*, ed. A.C. Spearing (revised ed., Cambridge, 1994).
- 54 Cynghanedd groes anghytwys ddisgynedig gyda *-d* heb ei hateb (gellid colli'r *-r* drwy oddefiad), cf. ll. 34.
- 57 **porthwyr** Ffurf l. *porthwr* 'badwr ar fferi', neu o bosibl *porth wŷr*

gyda'r ergyd fod Porthaethwy yn borthladd a rydd groeso i deithwyr ac o bosibl i farsiandïaeth.

**Porth Aur** Y mae'n debygol iawn mai Porth-yr-aur, Caernarfon, sydd dan sylw yma, er mai 1650 yw dyddiad y cofnod cynharaf o'r enw hwnnw, yn y ffurf *Porthair*, gw. ArchifMR. Gan fod y cyfeiriad cynharaf at Borth-yr-aur, Caernarfon, ganrif a hanner yn ddiweddarach na'r cywydd hwn, gellid mai cyfeiriad at y *Porta Aurea* yn Jerwsalem sydd yma, cf. *kist voesen gwialen gall / ar porth aur or parth arall* (Llywelyn ap Hywel ab Ieuan Gronw (1540)) a ddyfynnir yn G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the pilgrim movement', Cy xxiii (1912), 187. Am y *Porta Sancta* yn Rhufain, y drysid rhyngddo a'r *Porta Aurea* ar dro, gw. H. Thurston, 'The Porta Sancta' yn *The Holy Year of Jubilee* (London, 1900), 28–54; Appendix C, 'The Porta Sancta and the Golden Gate of Jerusalem', 405–11.

58 **porth Iesu** Cyfeiriad at borth y nefoedd ar gyfrif gosodiad yr Iesu, 'Ewch i mewn trwy'r porth cyfyng' sy'n arwain i fywyd tragwyddol, gw. Math vii.13. Ond cofier bod *porth* hefyd yn gallu golygu 'cymorth'.

**Porthwysion** 'Trigolion Porthaethwy', ond cf. ll. 2n.

## 10

Cywydd o waith Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn ateb molawd Dafydd Trefor i fferi Porthaethwy (cerdd 9) yw'r cywydd hwn. Fe'i lluniwyd ar ffurf ymddiddan rhwng y don a'r fferi. Agorir drwy ofyn nawdd y môr i fferi Porthaethwy: *Y don gyfanllon, gefnllwyd / ... / Dy nawdd, fun* (llau. 1, 4).

Ymddengys fod y fferi honno newydd ddychwelyd o daith pardwn i Ynys Enlli (llau. 11–12), man sanctaidd lle y gellid sicrhau maddeuebau gan yr abad. Y mae'r cyfeiriad at Ynys Enlli a Rhufain yn un diddorol o ystyried dyddiad tybiedig llunio'r cywydd. Lluniwyd cywydd cyntaf yr ymryson, sef 'I fferi Porthaethwy', rywbrwyd rhwng 1503 a 1507 (gw. cerdd 9), a'r cywydd ateb hwn yn fuan wedyn. Ai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod John Conway, abad Ynys Enlli ar y pryd, ynghyd â dau offeiriad arall o esgobaeth Bangor, sef Robert Bethnun a Robert Lewis, wedi cyrraedd Rhufain ar 28 Mawrth 1507 wedi paratodau manwl dros gyfnod hir, ac yna daith araf y byddai sôn amdani drwy'r esgobaeth? Nid hwy oedd yr unig rai i fentro ar y fath bererindod. Ar 26 a 27 Mawrth, cwta ddeuddydd cyn dyfodiad gosgordd yr esgob, cyrhaeddodd ugain o bererinion eraill o'r un esgobaeth y ddinas sanctaidd.<sup>1</sup> Byddai cryn gynnwrf drwy Wynedd ar gyfrif hynny, a

<sup>1</sup> 'The names and details were transcribed by W.C. Trevelyan from the Pilgrim Book of the Ancient English Hospice at Rome and were published by John Bowyer Nichols in *Collectanea Topographica et Genealogica*, v (London, 1838)', gw. Mary Chitty, *The Monks on Ynys Enlli. Part*

siawns na fyddai Ynys Enlli a Rhufain ar uchaf meddwl y bardd yntau.

Ceir cyfres o gwestiynau, rhyw sesiwn holi ac ateb, rhwng y bardd a'r fferi sy'n estyniad ar y *genre* sgwrsio ag anifeiliaid ac adar.<sup>2</sup> Y mae sgwrs rhwng bardd a fferi, neu gwch o unrhyw fath, yn brin yng nghyd-destun llenyddiaeth y byd gorllewinol, a hyd yn oed o fewn ffiniau ei lôn gwerin. Un eithriad yw'r llong o'r enw *Argo* o'r hen fyd Groegaidd. Dengys *Argonautica* Apollonius Rhodios, sef hanes Iason a'r Argonawtiaid yn mynd i ynys Colcos i chwilio am y cnu aur,<sup>3</sup> fod *Argo* yn abl i siarad. Yr oedd Athena ei hun, merch Zews, wedi torri trawst o goeden dderwen ei thad yn Dodona, ac wedi rhoi i'r trawst ddawn broffwydo fe'i gosododd ym mhen blaen *Argo* er hwyluster i'r llong wrth gyfarch ei chynulleidfa. Tybed a oedd Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn hyddysg yn hen lenyddiaeth Groeg, a'i fod wedi modelu sgwrs y fferi â'r bardd ar urddas y gorffennol? Gwyddai'r beirdd am yr arwyr clasurol yr adroddid eu hanesion yn 'Ystoria Dared',<sup>4</sup> a chyfeirir droeon at Iason a'r cnu aur yng ngwaith y Cywyddwyr.<sup>5</sup> Ond sylwer nad oes sôn am broffwydoliaethau *Argo* yn 'Ystoria Dared'.

Y mae cychod sy'n siarad â'i gilydd yn gonfensiwn hynotach, ond ceir enghraifft brin yn un o sagâu Gwlad yr Iâ, sef *Saga Flóamanna*, gwaith sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif a'r ddeg ac sy'n ymhyfrydu yn yr anghyffredin. Ynddi adroddir hanes bywyd ac anturiaethau Þorgils Örrabeinstjúpr Þórðarson, un o wladychwyr cynnar Flói in Ölfus ar ochr orllewinol arfordir deheuol Gwlad yr Iâ. Ar ymweliad â'r Ynys Las i edrych hynt Eiríkr Goch y mae Þorgils yn troi tu min arno ac yn suddo cwch Eiríkr. Cofnodir ymateb bechgyn y gegin, a glywodd y cychod yn siarad â'i gilydd (cyfieithiad John Lindow):

The ship which is called Stakanhöfði said this:  
 'Do you know, Vinagautr, that Þorgils is to own us?'  
 'I didn't know that,' said the other ship, 'but it seems good to me.'  
 'And I'd call that big news,' said the kitchen boy.<sup>6</sup>

two: 1252 A.D. to 1537 A.D. ([Langwnadl], 2000), 57, 60.

<sup>2</sup> Ar y *genre* hwnnw, gw., e.e., hanes 'Yr Anifeiliaid Hynaf' yn CO<sup>3</sup> 1-liv, 31–3 (llau. 839–919); J.E. Lewis, *The English Fable: Aesop and Literary Culture 1651–1740* (Cambridge, 1996); am chwedlau Aesop dywedir: 'Brute animals, and vegetables too, may be allowed to speak and think: this indulgence is granted, from the necessity of the case; for, without it, their adventures could neither improve nor entertain us; but, with this exception, nature should not be violated; nor the properties of one animal or vegetable ascribed to a different one', gw. James Beattie, 'On fable and romance' yn *Dissertations Moral and Critical* (London, 1783), 507.

<sup>3</sup> OCD<sup>3</sup> 154, 793; TYP<sup>3</sup> 129–30, 403–4; R.L. Hunter, *The Argonautica of Apollonius: Literary Studies* (Cambridge, 1993); *id.*, *Jason and the Golden Fleece (the Argonautica)* (Oxford, 1993).

<sup>4</sup> Gw. RB 1–39.

<sup>5</sup> Gw., e.e., GLGC 352 (158.39), 457 (210.10, 11); GGI<sup>2</sup> 187 (LXX.30); GGH 32 (7.9), 365 (112.31); GGM 66 (3.41); GST i, 371 (94.63).

<sup>6</sup> John Lindow, 'Talking Ships', <[http://web.uvic.ca/~becktrus/assets/text/lindow\\_01.php](http://web.uvic.ca/~becktrus/assets/text/lindow_01.php)>, a dylid nodi bod llongau sy'n siarad yn nodwedd sy'n ailymddangos yn llenyddiaeth Gwlad yr Iâ yn y 19g. pan ddechreuwyd cofnodi'n systematig lôn gwerin y wlad. Cofnododd Jón Árnason stori am longau'n siarad yn *Íslenzkar þjóðsögur og Æfintýri* (2 vols, Leipzig, 1862–4), gwaith yr helaethwyd

Cariodd fferi Porthaethwy *deirbath* (ll. 18), sef gwŷr o dri phroffesiwn. Yn y cywydd ateb hwn y mae Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn holi hynt gwŷr o'r tri phroffesiwn hynny a fu'n teithio ar y fferi, sef mynaich (ll. 21), pardynwyr (ll. 25), ac offeiriaid (ll. 33). Dywed y fferi iddi orfod cario'r brodyr yn ddi-dâl (llau. 23–4), ac yr oedd y pardynwyr ysgeler yn drafferthus oherwydd eu pynnau mawrion a'u meirch. Cyhuddir y fferi o elwa yn sylweddol ar gorn cario'r offeiriad (llau. 39–40), ond y mae'r fferi yn mynnu nad o'i gwirfodd y derbyniodd y taliadau croesi. Yn erbyn ei hewyllys y cafodd yr offeiriaid ddod ar y fferi yn y lle cyntaf (llau. 43–6). Fe'u trochwyd yn y dwfn yn ystod y siwrnai, ond cawsant achubiaeth amserol er mai gwir ddymuniad y fferi fyddai angau yn y llif twyllodrus i'r offeiriaid glandeg. Er iddi ddwyn gwŷr mor ysgeler i'r fath helbul ni wobrwyyd y fferi, ac ni chafodd unrhyw gydnabyddiaeth am ei gwasanaeth teilwng; ni dderbyniodd na gwisg na gwaddol am ei thrafferth (llau. 53–6). Cymherir byd gwyn yr offeiriaid â gwedd druenus y fferi, a chael ei *gown pyg* (ll. 62) yn brin yn y glorian. Edliwir bod i bob un o'r offeiriaid yn ddiwahân gariadwraig ddichellgar, anllad ei nwydau, a honno'n gwisgo harddwisgoedd drudfawr (llau. 56–60) ond bod y fferi yn anhyfryd ei hymddangosiad yn ei gŵn o dderw tywyll. Sylwer bod hanes y drochfa yn adleisio'r stori fwrlesg am drafferthion Dicws yn nyfroedd Afon Conwy.<sup>7</sup>

Cloir y cywydd drwy ofyn cyngor y don yn wyneb y fath annhegwch. Anogir y fferi i fynd i ddinas Bangor i siarad yn blaen â'r esgob ac amlygu iddo ddyfnder oferedd ac anniweirdeb yr offeiriaid. Ond, ysywaeth, ni fyddai hynny o les parhaol. Drannoeth dychwelent adref i bentyrru cyfoeth a byw eu bywyd bras; ni fynnent barhau mewn cyflwr o gosb na dirwy. Gwelir mai'r unig ateb parhaol i'r broblem fyddai ysbaddu'r offeiriaid gwargaled.

- 1 **y don** Lle y ceir y fannod, fel arfer 'y môr' a olygir, a lle y ceid yn draddodiadol ofyn am nawdd Duw ar ddechrau cerdd gwelir yma fod y fferi yn deisyfu gwarchodaeth un o bwerau natur. Disgrifir y don fel un *gyfanllon* 'gwbl lawen', *gefnullwyd* 'a'i chefn yn welwlas / fendigaidd'.
- 3 **rhòl** Yn ffigurol i ddisgrifio symudiad cafnog y don, fel petai ar ffurf sgrôl.
- 4 Twyll gynghanedd *dd*.
- 6 **sawd** Ar '*sawt*: Assaulte', gw. EEW 202–3. Awgrymir yma nad yw'r fferi yn ddewr mewn brwydr, a'i bod yn gweddio am help (ll. 5). Deallir

arno gan Árni Böðvarsson a Bjarni Vilhjálmsson a'i gyhoeddi yn Reykjavík (1954–61); am y stori, gw. Jón Árnason, *Íslenzkar þjóðsögur og Æfintýri* (6 vols, Reykjavík, 1954–61), ii, 12, a cheir cyfieithiad o'r stori gan John Lindow, gw. *art.cit.* 5.

<sup>7</sup> Gw. 'Marwnad Wiliam ap Gruffudd ap Dicws pan oedd ef fyw', GSDT cerdd 6.

bod yr orffwysfa ar *rwyd*.

- 7 **ysgraff** Fel rheol eb. ond yn eithriadol eg. Yma y mae'r fferi yn ei chyflwyno ei hun: 'Fi yw fferi foliog ... Porthaethwy fendigaid.'
- derwbren** Disgwyliid yma dreigladd meddal, ond cedwir y gysefin er mwyn y gynghanedd.
- 8 **parth â'th iaith** Disgrifir hwyliad fferi Porthaethwy 'tuag at dy bobl' ym Môn, a deellir yr awgrym yn llythrennol gan gael yma dystiolaeth fod Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn frodor o'r ynys.
- 10 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy fyr. Cyfatebiaeth -m- / -n-.
- 12 **Enlli** *Rhwyfo* 'hwylio' i Rufain wedi dychwelyd i Fôn ar ôl mordaith i fan *balch* 'gwyich, hardd' ar Ynys Enlli y mae'r fferi. [*T*]aith *pardwn* (ll. 11) oedd honno i Ynys Enlli, gan ei bod yn fangre nodedig i bererinion weddiö am faddeuant a gollyngdod swyddogol oddi wrth bechod. Byddai cyfeiriad at Ynys Enlli yn un a fyddai'n taro deuddeg i Ddafydd Trefor gan fod Deiniol, esgob cyntaf Bangor, wedi ei gladdu ar Ynys Enlli c. 584 yn ôl traddodiad; gw. cywydd mawl Dafydd Trefor 'I Ddeiniol Bangor a'r Esgob Thomas Skeffington', GSDT cerdd 14. Ymhellach ar yr arfer o bererindota i Ynys Enlli, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 216–17; G. Hartwell Jones, 'Celtic Britain and the pilgrim movement', Cy xxiii (1912), 354–68; Gwilym T. Jones, *Y Ffordd i Enlli* (Bangor, 1986); A.M. Allchin, *Enlli: Cyrchfa Pererinion* ([Cricieth], 1991); Enid Roberts, *A'u Bryd ar Ynys Enlli* (Talybont, 1993); *Enlli*, gol. R. Gerallt Jones a Christopher J. Arnold (Caerdydd, 1996); Mary Chitty, *The Monks on Ynys Enlli. Part two: 1252 A.D. to 1537 A.D.* ([Llangwnadl], 2000). Ni ddylid cymryd tystiolaeth y fferi yn llythrennol a gwelir yma enghraifft o ormodiaith bwriadol, cf. ll. 19.
- 13 **rhydd** 'A wyt ti'n enaid rhydd ... ?' Daw'r ateb yn llau. 15–16.
- 15 **Fo'm soeliwyd ym** Yr oedd y fferi wedi cael *pardwn* oddi wrth bechod, h.y. wedi ei *soelio* (o'r S. *absolve*).
- selab** Gellid yma dalfyriad o'r Llad. *celebratio*. Neu a geir yma fenthyciad o'r S. *syllable*? Os felly cafodd y don ollyngdod heb yngan y fformwla drosti, a dyma pam yr aeth y mater at y Pab.
- 18 **teirbath** Cariai'r fferi dri math o deithiwr, sef y brodyr (ll. 21), y pardynwyr (ll. 25), a'r offeiriaid (ll. 33). Sylwer mai eb. yw *bath* yn yr enghraifft hon.
- 19 **Rhufain** Mangre arall y cyrchai pererinion iddi i erchi maddeuant pechodau oedd Rhufain, lle yr oedd beddau'r merthyron Pedr a Paul. Ymhellach, gw. G. Hartwell Jones, *art.cit.*, 168–89, 220–8. 'Rhufain Prydain' oedd Ynys Enlli, yn ôl chwedl Elgar yn Llyfr Llandaf (gw. LL 1 (llau. 18–19)), ar gyfrif ei sancteiddrwydd a'i phurdeb, ac oherwydd yr ugain mil o saint a gladdwyd yno. Yr oedd pererindota i Ynys Enlli

deirgwaith yn gyfwerth ag un bererindod i Rufain.

- 20 **rhain** Sef y gwŷr a fu '[y]'n d'erbyn' (ll. 18).
- 21–2 **brodyr ... / O grefydd** Sef y mynaich.
- 22 **ymgrafu** Efallai fod gwisg y brodyr o grefydd yn fwy garw na'r rhelyw.
- 23 **cardodau** Sef 'elusennau', disgrifiad a *weddai i'r gwŷr* gan y byddai ffrir yn aelod o un o'r urddau cardodol a mynachaid yn Eglwys Rufain. 'Oddeutu'r flwyddyn 1200 mabwysiadodd y gymuned [ar Ynys Enlli] Reol Sant Awstin ... Ar ôl ymuno ag urdd Sant Awstin y sefydlwyd Abaty'r Santes Fair ar Ynys Enlli', gw. Enid Roberts, *op.cit.* 30, ac y mae'n bosibl mai adrodd hanes cwmni o fynaich o briordy Awstinaidd Penmon a wneir yma. Tua blwyddyn marwolaeth Dafydd Trefor dadwaddolwyd y fynachlog, c. 1537, ac aeth Ynys Enlli yn eiddo i'r Goron, gw. Enid Roberts, *op.cit.* 13. Begera a wnâi'r brodyr, ac felly ni allai'r fferi godi tâl arnynt. Sylwer ar y gynghanedd sain wallus ar gyfrif yr odl *-au / -ai*.
- 25 Gwelir yn y ll. gynghanedd lusk wydro sy'n cynnwys yr odl *-iaid / -ieid-*; cf. ll. 33.
- 27–32 Tan fendith pobl Môn arferai'r fferi gario pardynwr, ynghyd â'i farch a'i lwyth, i rannu diod i dlodion yn unol â chyfarwyddyd Saith Weithred y Drugaredd, gw. ll. 30.
- 30 **uthur** Y mae ystyr dda 'rhyfedd(ol), syfrdanol, rhagorol' yn ogystal ag ystyr ddrwg 'arswydus, brawychus', &c., i'r gair hwn, gw. GPC 3721, ac y mae'r bardd yn chwarae ar hynny.  
[y] **Saith Weithred** Ar Saith Weithred y Drugaredd, gw. GSDT 15.45n. Dyletswydd ar Gristion fyddai gweithredu'n unol â chyfarwyddyd y rhestr weithredoedd hon, ac ennill nefoedd o wneud hynny.
- 32 **dir** Oni bai am lsgr. H y mae'r copïau cynnar yn unfarn ar y treigladd er mwyn ateb gofynion y gynghanedd.
- 33 Cynghanedd lusk wydro, cf. ll. 25.
- 37 **mynud, nid mawl** Gwnêl hyn o gwrteisi, er nad yw'n haeddu canmoliaeth.
- 41 **cymryd** Y mae'r fferi yn gwadu iddi dderbyn tâl o'i bodd.
- 45 **ceg** Ceg fferi yw ei phen blaen, S. *pro*w.
- 46 **carreg** Deallir yma gyfeiriad at y cylch o greigiau peryglus sy'n amgylchynu Ynys Enlli.
- 47 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir oni chywesgir *fi o'r*. Camosodiad f.r. = r.f.
- 48 **blaidd** Yn ffigurol yn aml am wron, 'dro arall yn ddiystyrllyd am reibiwr creulon', gw. GPC 283.

- dalief** Ffurf wneud ar 3 un.amhff.myn. y f. *dal* ‘cydio’n dynn yn; maglu, rhwydo’ a fabwysiadwyd i ateb gofynion y gynghanedd. Camosodiad f.l. = l.f. Ystyr y cwpled yw fod ei gwŷr / ei theithwyr ei hun (sef yr offeiriaid) yn cadw’r fferi yn rhwym wrth eu bwriad.
- 49 Y mae’r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 52 Y mae’r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 53 **gwrdaeth** Deellir yma ffurf gywasgedig ar *gwrdaaeth* ‘gwaedoliaeth uchel ... ardderchogrwydd’, gw. GPC 1700, er mwyn osgoi’r bai ‘carnymorddiwes’, sef bod dwy linell y cwpled yn gorffen yn ddiacen, gw. J. Morris-Jones: CD 304–5.
- 58 **muriones** Amrywiad ar *meiriones* ‘gwraig ordderch, cariadwraig’, gw. GPC 2413–4.
- 59 **pinio** Dyma enghraifft gynnar o’r f. *pinio* ‘dal, sicrhau, neu gysylltu â phin neu binnau’, dros ganrif ynghynt na 1656, dyddiad yr enghraifft gynharaf a restrwyd yn GPC 2807.
- 60 **Ar rudd sad y rhydd sidan** Ymddengys fod y furiones yn hoffi moethau.
- 65 Y mae’r ll. hon sillaf yn rhy fyr.
- 67 **esgob** Canwyd y cywydd ‘I fferi Porthaethwy’ rywbryd rhwng 1503 a 1507. Esgob Bangor rhwng 1500 a 15 Awst 1504 oedd Thomas Pigot; olynwyd ef gan John Penny, a fu yn y swydd o 30 Awst 1505 hyd 10 Hydref 1508, gw. B. Willis: Bangor 95–6. Os canwyd cywydd cyntaf yr ymryson yn 1507, fodd bynnag, a’r ateb hwn rywbryd ar ôl mis Mawrth 1508, yr esgob oedd Thomas Skeffington (gw. *ib.* 96–8; John Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541 xi: The Welsh Dioceses (Bangor, Llandaff, St Asaph, St Davids)*, compiled by B. Jones (London, 1965), 5), gŵr y canodd Dafydd Trefor i’w ganmol pan ysgwyddodd y gost o adnewyddu rhannau helaeth o’r Eglwys Gadeiriol ym Mangor, ynghyd â’i hail-doi, gosod clychau newydd yn y tŵr, a chodi llys esgob (gw. GSDT cerdd 14). Sylwer ar yr odl *-ob / -og*.
- 68 **gwragedd** Yn 1504 cadwai 43 o glerigwyr esgobaeth Bangor gariad-wragedd, gw. A.I. Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923), xiii, a rhestrir ymhlith y clerigwyr hynny neb llai na Siôn Ingram, prior Penmon (a elwir gan Pryce yn Richard Ingram), ac enwau dau o gaplaniaid y priordy, gw. *ib.* xviii. Parhâi’r clerigwyr i anwybyddu rheolau’r Eglwys ynghylch diweirdeb yr offeiriadaeth, gw. WCCR<sup>2</sup> 399; *Episcopal Acts and cognate documents relating to Welsh dioceses 1066–1272*, ii, ed. J.C. Davies (Cardiff, 1946), 467.
- 69 **gyrru ... dan gerrig** Idiom yn dwyn yr ystyr ‘cuddio o ŵydd’, gyda’r ergyd fod yr offeiriaid yn cuddio eu gordderchwagedd ac felly eu bod yn dwyllwyr yn ogystal â bod yn odinebwyr.



- 70 **chwarae mig** Sef 'chwarae ymguddio', S. 'hide-and-seek'.
- 71 **terrir** Ffurf amhrs.pres.myn. y ferf *tariaf*: *tario* 'ymdroi, oedi', &c., gw. GPC 3450.  
**yna** Sef yn llys yr esgob.
- 72 **tyrru da** Teflir amheuaeth yn y ll. hon ar ysbrydolrwydd y gymuned offeiriadol ym Môn gan edliw iddynt eu hariangarwch; yn ôl ffynonellau eraill digon tebyg oedd cyflwr crefyddol mynachlog Penmon er nad edliwir hynny iddynt yn y cywydd hwn: 'on the evidence available it must be suspected that Penmon in the years before its dissolution was not a centre of spiritual endeavour. One has the impression that the prior and canons lived off their rents and enjoyed a moderately comfortable bachelor existence,' gw. MAng 291. Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir oni chywesgir *Adre* y.
- 73 **Myn y tân!** Llw lle y tyngir i dân uffern.

## 11

O ganlyniad i gyhuddiadau Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn erbyn yr offeiriadaeth yn y cywydd blaenorol, cythruddwyd Dafydd Trefor ac yma y mae'n achub cam ei broffesiwn ac yn gwrthymosod ar wenwyn Gruffudd. Cadwyd tri chopi ar ddeg o'r cywydd hwn (neu ran ohono), cywydd sy'n cadw cefn y glerigiaeth. Y mae pedair rhan i'r cywydd.

Yn yr adran gyntaf (llau. 1–24) myn Dafydd Trefor wybod pa fath ganu dilornus yw eiddo Gruffudd. Ceir yma eto enghraifft o ormodiaith bwriadol ac elfen o'r bwrlesg yn y don o gwestiynau haniaethol, ymosodol (llau. 1–12); cyhuddir Gruffudd ap Tudur ap Hywel o rwystro Dafydd Trefor rhag cyflawni ei orchwylion beunyddiol (llau. 13–18). Edliwiodd Gruffudd (cerdd 10) fod Dafydd Trefor wedi cael bywoliaeth fras, wedi ffynnu ar fwydydd a diodydd maethlon, yn ogystal â chael gofal a sylw gwraig (llau. 19–24).

Yn ail adran y cywydd (llau. 25–40) try Dafydd Trefor ei sylw at fferi Porthaethwy a'i chyhuddo o greu dwndwr gwaeth hyd yn oed nag eiddo Gruffudd ap Tudur ap Hywel. Nodir ei bod wedi dymuno drwg i'r offeiriad, yn wir wedi dymuno eu marwolaeth, a'i bod wedi brolio iddi orfod teithio i Enlli a hyd yn oed i Rufain i erchi maddeuant i'r clerigwyr, gan faint eu bai.

Y mae trydedd adran y cywydd (llau. 41–62) yn trafod goblygiadau ysgrythurol yr egwyddor o gyhuddo, yn enwedig cyhuddo'r brodyr, sef rhai o'r un gyffes grefyddol â'i gilydd.<sup>1</sup> Y mae llinellau 41–4 yn dra diddorol.

<sup>1</sup> Gelwir Satan yn gyhuddwr y brodyr o flaen Duw, gw. Dat 12.10, *Hon yw awr buddugoliaeth a gallu a brenhiniaeth ein Duw ni, ac awdurdod ei Grist ef, oherwydd bwriwyd i lawr gyhuddwr ein brodyr, yr hwn sy'n eu cyhuddo gerbron ein Duw ddydd a nos.*

Codwyd y ddau gwpled cywydd hyn i destun sy'n esbonio termau rethreg: y mae'r pedair llinell hyn yn enghreifftio 'anhagreb', sef y troad ymadrodd a elwir 'gair teg', ac a ddiffinnir yn *Eglvryn Phraethineb* Henri Perri fel hyn:

Am Anhagreb. Rhith arall ar watworgerdd y sydd, yn llareiddio ac fegys yn tynny ymaith y cas, a'r dig, o'r ymadrodd, a geiriau boddhaus; ag a ellir ei galw teg dros hagr; neu foes dros anfoes; achos ei bod yn adroddi geiriau tyner, esmwyth; am eiriau hagr, anhyner, anhyfwyn.<sup>2</sup>

Yn nau gwpled Dafydd Trefor pwysleisir gwirionedd y Cwmp a bod pob unigolyn yn amherffaith. Serch hynny, ceir o fewn y ddynoliaeth rai unigolion y mae'n gymwys eu dychanu am eu drwgweithredoedd ac eraill y mae'n anghymwys eu dychanu. Dilynid cyfarwyddyd Gramadegau'r Penceirddiaid ar y materion hyn:

Or byd kerd a deu synnwyr neu dri ystyr arnei, vn da ac un drwc, os kerd brydyat vyd, barner herwyd yr ystyr da; os kerd dychan vyd, barner herwyd yr ystyr drwc, kanyys ny phryta neb y'r drwc, ac ny dychana neb y'r da.<sup>3</sup>

Deellir o'r dyfyniad uchod y dylid dehongli ystyr cerdd yn ôl ei dull pan fo'r ystyr honno'n amwys: os cerdd fawl (*cerdd brydiad*), dylid deall bod yr ystyr yn dda; os cerdd ddychan, dylid deall bod yr ystyr yn ddrwg.

Yna nodir ymdriniaeth ysgrythurol bwysig, sef yr adran ar farnu eraill a gofnodir yn yr Efengylau.<sup>4</sup> Yn dilyn hynny ceryddir y bardd am edliw i ferched eu gwisgoedd a'u rhwysg. Enwir dau o feirdd serch mawr yr hen fyd, sef Ofydd a Dafydd Broffwyd, gan nodi na fu i'r un o'r ddau erioed oganu na difrio merch.

Cloir y cywydd (llau. 63–70) drwy annog Gruffudd ap Tudur ap Hywel i roi'r gorau i enllibio'r offeiriadaeth gyfan os cenfigen tuag at Ddafydd Trefor yn benodol yw gwreiddyn y gynnen. Can croeso i Ruffudd ganu fel y myn i Ddafydd Trefor, ond dylai drin aelodau eraill o'r offeiriadaeth â'r parch sy'n ddyledus i *goed arian* (ll. 66). Byddai'n rheitiach i Ruffudd ddilorni'r mynaich (llau. 67–8) yn hytrach na'r offeiriadaeth.

1–3 **Gruffudd ... / ... / Ap Tudur** Cyferchir yma Ruffudd ap Tudur ap Hywel; arno, gw. y Rhagymadrodd tt. 5–7, 12–14 *et passim*.

6 **[y] saith glefyd** Arfer gyffredin oedd rhestru'r ffenomenâu y gellid eu hamgyffred fesul saith, gw. YMTh 58 (29–36); GGH 222 (69.75–90). Golygir *saith* yma yn rhif perffaith, ac felly y mae clefyd y bardd yn glefyd saith waeth na'r cyffredin, yn glefyd llwyr a pherffaith: 'yn y rhif saith y mae cyflawnder dirgelaidd, yr hyn ni ddichon ein dealltwri moi amgyffred', gw. y cyfieithiad o eiriau Lewis Bayly yn Rowland

<sup>2</sup> Egl Ph 25; golygwyd orgraff y testun.

<sup>3</sup> GP 15 (llau. 2–5).

<sup>4</sup> Math vii.1–6; Luc vi.37–8, 41–2.

Vaughan, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* (Llundain, 1630, adargraffiad 1930), 227.

- 7 **grwnial** Ar *grwnan*, *grwnian*, *grwnial* ‘swnian, sïo; cwynfan’, &c., gw. GPC 1538.
- 9 **merydd** Rhestrir yr enghraifft hon o dan *merydd*<sup>3</sup> ‘moresg’ yn GPC 2438 gyda’r nodyn mai ‘ansicr iawn’ yw’r dosbarthiad hwnnw. Math o wair cwrs a gwydn a dyf mewn tir gwlyb ac yn enwedig ar dwyni glan y môr yw moresg, a byddai sŵn gwynt drwy foresg yn sain cras. Fe’i defnyddid gynt i wneud matiau, ysgubau, ‘and for making horse-collars and back-bands’, gw. WVBD 377–8; ar ddiwydiant moresg Môn, gw. Miriam Griffiths, *Plethwyr Moresg Niwbwrch / The Marram Weavers of Newborough* (Llansadwrn, 1998); *Iaith Sir Fôn*, gol. Bedwyr Lewis Jones (Penrhosgarnedd, [1983]), 43; T. Gwynn Jones, ‘Peniarth glossaries’, B ii (1923–5), 231. Posibilrwydd arall yw ‘rhywun diog, difywyd, neu ynfyd’ a gellir mai cyfeiriad at drwst ynfytyd sydd yma; cf. GST i, 847 (204.93) *Mis Tachwedd tuchan merydd a’r eirfa merydd* ‘merddwr, cors’.
- 11 **drudwy** Aderyn dofadwy (gw. *meithryn ederyn drydwen a wnaeth hitheu* PKM 38 (ll. 8), 188–9) ac aderyn sy’n hynod am ei allu i ddynward. Yn y cyd-destun hwn ymddengys ei fod yn aderyn isel ei barch yn y Gymru wledig, a’i hynodrwydd yn ei drydar stwrlllyd. Sylwer ar ateb Gruffudd ap Tudur: *Nid da i’r porth nac i’r pen / Drydar na gŵydd na drudwen*, gw. 12.9–10.
- 12 **gwyddau** Aderyn sy’n hynod am ei arfer o chwythu pan gynhyrfir ef, ac yn ffigurol am wirionyn.  
**arg’weddiad** Ffurf wneud ar y be. *argyweddu* ‘ceryddu, condemnio, euogfarnu, gwrthbrofi’ (gw. GPC 202) er mwyn cynnal yr odl â braich gyntaf y cwpled. Neu ai e. haniaethol o *argyweddu* sydd yma?
- 13–18 Cyhuddir Gruffudd ap Tudur ap Hywel o gadw Dafydd Trefor rhag ffustio ŷd, rhag coginio, a rhag canu ei gerddi.
- 14 **ffust** Y mae’n debyg mai ffust ddyrnu, sef offeryn a ddefnyddid i ddyrnu ŷd â llaw, a olygir yma yn hytrach na phastwn neu fflangell. Parheir â’r rhestr drosiadau sy’n awgrymu synau cras, annymunol. Yma y mae Dafydd Trefor yn sôn amdano ef ei hun, nad yw’n cael llonydd o gwbl gan ei gyd-fardd.
- 15 **padell** Padell ffrio i’w rhoi ar y *lludw* ‘gweddillion tân, marwor’ (ll. 16) a byddai sŵn ei sïo yn sicr yn addas yn y cyd-destun hwn.  
**o’ m llw** ‘ar fy llw’.
- 16 **ell** Sef ‘mesur hyd Seisnig gynt o lathen a chwarter’, gw. GPC 1209.
- 17 **cod** Gellid yma fag i ddal telyn Dafydd Trefor, a fyddai’n rhoi iddo’r *cannod* ‘cant o nodau’, gw. ll. 18n.

- 18 **cannod** Un posibilrwydd yw'r ystyr 'cant o nodau', gw. ll. 17n. Posibilrwydd arall yw fod cerdd Dafydd Trefor yn destun cant o ergydion.
- 19–24 Y mae'r llau. hyn yn cyfeirio'n ôl at yr ymryson ynghylch geifr, gw. cerddi 1–2,
- 25–6 **ysgraff ... / Porthaethwy** Gw. nodyn cefndir cerdd 9.
- 27 **taerit arni** Ar *taeru ar* 'cyhuddo', cf. PKM 20 (llau. 18–20) *irwn y hwyneb hitheu Riannon a'r gwaet, a'y dwylaw, a byrwn yr eskyrn gyr y bron, a thaerwn arnei e hun diuetha y mab*; posibilrwydd arall yw *taeru ar* 'dadlau â', gw. WVBD 531; yma efallai mai'r ystyr orau yw 'bygwth'.
- 27–8 Y mae'r fferi yn bygwth achosi boddi ei chriw, ond y mae'r criw oll yn dianc.
- 28 **gwingo** Darlunnir taith aflonydd y fferi yn y culfor, a'i hymdrech i gicio a strancio wrth geisio taflu'r offeiriaid i'r Fenai a'u boddi yn y tonnau. Noder hefyd yr ystyr 'to quiver, twitch (of an animal on the point of death)', gw. WVBD 185.
- 29–30 **Ni awn unwaith yn wenyn / O'r bad i dir boda dyn** Darlun o'r criw yn prysuro i'r lan fel y bydd gwenyn yn heidio ar y tir mawr.
- 30 **boda dyn** Ymadrodd adferfol yn golygu 'pob dyn', gw. GPC 294 d.g. *bodo*<sup>1</sup>, *boda*, *body*.
- 32 **Enlli** Gw. 10.12n. Cyfatebiaeth n..g = ng..g.
- 33 **Romani** Ymerodraeth neu deyrnas Rhufain, gw. GPC 2988. Ar y defnydd o'r un ffurf, sy'n enghraifft ddiddorol o ormodiaith, cf. GEO 1.166–7: *Pen-cun llys yw Rhys rhysedd Beli—Mawr, / Amherawdr Romani* (Einion Offeiriad). Cyfatebiaeth g = ng.g.
- 36 **[y]r esgob** Gw. 10.67n. Neu ai cyfeiriad at Esgob Rhufain, sef y Pab, a geir yma?
- 41 **dychan** Sef 'ymosodiad difriol a ffraeth ar ffaelecteddau a ffolinebau, yn enw. rhai cyhoeddus, gogan, cerdd wawdlyd', &c., gw. GPC 1115. Yn ôl GP 15, y mae canu cerdd ddychan yn weithred weddus i bencerdd fod ynglŷn â hi cyhyd â'i fod yn ddychan haeddiannol. Ond nid yw'n syndod gweld yma fod Dafydd Trefor, yr offeiriad catholig a'r cymodwr, yn amau teilyngdod y gosb hon, ac yn sgil hynny yn amau gweddusrwydd y canu, ac unwaith eto yn ceisio adfer heddwch rhwng dynion a'i gilydd, cf. ei gerdd 'I gymodi â Rhisiart Bwlclai', GSDT cerdd 2. Ar y canu dychan yng Nghymru, gw. DGIA 38–66; Dylan Foster Evans, '*Goganwr am Gig Ynyd*': *The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996).
- 41–4 Gw. y nodyn cefndir.
- 42 **llid** Yn Iwerddon credid y gallai cryfder llid didrugaredd y dychanwr

ladd y sawl a ddychenid, gw. J.E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), 46, 47, 147. Yma ymddengys fod yr ymosodiad, mewn rhai achosion, yn un di-sail a bod ambell un o'r rhai a oedd dan lach y dychanwr yn lân o'r bai y'u cyhuddid ohono.

- 43 **llyfr** Y mae'n dra thebygol mai cyfeiriad at y Beibl sydd yma, ac at wirionedd tebyg i'r un a gyflwynir gan Ddafydd Frenin amdano'i hun ac a gyfrifir i holl wledydd Cred, 'Wele, mewn drygioni y'm ganwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf', Salm li.5.

**rhifai** Efallai fod blas 'pwyso a mesur, barnu' ar *rhifo* yma, gw. GPC 3070.

- 43–4 **Rhyfedd ... / O bai fyw neb heb ei fai** Ar y ddihareb *Heb ei fai heb ei eni*, gw. DiarC 138. Nodwedd gyffredin ar waith Dafydd Trefor yw egluro pwynt drwy gyfrwng dihareb, boed honno'n gynefin ar lafar gwlad neu wedi ei chodi o 'Lyfr y Diarhebbion' yn yr Hen Destament.

- 45–6 **O beiai ... / ... beir yntau** Cf. Math vii.1–2 *Peidiwch â barnu, rhag ichwi gael eich barnu; oherwydd fel y byddwch chwi'n barnu y cewch chwithau eich barnu, ac â'r mesur a rowch y rhoir i chwithau.*

- 47 **ciliau ... golwg** Sef 'cil (y) llygad'; am 'corner of the eye, to leer at or upon', gw. GPC 478.

- 49 **pen Bryden brad** Bradwr pennaf Prydain oedd Tudur, 'gwas o Fôn' a ymosododd ar Ruffudd ap Cynan yn ei gefn, cf. HGK 11 (llau. 7–8) *Ac ena e kyrchus Tuder, guas o Von, penn bratwr Ruffud, gan frydyav gleif yn ystod brwydr Bron-yr-erw (1075) pan orchfygwyd Gruffudd ap Cynan gan Drahaearn ap Caradog*, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 383; cyfeirir at y frwydr gan Gynddelw Brydydd Mawr *Ced hy cad fry Fron-yr-erw* (GCBM ii, 13.28) a chan Lywarch ap Llywelyn 'Prydydd y Moch' *Bronn-yr-erw y galwant* (GLILl 23.158). Yr oedd gweithred fradwrus Tudur arall, sef Gruffudd ap Tudur ap Hywel, yntau'n was o Fôn gellir dyfalu, yn cymharu â dichell y carnfradwr cynnar o ran erchylltra. Sylwer ar yr odl lafar rhwng *ben / Bryden*.

- 49–50 **Ni weli ... / Drawst, du logail, dros dy lygad** 'Nid wyt ti [sy'n prydyddu bradwriaeth yn erbyn dy gyd-feirdd] yn gweld ... / Trawst [sy'n] ddist du yn dy lygad [dy hun].' Cf. Math vi.41–2.

- 50 **trawst** Ar arwyddocâd y *trawst* 'pechodau mawrion' i'r offeiriadaeth, gw. Math vii.3, 4. Edliwir bod Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn fwy parod i edrych ar fân lithriadau ei gyd-feirdd a'u barnu'n euog nag ydyw i edrych ar ei feiau mawrion ei hun ac edifarhau o'u plegid. Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.

**llogail** Cf. I Br vii.9 *o'r sylfaen hyd y llogail â'r BCN o'r sylfaen i'r bondo.*

- 51 **sglander** O'r S. *slander* 'enllib, camgyhuddiad maleisus', gw. EEW 80

*ysglander* ‘slander’; *ib.* 224 *ysglandr* (*sclandr*).

**berw** ‘Cyffro neu ysbrydoliaeth farddonol ... gwaith bardd’, gw. GPC 275; cf. GDG<sup>3</sup> 43 (15.40) [*b*]erw *Cynddelwaidd* a aralleirir (*ib.* 455) ‘cerdd ar ddull Cynddelw Brydydd Mawr’, a DG.net 8.40 sy’n aralleirio ‘[*b*]arddoniaeth fel Cynddelw’; cf. G 56 ‘cynnwrf, helynt’.

56 **nodwyddau pen** Sef ‘pinnau’; cf. *pinio pân* 10.59.

57 **Ofyd** Sef y bardd Lladin Ofydd, Publius Ovidius Naso (43 C.C.–c. 17 O.C.) y ceir cyfeiriadau niferus ato gan y beirdd ar hyd yr oesoedd ar gyfrif ei ganu serch. Mawrygai offeiriad hwythau fwynderau merched, a dywed Syr Siôn Leia yn llsgr. Pen 76, 137 (llsgr. sy’n cynnwys casgliad o gerddi serch, rhai wedi’u llunio gan offeiriad) fod *Ars Amatoria* Ofydd yn llanw ei feddwl hyd yn oed i fwy graddau nag a wnâi llyfr yr offeren. Gallai *Ofyd* yma fod yn fenthyciad lled-ddysgedig o *Ovidius*, a fabwysiadwyd er mwyn yr odl ag ail fraich y cwplod.

58 **gogan** Gw. y nodyn cefndir.

59–60 **Dafydd ... / Broffwyd** Y Brenin Dafydd a fu’n frenin ar Israel, yn delynor, ac a arferai ganu’r delyn i’r Brenin Saul, gw. I Sam xvi.23; ar Ddafydd yn fardd serch, gw. Huw M. Edwards, ‘Dafydd Broffwyd’, LICy xviii (1994), 129–30.

60 **Broffwyd, lydan ei briffordd** Am yr un trawiad, cf. GGI<sup>2</sup> 18 (VII.3) *A phriffordd cerdd a’i phroffwyd* (‘I Abad Ystrad-fflur’); cf. hefyd GST i, 148 (35.75) *priffordd tir* yn air o glod i Dudur ap Robert o Ferain.

61 **Gawen** Yr oedd Gawain yn garwr enwog (*Gwalchmai* yn Gymraeg, *Gauvain* yn Ffrangeg), ac yn y Rhamantau Cyfandirol yn batrwm o gwrteisi a dewrder; ymhellach arno, gw. WCD 303–5; CLC<sup>2</sup> 297; cf. hefyd 12.75 a’r nodyn ar y ll.

66 **coed arian** Ar ddelwedd y goeden yn nychymyg llenyddol yr Oesoedd Canol, gw. DGG<sup>2</sup> 190; Morgan T. Davies, ‘“Aed i’r coed i dorri cof”: Dafydd ap Gwilym and the metaphors of carpentry’, CMCS xxx (Winter 1995), 67–85; P. Lynne Williams, ‘“Ar ganghennau’r gynghanedd”: agweddau ar y goedwig yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol’, *Dwned*, vi (2000), 55–76. Tybed ai cyfeiriad sydd yma at fedw arian yn arwyddlun o ffyddlondeb serch? Yn sicr, y mae offeiriad Môn, ym marn Dafydd Trefor, yn bobl ddisglair a dilychwin eu cymeriad: ‘*untarnished*’; nid yw am i’r offeiriadaeth fel cyfangorff gael ei difriio oherwydd pechodau un dyn—os pechodau hefyd.

67 **du** Sef ‘pryd tywyll’, cf. *gŵr du* 1.63n.

68 **mynych** Ffurf l. *mynach*, h.y. y mae yma ladd ar fynaich o’u cymharu ag offeiriad ‘secwlar’.

## 12

Dyma'r cywydd olaf yn y dilyniant o bedwar cywydd a ganwyd ar gyfrif fferi Porthaethwy. Cadwyd chwe chopi o'r cywydd hwn ac y mae'n ymrannu'n dair rhan.

Yn yr adran gyntaf (llau. 1–36) y mae Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn ceisio ateb cwestiwn dirmygus Dafydd Trefor ac olrhain achos ei glwyf: *Ai gwir mai'r awen i gyd / Sy i'th glwyfo o'r saith glefyd?* (gw. 11.5–6). Cwyna Gruffudd fod ei ben a'i *holl gorff mewn poen* (ll. 4), ond nid yr awen ddolennog, fel yr awgryma Dafydd Trefor, oedd achos ei salwch. Nid dwndwr aderyn ychwaith, boed hwnnw'n wyllt neu'n ddof. Bu'r Apostol Paul yntau'n glwyfus ond nid yr awen a'i poenai yntau (llau. 13–16). Rhybuddia Gruffudd na chaiff Dafydd Trefor chwerthin am ei ben am iddo ei gynghori *â cherdd chwyrn* (ll. 18), er cystal dawn farddol yr offeiriad. Yn llinellau 23–8 dyfynnir cwestiynau gwatwarus Dafydd Trefor (gw. 11.7–12), a'i gyhuddo o edliw i Ruffudd ei salwch fel petai bod yn sâl yn fai arno. Ond ni fyn Gruffudd ddigio ar gyfrif hynny.

Yn yr ail adran (llau. 37–68) anogir Dafydd Trefor yntau i beidio â chymryd ei dramgwyddo wrth i Ruffudd amlygu diffygion yr offeiriad a chadarnhau gwirionedd y cyhuddiadau yn ei erbyn. Yn sicr yr oedd yr achwyniadau fod Dafydd Trefor wedi elwa ar y llaethdy a'i gynnyrch yn rhai dilys (llau. 37–40); felly hefyd y cyhuddiadau ynghylch gwisgoedd y ferch yr oedd yn ymhél â hi (llau. 41–4). Yr oedd hynny'n amlwg oherwydd ni fyddai gŵr dieuog mor chwyrn ei ymateb ag y bu Dafydd: *Ni dd'wedai'r difai air du / Er ei chwilio a'i chwalu* (llau. 47–8). Gwir oedd geiriau Dafydd Trefor fod trawst yn llygad Gruffudd, a chydnebydd na all weld yn glir oherwydd ei faint (llau. 55–9). Cydnebydd Gruffudd hefyd ei fod wedi rhoi ar ddeall i'r saint fod aml ddyn wedi digio wrtho ar gam; nid oedd yn haeddu dig y dynion pwdlyd hynny a dyna pam y cwynodd amdanynt wrth y saint (llau. 65–6), ond petai Gruffudd ar fai ac yn haeddu eu cerydd byddai wedi atal ei dafod.

Yn y drydedd adran (llau. 69–86) y mae Gruffudd ap Tudur ap Hywel yn ateb yn benodol y cyhuddiad a wnaed yn ei erbyn yn y cywydd blaenorol 'I geryddu dychanwr' (cerdd 11). Cydnebydd Gruffudd nad oedd wedi ei ddonio â'r un ddawn farddol â'r Proffwyd Dafydd, ac na fedrai gystadlu ag Ofydd o ran safon ei farddoniaeth—yn wir, nid oedd neb tebyg iddynt hwy ill dau. Ond ni sorrai Gruffudd pe dywedid geiriau cellweirus amdano; fel Gwalchmai ap Gwyar gynt yr oedd yn hapusach ganddo gymodi (llau. 75–8). Serch hynny nid yw Gruffudd yn fodlon derbyn y cyhuddiad ei fod wedi canu *anair* (ll. 79) i ferch fwy nag y goganodd y Forwyn Fair, peth na fyddai byth yn meiddio ei wneud: i'r gwrthwyneb, dymunai nawdd merched, ac o'i gael yr oedd yn wŷr dedwydd.

- 1 **Gruffudd** Gruffudd ap Tudur ap Hywel.
- 2 **Gŵyr Dduw** Ar ddelw *niwr Dduw*, gw. GPC 2586 d.g. *niwr Duw, niwr Dduw, ni ŵyr D(d)uw*.
- 5 Bai 'trwm ac ysgafn' lle yr odlir [g]wn a sŵn.
- 5–6 **sai' / I'm pen** Ar y gystrawen *sefyll i* 'to stand by, support', cf. LLI 46 (llau. 15–17) *gouyn e'r kygaus ac e'r kanllau a sauant huy ydau efen er hen y mae efen e dody arnadunt huy*.
- 9–12 Gellid darllen yma *Nid â i'r porth nac i'r pen* a chael yr ystyr 'ceg' i *porth*; a oes yma awgrym fod Gruffudd wedi gwledda'n rhy fras ar yr adar a'i fod yn sâl oherwydd ei fod wedi gorfwyta? Y mae'r gynghanedd yn wallus yn ll. 9 a cheir cyfatebiaeth  $m = n$  yn ll. 12.
- 13 **Pawl Abostawl** Sef Paul 'Apostol y Cenhedloedd'. Yma nodir bod yr Apostol Paul wedi bod yn glwyfus ond nid oherwydd dylanwad yr awen; cyplysyr Pawl â dysg yn amlach nag â'r awen. Ymhellach ar Paul, gw. ODCC<sup>3</sup> 1234–8.
- 15 **afiach** Amhosibl yw nodi at ba salwch y cyfeirir yma onid yr hyn y cyfeiria Paul ato fel *draenen yn fy nghnawd, cennad oddi wrth Satan, i'm poeni, rhag imi ymddyrchafu*; deisyfodd Paul deirgwaith gael ei iacháu o'r cyflwr, ond ni chaniatawyd hynny iddo, gw. 2 Cor xii.7–10. Nid yw'r Ysgrythurau yn nodi beth oedd yr anghaffael hwnnw ond nodwyd gan rai esbonwyr fod atal dweud ar Paul ac na allai lefaru'n glir oherwydd nam. Y mae *f* o dan yr acen heb ei hateb.
- 17–18 'Ni chewch chi [Dafydd] Trefor chwerthin oherwydd ichi fy nghynghori â cherdd chwyrn.'
- 27 **myned geifr mewn dy gwm** Cyfeiriad at ymryson cynharach ar gyfrif y cywydd 'I ofyn geifr gan bedwar person plwyf' a'r ateb iddo, gw. cerddi 1–2. Ar *mewn ynghyd ag enw pendant*, gw. GMW 202. Estynnwyd yn *myned* er mwyn hyd y ll.
- 38 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 43 **annod** Sef 'cerydd, cywilydd', a hynny am ei bod yn feistres i offeiriad.
- 45–6 **Llawer gwir ... / ... drwg ei dd'wedyd** Ar y diarhebion 'Llawer gwir, drwg ei ddywedyd' a 'Llawer gwir, gorau ei gelu', gw. DiarC 148.
- 49 **Llaw lân ddiogel helynt** Gellid yma gyfeiriad at y ddihareb 'Llaw lân, diogel ei pherchen', gw. DiarC 149.
- 51 **draenog dro** Am adeg neu achlysur annifyr, sy'n pigo cydwybod.
- 54 **Gan braw' y gwna brol** Yr ergyd yma yw y bydd y sawl sy'n cael ei roi ar brawf yn ceisio profi ei fod yn ddiueuog drwy ymffrostio yn ei gryfderau. Y mae'r ll. hon ddwy sillaf yn rhy fyr.
- 63–4 'Na chwerwa di; i'th dai main er chwarae rhyngof a thydi mae.'



- 64 **rhof a th'di** 'Rhyngof a thydi'.
- 68 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.
- 70 **Proffwyd Dafydd** Ar Ddafydd Broffwyd, gw. 11.59–60n.
- 71 **Ofydd** Arno, gw. 11.57n.
- 73 **wynebwynt** *Wyneb* + *-wynt*, terfyniad 3 ll.pres.dib. Rhagoriaeth yr hynafiaid sydd dan sylw yn y cwpled: nid oes neb tebyg i'r gwŷr gynt o ran gair na gwedd.
- 75 **Gwalchmai** Gwalchmai fab Gwyar, marchog ffyrnig a nai i Arthur, gw. TYP<sup>3</sup> 367–71; WCD 303–5; G 609. Yn chwedl 'Culhwch ac Olwen' fe'i dewiswyd yn aelod o'r garfan a aeth gyda Chulhwch i geisio Olwen *cany deuth attref eiroet heb y neges yd elhei o'e cheissyaw*. *Goreu pedestyr oed a goreu marchawc*, gw. CO<sup>3</sup> 15 (llau. 404–6). Rhestrir Gwalchmai yn un o 'Dri Deifniog Ynys Prydain' ar gyfrif ei haelioni tuag at westeion a dieithriaid; dywed Arthur amdano *mal doeth a phwyllig y dywedy ti*, gw. *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976), 33 (ll. 6). Yng ngolwg y Cywyddwyr yr oedd Gwalchmai yn arwr dilychwin ei gymeriad, gw., e.e., GHS 2.56 *Ac ni bu Walchmai erioed ddifeiach*. Cf. y cyfeiriad at *Gawen* (Gawain / Gauvain) yn 11.61.
- 81–2 **cariad ... / Ar** Am y gystrawen *cariad ar* 'affection towards', cf., e.e., PKM 7 (llau. 6–7) *ac ymyrru ar digriwwch serchawl a charyat arnei*.
- 83–6 Gwrthyferbynnir *nawdd ... merch* (ll. 83) a *nawdd gŵr* (ll. 86).

## 13

Cywydd o waith Ieuan Delynor<sup>1</sup> yn dychanu Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, Siambrlen Gwynedd (m. 1531),<sup>2</sup> am ymhél â merch a elwir yma wrth yr enw Gwenonwy yw'r cywydd hwn; fe'i canwyd ar gais Dr Wiliam Glyn a Siôn Pilstwn.<sup>3</sup> Nid yw'n bosibl rhoi union ddyddiad i'r ymryson ond nodir yn llawysgrif BL Add 9817, 183<sup>r</sup>, i'r cywydd cyntaf hwn gael ei lunio pan oedd Siôn Pilstwn yn *serssiant* ond *cyn i fynd yn farchog*. Urddwyd Siôn Pilstwn yn farchog rywbryd rhwng llunio'r asesiad cymhorthdal ar gyfer bwrdeistref Caernarfon (y bwriadwyd ei baratoi rhwng 1 Medi a 20

<sup>1</sup> Arno, gw. y Rhagymadrodd, tt. 14–16.

<sup>2</sup> Arno, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Marchudd' 6; P.C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6(B4); PACF 185; ByCyAt 95–6; Eurys I. Rowlands, 'Tri Wiliam Gruffudd', LICy ii (1952–3) 256–7. Ar y canu i deulu'r Penrhyn, gw. D.J. Bowen, 'Y canu i Gwilym ap Gruffudd (m. 1431) o'r Penrhyn a'i fab Gwilym Fychan (m. 1483)', *Dwned*, viii (2002), 59–78; *id.*, 'Y canu i deulu'r Penrhyn o gyfnod y Tuduriaid hyd 1628', *Dwned*, ix (2003), 91–107. Arwyddair teulu'r Penrhyn oedd *Jac in Dominum curam tuam*, sef rhan o Salm lv.22.

<sup>3</sup> Am ddisgrifiad Ieuan ap Madog o Siôn Pilstwn, gw. cerdd 16.

Hydref 1545) a 4 Mawrth 1546.<sup>4</sup> Fe'i codwyd ef yn gwnstabl castell Caernarfon yn 1523 a daliodd y swydd hyd ei farwolaeth yn 1551; a chan fod Dafydd Trefor wedi canu ail gywydd yr ymryson hwn a'i fod wedi marw c. 1527, yna gellir dyddio'r ddau gywydd cyntaf i'r blynyddoedd 1523–7.

Canwyd chwe chywydd ymryson yn y gyfres hon.<sup>5</sup> Naws cellwair ymysg ffrindiau da sydd i'r cywydd hwn, a blas tynnu coes. Cyhuddir Syr Wiliam Gruffudd yma o fod yn ferchetwr, ac y mae mwy o flas dychan nag o fawl ar y cywydd hwn.<sup>6</sup> Gellir canfod gormodiaith amlwg yn y cywyddau ymryson hyn, fel sy'n nodwedd ar y *genre* drwyddo draw.

Agorir y cywydd drwy gyfarch yn hael arglwydd y Penrhyn, Syr Wiliam Gruffudd, a phentyrru delweddau canmoliaethus i'w ddisgrifio: *post* (ll. 1), *baedd gwyllt* (ll. 2), *derwen* a *nenbren* (ll. 3), a *gleisiad* (ll. 8). Ond er bod y pethau hyn yn wir amdano, eto i gyd nid yw'r marchog yn gwbl ddilychwin ei gymeriad. Y mae fel petai'r ddihareb 'Heb ei fai heb ei eni' wedi ei llunio amdano ef yn benodol (llau. 7–10). Tynnir sylw at ddau o feiau Syr Wiliam Gruffudd.

Yn ail adran y cywydd (llau. 11–32) nodir y bai cyntaf, sef ei fod yn ddatgeiniad cecrus. Ar ôl rhannu baril o win dros ginio (llau. 13–16) byddai'n mynd ati i lywyddu noson o adloniant yn y llys. Dengys y llinellau a ganlyn fod gan Syr Wiliam Gruffudd wybodaeth fanwl am gerdd dafod a cherdd dant; meddai ar glust fain, a gallai ganfod yn well na neb *dant noeth* 'alaw ddiaddurn' (ll. 20). Nid oedd yn fodlon gwrando ar ddatganiadau ansafonol, a chollai ei limpyn pe cenid iddo gamfesur (llau. 21–4). Dim ond yr alawon gorau (*pob prifgaine* ll. 26) a geid yn y Penrhyn gan y byddai meistr y plas yn rhoi ei linyr mesur dros berfformiad pob gradd ar ddatgeiniad; lle y câi ei foddhau, yr oedd yn rhoddwr hael aur coch (ll. 32).

Datgelir ail gŵyn y bardd yn y drydedd adran (llau. 33–52), sef bod Syr Wiliam Gruffudd yn llygadu'r merched, ac yn treulio gormod o amser gyda gordderch o'r enw Gwenonwy. Yr oedd y marchog yn ffefryn gan y merched, a phob un yn syrthio'n rhwydd dan hudoliaeth ei drem. Gallai un edrychiad o'i eiddo beri darostyngiad ac ufudd-dod merch gariadus. Nid bod Syr Wiliam Gruffudd ei hun yn gystuddiol o gariad merch fonheddig; yn hytrach, ymfrostiai yn y grym a ddaliai drosti, yn enwedig felly Wenonwy. Cerddai gyrion tir ei faenor i gyfarfod â'i ordderch, cyn dychwelyd i'r plas at gysuron gwin a bwyd a tân.

Canmol meistrolaeth Syr Wiliam Gruffudd ar bynciau cerdd dafod a cherdd dant a wneir yn y bedwaredd adran (llau. 53–64). Yr oedd y marchog yn gwbl abl i fesur cyfraniad pob prydydd (ll. 54), pibydd (ll. 55), telynor (ll. 56), crythor (ll. 57), a phencerdd (ll. 58) a ddeuai i'r Penrhyn i'w

<sup>4</sup> W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh landowners, 1485–1558: a provisional list', *Cylchg HC* xiii (1987), 288.

<sup>5</sup> Trafodwyd yr ymryson yn Henry Lewis, 'Cywyddau ymryson Ifan Dylynior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', *B* xvii (1958), 161–75.

<sup>6</sup> Am farn Dafydd Trefor, cf. 7.3–4, 11–12.

ddiddori. Ni feiddiai *bwngler* (ll. 59), sef datgeiniad blêr neu drwsgl ei gelfyddyd, ddod yn agos yno—dim ond y goreuon a feiddiai ddod i gartref Syr Wiliam Gruffudd. Nid yn unig ei fod yn abl i fwrw barn ar eraill, ond gallai gyrraedd y brig gyda'i ymdrechion ei hunan ym myd cerdd dant a cherdd dafod: *Cyrhaeddi frig pob cerdd frau* (ll. 62). Deuir â'r cywydd i glo drwy ddeisyf hir oes i arwr y Penrhyn.

Cadwyd naw copi o'r cywydd hwn. Y mae'r llawysgrifau yn gytûn mai gwaith Ieuan Delynor ydyw (ac eithrio copiyydd llawysgrif Bodley Welsh e 7, 94<sup>r</sup>, sy'n ei dadogi ar Ddafydd Trefor); sylwer hefyd ar briodoliad llawysgrif LIGC 6471B *medd arall Jevan delynior ai kant* er nad enwir awdur arall ar wahân i Ieuan Delynor. Nodwedd ddeniadol ar y cywydd o ran ei grefft yw'r rhediadau o gymeriad llythrennol a geir drwyddo draw; sylwer mai geiriau unsill yw *r[h]estr* (ll. 29), *tarw* (llau. 30, 31), *llestr* (ll. 30), *hoyw* (ll. 42), *carw* (llau. 42, 61), *acw* (ll. 48); ac y mae iddo ambell linell wythsill.

- 3 **nenbren** Yn drosiadol am 'arglwydd', cf. GMB 7.43 *nennbren Powys* (Gwalchmai ap Meilyr) am Fadog ap Maredudd. Am *nenbren iaith*, cf. GGH 463 (II.7–8) *Draw bu ben a nenbren iaith, / Dewr teilwng ar dair talaith* (Wiliam Cynwal yn ei farwnad i Ruffudd Hiraethog).
- 4 **teiriaith** Bu Syr Wiliam Gruffudd yn *taro* 'ergydio, ymladd' drwy dair gwlad, sef Cymru, Lloegr a Ffrainc; cf. 17.3 *Yn llew ffrw-lew ar y Ffranc*.
- 5–6 Er bod Syr Wiliam Gruffudd yn *wr difalch* 'gwylaidd' yn awyrgylch ei gartref, eto yr oedd yn *wynebwr* 'gwrthwynebwr' gyda'r gorau.
- 6 **wynebwr well** Cf. *ni bu wr well* a'r esboniad arno, '“there has not been a better man”, the exact meaning being perhaps “a man [who was] better”', gw. J. Morris-Jones, *Welsh Syntax* (Cardiff, 1931), 46; treiglid *gwell* yn fynych ar ôl eg., gw. Treigladau 341–3.
- 8 **gleisiad** Yn y farddoniaeth defnyddir *gleisiad* yn ffigurol am offeiriad neu *wr eglwysig*, a cf. 14.23–4, 27–8 am haeriadau fod Syr Wiliam Gruffudd yn *[l]laswyrw* ac yn *[g]weddiaw* gartref. Yma deellir *gleisiad* 'eog', brenin y pysgod, yn ffigurol am 'bennaeth'.
- 9–10 **Ni cheir un fyth yn chwyrn fo / O fawrnerth heb fai arno** Ar y ddihareb *Heb ei fai heb ei eni*, dihareb yr oedd Dafydd Trefor yntau'n hoff ohoni, gw. DiarC 138, a cf. 11.43–4 *Rhyfedd ... / O bai fyw neb heb ei fai*; GSDT 2.60 *Am na bai fyw neb heb fai*.
- 15 **beili** Gall olygu un ag awdurdod gweinyddol o fewn cwmwd, yn ogystal â goruchwyliwr stad: byddai'r naill ystyr a'r llall yn wir am Syr Wiliam Gruffudd.
- bol** Fe'i defnyddir yn aml i awgrymu glythineb a thrachwant.
- 16 **bwt** 'Casgen neu faril i ddal gwin neu gwrw a'i mesur yn amrywio

rhwng 108 a 140 o alwyni', gw. GPC 357. Y mae'n cysylltu â *baril* yn ll. 13.

- 17 **iawngof** Y mae *cof* yn air technegol ym myd cerdd dafod; disgwyliid i'r beirdd feistroli tri chof, sef tri phwnc: yn gyntaf, hanes Ynys Prydain; yn ail, iaith y Brytaniaid; a'r trydydd cof oedd achau, arfau bonedd, a rhandiroedd; ymhellach, gw. G.J. Williams, 'Tri Chof Ynys Brydain', LICY iii (1954–5), 234–9. Yr oedd Syr Wiliam Gruffudd yn hyddysg yn y tri chof, ac yn myfyrio arnynt yn deg a chywir, meddir.

**angerdd** Deellir yr ystyr 'ysbrydoliaeth farddol' yma, gw. awgrym Marged Haycock, 'Llyfr Taliesin: astudiaethau ar rai agweddau' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), 616; *id.*, *Legendary Poems from the Book of Taliesin* (Aberystwyth, 2007), 113, *angerd vardoni* 'of passionate song'; *ib.* 144 *angerd* 'passion'. Meddai Syr Wiliam Gruffudd ar storfa eang o awen farddol. Sylwer ar yr ynganiad *an-gerdd*.

- 18 **ystrwla** CE<sup>2</sup> *ystrwla*, BG *ystrwla*. Deellir yr ystyr 'treiglo, gyrru ar led'. Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir.

- 22 **difyr** Deellir yma e. 'difyrrwch'. Cynghanedd sain lle yr odliir *-ur* ac *-yr*; ar odli'r llafariaid *u*, *y* ac *i*, gw. J. Morris-Jones: CD 245–9; D.J. Bowen, 'Pynciau cynghanedd: odli *i*, *u* ac *y*', LICY xx (1997), 138–43.

- 24 **daint** Deellir yma 'llid, malais, dicter', sef bod Syr Wiliam Gruffudd yn lliidiog ei ymateb i'r datgeiniaid hynny sy'n canu camfesur.

**adwen** Ffurf l un.pres.myn. y f. *adnabod*, lle y gwelir enghraifft o *-ae-* yn gwanychu yn *-e-* yn sillaf olaf gair diacen, gw. WG 32.

- 26 **mainc** Cf. 16.44n; ar *talfainc* 'prif sedd, sedd anrhydedd', cf. 14.7; eisteddai'r gwŷr pwysig wrth dâl y fainc 'uchel fwrdd' i ddathlu gwledd. Gellid clywed yr alawon a'r caneuon gorau yng nghartref moethus Syr Wiliam Gruffudd.

- 29 **twrch** Baedd gwyllt, yn ffigurol am ymladdwr mileinig.

**torch** Yr oedd *torch* 'coler' (aur, o bosibl) yn arwydd o statws marchog, gw. GSDT 12.7–8n.

- 29–30 Nid yw'r enghreifftiau yn niferus, ond weithiau ceir gair fel *restr* sy'n ddeusill at ddiben y gynghanedd ond yn unsill at ddiben yr odl.

- 30 **tarw** Trosiad am bennaeth dewr neu arwr ffyrnig; cf. ll. 31.

**ewinllestr** Deellir *llestr* am berson Syr Wiliam Gruffudd, ac *ewin* yn ffigurol am rym arfog i gydio a chrafangu: yr oedd yn rhyfelwr taer a dyfal ei filwriaeth.

- 31 **tŵr** Trosiad am arweinydd neu ryfelwr cadarn, yma yn gwisgo arfwisg o ddur du ac yn ymdebygu i darw, gw. ll. 30.

- 32 **tremyniad** Deellir yma gyrchwr milwrol neu ymosodwr, er y gellid hefyd yr ystyr 'drychiolaeth, ysbryd, ellyll', gw. GPC 3585; byddai un

olwg ar Syr Wiliam Gruffudd yn ei lid wedi codi ofn ar y dewraf.

- 35 **lleddfu** Ar *lleddf* ‘ufudd, gostyngedig’, gw. GDG<sup>3</sup> 150 (56.25) (DG.net 124.23) *Ufuddgamp leddf i feddgell*.
- 39 **Gwenonwy** Gellid yma enw’r ferch y cyhuddir Wiliam Gruffudd o’i chanlyn, neu tybed ai’n ffigurol am ferch dlos y defnyddir yr enw hwn? Ar Wenonwy y beirdd, gw. ‘I fynaches na welsai ond ei hwyneb’ yn DGG<sup>2</sup> 38 (XXV.4): enillodd y bardd (Dafydd ap Gwilym yn ôl DGG<sup>2</sup> ond ni chynhwysir y cywydd yn GDG clxxv nac ychwaith yn DG.net) rodd, sef gweld wyneb Gwenonwy, eto yr oedd yn anfodlon gan fod hynny’n peri loes iddo—byddai’n llawn gwell iddo fod yn ddall, meddai! Ymhellach, gw. DE 70 (XXXIX.14) lle y mae’r bardd yn nychu *o gariad gwenonwy*; AP 27 (ll. 15) *fwynedd gain unwedd gwenônwyf*. Ar Wenonwy ferch Meurig ab Tewdrig, brenin Morgannwg, na chafodd ei henwi yn un o’r saint Cymreig ond a allai’n hawdd gael ei chynnwys ymhlith eu nifer, gw. LBS iii, 198–9; LL 179 (llau. 6–17); *ib.* 191 (llau. 14–29).
- 41 **gwnai** Ffurf amrywiol 2 un.pres.myn. y f. *gwneuthur* sy’n hanfodol yma ar gyfer yr odl â *drai*, ond cf. ll. 27; y mae’r bardd yn cyfarch y noddwr, Syr Wiliam Gruffudd, yn uniongyrchol.
- 42 **carw hydref** Deallir *carw* yn drosiad am bendefig; y mae hefyd yn arwyddocáu hir oes. Rhestrir Carw Rhedynfre ymysg yr anifeiliaid mwyaf hirhoedlog ar wyneb daear yn ‘Chwedl yr Anifeiliaid Hynaf’, gw. CO<sup>3</sup> 31 (ll. 855)–32 (ll. 861) *Karw Redynure, yma y doetham ni attat, kennadeu Arthur, kany wdam aniueil hyn no thi*. Ar y carw yn negesydd serch, gw. P. Lynne Williams, ‘Cywydd “Y Carw” Dafydd ap Gwilym: rhai ystyriaethau’, *Traeth clv* (2000), 80–92; ar gyflymder y ‘carw ymosodol’, gw. GEO Atodiad C, cerdd 39. Arwyddocâd yr hydref yw mai dyma’r adeg pan fo’r hydd yn ei wres ac yn deisyf ei gymar. Gellid hefyd yr ystyr ‘hydref oes’, sef y cyfnod hwnnw o oes dyn pan fo’n aeddfed ac wedi datblygu’n llawn. Gw. hefyd *hydd* ll. 43.
- 43 **hydd** Cyfeirir at arwydd herodrol yma, a chrest Syr Wiliam, gw. DWH i, 137, *ib.* ii, 182. Disgrifiodd Lewys Môn yn ei gywydd ‘Moliant Wiliam Gruffudd’ arfbais y marchog, gw. GLM 123 (XXXIV.37–42) *Pa arfau? Pwy a orfydd? / Pwy’n cau’r sêl? Pen carw y sydd. / Tair saeled lle troes hwyhwynt, / tri phen gŵr trwy ffynnu gynt. / Dos o’r tad i Syr Tudur; / dwbia’n y gwaed bennau gwŷr*. Eto yn ei gywydd ‘Gofyn march gan Ddafydd ab Owain dros Wiliam Gruffudd’ disgrifia Lewys Môn yr hydd ar arfbais teulu’r Penrhyn, gw. *ib.* 236 (LXVI.73–4) *Wiliam, griffwnt helm, Gruffudd, / fo wyl, drwy’i hun, fold yr hydd*. Yng ngwaith rhai o’r Cywyddwyr ystyrir bod i hydd oes faith, cf. GGLI 6.6 *Canmlwydd a’i swydd fydd oes hydd* a gw. *carw* ll. 42. Neu fe allai’r bardd olygu *hydd* yn llythrennol yma.

- i'ch marcio** Ni ddiwygiwyd y ffurf 2 ll. yn 2 un. gan fod y beirdd yn aml yn defnyddio'r ddwy ffurf yn gyfystyr.
- 47 **loets** Gellid yma fenthyciad o S.C. *lo(i)gge, lodge* 'trigfan dros dro, llety' (gw. GPC 2067; EEW 214), ac sy'n dwyn i gof ddeildy Dafydd ap Gwilym; felly hefyd *gwaiail Mai* (ll. 33). Canodd Dafydd serenâd i'w gariad, sef 'Dan y bargod', GDG<sup>3</sup> cerdd 89 (DG.net cerdd 98), ynghyd â phum cerdd naratif yn disgrifio taith y bardd liw nos i gartref y ferch ar ryw adeg yn y gorffennol (gw. *ib.* cerddi 54, 55, 65, 68, 139). Gw. Dafydd Johnston, 'The serenade and the image of the house in the poems of Dafydd ap Gwilym', CMCS v (Summer 1983), 1–19. Ar gastell y Penrhyn a'r *corps de logis*, gw. Richard Haslam, Julian Orbach & Adam Voelcker, *The Buildings of Wales: Gwynedd* (London, 2009), 398–9.
- 53 **Nudd** Sef Nudd Hael ap Senyllt, y cyntaf o 'Dri Hael Ynys Prydain'; ymhellach arno, gw. TYP<sup>3</sup> 5–7, 464–6; WCD 509. Ond er mai yn baragon o ŵr hael y gwelir Nudd drwy lygaid y Cywyddwyr, yma y mae awgrym o gryfder arall, sef y gallu i *ddyfalu* (naill ai ddychanu neu ynteu ddisgrifio yn null gorchestol y Cywyddwyr) y sawl a gyfrannai i fywyd diwylliannol y llys, yn gerddorol ac yn farddol.
- 61 **mes** Gellid yma S. *mace* 'brysgyll, *sceptre*' wedi ei wneud o aur, fel y gweddai i farchog urddol.

## 14

Yn y cywydd ateb hwn y mae Dafydd Trefor yn amddiffyn enw da Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn, noddwr beirdd, a gŵr a gafodd ei ddychanu'n ddiachos gan Ieuan Delynor (gw. cerdd 13). Y mae pedair adran i'r cywydd. Yn yr adran gyntaf amheuir bod Ieuan Delynor yn gwallgofi, ac yr oedd si eisoes ar led drwy'r gymdogaeth ei fod yn lloerig (llau. 1–8). Tybed a oedd Ieuan yn ceisio dilyn llwybrau Llywelyn ap Gutun a oedd wedi dilyn dwy grefft, a datblygu'n fardd ac yn gerddor gwych? Ni chred Dafydd Trefor fod dawn farddol gan Ieuan Delynor, er ei fod yn fodlon cydnabod ei ddawn gerddorol (llau. 9–16).

Yn yr ail adran gwelir bai ar Ieuan am iddo ddifenwi Syr Wiliam Gruffudd a'i gyhuddo ar gam o fod yn ferchetwr, ac o gyboli â rhyw ferch o'r enw Gwenonwy: pan oedd Syr Wiliam yn rhodianna'n ddiniwed gyda'r hwyr ac yn canu salmau a mwynhau'r awyr iach cyhuddai Ieuan ef o odinebu; a phan âi Syr Wiliam i'r gerddi i weddi, mynnai Ieuan mai aros am ryw gariadferch yr oedd (llau. 17–30). Yr oedd yn amlwg i bawb mai wedi cael gormod o win wrth fwrdd Dr Wiliam Glyn yr oedd Ieuan a bod ei ben yn troi o'i herwydd (llau. 21–2). Y drafferth oedd fod Arglwyddes y Penrhyn, sef gwraig Syr Wiliam Gruffudd, yn rhoi coel ar bob gair a

ddywedai Ieuan wrthi, er eu bod yn ffals i gyd (llau. 31–4).

Daw'r esboniad ar ei ymddygiad yn y drydedd adran. Beir gormodedd bwyd a diod Dr Wiliam Glyn am yr anghaffael a boenai Ieuan Delynor (llau. 37–8). Yn dilyn, ceir adran fer yn dychanu Dr Wiliam Glyn (llau. 41–6). Er bod Dafydd Trefor yn haeru na fyddai'n mentro croesi Dr Wiliam Glyn a gorfod wynebu ei atgasedd (ll. 43), yn enwedig o gofio'r addysg fawr a gafodd tua Rhydychen, a'i dafod yn ei foch y dywed y bardd hynny: arwydd o'r berthynas dda a oedd rhyngddynt yw'r cellwair hwn. Yn wir, y mae'n werth nodi pa mor wahanol yw naws y berthynas a oedd rhwng Dafydd Trefor a Dr Wiliam Glyn<sup>1</sup> i'r berthynas a fodolai rhwng y bardd a Syr Richard Bulkeley: 'He obviously admired Glyn and was tied to him by a bond of warm affection; but he was more than a little scared of Bulkeley.'<sup>2</sup> Ni fyddai'n mentro dychanu'r Bwcleiod yn y fath fodd ac nid oedd pethau'n dda rhwng Wiliam Gruffudd a'r Bwcleiod ychwaith.

Daw'r cywydd i ben drwy nodi statws barddol Ieuan Delynor (llau. 47–8): y mae natur a safon ei waith yn dwyn i gof waith y glêr, dosbarth isel o feirdd a cherddorion heb hyfforddiant rheolaidd a swyddogol. Trosiad gwych yw'r darlun o Ieuan Delynor yn chwileryn, yn gynrhonyn a oedd wedi gwthio'i ffordd i gymdeithas eraill drwy ddichell (llau. 49–52). Yr ergyd yw ei bod yn gywilydd o beth fod Ieuan Delynor yn mwynhau'r croeso a gâi yn y Penrhyn ac yn manteisio ar garedigrwydd ac anrhegion hael ei noddwyr, ac yntau ar yr un pryd yn difenwi'r rhoddwr. Er i'r telynor wneud gelyn o'r marchog, a ddisgrifir fel *enaid* y byd, gŵr a oedd yn gyfaill ac yn anwylyd dynoliaeth, eto gwyddai Syr Wiliam Gruffudd hyd a lled pob cerddor gan ei fod yn awdurdod ar gerdd dant ac yn llwyr abl i feirniadu'n graff ymdrechion pob telynor (llau. 53–8). Myn Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn ei fod yn gwbl ddiuog o bob trosedd honedig yn erbyn Gwenonwy. Byddai mynd i'r afael â merch y tu hwnt iddo hyd yn oed petai'n dymuno hynny (llau. 61–4).

Y mae Dafydd Trefor wedi newid ei gân yn arw er pan ganodd y cywydd 'I ofyn gordderch a thelyn o law Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn' (cerdd 7), ac y mae'n amlwg ei fod wedi llwyr anghofio bod gan y marchog, yn ôl tystiolaeth y cywydd ysgafnfyrd hwnnw, nifer o ordderchau heirddion.

1 **Ifan** Sef Ieuan Delynor; gw. hefyd lau. 32, 47.

3 Cyfatebiaeth f = f.f.

5 **breithwen** Ffurf f. *brithwyn*, gw. GPC 328; 'brycheulyd, llawn o feiau'.

7 **rhemial** Adffurfiad o *grymial* 'trwst, twrw, murmur, mwmian, grwg-nach, cynnen', gw. GPC 1540; ar *grwm* 'murmur, growl', a *grymial* 'to

<sup>1</sup> Canodd Dafydd Trefor gywydd 'Moliant i Dr Wiliam Glyn', gw. GSDT cerdd 1. Am gywydd mawl arall i Dr Wiliam Glyn, gw. GLD cerdd 6; A. Cynfael Lake, 'Dau gywydd i'r Doctor Wiliam Glyn', TCHSG liv (1993), 91–105.

<sup>2</sup> WCCR<sup>2</sup> 313.

*mutter, murmur, grumble*', gw. EEW 158.

**talfainc** Gw. 13.26n.

- 8 **cod** Sef y god a ddaliai'r delyn.
- 9 **hwylio helynt** Os yw Ieuan Delynor yn ceisio *hwylio helynt* 'efelychu' camp Llywelyn ap Gutun a chael gradd mewn dwy grefft, sef cerdd dafod a cherdd dant, y mae Dafydd Trefor yn ddigon parod i ganiatáu i Ieuan glod ar y delyn (*Dy law ar dant*, ll. 13) ond myn fod ei gywyddau (*gwaith dy dafod*, ll. 14) naill ai'n gelwydd i gyd, neu ynteu'n anghywir.
- 9–14 Barn Syr Dafydd Trefor am Ieuan Delynor yw ei fod yn well telynor nag ydyw o fardd.
- 10 **Llywelyn ap Gutun** Bardd a thelynor a oedd yn ei flodau c. 1480. Yr oedd yn ymrysonwr o fri: goroesodd ymrysonau rhyngddo a Dafydd Llwyd o Fathafarn (gw. Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 310–25), Lewys Môn, a Gruffudd ab Ieuan ap Rhys Llwyd. Y mae'r cywydd hwn yn dwyn i gof ymryson Llywelyn ap Gutun a Guto'r Glyn, a Guto yn dannod i Lywelyn ei fod wedi meddwi yng nghartref ei noddwr. Canodd Gwerful Mechain i Lywelyn ap Gutun, gw. GGM cerdd 7. Ymhellach arno, gw. GLIGt; ByCy 565; CLC<sup>2</sup> 476. Cynghanedd sain lle yr odli'r *-yn ac -un*.
- 13 **lowir** Ffurf amhrs.pres.myn. y f. *lowio, lwfio* 'to allow', gw. EEW 234.
- 15–16 **A'th gywydd newydd, na wad, / Aeth lawer i'th oleuad** Cyfeiriad yw'r *cywydd newydd* at gywydd Ieuan Delynor yn dychanu Syr Wiliam Gruffudd (cerdd 13); y mae *mynd i'th oleuad* yn gyfystyr â 'to stand in his own light', h.y. yn ei ddrygu ei hun.
- 17 **ysglendriaist** Ffurf 2 un.grff.myn. y f. *sglandrio* 'athrodi, enllibio, absennu, difenwi', gw. GPC 3243; benthyciad o S.C. *sclaundre*, o H. Ffrangeg *esclandre*, gw. EEW 224.
- 18 **Siambrlen Gwynedd** Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn (m. 1531). Cyfatebiaeth g.g. = g.
- 25 **taerut arno** Ffurf 2 un.amhff.myn. y f. *taeru ar* 'cyhuddo', gw. 11.27n.
- 29 **d'wedut** Ffurf 2 un.amhff.myn. y f. *dywedyd*. Cynghanedd draws anfodddhaol ar gyfrif d d = d.
- 30 **gwaetio** O'r S. *wait*, gw. EEW 194, 228.  
**cutog** Sef term dilornus am ferch lac ei moesau, efallai o *cud, cut* 'kite'. Twyll gynghanedd g.
- 31 **yr arglwyddes** Perthyn y cywyddau ymryson hyn i'r blynyddoedd 1523–31. Gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd oedd Siân Stradling; Siân Pilstwn, chwaer Siôn Pilstwn (cwnstabl castell Caernarfon rhwng 1523 a 1551 a'r un a barodd i Ieuan dychanu Syr Wiliam Gruffudd), oedd ei ail wraig. Nid yw dyddiadau'r priodasau yn hysbys ond



gwyddys bod Edward, ail blentyn Wiliam a Siân Stradling, wedi ei eni yn 1511 (gw. P.C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6(B4)) ac ar sail hynny gellir amcangyfrif iddynt briodi *c.* 1508/09. Ni ellir bod yn gwbl sicr mai Siân Pilstwn a gyferchir yma, ond dyna sydd fwyaf tebygol.

- 35 **hortiaist** Ffurf 2 un.grff.myn. y f. *hortio* 'athrodi, absennu, enllibio, cablu, difenwi', &c., gw. GPC 1899.
- 36 **marchog urddol** Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn a oedd wedi cael *ced* / .... *o ferched*.
- 38 **y doctor o'r Glyn** Dr Wiliam Glyn ap Robert ap Maredudd ap Hwlcyn Llwyd, aelod o deulu Glynllifon ger Llandwrog, Caernarfon. Bu'n Archddiacon sir Feirionnydd ac fe'i hurddwyd yn Archddiacon Môn ar 6 Ebrill 1524 er y bu raid iddo aros tan 1525 cyn dechrau ar ei swydd. Ymhellach, gw. 'The Glynnnes and the Wynns of Glynllifon', AWH 160–77. Am ach teulu Glynllifon, gw. L. Dwnn: HV ii, 147–8; PACF 172.
- 40 **du** Cyfeiriad at bryd a gwedd Dr Wiliam Glyn, gan ei fod yn ŵr pryd tywyll.
- 41 **crochan** Deellir *crochan* yn drosiadol am 'ddyn glwth' a fu'n codi trethi degwm ac yn tlodi'r plwyfolion.
- 42 **y'n crechweni** Ffurf 2 un.pres.myn. y f. *crechweni*; 'y crechweni arnom'. Serch hynny, y mae pob cyfeiriad arall at Dr Wiliam Glyn yn y 3 pers.
- 45 **cwd llinad** Sef 'ceillgwd'. Ar *llinad* 'had llin', cf. CO<sup>3</sup> 22 (ll. 605) ac *ib.* 34 (llau. 949–50) am '*linseed*' (*naw hestawr llinat*).
- 46 **Rhydychen** Addysgwyd Dr Wiliam Glyn yn Rhydychen ac yr oedd yn amlwg yn ŵr o bwys ym maes addysg yn ei gyfnod. Canodd Dafydd Trefor gywydd 'Moliant i Dr Wiliam Glyn o Lynllifon' (gw. GSDT cerdd 1); digwydd y gair *dysg* bum gwaith yn y gerdd honno (llau. 28, 40, 50, 52, 75) ac *addysg* unwaith (ll. 27). Ni ddigwydd enw Wiliam Glyn yn A.B. Emden, *A Biographical Register of the University of Oxford A.D. 1501 to 1540* (Oxford, 1974), 775.
- 48 **coffáu clap** Gallai *clap* olygu 'enllib' neu'n debycach, efallai, 'clefyd gwenerol'.
- 49–50 **Meithrin chwileren ennyd / Mewn mynwes gynnes i gyd** Ffurf un. fachigol *chwiler* yw *chwileryn*, 'math o wain neu amwisg o groen y datblyga cynrhonyn neu lindysyn ynddi yn ei gyflwr marwaidd cyn torri allan yn löyn byw neu'n wyfyn; magïen; sarff, gwiber', gw. GPC 854, ond dewiswyd darlenniad mwy annisgwyl llsgr. A *chwileren* er mwyn y gynghanedd. Y mae dihareb yn y cwpled hwn: 'Meithrin chwileryn ym mynwes', gw. rhestr John Davies ar derfyn D; William Salesbury, *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* (London, [1547]; adargraffiad Bangor,

1902); am fydryddiad Dafydd ap Gwilym yntau o'r ddihareb, *Meithrin chwilyern gwyn gwâr / Ym mynwes o serch meinwar*, gw. GDG<sup>3</sup> 280 (104.19–20) (DG.net 77.19–20).

53 Y mae'r ll. hon sillaf yn rhy hir oni chywesgir *mae yt*.

54 **enaid y byd** Cyfeiriad at Syr Wiliam Gruffudd: gwnaeth Ieuan Delynor elyn o *enaid* 'anwylyd' y byd ar gyfrif ei gyhuddiad annheg.

56 **cerdd dant** Ategir yma feistrolaeth Syr Wiliam Gruffudd ar grefft cerdd dant, gw. cerdd 13.

57 **crychiad** 'Dull o daro tant telyn â'r bys er mwyn seinio nodyn arbennig', gw. GPC 619; ar *crychu* [nodyn] 'trill', gw. Enid Roberts, 'Marwnadau telynorion', TCHSDd xv (1966), 96; ar *crychu y fawd* 'thumb trill', gw. Arnold Dolmetsch, *Translations from the Penllyn Manuscript of Ancient Harp Music* ([Llangefni], 1937), 7.

**profiad** Term technegol yng nghyfundrefn cerdd dant; gallai fod yn derm am fesur o fath penodol. Yn *Musica* Robert ap Huw, td. 56, cyfeirir at enghraifft o gerddoriaeth (a allai fod yn ddarn cysylltu) fel 'pwnc ar ôl pob profiad', gw. Enid Roberts, *art.cit.* 95; yr un ystyr sydd i *proffid*, sef y term a ddefnyddir mewn ambell lsg. Cynnwys *Musica* wyth enghraifft o brofiad, ac y maent oll yn ddarnau byr, gyda llawer o ailadrodd mewn ambell un, gw. Enid Roberts, *art.cit.* 98. Defnyddir y gair *prelude* yn Peter Crossley-Holland, 'Secular homophonic music in Wales in the Middle Ages', *Music and Letters*, xxiii (April 1942), 145 (hefyd ar <<http://ml.oxfordjournals.org/cgi/reprint/XXIII/2/135.pdf>>): 'The term *profiad*, literally a "proving" of the instrument, but here translated "prelude" ... suggest[s] a musical origin'; felly hefyd yn Arnold Dolmetsch, *op.cit.* 17.

58 **clymau** Ffurf l. *cwlwm*, sef casgliad o 24 o geinciau telyn; gw. Enid Roberts, *art.cit.* 98.

59 Cyfatebiaeth anghyflawn ndd = d.

60 **Gelu arnad gliorni** *Celu ar* 'conceal, protect'; ar *cyl(i)orni* yn amrywiad ar *cyfeiliorni*, gw. GPC 689; 'To protect you from the accusation of error'.

63 **haerud** Deellir yma ferfenw.

Cywydd yn cydnabod meistrolaeth Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn ar ddirgelion crefft cerdd dant a geir yma, ac yn canmol ei lais melys: *Ni fu'n glir o fwnwgl iach / ... lais bereiddiach* (llau. 21–2). Cydnabyddir yma hefyd ei hawl a'i abledd i roi barn ar waith datgeiniaid o gerddorion. Egyr y cywydd â llinellau o fawl i'r marchog, sy'n bendefig cadarn ar dair

cededl. Fe'i cyffelybir i Arthur, a oedd yn ŵr o ddysg; mewn brwydr yr oedd yn arweinydd glew i'w osgordd ac yn pwyo ei elynion fel morthwyl trwm, ond yr oedd ochr arall i'r Brenin Arthur gan ei fod hefyd yn gerddor ac yn delynor di-ail (llau. 7–12). Anogir Syr Wiliam Gruffudd i ganu alaw ar y delyn yn null Arthur (llau. 13–16) ac i nyddu cân odidog yn gyfeiliant iddi, oherwydd pan fyddai Syr Wiliam yn ei hwyliau gorau ni cheid gŵr drwy'r wlad i gystadlu ag ef o ran melyster cân, a byddai'r merched gwych eu hymadrodd yn heidio ato. Gwae'r sawl a feiddiai ganu'n resynus yn ei ŵydd! Ond am ganu ar lefel uchel o ragoriaeth, ceid rhoddion gwych eu rhwysg ganddo, fel a gaed mewn gwledd radlon arall yn Rhaglan gynt.

Yr oedd teulu'r Herbertiaid yn Rhaglan ymysg y teuluoedd mwyaf nodedig erioed i noddi llên a diwylliant Cymraeg.<sup>1</sup> 'Dyma'r teulu gyda'r grym gwleidyddol mwyaf o ddigon yng Nghymru yn eu dydd ac o ganlyniad 'r oedd ganddynt y cyfoeth ariannol i'w galluogi i noddi'n hael.'<sup>2</sup> Yn wir, erbyn 1486 yr oedd incwm blynyddol Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, yn un sylweddol iawn: 'In less than ten years this grossly ambitious and grasping Welsh country squire had turned himself into an English magnate, with an annual income of some #2,400.'<sup>3</sup> Tybed a fu Ieuan Delynor ei hun yn derbyn nawdd Rhaglan, ai ynteu atgof am dystiolaeth arall amdani a geir yma?<sup>4</sup>

Yn sicr, gellid tynnu cymhariaeth rhwng y Penrhyn a Rhaglan ar gyfrif eu rhagoriaeth fel canolfannau barddol. Hyd yn oed ar adeg pan oedd cymaint o gartrefi uchelwrol yn croesawu beirdd ac yn eu noddi'n hael, y mae'n deg cydnabod mai castell y Penrhyn yng ngogledd Cymru a chastell Rhaglan yn y de a oedd ar frig y rhestr o brif noddfâu barddol.

... some courts stood out as special bardic sanctuaries for generations, notably the courts of the powerful families of Gruffudd at Penrhyn in Gwynedd and of Herbert at Raglan in Gwent. It would seem as if these exalted native officials of a foreign power wished to continue the traditions of the formerly independent royal courts of Wales.<sup>5</sup>

Yn ail adran y cywydd (llau. 41–58) try'r bardd at un o bynciau llosg yr ymryson, sef y pwysau a roddir arno i adael difyrrwch neuadd y Penrhyn i'w

<sup>1</sup> Ar y canu i deulu'r Herbertiaid yn Rhaglan, gw. CH; ar eu haelioni a'u nawdd i feirdd, gw. W.G. Lewis, 'Herbertiaid Rhaglan fel noddwyr beirdd yn y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg', THSC, 1986, 33–60.

<sup>2</sup> Gw. CH xvi. Elwodd Wiliam Herbert, iarll cyntaf Penfro, o fod mewn cysylltiad agos ag Edward IV a Rhisiart III, gw. CH ii, 206–7; R.A. Griffiths: PW i, 156. Yr oedd nai i'r iarll hwnnw, Wiliam Herbert, yn briod â Siân, merch Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn. Ymhellach ar yr Herbertiaid, gw. D.H. Thomas, 'The Herberts of Raglan as supporters of the House of York in the second half of the fifteenth century' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1967); D.A. Thomas, *The Herberts of Raglan and the Battle of Edgecote 1467* (Lincoln, 1994).

<sup>3</sup> T.B. Pugh, 'The magnates, knights and gentry' yn *Fifteenth Century England, 1399–1509: Studies in Politics and Society*, ed. S.B. Chrimes, C.D. Ross & R.A. Griffiths (Stroud, 1995), 92.

<sup>4</sup> Ni nodir enw Ieuan Delynor yn CH.

<sup>5</sup> GWL ii<sup>2</sup> 292.

well. Gwrthod yn lân â chadw draw o'r Penrhyn a wna Ieuan Delynor, fodd bynnag, gan ei fod yn mwynhau'r croeso dirwgnach a gaiff gan feistres y plas, yr Arglwyddes Siân (ll. 52): y mae hi bob amser yn ymagweddu tuag ato yn hael ac yn siriol. Dyna ei gyfiawnhad pennaf dros gadw'n ffyddlon i'r llys yn y Penrhyn. Daw'r adran hon i glo â llinellau o fawl i Siân ac i'w chartref gwâr gerllaw'r Wyddfa, ac yn y cwpled olaf ceir esboniad ar y syniad dwl y dylai ymadael â'r fath baradwys—cenfigen Dafydd Trefor: *Mawr yw'r genfigen fy mod / Yn eiste' yma'n wastod!* (llau. 57–8).

Y mae'r drydedd adran (llau. 59–82) yn ymosodiad egniol ar ddiffyg dawn dweud Dafydd Trefor. *Awen goeg* (ll. 63) yw ei awen ef, sydd eto'n codi'r hen ddadl ymhlith y beirdd p'un ai canu dan arweiniad a dylanwad Duw a wnaent ynteu ganu cân y diafol. Yn sicr nid yw clust Dafydd Trefor at farddoniaeth yn ddi-feth, meddir yma, ac ni chlyw fai ar ei gynganeddion; y mae gwir angen arno ddilyn hyfforddiant farddol ac astudio'r dwned yn hytrach nag astudio merched a chreu darnau o benillion enbyd o sâl drwy adael i'w feddwl grwydro yn ystod yr offeren.

Cadarnheir yn yr adran olaf (llau. 83–92) benderfyniad diysgog Ieuan Delynor i beidio ag ymadael â'r Penrhyn: petai'n byw am *gannoës*, dyna'r un fan na fyddai'n troi ei gefn arni.

Nid dyma'r ymryson cyntaf yn hanes beirdd Cymru lle y cododd cynnen ar gyfrif cystadleuaeth am nawdd uchelwr. Dichon mai'r ymryson enwocaf ar y thema hon yw hwnnw rhwng Hywel Dafi a Guto'r Glyn a fu'n ysu am dderbyn nawdd Herbertiaid Rhaglan. Ystyrid mai Hywel Dafi oedd bardd Rhaglan a chanodd Guto'r Glyn i geisio ei ddisodli drwy restru gwirebau:

Nid ansawdd bwyd o unsaig,  
Nid amheuthun yr un wraig,  
Nid gŵr heb newid gware,  
Nid llong heb fyned o'i lle.<sup>6</sup>

Bu Iorwerth Fynglwyd yntau yng nghanol berw mwy nag un ymryson ynghylch nawdd, un o'r rheini â'i athro barddol Rhisiart ap Rhys. Cyhuddodd Risiart o esgeuluso Siôn Stradling a'i lys yn y Merthyr Mawr ym Morgannwg (rhyw ddwy filltir o gartref Iorwerth Fynglwyd yn Saint-y-Brid) er mwyn ymgreinio yn llys Syr Rhys ap Tomas, ond eto heb ddewis ildio ei briod le yn y Merthyr Mawr. Fe'i cymherir â'r *ci a'r dryll cig*<sup>7</sup> yn chwedl Esop.

Nodwedd ddeniadol ar gywydd Ieuan Delynor yma eto o ran ei grefft yw'r rhediadau o gymeriad llythrennol a geir drwyddo; sylwer mai geiriau unsill yw *croyw* (ll. 37), *bwrw* (llau. 62, 68), *llanw* (ll. 84); felly *gloyw* yn y cyfansoddeiriau *serloyw* (ll. 3), *gloywddur* (ll. 8), [g]loywdeg (ll. 51), a *mwchl* yn y cyfansoddair *trimwchl* (ll. 31); ond gair deusill yw *eithr* (ll. 82).

<sup>6</sup> CH 9.59–60.

<sup>7</sup> Gw. GIF 79 (ll. 54). Cynhwyswyd 'Ateb i Iorwerth Fynglwyd' o waith Rhisiart ap Rhys Brydydd yn *ib.* (cerdd 34).

- 2 **aur gadwyn** Cf. *torch aur restr* 13.29n.
- 3 **Syr Wiliam, wisg serloyw maith** Y mae Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn (c. 1480–1531) yn gwisgo amdano wisg laes sy'n ddisglair, befiog; cf. 'Moliant Syr Wiliam o Raglan' yn GGI<sup>2</sup> 126 (XLVII.1–2) *Sâl rugl yw seiliwr Rhaglan, / Syr Wiliam, wisg serloyw mân.*
- 4 **siambrlen** Wrth ei swydd yr oedd Syr Wiliam Gruffudd yn Siambrlen Gwynedd.  
**caterwen** Derwen fawr lydanfrig, yn ffigurol am bendefig cadarn.  
**teiriaith** Gw. 13.4n.
- 5 **deubeth** Yr oedd gan Arthur ddeubeth a gyfrannai tuag at ei ragoroldeb, sef *aur* 'cyfoeth' a *gwŷr*, sef lliaws o farchogion i'w ganlyn: felly hefyd Syr Wiliam Gruffudd.
- 6 **Arthur** Sef y Brenin Arthur a ystyrir gan y beirdd yn baragon o filwr. Roedd hefyd yn gerddor, yn un o'r tri oferfeirdd; arno, gw. TYP<sup>3</sup> 280–3; gw. hefyd lau. 7, 14.
- 11 Cyfatebiaeth b..b = b.
- 16 **cnot** Fe'i defnyddir yn ffigurol am 'nod rhagoriaeth, sêl awdurdod, campwr neu gampwaith', GPC 521; ond dylid hefyd ystyried awgrym Enid Roberts, 'Marwnadau telynorion', TCHSDd xv (1966), 95, lle y gofynnir y cwestiwn tybed ai grwpiau bychain o nodau a geir mewn bar, ar gyfer y ddwy law, yw'r cnotiau?
- 18 **yr awr** Ai 'within an hour', sef 'yn fuan' a olygir, ynteu 'in an(y) hour', sef 'rhywdro'? Cf. Brinley Rees, 'nemheunaur', B xx (1962–4), 125.
- 19–22 Y synnwyr yw 'A chyda'r tant ... Ni fu ... lais bereiddiach.'
- 22 **gwŷdd** Coedwig, ond yma fe'i deallir yn ffigurol am 'ddefnydd barddoniaeth', cf. GGI<sup>2</sup> 113 (XLII.57–8) *Gorau deunydd, Ddafydd, wyd, / Gwŷdd awdl neu gywydd ydwyd* am Ddafydd Llwyd ap Dafydd ab Einion; cf. ll. 63.
- 23–4 Pan fyddai Syr Wiliam Gruffudd yn ei hwyliau gorau, ni cheid neb drwy'r wlad a allai ganu mor gywir nac mor gymwys ag ef.
- 25 **gostwng melyster** Yr ystyr yw fod ganddo lais fel mêl i ddwyn melyster cerdd i afael pawb.
- 26 **pwnc** Yn ôl GPC 2942 'nodyn neu fesur cerddorol, cân'; yn fanylach, gw. Enid Roberts, *art.cit.* 94–5.
- 30 **hir a byr** Gan fod cyfeiriad at gerdd dant yn y ll. ddilynol, gellir yma gyfeiriad at un o feiau cerdd dafod, sef bod llinell yn rhy hir neu'n rhy fyr, neu'n seinogol fod llafariad yn rhy hir neu'n rhy fyr; posibilrwydd arall yw'r ystyr o fod yn ddoeth a dwl ar yr un pryd, 'said of a person who is expert in difficult and complex things but naïve in simple

matters', gw. GPC 1869.

- 31 **trimwchl** Mewn cerddoriaeth y mae *mwchwl* yn 'enw cwlwm neu ganiad arbennig yn y system gerddorol Gymreig gynt', gw. GPC 2506 lle y'i ceir yn air deusill; ond yma, oherwydd gofynion y mydr, y mae'n amlwg mai yn air unsill yr ystyria Ieuan Delynor ef (fel Wiliam Cynwal yntau, gw. isod), ac yn un gair deusill y dylid ystyried *trimwchl*, cf. G.P. Jones, 'Astudiaeth destunol o ganu Wiliam Cynwal yn Llawysgrif (Bangor) Mostyn 4' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1969), 54, *Torrwyd gwraidd, diarwaidd da, / Trimwchl yn y tir yma*. Yn Enid Roberts, *art.cit.* 98, y diffiniad o *trimwchl odidog* yw uned gerddorol sy'n cynnwys 50 cwlwm; y mae cwlwm yn uned o 24 o geinciau, ac felly y mae trimwchl yn uned o 1,200 o geinciau.
- 33 **iawngof** Cf. 13.17n.
- 34 **colofnau** Ym maes cerdd dafod a cherdd dant ystyr *colofn* yw 'prif fesur, prif ran neu gangen, mesur neu ran sylfaenol', gw. GPC 544. Yn ôl dadansoddiad Enid Roberts, *art.cit.* 98, ymddengys fod colofn yn cynnwys deg cwlwm o geinciau, sef 240 o geinciau i gyd. Gwybod y pedair colofn, yn hytrach na thair o'r colofnau'n unig, oedd yn rhannu'r penceirddiaid telyn oddi wrth y sawl a enillasai ariandlws. Yn fanylach ar 'bedair colofn cerdd delyn', gw. Bethan E. Miles, 'Swyddogaeth a chelfyddyd y crythor' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1983), 679.
- cadeiriau** Y mae cadair yn uned o gerddoriaeth sy'n cynnwys pum cwlwm o alawon; y mae cwlwm yn cynnwys 24 o geinciau, ac felly y mae cadair yn uned o 120 o geinciau; gw. Enid Roberts, *art.cit.* 98.
- 35 **cymyreddwych** Sef *cymyrredd* 'rhwysg' + *gwyech*.
- 40 **Rhaglan** Cyfeirir yma at gartref yr Herbertiaid yn Rhaglan; ymhellach, gw. J.R. Kenyon, *Raglan Castle* (Cardiff, 1988). A yw Ieuan Delynor yn ymffrostio yma iddo fod cyn belled â Rhaglan yn sir Fynwy ar daith glera? Gwelodd Bob Owen awgrym cyffelyb yng nghywydd Huw ap Richard o Fodwrda pan archodd hwnnw i Ieuan Delynor ddychwelyd i Aberdaron: *treiglaist hyd pan fynaist fan / tairgwlad Howel at Raglan*, gw. Bob Owen, 'Ifan Dylunior', B xviii (1960), 28 (llau. 32–3). Anghytunodd Henry Lewis, 'Cywyddau ymryson Ifan Dylunior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', B xvii (1958), 162, â'r syniad fod Ieuan Delynor wedi canu yn Rhaglan: 'Ymddengys mai hyn yw sail y gosodiad yn y *Bywgraffiadur* i Ifan fod yn clera yn Rhaglan. Cam dyb yw hynny yn sicr. Oni all fod yn gyfeiriad at gywydd Guto'r Glyn i wledd fawr yn Rhaglan?' Y mae Henry Lewis yn siŵr o fod yn llygad ei le yma. Ar wledd Rhaglan, gw. 'I Wledd', GGI<sup>2</sup> 135 (L.5) *Gwledd Ieuan, Rhaglan benrhaith*. Dylid cadw mewn cof hefyd gysylltiad Siân Pilstwn (os hi yw'r *Arglwyddes / Iarlles Siân* a gyferchir yn y cywyddau ymryson hyn) â Herbertiaid Rhaglan, gw. P.C. Bartrum: WG2

‘Drymbenog’ 2(B1); GMBr 4.35n. At hynny, yr oedd Siôn Pilstwn yn fab i Siôn Pilstwn Hen o’i drydedd wraig, Elen ferch Robert Chwitnai o deulu Tewdwr a Rhaglan, gw. P.C. Bartrum: WG2 ‘Puleston’ (A1); ByCyAt 149. Yn sicr, y mae’r cywydd blaenorol fel pe bai’n cyfeirio at gynefindra’r bardd â chanu beirdd y 15g. Posibilrwydd arall yw mai Hywel Dafu yw’r *prydydd gynt ... / Yn Rhaglan*. Gw. y nodyn cefndir.

- 41 **eurwalch** Disgrifiad trosiadol Ieuan Delynor ohono’i hun, ei fod yn arwrol ragorol fel bardd, ond gyda’r islais ei fod hefyd yn aderyn ysglyfaethus ac yn ymladdwr egnïol, a’i ewinedd bachog yn abl i racsio ei wrthwynebwr; rhybudd sydd yma i Ddafydd Trefor fod yn wyliadwrus.
- 42 **blaidd** Disgrifiad trosiadol Ieuan Delynor o Ddafydd Trefor, sef ei fod yn fwystfil ffyrnig a gwancus. Er bod y darlun o flaidd yn aml yn cael ei ddefnyddio’n ffigurol am arwr, yma y mae’n fwy tebygol mai i gyfleu dirmyg tuag at reibiwr creulon y’i bwriadwyd, neu am dwyllwr sy’n ymddwyn yn gyfeillgar ond sydd â dichell yn erbyn teulu’r Penrhyn yn llechu yn ei galon.
- 43 **nid af i’ m hoës** Efallai fod yma arlliw o’r idiom *yn fy myw oes* ‘for the life of me’, gw. GPC 2627: ‘nid af yn fy myw ... / O baradwys ddirwystr ei gwin’ yn y Penrhyn.
- 46 **llys** Eb. oedd *llys* mewn Cym.C., gw. WG 229. Yma ceir cynghanedd sain lle yr odlir *llys / ddaionus*; ar odli’r llafariaid *u, y ac i, gw. J. Morris-Jones: CD 245–9; D.J. Bowen, ‘Pynciau cynghanedd: odli i, u ac y’*, LlCy xx (1997), 138–43. Cf. ll. 78.
- 48 **dawn** Gellid yma ‘gras’, neu efallai’r ystyr ffigurol ‘un â chyneddfau neu allu godidog (am bennaeth, arglwydd, &c.), rhywbeth o rinwedd arbennig (crair, &c.)’, gw. GPC 906.
- 51 Twyll gynghanedd *g*.
- 52 **Arglwyddes Siân** Gw. 14.31n.
- 55 **Yr Wyddfa** Ar yr Wyddfa yng nghanu’r beirdd, gw. G 734. Cyfeirir yma at leoliad cartref Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn, sef yn Llandygái o fewn golwg i’r Wyddfa.
- 63 **awen goeg** Cyfeirir yma at darddell dawn farddol Dafydd Trefor, gan bwysleisio ei bod yn darddell ddieflig yn hytrach na dwyfol; pwnc tebyg oedd hanfod yr ymryson rhwng Siôn Cent a Rhys Goch Eryri, sef bod dau fath o awen farddol ar waith yn y byd, yr awen sanctaidd a’r awen gelwyddog, gw. IGE<sup>2</sup> 181–6 (cerddi LX a LXI).
- 67–70 **ymaelyd** Sef ‘ymaflwr codwm’ yn drosiadol am ymrysonwr barddol. Nid yw Dafydd Trefor yn fodlon derbyn ei fod wedi ei guro—na’r tro cyntaf na’r ail—er i *chwrÿdd* ‘arbenigwr’ farnu hynny; cyfrifir *chwrÿdd* ‘chwarÿdd, perfformiwr ar offeryn cerdd’ yma yn air unsill er

mwyn gofynion y mydr.

- 71–4 Yn y ddau gwpled hyn y mae Dafydd Trefor yn apelio yn gyntaf at ei ‘*wenydd*’ ‘dawn neu ysbrydoliaeth farddol’, ac yn ail at y dwned, llyfr egwyddorion gramadeg neu fydryddiaeth, er mwyn ei gyfiawnhau ei hun; hydera y bydd y ddeubeth yn dyfarnu o’i blaid.
- 73 **syriol** Gellid yma hefyd ddarlleniad llsgr. *C siriol*.
- 77 **ffyrfryd** Deellir yma *ffyrf* ‘cadarn’ + *rhyd* ‘cyfle, braint’ (gw. CA 143–4; Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1980), 164–5 (ll. 42), 169). Yn ystod offeren fendithfawr (‘*conferring great blessings*’) byddai Dafydd Trefor yn hollol ddi-hid o fraint ac urddas yr achlysur, gan ddewis cyboli â thameidiau o benillion a ddeuai i’w ben yn hytrach na gofalu am ei briod waith o fewn yr eglwys. Posibilrwydd arall yw diwygio yn *ffyrfbryd* ‘cadarn o brydferthwch’.
- 78 Cynghanedd sain lle yr odli *dryll* / *pennill*; cf. ll. 46.
- 84 **Llŷn** Cantref yn cynnwys cymydau Cafflogion, Cymydmaen a Dinllaen, gw. WATU 146.
- 89 **rhyfas** Gwelir dau bosibilrwydd yma. Gellid *rhy* + *mas* benthyciad o’r *S. mace* (ond os felly gw. *mes* yn 13.61 a allai hefyd ddwyn yr ystyr ‘*mace*’, neu o bosibl ddwyn ystyr herodrol); cf. S. Rhiannon Williams, ‘Testun beirniadol o gasgliad Llawysgrif Mostyn 111 o waith Wiliam Cynwal ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1965), 15 (5.59–60) *A siryf, â’i fâs* [sic] *euraid*, / *A fu o’r blaen, fawr ei blaid*; *ib.* 288 (93.75–6) *Mor freiniol, mawr fu i’r ynys*, / *Mas pur aur, Domas ap Rhys*. Ar *bas* yn fenthyciad o’r *S. base* ‘*plaited skirt*’, sef ‘sgert blethedig o frethyn neu o felfed neu o frodwaith gwerthfawr ynghlwm wrth ddwbled ac yn ymestyn o’r wasg hyd at y pen-glin’, gw. GPC 262 d.g. *bas*<sup>3</sup>; cf. GLMorg 91.19–20 *Â’th fas aur y’th fesurynt* / *Wrth wŷr o gwrt Arthur gynt* (‘Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon’). Noder y gymhariaeth rhwng Syr Wiliam Gruffudd ac Arthur yn llau. 6, 14.
- 92 **un fan** Yr un man na fydd Ieuan Delynor yn troi cefn arno yw cartref Syr Wiliam Gruffudd yn y Penrhyn. Nodir mai eg. yw *man* ‘*spot*’ (gw. WG 228) ond bod yma amrywio tafodieithol.

16

Ym mhedwerydd cywydd yr ymryson y mae trydydd bardd yn camu i’r drin, sef Ieuan ap Madog ap Dafydd.<sup>1</sup> Y mae adran gyntaf y cywydd (llau. 1–18) yn canmol rhinweddau Siôn Pilstwn, gan ei fesur yn ôl rhinweddau’r Brenin Arthur ac Eidol. Cymherir Siôn Pilstwn o ran grym â rhyferthwy’r môr (ll.

<sup>1</sup> Arno, gw. y Rhagymadrodd, tt. 17–18.



5), a chanmolir ef am ei orchestion milwrol yn gwarchae ar y gelyn (ll. 7). Crybwyllir tair swydd yr oedd Siôn ynglŷn â hwy, a mawrygir ei fedrusrwydd wrth bob un ohonynt: yn sarsiant dan Harri VIII (llau. 15–16); yn gwnstabl castell Caernarfon (ll. 17); ac yna y mae'n dra thebygol fod cwpled a fyddai'n nodi ei amser yn siryf Meirionnydd wedi mynd i golli.

Newidir y cywair yn ail adran y cywydd (llau. 19–34). Daeth yn amser nodi beiau ar gymeriad Siôn Pilstwn: y mae'n ddauwynebog ac yn gamgyhuddwr. Ef sydd wrth wraidd yr helynt ymrysonol hwn i gyd, wedi iddo bardduo enw da Syr Wiliam Gruffudd ar gais ei gyfaill Dr Wiliam Glyn (llau. 27–8). Am hynny, daeth yn amser dial.

Yn nhrydedd adran y cywydd (llau. 35–72), ar gais Syr Wiliam Gruffudd, y mae Ieuan ap Madog ap Dafydd yn awyddus i adfer enw da marchog y Penrhyn, yn ogystal â bwrw ei lid ar Ieuan Delynor. Bwriad Siôn Pilstwn oedd anfon *cythrel gofelyn* (ll. 37) a'i was (ll. 38) i'r Penrhyn; gwas y diafol oedd Ieuan Delynor ac er ei fod yn delynor da (ll. 41) yr oedd yn fardd tila, yn canu o dan ddylanwad awen gythreulig y diawl a oedd yn feistr arno (ll. 42). I gyfeiliant yr orau o'r alawon, canodd Ieuan Delynor gerdd gelwyddog i'r marchog a dylid ei ddifa am hynny (ll. 46). Dilornwyd y marchog a phriodoli i'r gwladweinydd a'r gŵr priod union ei ffordd droseddau anllad Siôn Pilstwn ei hun. Yna, try Ieuan ap Madog ap Dafydd ei sylw at Siôn a'i gyhuddo o drythyllwch: *Pa sôn yr awron yr wyd? / Anlladach dunnell ydwyd*; y mae euogrwydd y cwnstabl yn pwyso'n drymach yn y glorian na mân annoethinebau'r marchog.

Daw'r cywydd i'w derfyn (llau. 73–8) gyda Ieuan ap Madog ap Dafydd yn ymbil ar i Dduw ei iacháu o'i anhwylder. Y mae wedi cymryd ato'n arw ar gyfrif rhan Siôn Pilstwn yn tynnu i'r amlwg gelwydd ynghylch Syr Wiliam Gruffudd—yn wir, y mae'n sâl gan gynddaredd oherwydd hynny. Gymaint yw ei ddieter fel nad yw'r bardd yn dymuno codi o'i wely cystudd oni bai ei fod wedi talu'r pwyth yn ôl i Siôn Pilstwn am ei ymgyrch yn erbyn marchog y Penrhyn.

- 1 **tŵr llwyd** Delweddir Siôn Pilstwn fel 'arweinydd neu ryfelwr cadarn, bendigaid'; cf. 13.31 *Tŵr durwisg* am Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn yntau.

**tor** Y mae'n debyg mai cyfeiriad at dŵr porth y llys sydd yma.

- 3–4 **Siôn ... / ... Pilstwn** Sef mab Siôn Pilstwn Hen, gw. P.C. Bartrum: WG2 'Puleston' (A1); PACF 275; L. Dwnn: HV ii, 150–1; ByCyAt 148–50; gw. hefyd lau. 18, 64. Teitl y gerdd yn ôl llsgr. C yw *kowüdd moliant y M' sion pilstwn* ond daethai'n farchog rywbryd rhwng Medi 1545 a Mawrth 1546, gw. W.R.B. Robinson, 'Knighted Welsh landowners, 1485–1558: a provisional list', Cylch HC xiii (1986–7), 288.

- 6 **tŵr maen wrth dor Menai** Castell Caernarfon.

- 8 **Ilys Edwart** Castell Edward I yng Nghaernarfon.
- 9 **Arthur** Gw. 15.6n.
- 10 **mwdwl aur** Erbyn hyn defnyddir *mwdwl* am bentwr crwn o wair neu ŷd yn unig, ‘a large hay-cock ... equal to ten or twenty *kokja* and bound with a straw rope’, gw. WVBD 381. Arferid defnyddio’r gair yn ehangach, serch hynny, e.e. ‘pentwr o aur coeth’, cf. YCM<sup>2</sup> 68 (llau. 18–20) *ny mynnei y goreu onadunt a digonei, y vot yno yr mwtwl o eur koeth idaw ehun.*
- Eidol** Eidol, Iarlrl Caerloyw, un o arwyr Cymru, gw. G 453 d.g. *Eidal*<sup>1</sup>. Yn sgil Brad y Cyllyll Hirion, amddiffynnodd Eidoel ei hun â *pavl bendigeit* ac wedi lladd 70 o wŷr, dihangodd, gw. BD 99 (ll. 27)–100 (ll. 3). Chwaraeodd ran flaenllaw yn y frwydr rhwng Emrys Wledig a Hengist ym Maesbeli, gan ladd Hengist mewn gornest rhwng y ddau. Am y defnydd a wneir o’r enw *Eidol* yn fersiynau Cymraeg Sieffre o Fynwy, gw. Daniel Huws a Brynley F. Roberts, ‘Another manuscript of the Variant Version of the *Historia Regum Britanniae*’, *Bibliographical Bulletin of the International Arthurian Society*, xxv (1973), 151; WCD 227. Yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’ datgelodd Ysbaddaden Bencawr na ddeuid o hyd i Fabon fab Modron nes cael Eidol fab Aer yn gyntaf; daethpwyd o hyd i Eidol wedi ei garcharu yng Nghaerloyw, ond nid ymddegyys yn y chwedl wedi hynny; arno, gw. CO<sup>3</sup> 138–9.
- 12 **Maelor** Ymsefydlodd cyndadau Siôn Pilstwn yn Emral ym Maelor Saesneg. Disgynnai’r Pulestoniaid o Syr Roger de Puleston, brodor o drefgordd Puleston neu Pilston ger Newport yn swydd Amwythig, a gafodd dir gan Edward I yn Emral ym Maelor Saesneg, ac a ymsefydlodd yno cyn 1283; ymhellach, gw. ByCy 768. Ar y ddwy Faelor, gw. WATU 148.
- 13 **tair swydd** Nodir yma fod gan Siôn Pilstwn dair swydd. Enwir dwy ohonynt yn y cywydd hwn, sef yn gyntaf ei swydd yn *Sarsiant ... / Dan Harri*, sef Harri VIII (llau. 15–16), ac yn ail ei swydd yn gwnstabl castell Caernarfon (ll. 17), ond nid enwir ei drydedd swydd. Y mae’n bosibl fod cwpled a fyddai’n disgrifio’r drydedd swydd hon ar goll o’r cywydd gan y crybwyllir y *tair swydd* drachefn yn ll. 19. Tystia Lewys Morgannwg i natur y tair swydd yn ei gywydd ‘Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon’: *Syr Gei Warwig, Syr Garwy, / Sarsiant hir, Sain Siors nid hwy ... / Clo gwart tŵr Edwart ydwyd / Canys dwbl wart cwnstabl wyd ... / Pen-sieryf pen oes Harri / Wythfed hir i’th fyw wyt ti*, gw. GLMorg 91.5–6, 11–12, 23–4. Daliodd Siôn Pilstwn swydd sarsiant, a bu’n gwnstabl castell Caernarfon o 1523 hyd 1551. Nodir enw Siôn Pilstwn yn siryf Meirion[nydd] ar 23 Mai 1533 (yn rhannu’r swydd â William Brereton), ac eto ar 16 Mehefin 1536 (yn unig ddeiliad y swydd), gw. LSEW 260, ond byddai’r dyddiadau hynny’n rhy hwy ar gyfer yr

ymryson hwn (bu farw Dafydd Trefor *c.* 1528). Y mae E. Breese & W.W.E. Wynne, *Kalendars of Gwynedd* (London, 1873), 51, yn ei wneud yn siryf Arfon yn 1543–4, felly hefyd LSEW 248, ond crys yr anhawster ynglŷn â'r dyddiad. Ond y mae'n rhesymol dyfalu bod Siôn Pilstwn wedi dal swydd siryf yn nauddegau'r 16g. yn ogystal ag yn nhridegau'r ganrif honno, a dyna awgrym Lewys Daron yntau (m. 1530) yn 'Moliant Siôn Pilstwn, Caernarfon' (GLD 12.31) *Siryf, i'n oes, Arfon wyd.*

16 **Harri** Harri VIII.

17 **Bablon** Babilon oedd un o'r dinasoedd ardderchocaf a fu erioed. Oddi mewn iddi yn yr hen balas yr oedd teml Bel (neu Baal) yn adeilad gyda'r godidocaf a gaed, a hynny ar gyfrif y tŵr a oedd yn sefyll yn ei ganol: ond er gwyched rheolwr Babilon yn ysblander ei amgylchfyd, disgleiriach oedd enw Siôn Pilstwn—cymhariaeth garedig â Chaernarfon y dydd. Ymhellach ar ddinas Babilon, gw. OCD<sup>3</sup> 228.

19 **tair swydd** Gw. y nodyn ar l. 13.

21 **dau wyneb** Cyhuddir Siôn Pilstwn o fod yn ddyn dauwynebog, dichellgar; neu efallai fod yma gyfeiriad at y ffaith fod dau, sef Siôn Pilstwn a'i gyfaill Dr Wiliam Glyn, yn gydgyfrifol am droi bai ar Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, er na fyddai neb arall yn breuddwydio dwyn cyhuddiad yn ei erbyn.

27 **doctor** Dr Wiliam Glyn a gynghorodd Siôn Pilstwn i ymhél â'r ymryson yn y lle cyntaf.

29 **ungest** Gair geiriadurol yn ôl GPC 3708, sef *un + cest* 'boliog'; ni restrir yr enghraifft hon.

32 **Canu i bendefig Gwynedd** Sef i Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, Siambrlen Gwynedd (m. 1531); ar gais Dr Wiliam Glyn a Siôn Pilstwn fe'i dychanwyd am ymhél â merch o'r enw Gwenonwy (gw. cerdd 13).

34 **Wiliam** Syr Wiliam Gruffudd.

37 **cythrel gofelyn** 'O liw melyn gwrthun (yn enw. am angau wedi ei bersonoli)', gw. GPC 2422; yma 'anghymodlon, tra annymunol'. Yn teithio yng nghwmni'r cythraul y mae ei *lancwas o Lŷn* (ll. 38) a thybed nad oes yma gyfeiriad at y ddihareb 'Drwg y ceidw'r Diafol ei was', gw. DiarC 84; 'Nid hir y ceidw'r diafol ei was', gw. *ib.* 204? Cynghanedd sain gydag odl lafar *gythrel / gofelyn*.

38 **llancwas o Lŷn** Sef Ieuan Delynor; cf. 18.16 *Tennyn o dir Llŷn*.

41–2 **Melys oedd ei fys a'i fawd, / Difai i ddiawl ei dafawd** Medrai Ieuan Delynor y ddwy grefft, sef cerdd dant a cherdd dafod, ac er ei fod yn canu'r delyn yn felys iawn, yma bwrir sen ar ei ddawn farddol.

44 **mainc** Cf. *talfainc* 13.26n, 14.7. Wrth dâl y fainc, sef ar yr uchel fwrdd, canai Ieuan Delynor eiriau anghynnes i gyfeiliant cerddoriaeth.

- 45–52 Dyfelir Syr Wiliam Gruffudd gan Ieuan ap Madog ap Dafydd a'i ddarlunio ganddo fel *eryr* (ll. 47). Ond cafodd y marchog ei wneud yn gyff gwawd drwy gân ddiflas Ieuan Delynor (cerdd 13) oherwydd, meddir yma, fe'i darluniwyd ganddo fel *baril* (ll. 47), *bwt gwin* (ll. 48), *hydd* yn dianc rhag cŵn hela (ll. 49), *tarw gwinau* (ll. 50), a *twrch du* (ll. 52), pob darlun ag elfen annymunol iddo.
- 46 **gwadd** Un o symbolau'r canu brud pan ddefnyddid enwau anifeiliaid i ddynodi dynion; *gwadd* neu *twrch* (gw. ll. 52) y gelwid y Brenin Rhisiart III yn naroganau cyfnod Rhyfel y Rhosynnau, gw. HSt 156, 158, 159. Ar y *Gadd velltigedig o ennau du6 e hun*, gw. R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer"', B xxii (1966–8), 121. Posibilrwydd arall yw deall *gwadd* yn gywasgiad o *gwahodd*.
- 47 **eryr** Rhestra R. Wallis Evans yr 'eryr du' yn un o'r teitlau ar y Mab Darogan, gw. GWL ii<sup>2</sup> 266; felly hefyd 'cyw eryr', gw. *ib.* 289; Henry Lewis, 'Proffwydoliaeth yr eryr', B ix (1937–9), 114.
- 49 **hydd** Ar arwyddocâd yr hydd, gw. 13.43n.
- 51 **â gair sâl** Ni cheir y ll. hon yn llsg. A; CD *ag arr sal*; wrth ddiwygio dilynwyd arweiniad Henry Lewis, 'Cywyddau ymryson Ifan Dylunior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', B xvii (1958), 170 (ll. 10). Fel arfer disgwylir yr ystyr 'rhodd' i *sâl*, ond yma deellir 'ffiaidd', gw. GPC 3171 d.g. *sâl*<sup>1</sup>.
- 52 **torch** Gw. 13.29n.  
**twrch** Gw. ll. 46.
- 53–4 Cyhuddir Ieuan Delynor o briodoli ei gampau anynad ef ei hun i Syr Wiliam Gruffudd.
- 57 **priodas** Ar sancteiddrwydd sagrafenol priodas ganoloesol, gw. C.N.L. Brooke, *The Medieval Idea of Marriage* (second ed., Oxford, 1994); ODCC<sup>3</sup> 1054–6. Ar ymryson Lladin rhwng gŵr a gwraig, gw. P. Dronke, '“Ad deum meum convertere volo” and early Irish evidence for lyrical dialogues', CMCS xii (Winter 1986), 23–32.
- 58 **wyneb ras** Eg. yw *wyneb*, a deellir *ras* i olygu 'grace'. O ran moesoldeb y mae'r *wyneb* grasol yn glynu wrth safonau sydd uwchlaw safonau pawb arall.
- 59 Cynganedd sain lle yr odlir *ddug / lurig*; ar odli'r llafariaid *u*, *y* ac *i*, gw. J. Morris-Jones: CD 245–9; D.J. Bowen, 'Pynciau cynganedd: odli *i*, *u* ac *y*', LlCy xx (1997), 138–43; cf. 15.78.
- 71 Bai 'trwm ac ysgafn' lle yr odlir *sôn / awron*.
- 72 **tunnell** 'Casgen win', yn ffigurol am Siôn Pilstwn.
- 78 **cwitio** Ystyr *cwitio* yma yw 'talur pwyth'; na foed i'r bardd godi o'i glafwely fyth eto oni fydd wedi dial ar Ieuan Delynor am ei enllib!

## 17

Cywydd o waith Ieuan Delynor yn ailadrodd yn rymusach ei gyhuddiad yn erbyn Syr Wiliam Gruffudd (yr ail) o'r Penrhyn a'i gampau godinebus *dan y manwydd* (ll. 27) yw hwn. Agorir y gerdd â llinellau o glod i'r marchog (llau. 1–12), yr ymladdwr gwych hwnnw y mae gwŷr Gwynedd oll a hefyd y Ffrancwyr o dan ei awdurdod (ll. 3). Darlunnir ef fel *gwalch* (ll. 1), *llew* (llau. 3, 6), *oen* (ll. 5), *cyff* (ll. 7), *carw* (ll. 8), *cawr* (ll. 8), a *paun* (ll. 12). Boed i Bedrog Sant gadw'r gwron hwn yn ddiogel. Yna, molir gwraig Syr Wiliam Gruffudd, sef yr Iarlles Siân (llau. 13–20), gan glodfori ei huchelwriaeth a'i gwaed bonheddig; y mae ei barn yn ddiogel, a gwell gan y bardd fyddai credu gair yr Iarlles Siân o flaen dim a ddywedai ei gwŷr.

Y mae ail adran y cywydd (llau. 21–54) yn ymdyngedu i ddweud y gwir yn ei holl ddflastod. Nid yw'r bardd yn dymuno cadw cefn dau ddihiryn—na'r marchog na'i fardd. Yn hytrach, bwriad Ieuan Delynor yw cyhoeddi anffyddlondeb Syr Wiliam i'r byd, a'i ddychanu am ei ffolineb; eisoes canodd ddwy ddychangerdd i'r un perwyl (*Dau wni* ll. 25).

Trodd Ieuan at ddychan am reswm da. Gellid cymharu amcanion Syr Wiliam Gruffudd â bwriadau [g]wŷr ... [g]wareiddwych / *Yn Ewias* (llau. 33–4) nad yw'n cael ei enwi yn y cywydd hwn. Y mae'n bosibl fod yma gyfeiriad at Geraint fab Erbin, person hanesyddol (ganed c. 580) ac arwr y rhamant Arthuraidd 'Geraint ac Enid', a wrthododd Enid, dros dro. Ond y mae'n fwy tebygol, yng ngoleuni'r cyfeiriadau eraill at ganu Guto'r Glyn, a'r cyfeiriad at y *prydyddesau* yn llinell 36, fod yma enghraifft ddiddorol o ryngdestunoldeb a chyfeiriad at Harri Gruffudd o Ewias. Cyhuddodd Guto'r Glyn ef o fod yn ddigon hael wrth rannu gwin, ond *Ni chawn o'ch arian ychwaith, / Na dim wrth fyned ymaith*.<sup>1</sup> Dim ond ffefrynnau a gâi arian ganddo. Aeth si ar led ei fod ar fin rhoi gwaddol i ddwsin o'i brydyddesau. Tystiodd ei wraig Gwladus i'w haelioni, ond tystiolaeth y glêr y gwrthodwyd iddynt dâl prydyddu oedd: *Mab y crinwas Ewas wyd*.<sup>2</sup> Tynnir cymhariaeth debyg ynghylch perthynas Syr Wiliam Gruffudd â'i feirdd yntau yn y Penrhyn: yr oedd weithiau'n llawagored tuag atynt, dro arall yn grintach ei daliad, yn ôl pwy a ffafriai ar y pryd. Teimlai Ifan nad oedd yn cael y nawdd a haeddai (llau. 37–8), tra câi eraill a oedd yn llai meistraidd eu dawn eu hanrhegu yn fwy teilwng.

Yn nhrydedd adran y cywydd (llau. 55–90) darlunnir yn fanylach anturiaethau'r marchog, a dilynir ei symudiadau'n ofalus o un man i'r llall ar ei siwrnai garu. Cloir y cywydd â gair o gyngor i Syr Wiliam, ei fod yn ymgadw rhag y gweithredoedd hynny sy'n demtasiwn i wŷr a fu'n llymeitian gwin. Gellir tybio o'r cywydd fod yr Arglwyddes Siân yn dal i ochri gydag Ieuan Delynor ac yn cytuno â'i gyhuddiadau yn erbyn ei gwŷr.

<sup>1</sup> GGI<sup>2</sup> 216 (LXXXII.21–2) 'Lled-ddychan i Harri Gruffudd o Ewas'.

<sup>2</sup> *Ib.* 217 (LXXXII.40).

3 **llew** Sef yn drosiadol deilwng am ymladdwr gwrol a ffyrnig, yn ogystal ag am ŵr o fonedd, un urddasol; fe'i ceir hefyd yn enw ar y Mab Darogan, cf. GDL1 99 (42.17) *Llew in a wna llawenydd*. Noder bod yn eglwys Llandygái (gw. RCAHM (Caernarvonshire) i, 104) feddrod o'r 15g. 'with effigies of a man and a woman ... The man is in armour, his bare head resting on a mutilated helm and his feet on a crouching lion. The crest has disappeared. He wears a collar of suns and roses with a pendent lion. On his left shoulder is a pauldron; his sword and dagger are broken ... The tradition that it was erected for Sir William Griffith of Penrhyn (*ob. ca.* 1490) is possible, though it lacks confirmation.' Tebyg yw tystiolaeth Richard Haslam, Julian Orbach & Adam Voelcker, *The Buildings of Wales: Gwynedd* (London, 2009), 397: 'Late Gothic alabaster TABLE TOMB perhaps of Sir William Griffiths (†c. 1506) and his wife. Life-size figures, he in armour with a lion at his feet, she very slender, in a long gown. Shallowly modelled angels under crocketed and pinnacled canopies on the tomb chest.' Sylwer ar ddefnydd *llew / ffrwleu* deirgwaith o fewn chwe ll. gyntaf y cywydd. Cyferbynnir *llew* ac *oen* yn fynych: grymuster y naill a thynnerwch y llall, gw. ll. 5n.

y **Ffranc** Gwelir yma gadarnhad mai Ffrainc yw'r drydedd o'r *teiriath*, gw. 13.4n, 15.4n. Gwasanaethodd Syr Wiliam Gruffudd yn Ffrainc yn 1513 dan Brandon. 'Yr oedd yn bresennol yng ngwarchae Théroutane, ym mrwydr yr ysbardunau, ac yng ngwarchae Tournai ym mis Awst 1513, ac urddwyd ef yn farchog yn Tournai, 25 Medi 1513', gw. ByCyAt 97. Diwygiwyd er mwyn rheoleiddio hyd y ll.

5 **oen** Yma yn ffigurol am Syr Wiliam Gruffudd, ond dyma'r ddelwedd a ddefnyddir yn aml am Grist a gwelir yma adlais o'r gymhariaeth honno. Arwyddocâd pellach i'r *oen* yw ei fod yn un o'r termau brud: yn y darn rhyddiaith 'Proffwydoliaeth y wennol' y mae *oen* ymhlith yr wyth enw sydd i'r sawl sy'n ymladd yn erbyn y *wadd* (gw. 16.46n), cf. GDL1 99 (42.35) *Oen y drin*. Sylwer ar y gwrthgyferbyniad â *llew* yn ll. 3.

**yn rheol** Gellid hefyd *yn yr heol*.

8 **Carw a nerth cawr yn ei og** Dynodi arwr a wna *carw*, ac y mae i'r arwr hwn nerth goruwchddynol yn ei gym. Ar ystyr drosiadol *og*, gw. GPC 2638 d.g. *og*<sup>1</sup>, a cf. yr englyn i'r 'Karw' a nodwyd yn yr adran ar gyfansoddiadau amheus eu hawduraeth yn GDG<sup>3</sup> 421 (DG.net 170.3) *gŵr balch ag og ar i ben*. Ymhellach, gw. GGL1 6.4n.

11 **Pedrog** Ar Bedrog Sant, gw. LBS iv, 94–103; TWS 199–205. Canodd Dafydd Trefor gywydd 'I ofyn bwa gan Syr Lewys ab Ieuan ap Tudur, rheithor Llanbedrog, dros Syr Wiliam' (GSDT cerdd 8); bu Syr Lewys Niwbwrch yn rheithor plwyf Llanbedrog hyd 1535, ac yn ôl *Valor*

*Ecclesiasticus* 1535, vi, xxxiii, yr oedd ganddo waywffon ryfeddol yn eglwys y plwyf, a chwedl (anhysbys yn awr) yn gysylltiedig â hi, gw. LBS iv, 102–3, a 103n1. Gw. hefyd TWS 200–2. Ar *pedrog* ‘profedig’, gair geiriadurol, gw. GPC 2708.

- 12 **Penrhyn Nudd** Ar Nudd, y gwron hael, gw. 13.53n; cyffelybir Syr Wiliam Gruffudd o’r Penrhyn yn Llandygái i Nudd Hael. Ar esmwythyd helaethwych plasty’r Penrhyn yng nghyfnod Syr Wiliam, lle y ceid ‘moethusrwydd heb ei fath’, gw. Enid Roberts (darluniau gan D.B. Hague), *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350–1650* ([Felindre, Abertawe], 1986), 48–9; RCAHM (Caernarvonshire) i, 103.

**paun** Defnyddir *paun* yn drosiadol ar ddau gyfrif, sef yn gyntaf i adlewyrchu gwycheder milwrol, cf. GHC 16 (IX.39–40) *Paun y drin, pwy ond Rheinallt / A dynnai’r ofn dan yr allt?* ac yn ail i awgrymu haelioni, cf. GIG 22 (V.35–6) *Plant Tudur, fy eryr fu, / Peunod haelion pen teulu* (‘Moliant i feibion Tudur o Fôn’).

- 13 **marchogwaed** Yr oedd Siân Stradling, gwraig gyntaf Syr Wiliam Gruffudd, yn ferch i Syr Tomas Stradling o Sain Dunwyd ym Morgannwg. Yr oedd Siân Pilstwn, ail wraig Syr Wiliam Gruffudd, yn ferch i Siôn Pilstwn Hen, a’i gŵr cyntaf hi oedd Robert ap Maredudd, Glynllifon, a fu farw c. 1509. Yr oedd Siân Pilstwn yn chwaer i Siôn Pilstwn (cwnstabl castell Caernarfon rhwng 1523 a 1551) a’r un a barodd i Ieuan ddychanu Syr Wiliam Gruffudd. Ni ellir bod yn gwbl sicr at ba Siân y cyfeirir yma.

- 15 **Iarlles Siân** Gw. 14.31n; hefyd isod llau. 20, 53. Cyfatebiaeth s. s. = s.

- 16 **y Grog** Gwnâi’r Iarlles Siân arwydd y Grog yn arwydd o’i defosiwn. Yr oedd y Grog o Gaer yn enwog drwy ogledd Cymru am ei galluoedd i buro ac iacháu. Canodd sawl bardd iddi: gw., e.e., GMRh (cerdd 2); GLI (cerdd 1); GIBH (cerddi 10, 11), a gw. y nodiadau rhagymadroddol gwerthfawr i’r ddwy gerdd hynny. I’r beirdd gallai’r Grog hefyd olygu person Crist ar y groes yn hytrach na phren y groes, gw. GILIF 16.23 *Y Grog yw’r Gŵr a garaf*. Mewn cyd-destun lleol, dylid nodi bod Tegai Sant wedi ei gladdu ym mynwent yr eglwys a gysegrwyd iddo, mewn arch o faen, gyda chroes o faen i nodi’r fan. Diogelwyd yr arch, ac y mae darn o’r groes (honedig) ar gael a chadw, gw. Derfel Hughes, *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* (Bethesda, 1866), 69–71. Tybed ai hon yw’r Grog? Ar Degai Sant, gw. LBS iv, 215–16. Ond gellid hefyd ddarlleniad llsgrau. AE *ar wedd i r grog*, cf. GDGor 1.57 *Gweddi fawr gref gwyddfa’r Grog*.

- 19 **a thrwy’r dir** ‘A thrwy’r wlad’ gwyddys am eirwiredd Siân.

- 21 **dwyn ei nawdd** Nid yw’r bardd yn fodlon lladrata nawdd yr iarlles drwy dderbyn o’i haelioni ac yna droi llygad dall i anlladrwydd ei gŵr. Yn hytrach, dewisa ddatguddio’r gwirionedd amdano yn gyfnewid am

helaethrwydd rhoddion Siân.

- 23–4 **Ifan ... / Amhadog** Ieuan ap Madog ap Dafydd, awdur cerdd 16; gw. hefyd l. 38.
- 25 **gwni** Deellir yr eg. unsill *gwni* ‘gwnïad, brasbwythiad, gwrym’ yn ffigurol yma am ‘gerdd gywrain’, cf. GSCyf 14.19 *Difrad o wniad a wnâi* (Llywelyn ab y Moel). Eisoes yr oedd Ieuan Delynor wedi canu dwy gerdd ddychanol i Syr Wiliam Gruffudd, sef cerddi 13 a 15 y gyfrol hon.
- 31–2 Sylwer ar yr odl rhwng *debig / frig*, a cf. ll. 67.
- 33–4 [**g]ŵr ... [g]wareiddwych / Yn Ewias** Harri Gruffudd o Ewias oedd yr uchelwr ‘addfwyn a rhagorol’ hwn. Gw. GGI<sup>2</sup> 216 (LXXXII.5–6) *Harri Gruffudd, grudd y gras, / Hydd a llywydd holl Euas*, ac ar Harri Ddu (o Ewias) ap Gruffudd ap Harri ap Siôn yn derbyn ffafrau Iarll Warwick am ei ran yn nhu byddin yr Iorciaid, gw. H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Stroud, 1998), 70; elwodd ymhellach drwy law Wiliam Herbert, gw. *ib.* 98.
- 34 **Ewias** Cwmwd yng Ngwent, gw. WATU 68, 270; cantref rhwng Talgarth ac Erging, gw. W. Rees, *An Historical Atlas of Wales* (new ed., London, 1972), plât 28.
- 35 **c’ledodd fel clau** Sangiad yn disgrifio’r modd y bu i’r gŵr o Ewias fynd yn gybyddlyd neu’n grintach *fel clau*; deellir mai amrywiad ar *clai* sydd ma, sef y clai a ddefnyddid i wneud briciau.
- 36 **prydyddesau** Cf. GGI<sup>2</sup> 217 (LXXXII.33–4) *Bod yt (ni wn na bai dau) / Ddwsin o brydyddesau* am Harri Gruffudd o Ewias. Yn ôl un farn am Harri yr oedd yn hael tuag at brydyddion tila. Ymhellach, gw. Marged Haycock, ‘Dwsin o brydyddesau? Achos Gwladus “Hael” ac eraill’, *Dwned*, 16 (2010), 93–114.
- 39 Y mae’r ll. hon sillaf yn rhy fyr.
- 41 **wrth eraill** Y mae Ifan yn cael ei ddigoni, ond y mae pawb arall yn cael ei nacáu.
- 42 **Caled a wyd yn cloi da** Cf. y cwpled yn ‘Lled-ddychan i Harri Gruffudd o Euas’ yn GGI<sup>2</sup> 217 (LXXXII.27–8) *Cloi dy dda, caledu ‘dd wyd, / Caledach no’r clo ydwyd*. Cwyn yn erbyn Syr Wiliam Gruffudd yw hon, ei bod yn amhosibl gwasgu arian o’i groen, a’i fod yn cadw ei gyfoeth dan glo.
- 45 **Cawr rhyfel, carw hoyw ifanc** Cf. ll. 8.
- 46 **banc** Saif y Penrhyn ar godiad tir.
- 49 **organ** Gwyddai beirdd yr ymryson hwn am seiniau hudolus organ Eglwys Gadeiriol Bangor, a chyfeiriwyd ati gan Ddafydd ap Gwilym, gw. GDG<sup>3</sup> 42 (15.11) (DG.net 8.11) a chan Syr Dafydd Trefor yn ei



gywydd 'I Ddeiniol Bangor a'r Esgob Thomas Skeffington', gw. GSDT 14.41 *Organ bêr, cân offeren* a'r nodiadau ar y ll.

- 52 **Oddfyn doeth, addfain nid wyd** Gellid aralleirio 'Lwmpyn mawr [ond] doeth, yr wyt ymhell o fod yn fain.'
- 56 Cynghanedd wallus: *ch.b* yn ateb *ch.d.d.b*.
- 60 **Ogwen** Afon yn codi ar Garnedd Ddafydd ac yn rhedeg dan yr enw Afon Dena i Lyn Ogwen, yna ymlaen drwy Nant Ffranco heibio i Landygái ac i'r môr ger plas y Penrhyn; ymhellach, gw. EANC 81–2. Ar anawsterau teithio yn yr Oesoedd Canol, yn enwedig felly rydio afonydd megis Afon Ogwen, gw. Gruffydd Aled Williams, 'Cywydd Gwilym ap Sefnyn i Afon Ogwen ac Afon Menai', *Dwned*, iii (1997), 83–95. Gw. hefyd ll. 66.
- ynglŷn agos** Fe'i deellir fel *agos ynglŷn* 'almost held fast'.
- 64 **loets ... lets** Dilynir taith Syr Wiliam Gruffudd yn ôl i'r *loets* S. 'lodge'; ar y gair S. *let* 'rhwystr', gw. OED<sup>2</sup> viii, 844.
- 66 **Ogfaen** Nid yw'r e.ll. *ogfaen* 'criafol y moch; egroes, criafol y bwci, afalau'r bwci' (GPC 2638) yn gweddu yma (cf. GRhGE 16.30 *Ogfaenlliw bais* 'pais o liw egroes neu ogfaen') ac felly deellir ffurf amrywiol ar (afon) Ogwen, gw. ll. 60. Ceir yr un ffurf gan Wilym ap Sefnyn, *Ogfaen gynddeiriogferw*, gw. Gruffydd Aled Williams, *art.cit.* 88, yn ogystal ag mewn dogfen o'r flwyddyn 1449 *flumen Ogvayn*, gw. *ib.* 90–1. Ymhellach, gw. EANC 81–2: *Ogf?* > *Ogfan* > *Ogwan* > *Ogwen*.
- 67 Cynghanedd sain gyda'r odl *disgin/drablin*; cf. yr odl rhwng llau. 31–2.
- 68 Twyll gynghanedd *b*, neu gynghanedd bengoll.
- 70 **O'r mawrwalch i'r mieri** Llsg. E *mawrwalch mewn mieri*; wrth ddiwygio dilynwyd arweiniad Henry Lewis, 'Cywyddau ymryson Ifan Dylunior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', B xvii (1958), 172 (ll. 70).
- 71 **ni beiddiais bin** Defnyddir *pin* i enghreifftio peth diwerth neu fach iawn.
- 74 Bai 'caled a meddal', cyfatebiaeth -ch c- = ch g.
- 76 **sarsiant** Sef Siôn Pilstwn.
- 79 **murniad** Sef 'twyll'. Gellid aralleirio 'There will not be the grace of the failure of his great strength.'
- 80 **cwnstabl** Y mae'r cyfeiriad at Syr Wiliam Gruffudd yn parhau i'r ll. hon.
- 86 **galawnt** Ar yr ystyr 'gwyh, hardd, bonheddig', gw. G 519; cf. DN 87 (XXXI.3) *Doe gwelais ddyn dec alawnd / Dwf addvain dan liain lawnd*; DGG<sup>2</sup> 161 (LXXXVI.29) *Du, galawnt, yw ei goler* ('Cywydd i ofyn milgi du' a gyhoeddwyd yn DGG<sup>2</sup> o dan enw Llywelyn Goch ap Meurig

Hen, ond a wrthodir o'i ganon yn GLIG ac a briodolir i Huw Pennal yn GDG lxxxix). Gw. EEW 51, 72, 202.

88 y **doctor** Dr Wiliam Glyn; arno, gw. 14.38n.

89 Twyll gynganedd g.

## 18

Dyma'r chweched a'r olaf o'r cywyddau a ganwyd yn yr ymryson hwn, cywydd o waith Ieuan ap Madog ap Dafydd.<sup>1</sup> Y mae pum adran i'r gerdd. Egyr â datganiad athronyddol ynghylch rhedfa gyflym amser, a'r sicrwydd mai *Traean awr* 'ysbaid fer' (ll. 2) yw ei hyd. Dylid sylweddoli bod y byd hwnnw'n un twyllodrus, a bod meistri'r byd yn ansafadwy: dim ond un meistyr sydd i lu trallodus, a hwnnw yw Iesu (llau. 1–6).

Y mae'r ail adran yn bytheirio am y drefn newydd a ddaethai i'r Penrhyn gyda dyfodiad bardd newydd i'r plasty. Er i Ieuan ap Madog ap Dafydd dybio na wnâi meistyr y plas fyth ei fradychu am arian na mantais bersonol arall, dyna'n union a wnaethai Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, ac fe'i cyhuddir o hynny yn ddi-flewyn-ar-dafod (llau. 11–12). Er mai arfer y marchog oedd gwahodd Ieuan ap Madog ap Dafydd yn fardd i'r Penrhyn, erbyn canu'r cywydd hwn daeth tro ar fyd ac y mae disgwyl iddo ildio ei le i arall (llau. 15–16), a'r arall hwnnw yn [*d*]ennyn o dir *Llŷn*. Cefnogir y newyddian gan yr Arglwyddes Siân, a roddai aur di-ben-draw i'w ffefryn diweddaraf. Daethai'n amlwg fod Syr Wiliam yn rhy wan o gymeriad, neu'n ormod o fradwr, i sefyll dros ei argyhoeddiadau ac ochri gydag Ieuan ap Madog ap Dafydd. Yr oedd y marchog afradus mor ddi-ddal â'r gwynt ac mor ddichellgar â thaith yr haul yn dallu'r llygad (llau. 19–20). Cyffelybir Syr Wiliam Gruffudd, y bardd a'r telynor melodaidd, i'r telor annoeth hwnnw yn y ddihareb a gariodd neidr (Ieuan Delynor) i'w nyth yn y Penrhyn. Ymffrostiodd Ieuan Delynor o *lawndy gwin Landygái* (ll. 36) ei fod cystal â Thudur Aled a thybiodd y gallai ddychryn Ieuan ap Madog ap Dafydd â'i froliadau ac â'i farf, ond nid felly. Y mae Ieuan ap Madog ap Dafydd yn benderfynol na chaiff ei wthio allan o'r Penrhyn gan fardd mor bitw (llau. 37–40).

Ond er na fu'r marchog yn driw i Ieuan ap Madog ap Dafydd, yn nhrydedd adran y cywydd (llau. 41–52) y mae'r bardd yn sefyll o blaid yr uchelwr. Haera mai absen celwyddog yw'r cyhuddiadau a wnaed yn erbyn Syr Wiliam Gruffudd, ond wrth godi ei lais i'w gefnogi yn y modd hwn y mae'r bardd yn ailadrodd y cyhuddiadau a wnaed am gampau anllad y marchog gan atgoffa ei gynulleidfa ohonynt unwaith yn rhagor yn hytrach na'u cuddio oddi wrthi.

<sup>1</sup> Gw. hefyd gerdd 16 'I Siôn Pilstwn', a cherdd 19 'Marwnad Syr Dafydd Trefor' o waith yr un bardd.

Yn llinell 53 gelwir ar y Duw *anial* ‘rhyfeddol’ i fod yn dyst i’r ffaith fod y bonheddwr duwiol Syr Wiliam Gruffudd, ynghyd â’i deulu a’i gyfeillion a’i gydnabod, oll wedi cael eu halogi yn sgil y ffrae ddiurddas hon. A’r sawl a oedd wrth wraidd yr holl helynt? *Malais y doctor melyn / A’i bwrs hael a beris hyn* (llau. 57–8). Medd-dod Dr Wiliam Glyn a’i awydd i achosi niwed sydd wrth wraidd y gynnen, ac yr oedd wedi difwyno cymdeithas wâr yn sgil hynny. Ond nid oedd Dr Glyn ei hun uwchlaw amheuaeth, mwy na’i was bach (o bosibl Siôn Pilstwn, er nad enwir ef): yr oedd y ddau yn drythyll a didostur. Cyffelybir Dr Glyn i gwch yn hwylio i bob harbwr a chilfan ar ryw berwyl drwg, a’i *fad drwg ei nâd*, i’w ganlyn (llau. 67–8). Yn rhan o’i amddiffyniad o Syr Wiliam Gruffudd gwelir y bardd yn ymosod yn greulon ar ddau elyn yr uchelwr, sef ar Dr Wiliam Glyn yn llinellau 61–82, ac ar Siôn Pilstwn yn llinellau 83–6.

Deuir â’r cywydd i ben drwy ganmol unwaith yn rhagor arglwydd y Penrhyn (llau. 87–92). Er i elynion Syr Wiliam Gruffudd ei ddifenwi, ni lwyddwyd i ddianrhydeddu ei enw da yng ngolwg y byd, meddir. O’r dynion hyn i gyd, petai gan ferch ei dewis, y ffefryn ganddi bob tro fyddai Siambrlen Gwynedd: ef fyddai pob merch am ei glywed yn siarad â hi.

1–2 Ehediad amser, ac felly fyrhoedledd dyn, yw neges y cwpld agoriadol; yr oedd honno’n neges boblogaidd iawn gan y beirdd, cf. geiriau Iolo Goch am Ddafydd ap Gwilym, *Hudol doe fu hoedl Dafydd, / Hoyw o ddyd pe hwy fai’i ddydd*, gw. GIG XXI.1–2.

2 **traean awr** ‘Ysbaid fer’. Rhan o fydolwg y bardd yn yr Oesoedd Canol oedd nodi byrhoedledd bywyd. Felly yma: dim ond trydedd ran o awr yw amser dyn ar y ddaear, meddir; mewn cyd-destun gwahanol, cf. *Ni chysgais i, ni chwsg serch, / Draean noswaith hyd neithiwyr / Drwm lwc, hun drymluog hwyr*, gw. GDG<sup>3</sup> 252 (92.4–6) (DG.net 90.4–6).

3–4 Sylwer ar yr odli anghyffredin rhwng *swyddau* a *sai*’ ym mhrifodl y cwpld.

7 **Wiliam** Sef Syr Wiliam Gruffudd.

13 **heb ymgel â’r helynt** Sef ‘heb guddio fy hynt/taith’; gynt yr oedd yn mynd yn rhydd i’r Penrhyn.

14 **a’r gofyn gynt** Gynt, câi Ieuan ap Madog ap Dafydd ei wahodd i’r Penrhyn, ond nid bellach.

15–16 Sylwer ar yr odl lafar rhwng *digie / lle* ym mhrifodl y cwpld hwn; y mae odl lafar o’r fath yn nodwedd ar ganu Ieuan ap Madog ap Dafydd, cf., e.e., ll. 72.

16 **tennyn o dir Llŷn** ‘Rhaff’, trosiad dilornus i ddisgrifio Ieuan Delynor—ar gyfrif ei ymddangosiad, sef yn denau a lliprynaidd, ond hefyd o ran ansawdd ei farddoniaeth, sef yn ddiaddurn, ansoffstigedig a ffwrdd-â-hi; cf. Dyfnwal yn David Owen, *Attodiad i’r Blodau Arfon*

(Caernarfon, 1869), 35, *un wedi ei galw –, a'r llall yn denyn pen bawd*; John Rhydderch, *Llyfr Carolau a Dyriau Duwiol* (Amwythig, c. 1729), [ii], *Ond am Gerddi penagored, a rheffynnau pen bawd, nid oes ddiben ar wellhau cynghaneddion y rheiny*. Gŵr ifanc o dir Llŷn oedd Ieuan Delynor, cf. 16.38 [*lancwas o Llŷn*].

- 19 **'Hudrwydd** Deallir yma dalfyriad o *ehudrwydd* 'twyll, dichell, amryfusedd; ... byrbwylltra, anystyriaeth', gw. GPC 1185, yn ddisgrifiad o gymeriad Syr Wiliam Gruffudd.
- 21–4 **Tebyg ... / ... o'i phlas** Ni ddigwydd y ddau gwpled hyn yn llsgrau. 'r 16g. (BL Add 9817, 190<sup>v</sup>; LIGC 3051D [= Mos 148], 572) nac yn llsgr. J 140, 543, a ddyddir i ddechrau'r 17g. Y llsgr. gynharaf i'w harddel yw llsgr. (o Llŷn, sylwer) sef Llst 123, 153, a ddyddir i'r cyfnod 1644–50. Adroddir yn y ddau gwpled hyn stori *telor* 'cnocell y coed' annoeth yn cario neidr *ddireidlas* < *diriaid* 'drwg' + *glas* 'angheuol' i'w nyth: ergyd y stori yw ei bod yn ddigon hawdd croesawu neidr i nyth ond ei bod yn amhosibl ei hanfon oddi yno; cf. y ddihareb yn E.G.B. Phillimore, 'A fragment from Hengwrt MS. No. 202', Cy vii (1886), 145, *Delor a d6c dr6c oe nyth*; TW (Pen 228), *telor a ddrwg drwg yw nyth ny ddrwg allan mono byth. neitr*. Gellir cymhwyso hynny a gweld yma ddarlun o'r *telor*, Syr Wiliam Gruffudd, yn gwahodd Ieuan Delynor (y *neidr*) i'r Penrhyn ac yn methu â thro'i'r cloc yn ôl i'r amser pan nad oedd yn rhaid i wahoddedigion y Penrhyn wrando arno'n rhygnu canu.
- 23 Cynghanedd lusg wan: eid(r) = eid(l)
- 26 **Suddas** Cyffelybir Syr Wiliam Gruffudd yma i Jwdas Iscariot, y patrwm ysgrythurol o fradwr am iddo fradychu Crist i'r awdurdodau Iddewig (gw. Marc xiv.10; ODCC<sup>3</sup> 912) ac oherwydd hynny, oddi mewn i'r Eglwys Gristnogol, fe'i ffeiddiwyd o fôr i fôr. Arferid ateb *h* yn rheolaidd mewn cytseinedd, ond sylwer yma ar *h* dan yr acen heb ei hateb.
- 29 **Ifan** Ieuan Delynor; gw. hefyd l. 40.  
**tarian y durew** Sef '*champion / harbinger of the black frost*'; deallir *durew* yn drosiadol i olygu 'tynged ddrwg'.
- 30 **rhaff flew** Cf. LIB 96 (llau. 28–9) a *gogyr, a chelwrn, a mennei, a raff vlew*, a gw. *ib.* 267 ar *r. vlew*: '*funis cilicinus*' (*rhaff flew gafr*) sy'n nodi, yn ddifyr iawn, mai blew gafr yw ei defnydd. Ar y cywydd i ofyn geifr gan bedwar person plwyf, gw. cerdd 1 (Dafydd Trefor) ac am yr ateb i'r cywydd hwnnw (o waith Gruffudd ap Tudur ap Hywel), gw. cerdd 2. Yma, wrth drafod prydyddiaeth Ieuan Delynor, defnyddir y trosiad *rhaff flew* i gyfleu i. ei bod o'r un lliw â rhaff o flew gafr, sef yn anniddorol a dieneiniad, neu ii. ei bod o'r un effeithiolrwydd â rhaff flew, sef i bwysleisio ei gwendid cymharol. Posibilrwydd arall yw *blew* 'gweiryng', cf. J. Davies, *Llyfr y Resolusion* ([Llundain], 1632), 155,

*blewynnau glaswellt ar y ddaiar*. Ym Môn arferid llunio *penbawd* ‘rhaff a wneir wrth droi gwellt am y bawd’, gw. *Llên a Llafar Môn*, gol. J.E. Caerwyn Williams (Llangefnî, 1963), 100. Cyfatebiaeth ff = ff. f; twyll gynghanedd r.

- 31 **Ag odlau i’n cefnau i’n cur** Gellid aralleirio’r ll. ‘With rhymes behind our backs to our chagrin’.
- 32 **Tudur** Sef Tudur Aled, a oedd ymhlith y goreuon o ran awen farddol; ymhellach arno, gw. TA; CLC<sup>2</sup> 733 a’r cyfeiriadau pellach yno.
- 34 **Ingram** Y mae’n debygol iawn mai cyfeiriad sydd yma at Siôn Ingram, prior Penmon, a restrir ymhlith y 43 o glerigwyr esgobaeth Bangor a gadwai gariadferch yn 1504 (gw. A.I. Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century* (Bangor, 1923), xiii, sy’n ei alw’n Richard Ingram) ac a fyddai o’r herwydd a’i awen o darddiad amheus.
- 36 **Llandygái** Ym mhlwyf Llandygái y safai’r Penrhyn, cartref Syr Wiliam Gruffudd, gw. WATU 109–10.
- 40 **mulfran** Gellid yma un o nifer o adar sy’n plymio i’r dŵr, megis bilidowcar neu fwltur, ac fe’i defnyddir yn ddiffriol yma i ddisgrifio Ieuan Delynor â’i lais cras a’i natur reibus: cyfeiriad y mae’n debyg at y ffaith fod fwltur yn byw ar ei ysglyfaeth; cf. yr un defnydd yn GST i, 519 (131.47–8) *Cigfrain a mulfrain Moelfre*, / *Cau egr eu llais, coeg yw’r lle*.
- 41 **cof** Gall *cof* olygu ‘defnydd barddoniaeth’, ac felly gellid aralleirio ‘Y mae [Ieuan Delynor] wedi rhoi mewn barddoniaeth ... / Anghlod i’r siambrlen’; *f* dan yr acen heb ei hateb.
- 42 **siambrlen** Syr Wiliam Gruffudd, Siambrlen Gwynedd; gw. hefyd l. 92.
- 47 **isgil** Ar *isgil*, *is gil* yn adf. ‘y tu cefn, y tu ôl; o’r neilltu; isod, i lawr, i waered’, gw. GPC 2037–8; cf. GDG<sup>3</sup> 255 (93.43–4) (DG.net 118.43–4) *Ys gwir y bwrir baril / Ysgwd, pan fo gwag, is gil*, a’r nodyn ar l. 44.
- 49 **carnfais** Sef *carn* ‘prif’ + *bais* ‘gwaelod, sarn, rhyd, y lle y cerddir arno; camu, cerdded’, gw. GPC 250; gellid aralleirio ‘er dilyn merch dros ryd gyda chamau breision ...’.
- 52 **euro’i glych** Cyfeiriad at fyd hebogyddiaeth yw hwn, a’r ffaith fod clychau’n cael eu clymu wrth goesau gweilch, gw. OED<sup>2</sup> ii, 159 d.g. *bewet, bewit*; *euro* ‘anrhydeddu’ neu ‘enhance’.
- 53 **anial** Gw. y nodyn cefndir uchod.  
**diwynwyd** Halogwyd y cwmni cyfan oherwydd enllibio Syr Wiliam Gruffudd.
- 55 Cynghanedd bengoll.
- 57 **y doctor melyn** Yr oedd i liwiau arwyddocâd arbennig yn niwylliant yr Oesoedd Canol. Ceid dwy ystyr i’r lliw melyn, sef ystyr dda yn deillio

o'r gymhariaeth â gwres a goleuni'r haul, ac ystyr lai ffafriol. O'r ddwy ystyr hyn yr ail sydd yn gweddu orau yma: y gelyn melyn oedd angau, a defnyddir *melyn* yma i ddisgrifio un gwrthun, anghymodlon, neu annymunol, sef Dr Wiliam Glyn. Ond efallai fod yma gyfeiriad at radd y *doctor melyn*. Graddiodd Dr Wiliam Glyn yn y gyfraith sifil a'r gyfraith eglwysig 'B.C.L. and B. Canon Law', gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 212, a thybed beth oedd lliw cwfl y graddau hyn?

- 59–60 **Bwrw'i hun a thestunio / Atom a wnâi** Ar *bwrw* 'bwrw i lawr, dymchwelyd' yng nghyd-destun y beirdd, cf. GILIV 15 (VII.1–2) *Bwriwyd un bardd brad enbyd / Bwriai Dduw ben beirdd y byd*; ac ar *testunio* 'dychanu (mewn barddoniaeth), gwawdio, sarhau', gw. GPC 3489. Dr Wiliam Glyn sydd dan sylw yma eto.
- 64 **Fo sbiai'n gall wall ar wen** Gellid aralleirio 'Fe chwiliai'n gyfrwys am fodd i gymryd mantais ar ferch.'
- 65–6 **Mae cwd melfed, o'm credir, / Y sarsiant, ni warant wir** Y mae *cwd melfed* yn cyfeirio at yr ysgrepan ddogfennau a oedd ym meddiant sarsiant, ac fe'i gwelir yma yn symbol o'i awdurdod. Gellid aralleirio'r cwpled 'Os credir fi, nid yw ysgrepan ddogfennau y sarsiant yn gwarantu [ei fod yn dweud y] gwir.'
- 66 **y sarsiant** Sef Siôn Pilstwn, a fu'n sarsiant dan Harri VIII, gw. 16.15–16.
- 68 **bad drwg ei nâd** Deellir yma drosiad am Siôn Pilstwn, gwas bach Dr Wiliam Glyn sy'n ei ddilyn i bobman fel *bad* 'cwch, llong' ac yn hwtdian yn ansoniarus wrth gynffon ei feistr.
- 69 **gŵr cywir gwirion** Sef Syr Wiliam Gruffudd. Yn ôl P.C. Bartrum: WG2 'Marchudd' 6(B3) yr oedd ganddo dri brawd, ac y mae'n bosibl mai at y rhain y cyfeirir yn y ll. ddilynol, neu thybed ai cyfeiriad (ffiguro) at Ieuan ap Madog ap Dafydd sydd yno? Y mae'r ll. fel y mae yn rhy hir o sillaf, ond gellid hyd arferol drwy hepgor y fannod.
- 71–2 **Fo a fwriai ar f'eryr / Fynudie ni welse wŷr** Ar *bwrw ar* 'to charge with, lay to one's charge, impute to', gw. GPC 356. Yr oedd Ieuan Delynor yn cyhuddo Syr Wiliam Gruffudd o ddrygau nad oedd neb yn dyst iddynt. Sylwer ar yr odl lafar rhwng *Fynudie / welse*.
- 73–4 'Ni wnaif gelu o olwg fy oes ... ei fai yntau [Dr Wiliam Glyn] a'i ben ôl.'
- 76 **clun** Cyfeirir yn ôl at *fontin* 'pen ôl' ll. 74.
- un nid â** Yr *un* y cyfeirir ato yw Syr Wiliam Gruffudd, a oedd yn ddieuog o'r cyhuddiadau yn ei erbyn.
- 78 **hyrio** Ffurf ar 'herio'; cf. ymhellach GDG<sup>3</sup> 409 (153.39–40) (DG.net 29.39–40) *Hyrio ymladd cyn addef / Ymlaen gwawd ei dafawd ef*, a'r aralleiriad '[Mae'n gosod] sialens'. Gellid hefyd yr ystyr 'gwthio neu

gymell (ar)', gw. GPC 1857.

- 83 **diwydion** Ar *diwydwr* 'gŵr diwyd; gŵr ffyddlon, dilynwr', gw. GPC 1062, ond noder mai *diwydwr* yw'r ffurf l. arferol a bod *diwydion* yn ffurf wneud a fabwysiadwyd ar gyfer anghenion yr odl.
- 83–4 **doedai ... ar** Ar *dweud ar* 'to report of, inform against, betray confidence, "split"; charge or accuse (of)', gw. GPC 1152.
- 84 **Siôn** Sef Siôn Pilstwn.
- 85–6 **prifie** Ar *prifie* yn y Cyfreithiau, gw. GPC 2887 d.g. *prifai*<sup>1</sup> 'eiddo y mae gan y wraig yr unig hawl arno mewn priodas, gan gynnwys ei chowyll, ei gowyn, a'i sarhad (weithiau mewn ystyr ehangach, gan gynnwys, e.e., ei hamobr)'. Yma deallir 'tâl dyledus', a gellid aralleirio'r cwpled 'Ni châi[r] ferch gan [ei] chariad y tâl a oedd yn ddyledus iddi gan fod y gŵr [sef Siôn Pilstwn] yn cadw llygad arni.'
- 86 Enghraifft o odli llafar rhwng *phrifie* / *gwylie*.
- 91 Bai 'trwm ac ysgafn' *lân* / *hannerch*.

## 19

Cadwyd tri chopi ar ddeg o'r farwnad hon i Ddafydd Trefor o waith Ieuan ap Madog ap Dafydd, yn brawf o boblogrwydd y bardd yn ei ardal. Ni ddigwydd llinellau 21–38, 51–2 yn llawysgrifau'r unfed ganrif ar bymtheg (BL Add 31059, 123<sup>v</sup>; Card 2.114 [= RWM 7], 566; LIGC 1553A, 84) nac yn y rhan fwyaf o lawysgrifau'r ail ganrif ar bymtheg (Bangor (Mos) 11, 171; BL Add 14966, 188<sup>v</sup>; J 139 [= RWM 14], 343); digwydd llinellau 21–6, 51–2, serch hynny, yn llawysgrif LIGC 19901B, 46<sup>r</sup>, llawysgrif a gopiwyd gan law anhysbys ac a ddyddir i ganol yr ail ganrif ar bymtheg. Noder felly mai dim ond mewn tri chopi llawysgrif y cofnodwyd llinellau 27–38, a'r rheini'n gopïau a ddyddir i ddiwedd y ddeunawfed ganrif (Card 4.110 [= RWM 47], 187) ac i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (Card 1.20, 42; LIGC 666C, 74), ond y mae ynddynt dystiolaeth bwysig a diddorol pe gellid eu derbyn yn rhan o'r cywydd gwreiddiol.

Y mae pum adran i'r cywydd. Egyr y bardd ei adran gyntaf (llau. 1–12) drwy ddatgan bod tawelwch ym Môn (neu drwy orchymyn rhoi taw ar bob llawenydd yno) yn wyneb y farwolaeth fawr a ddaeth i Lanallgo. Gwae Fôn ddyfod *Amser Duw am Syr Dafydd* (ll. 12).

Yn yr ail adran (llau. 13–38) daw'n eglur fod arwyl Dafydd Trefor wedi ei chynnal, yn addas iawn, ar un o'r gwyliau i Fair (gw. y nodyn ar l. 18), sef prif sant Eglwys Rufain. Bu farw'r bardd mewn gwth o oedran o effeithiau'r *nod* (ll. 20), sef haint y nodau neu'r Pla Du, er na chadwyd tystiolaeth ddogfennol i hynny oni bai am y cywydd hwn. Disgrifir yma gwrs hynod gyflym salwch Dafydd Trefor, ei weddïau olaf cyn ei eneinio ag olew, ei

gyffes olaf, a'i daith i'r byd arall.<sup>1</sup> Clywid sain llawenydd ymysg y llu yn nyddiau Syr Dafydd, ond bellach y mae'r cwmni yn dynn yng ngafael tristwch.

Wedi talu teyrnged i'w farwolaeth y mae'r bardd, yn y drydedd adran (llau. 39–58), yn talu teyrnged i'w fywyd. Molir camp Dafydd Trefor ym myd cerdd dant a cherdd dafod. Er cystal Adda Fras, un arall o wŷr mawr Môn a brudiwr a ddyrchafwyd yn batrwm i'r beirdd, nid oes cymhariaeth rhyngddo a Dafydd Trefor: y mae'r Syr ddengwaith mwy ei orchest nag ef (llau. 43–4). Dyfelir y bardd-offeiriad yn glodforus: *eryr* (llau. 47, 53), *llwyn aur* (ll. 48), *asgwrn troed ysgol* (ll. 52), *llew llwyd* (ll. 59), *dwned* (ll. 62), a *dadal* (ll. 67). Pan adawodd y Pla Du ei nod ar y pennaeth dihafal hwn yr oedd y galar amdano yn faich caled a chreulon i'w ddwyn. Bu aflonyddwch ac anghytgord ym myd cerdd a chân, dysg, crefydd bob dydd yr Eglwys a'r offerennau, yn ogystal ag ym myd gramadeg. Heddiw y mae'r gwron yn ei fedd, a'r byd yn drist a thawel o'r herwydd.

Y mae'r bedwaredd adran yn canolbwyntio ar y modd y daearwyd corff Dafydd Trefor (llau. 59–70). Datgelir yma beth gwybodaeth am ddulliau claddu clerigwyr yn yr Oesoedd Canol, yn enwedig felly eu dull o ddiddosi'r bedd.<sup>2</sup> Y mae llinellau 9–10 yn awgrymu mai yng nghanell eglwys Llanallgo y claddwyd y bardd a'r offeiriad Dafydd Trefor, ac os felly byddai hynny'n unol ag arfer y cyfnod: '... the burial of the religious was fairly easy to determine. The priest was often buried in the chancel near to the high altar where he celebrated Mass every day.'<sup>3</sup>

Yn yr adran olaf (llau. 71–90) y mae Ieuan ap Madog ap Dafydd yn nodi ei fod yn brofiadol o dri myfyrdod trist (*Tri meddwl trwm a wyddwn* (ll. 71)), sef marwolaeth tri bardd mawr a garodd: Tudur Aled (llau. 77–8), Lewys Môn (llau. 79–80) ac, ysywaeth, Syr Dafydd Trefor (ll. 82) yn drydydd. Gan fod y tri yn cael eu coffáu o fewn llinellau i'w gilydd yn y cywydd hwn, y mae'n deg dyfalu eu bod wedi marw o fewn ychydig amser i'w gilydd. Bu farw Tudur Aled yn y flwyddyn 1526,<sup>4</sup> neu 1527 yn ôl Eurys Rowlands,<sup>5</sup> a Lewys Môn yn 1527.<sup>6</sup> Yn niffyg tystiolaeth ddogfennol, cynigir c. 1527 yn flwyddyn marwolaeth Dafydd Trefor, gan gredu ei bod yn dra thebygol fod y tri bardd wedi marw yn ystod yr un flwyddyn, sef 1527. Y mae Ieuan ap Madog ap Dafydd yn cyflwyno'r tri enaid i ofal Duw'r Tad, ac yn ymroi i'w hiraeth o'u colli:

<sup>1</sup> Richard Wunderli & Gerald Broce, 'The final moment before death in early Modern England', *Sixteenth Century Journal*, xx (1989), 259–75.

<sup>2</sup> Ymhellach, gw. Christopher Daniell, *Death and Burial in Medieval England, 1066–1550* (London, 1997); Susan Powell & A.J. Fletcher, '“In Die Sepulture seu Trigintali”: the late-medieval funeral and memorial sermon', *Leeds Studies in English*, xii (1981), 195–228.

<sup>3</sup> Christopher Daniell, *op.cit.* 96.

<sup>4</sup> Gw. TA xlvii; ByCy 925–6.

<sup>5</sup> GWL ii<sup>2</sup> 298.

<sup>6</sup> Gw. GLM xi, xii; ByCy 512.



Mi a'i gwn fyth, mae gwayw 'n f'ais,  
Meirw gwŷr mawr a gerais.

- 1 **torred pen** Sef 'dienyddio, lladd'; ar ystyr lafar *torri'i ben* 'to take away his reputation', gw. GPC 3533; WVBD 537. Gellid deall yma naill ai ffurf amhrs.grff.myn. y f. *torri*, neu'r ffurf 3 un.pres.grch.
- 5 Twyll gynghanedd *r*.
- 6 **Blin y troed o'r blaned draw** Delwedd foliannus oedd gweld arwr yn *blaned*. Yn amlach na pheidio am ferch fonheddig a hyfryd y'i defnyddid, ond ar dro fe'i ceid yn ddelweddol am ŵr trawiadol, cf. GLD 12 (4.5) *Robert blaned Amhredudd* ('Moliant Robert ap Maredudd, Glynllifon'). Yr oedd yn achos trallod i'r bardd fod Dafydd Trefor wedi *troi draw* 'newid byd'. Mewn marwnad deellid *planed* i olygu'r grym sy'n llywio cwrs bywyd, a cheir sawl engh. gan Lewys Morgannwg, e.e. GLMorg 4.44 [*p*]laned dost ar blant Iestyn.
- 10 **Llanallgo** Llanallgo, sef eglwys y plwyf lle y bu Dafydd Trefor yn offeiriad, a lle y'i claddwyd yn ôl Edward Lhuyd (gw. Edward Lhuyd, *Archaeologia Britannica* (Oxford, 1707), 255).
- 11 **gwinau** Gellid mabwysiadu drll. llsg. K *Guener doeth*, ond gallai fod yn ymdrech ar ran y copïydd i wella'r testun drwy fabwysiadu gair sydd iddo ef yn ymddangos yn fwy ystyrllon.
- 15 **heb dranc** Ar *heb dranc na gorffen* 'without end', gw. GPC 3556.
- 17 **gradd** Cyfeirir yma at y dosbarth o glerigwyr yr oedd Dafydd Trefor yn aelod ohono; y mae *gradd* yn eg. Gthg. *Trwm pob gradd* yn y Rhagymadrodd i GSDT td. 11.
- 18 **gŵyl Fair** Y Forwyn Fair oedd prif sant Eglwys Rufain, ac fel gwas da i'r Eglwys honno byddai'n addas mai ar un o'r gwyliâu i Fair y cynhaliwyd arwyl Dafydd Trefor, ond y mae'n amhosibl dewis un o'r rheini ar draul y lleill, fodd bynnag. Y chwe phrif ŵyl i Fair a ddethlir yn y Gorllewin yw'r rhai a ganlyn: gŵyl Fair dechrau'r gwanwyn, a enwir hefyd gŵyl Fair y Canhwyllau (2 Chwefror); gŵyl Fair hanner y gwanwyn, a enwir hefyd gŵyl Fair y Cyhydedd (25 Mawrth); gŵyl Fair yn yr haf (2 Gorffennaf); gŵyl Fair gyntaf (yn y cynhaeaf), a enwir hefyd gŵyl Fair yn Awst (15 Awst); gŵyl Fair ddiwethaf (8 Medi); gŵyl Fair yn y gaeaf (8 Rhagfyr). Yn ychwanegol at y rhain yr oedd hefyd wyliau llai, a nifer o'r rheini'n cael eu dathlu'n lleol.
- 19–20 **Troi anap ... / Gael o'r nod** Gthg. y Rhagymadrodd i GSDT td. 10 *Tri anap ... / Gwae o'r nod*. Er mai'r ffurf luosog *nodau* a welir fel rheol, yma defnyddir y ffurf un. *nod* 'pla (du), haint y nodau; llid a chwydd nod lymff, yn enw. yn y gesail neu gesail y forddwyd (fel symptom o'r pla du)', gw. GPC 2588 d.g. nod<sup>2</sup>.

- 22 **ei fraich gwyn** Amrywiai cenedl y gair *braich* mewn Cym.C., gw. GMW 34; eg. yw *braich* yma ond gw. YCM<sup>2</sup> 26 (ll. 32)–27 (ll. 3), lle y'i ceir yn eg. ac yn eb. y *daraw ynteu o Rolant, ar y breich yd oed y cledyf yn y law. A chyn nyt argyweddei y'r ureich y dyrnawt, y cledyf eissoes a aeth o'e law.*
- 23 **corff Crist** Cyfeirir yma at offrymu'r sacrament o Swper yr Arglwydd, swper a sefydlodd Crist yn ordinhad yn ei Eglwys er mwyn ei goffáu. Gwneir hynny drwy dderbyn bara a gwin: y bara i arwyddo corff Crist, yr hwn a ddrylliwyd, a'r gwin i arwyddo gwaed Crist, yr hwn a dynnodd ymaith bechod y byd. 'The Fourth Lateran Council (1215) used the current term "transubstantiation" to assert the Real Presence against the Cathari. Later in the century this teaching was worked out in much detail ... It was maintained that consecration effected a change in the "substance" of the Bread and Wine, whereas the "accidents" (i.e. the outward appearance) remained,' gw. ODCC<sup>3</sup> 567; ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 566–9 d.g. *Eucharist.*
- 26 **olew** Yr oedd yn arfer gan yr Hebreaid eneinio'r corff ag olew oherwydd bod iddo briodoliaethau meddyginiaethol, gw. Iago v.14 *A oes rhywun yn glaf yn eich plith? Galwed ato henuriaid yr eglwys, i weddio trosto a'i eneinio ag olew yn enw yr Arglwydd.* Ond y mae'n fwy tebygol mai cyfeiriad at yr arfer o eneinio'r corff â pherarogl erbyn y gladdedigaeth er mwyn ei gadw rhag llygredigaeth sydd yma, cf. Marc xiv.8 *achubodd y blaen i eneinio fy nghorff erbyn y gladdedigaeth.* Un o brif ddefodau angladdol Eglwys Rufain oedd yr eneiniaid olaf: 'Its minister is a priest; the recipient must be ill from sickness, and in a state of grace, though from its secondary end it can also act as a sacrament of the dead and remit mortal sin. Its purpose is to heal the soul and wipe out the remains of sin and thus prepare it for entrance into glory', gw. *The New Catholic Dictionary* (London, 1929), 355. Yn yr Oesoedd Canol, gweithred breifat oedd hon: 'Though medieval rituals make it clear that the anointing of the dying was normatively celebrated with the presence and participation of the local community, the usual practice was individual celebration; that is, few if any other members of the faithful participated. This was especially the case when, as frequently happened, the confession of the dying person preceded the sacrament of Anointing and Viaticum,' gw. *Encyclopedia of Catholicism*, ed. R.P. McBrien (London, 1995), 58.
- elawr** Sef *elor* 'fframwaith o goed (a dwy fraich ym mhob pen) y cludir arch (neu gorff marw) arno at lan y bedd', gw. GPC 1207.
- 27 **cyffes** Arfer bwysig i offeiriad a llyegwr ar ei wely angau oedd cyffesu i Dduw ei bechod er mwyn cael maddeuant cyn wynebu ar dragwyddoldeb; ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 394–5; ll. 26n.

- 30 **riwlio bwrdd yr ail byd** Rhan o waith Dafydd Trefor yn offeiriad ym mhlwyfi Môn oedd teithio i Lundain i gymryd ei le mewn cyfarfodydd rheoli ac i ddeddfu ar faterion eglwysig—cymaint felly nes bod ei farwnadwr yn cymryd yn ganiataol y byddai, yn y byd a ddaw, yn *riwlio bwrdd yr ail byd*. Ond o ddeall *bwrdd* i olygu ‘table’, ai llywyddu ar y wledd nefol a olygir? Trefnol (nid a.) yw ail ac y mae’r eg. *byd* yn cadw’r gysefin ar ei ôl, gw. Treigladau 40–1.
- 33 **angel** Sef cennad Duw; un o’i swyddogaethau yw dwyn eneidiau i’r nefoedd, cf. hanes y dyn tlawd o’r enw Lasarus: *Bu farw’r dyn tlawd, a dygwyd ef ymaith gan yr angylion i wledda wrth ochr Abraham*, gw. Luc xvi.22. Credid y byddai angel yn gweini ar glaf ar ei wely angau, ac yn ymladd â’r diafoliaid am ei enaid, er enghraifft ymladdodd yr Archangel Mihangel â’r diafol am gorff Moses, gw. Judas (adnod 9).
- 35 **ymprydïai** Yr oedd yn ofynnol i aelodau o Eglwys Rufain ymwrthod â bwyd am gyfnod penodol ar achlysuron arbennig, ymostwng yn edifeiriol am bechod, ac ymbil am drugaredd. Un o’r achlysuron oedd wrth baratoi i dderbyn y Cymun: ‘complete abstinence from food or drink [was] observed by Catholics before receiving the Eucharist ... The law of fasting does not hold for communion received in the probable danger of death,’ gw. *The New Catholic Dictionary* (London, 1929), 360. Ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 599–600; *Encyclopedia of Catholicism*, ed. R.P. McBrien (London, 1995), 519. Bai ‘crych a llyfn’ gyda *p* o flaen y brif acen gyntaf, ac *r* o flaen yr ail.
- 38 Sylwer ar y trawiad cyffredin *tristwch ... trosto*; cf. GGI<sup>2</sup> 98 (XXXVII.1) *Tristach yw Cymry trostyn*’.
- 39 **heb wedd** Y mae dwy ystyr i *heb wedd*. Ar yr ystyr i. ‘*unsightly, ugly, deformed*’; ii. ‘*exceedingly*’, gw. GPC 1609 d.g. *gwedd*<sup>1</sup>. Yr ail ystyr sy’n gweddu orau yma, a’r ergyd yw fod Dafydd Trefor yn anghyffredin o *gerddgar*, sef yn caru cerddoriaeth, neu brydyddiaeth, neu’r ddeubeth.
- 40 Y mae’r ll. fel y mae sillaf yn rhy hir.
- 44 **Adda Fras** (1240?–1320?) Bardd o Ynys Môn a oedd yn batrwm o frudiwr. ‘Y mae’r beirdd diweddarach yn cyfeirio ato’n fynych yn y marwnadau a ganent i’w gilydd, nid yn unig fel daroganwr, ond fel meistr ar gelfyddyd y beirdd,’ gw. ByCy 4. Cyfeirir at Adda Fras yn batrwm i’r beirdd ym marwnad Tudur Aled i Ddafydd ab Edmwnd, gw. TA 283 (LXX.49) *Adda Fras oedd ef ar wawd*; ac ym marwnad Raff ap Robert i Dudur Aled, gw. *ib.* 743 (VII.16) *Gwir Addaf Fras y gerdd frau*. Dywedir i Adda Fras gael ei gladdu yn abaty Maenan, gw. CLC<sup>2</sup> 8. Ymhellach arno, gw. y cyfeiriadau yn ByCy 4. Haerir yma fod Dafydd Trefor ddengwaith gwell bardd nag ef.
- 47 **eryr od ar wŷr** Trosiad am ‘arwr’ yw *eryr*; ar *od ar* ‘*better than or excelling (all others in a certain class)*’, gw. GPC 2616; yr oedd Dafydd

Trefor yn arwr a oedd yn tra rhagori mewn celfyddyd ar ei gyfoeswyr.

- 48 **llwyn aur** Delwedd foliannus i ddisgrifio'r mwyaf rhagorol o'r clerigwyr a/neu'r gwŷr dysgedig; yn y farddoniaeth defnyddir *llwyn* yn drosiadol am unrhyw dyfiant trwchus, ffyniannus.
- gwŷr llên** Ar *gŵr llên* 'man of letters, learned man, scholar; cleric, clergyman; scribe', gw. GPC 1695, a gellid credu bod Dafydd Trefor yn cwmpasu'r diffiniad yn gyfan gwbl.
- 49 **noded y penadur** Y *penadur* 'llywodraethwr' yw Dafydd Trefor, a phan nodwyd ef, hynny yw pan ddaliodd haint y nodau, yr oedd y galar amdano yn drist odiaeth.
- 51 **Gwae fi na wn ganu 'n ei ôl** Y mae'r ll. fel y mae sillaf yn rhy hir a cf. Dafydd Trefor: Gw sy'n cynnig y darlleniad *Gwae Gymru naddu'n ei ôl* (darlleniad a godwyd o lsgrau. diweddar). Sylwer ar yr odl *fi / ganu*
- 51–2 O'r llsgrau. cynnar, yn llsgr. L yn unig y digwydd y cwpled hwn.
- 52 **Torred asgwrn troed ysgol** Delweddwyd Dafydd Trefor yn nhermau *ysgol*, sef yn gynhalbren i Ieuan ap Madog ap Dafydd a'i gymheiriaid barddol. Y mae'n *asgwrn troed*; ar *troed* 'yn Arfon yn yr ystyr "pren troed, last" ', gw. GPC 3608. Y mae *torred* yma yn ffurf amhrs.grff. myn. *torri* 'dryllio'.
- 56 **A phur glywed ei 'fferen** Gthg. y Rhagymadrodd i GSDT td. 11 *A phêr oedd ei offeren*.
- 58 **ymodau gramadeg** Ystyrid Dafydd Trefor yn feistr ar ramadeg y beirdd, cf. y trosiad *dwned* amdano yn ll. 62. Deellir *ymod* yn amrywiad ar *amod* 'rheol'. Ergyd y ll. yw fod meistrolaeth Dafydd Trefor ar holl reolau cerdd dafod yn peri bod ei gerddi yn goeth, ac yn cyffwrdd mewn modd godidog.
- 59 **llew llwyd** Sef Dafydd Trefor.
- 60 **sylf wen** Yr eb. *sylf* 'sylfaen' sydd yma a gwelir Dafydd Trefor yn garreg sylfaen fendigaid i gerdd dafod.
- 61 **o'r dywarchen** Lluniwyd dyn o bridd y ddaear, ac yno y dychwel, gw. Gen iii.19 *Trwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta bara hyd oni ddychweli i'r pridd, oherwydd ohono y'th gymerwyd; llwch wyt ti, ac i'r llwch y dychweli*.
- 62 **dwned** Benthyciad o'r S. *donet, donat* ar ôl enw Aelius Donatus, awdur *Ars Grammatica*, traethawd ar ramadeg sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif; 'gramadeg, llyfr gramadeg, egwyddorion gramadeg neu fydryddiaeth', gw. GPC 1105; yma yn drosiadol am Ddafydd Trefor ar gyfrif ei ddawn farddonol ac am ei fod yn rheol i'r beirdd.
- 63–4 **Gwae a welais roi gwialen / A daear friso ar wisg wen** Gwelir yma rai manylion ynghylch y ddefod gladdu Gymreig yn ystod yr Oesoedd

Canol. Claddwyd Dafydd Trefor yn ei wenwisg o liain; gellid yma wisg clerigwr a weinyddai'r offeren, S. *surplice* (gw. ODCC<sup>3</sup> 1560–1) neu amdo cyffredin. Claddwyd *gwialen* yn y bedd, a dyna dystiolaeth y cywydd 'Yn erbyn caru'r byd' (o waith Dafydd Trefor) am y meirw, un ac oll (gw. GSDT 15.23–6 *Ac yno yn ei gynfas / I'r tŷ o glai â'r to glas, / A'i gywely fydd gwialen, / A chau ei borth uwch ei ben*). Ar *gwialen*, gw. GPC 1653 'Ffon hirfain, collen gan amlaf, a ddefnyddid yn ôl pob tebyg yn wr. i fesur corff marw a'r bedd y cleddid ef ynddo (fel *fê* yn Iwerddon); ond mewn rhai manau yng Nghymru fe'i rhoid gyda'r corff yn y bedd yn rhan o ddefod gyntefig, llath fesur.' Gw. hefyd Alwyn a Brinley Rees, 'Gwialen fesur', B xiv (1950–2), 212–16. Ar *briso* 'cyflym, buan, bywiog', gw. GPC 326 d.g. *briso*<sup>2</sup>.

- 66 **caregl** Ynghyd â'r *wialen* (gw. ll. 63) ymddengys fod dwy eitem arall wedi eu gosod yn y bedd, sef caregl a phâr o fenig (gw. y nodyn dilynol). *Caregl* yw'r cwpan a ddefnyddir yng ngwasanaeth y Cymun (gw. ll. 23n.): 'the cup used at Mass to contain the Precious Blood of Christ, to commemorate that used by Our Lord at the Last Supper ... As the Sacramental Cup it signifies faith,' gw. *The New Catholic Dictionary* (London, 1929), 192; ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 316. Yn ystod y 12g. a'r 13g. tynnwyd gwahaniaeth rhwng careglau o fetelau gwerthfawr ar gyfer dal y gwin, a chareglau o fetelau cyffredin (megis piwter, tun neu blwm) ar gyfer eu claddu gyda chlerigwyr. Yn 1227 nododd William o Blois, Esgob Caerwrangon, y dylai pob eglwys gael dau gwpan Cymun, un arian ar gyfer yr offeren a'r llall o dun ar gyfer ei gladdu gyda'r offeiriad, gw. D. Tweddle, *The Archaeology of York: Finds from Parliament Street and Other Sites in the City Centre* (London, 1986), 208–9.

**menig hirion** Y *menig hirion*, o bosibl, yw'r menig litwrgïol: 'Episcopal gloves are worn by bishops and some privileged prelates at a solemn Pontifical Mass. Their color varies with the day. They signify being clothed with, acting in the name of, reliance on the merits of Christ,' gw. *The New Catholic Dictionary* (London, 1929), 406. Ymhellach, gw. ODCC<sup>3</sup> 683.

- 67 **fy nadal** Amrywiad ar *dadl* 'amddiffynnwr, eiriolwr' yn drosiad am Ddafydd Trefor.
- 69 Sylwer ar y gyfatebiaeth  $g = g.f.f.$  o flaen yr acen.
- 70 Sylwer ar y gyfatebiaeth  $f = n$  o dan yr acen.
- 71 **tri meddwl trwm** Yr oedd Ieuan ap Madog ap Dafydd yn brofiadol o dri myfyrdod trist, sef marwolaeth tri chydabod annwyl iddo: Tudur Aled, Lewys Môn a Dafydd Trefor.
- 73 Y mae'r ll. fel y mae sillaf yn rhy hir.

- 77 **pa nad** Amrywiad ar *pony(t)*, *pany(t)*; fe'i defnyddir i gyflwyno cwestiwn y disgwylir ateb cadarnhaol iddo, gw. GMW 175–6.
- 77–8 **Tudur ... / ... Aled** Y cyntaf o'r tri bardd a enwir yw Tudur Aled (c. 1465–c. 1526/7). Ai oherwydd mai ef (o'r tri) a fu farw gyntaf? Fe'i ganed ym mhlwyf Llansannan yn sir Ddinbych, yn uchelwr a bardd: ef oedd un o'r gloywaf ei arfau barddol o blith Beirdd yr Uchelwyr. Ymhellach arno, gw. TA; Saunders Lewis, 'Tudur Aled' yn *Meistri'r Canrifoedd*, gol. R. Geraint Gruffydd (Caerdydd, 1973), 98–115; Cledwyn Fychan, 'Tudur Aled: Ailystyried ei Gynefin', *Cylchg LIGC* 23 (1983), 45–74; Eurys Rowlands, 'Tudur Aled', *GWL* ii<sup>2</sup> 298–313; D.J. Bowen, 'Graddau barddol Tudur Aled', *LICy* xviii (1994), 90–103.
- 79 **Lewys ... o Liwon** Sef Lewys Môn (*fl.* 1485–1527), bardd proffesiynol ac o bosibl gof. Nid yw'n hysbys un o ble yn union ydoedd, ond yr oedd yn sicr yn un o gwmwd Llifton yng nghantref Aberffraw ym Môn (gw. WATU 145) yn ôl tystiolaeth y ll. hon; yr un yw tystiolaeth Tudur Aled *Galw Lewys gul o Liwon*, gw. TA 532 (CXLI.36). Am ei ach, gw. PACF 303, lle y derbynnir bod ei ewyllys wedi ei phrofi yn 1527. Ymhellach arno, gw. GLM; Eurys I. Rowlands, 'Lewys Môn', *LICy* iv (1956–7), 26–38; *id.*, 'Dydd brawd a thâl', *LICy* iv (1956–7), 80–9.
- 80 **mab maeth Môn** Y mae Ieuan ap Madog ap Dafydd yn dal i sôn am Lewys Môn yma.
- 81 **digiaw** Arwydd o ddigofaint Duw oedd marw Tudur Aled, Lewys Môn, ac yn olaf Ddafydd Trefor.
- 85–6 Sylwer ar yr odli llafar ym mhrifodl y cwpled, rhwng *bedde / ne*'.
- 87 **ais** Sef un o ffurfiau ll. *asen* (S. 'rib') a ddefnyddir yn ffigurol i olygu 'bron, mynwes, calon', gw. GPC 73. Ystyrid y diaffram (o'r Groeg *phren* < S. *frenzy*) yn sedd y serchiadau.
- 90 **tri enaid** Eneidiau Tudur Aled, Lewys Môn a Dafydd Trefor; gellid deall *enaid* naill ai'n derm anwes, neu i olygu'r rhan ysbrydol o ddyn sy'n goroesi marwolaeth yn y byd a ddaw, gw. GPC 1211–12.

## Geirfa

*Rhestrir yn yr Eirfa hon y geiriau hynny sy'n digwydd mewn ystyr anarferol neu anghyfarwydd, yn hytrach na phob enghraifft o bob gair.*

- aber** porthladd 9.5n, 53  
**absen** anghlod a fwrir ar ddyn yn ei gefn 18.42  
**acw** 7.76n  
**adail** deildy 2.53  
**aderyn** (am eifr) *ll.* **adar** 2.44n  
**adnabod** 1 *un.pres.myn.* **adwen** 13.24n  
**adwen** gw. **adnabod**  
**addfain** main, lluniaidd 17.52n  
**ael nos** cyfnos, brig y nos 17.59  
**aer** etifedd 13.11  
**afiach** 12.15n  
**aflawen** creulon 11.35  
**angel** 19.33n  
**angerdd** ysbrydoliaeth farddol 13.17n, 16.29  
**ail byd** nefoedd 19.30n  
**ais** asen, bron, calon 9.14, 19.87n  
**alarches** 3.17n  
**almari** cwpwrdd 16.70  
**allawr** (gw. **dwyr allawr**)  
**amherchi** dianrhydeddu 18.88  
**anair** anghlod, drygair, gogan 12.79, 16.23  
**anap** anffawd, colled 19.19n  
**aneilun** elyll 4.25  
**anerchfawr** gwych ei ymadrodd 15.17  
**anerchfwyn** mwyn ei ymadrodd 18.61  
**anial** gofidus, rhyfeddol 9.45, 11.7, 18.53n  
**anianol** dirfawr 6.45  
**anllad** tanbaid, trythyll, anniwair, godinebus 13.30, 18.62; *cmhr.* **anlladach** 16.72  
**annerch** siarad â, cyfarch 18.91; 3 *un.grff.myn.* **anerchodd** 11.62  
**annod** cerydd, cywilydd 12.43n  
**annog** 3 *un.pres.myn.* **ennyg** 2.25  
**annwyl** cyfaill; gwerthfawr, hoff 8.6, 9.31, 16.45  
**ansyber** anfonheddig 18.84  
**antur** o fraidd 11.46  
**anwaedu** gwaedu 6.48n  
**anwylwin** un hoff a rhagorol 17.89  
**anynad** gwrthnysig, cecrus 13.12  
**anysbryd** cythraul  
*ll.* **anysbrydoedd** 2.54n  
**arall** 8.8n, 48n; *ll.* **ereill** 3.61n  
**ar drafael** ar siwrnai 8.46n  
**ardd** tal 9.34n  
**aren** ffraeth, huawdl 1.35  
**arfodig** amserol 3.45  
**ar ... ffortun** ar hap 7.25  
**arglwyddes** 7.33n, 14.31n, 17.53, 18.18 (gw. hefyd **Siân**<sup>1</sup>, **Siân**<sup>2</sup>)  
**arg'weddiad** ceryddu 11.12n  
**arian** arian, pres; huawdl 3.20n, 7.17n, 8.25 (gw. hefyd **coed arian**)  
**ar osteg** yn gyhoeddus 18.37  
**aruthr** creulon 15.60  
**ar war** S. *above, upon* 18.80  
**arweddiad** ymddygiad 15.7  
**arwyl** angladd 19.19

- asgen** drygioni 5.7  
**asgwrn** 19.52n  
**athrodwr** taenwr chwedlau  
 celwyddog 8.17; *ll.* **athrodwyr**  
 15.60  
**aur** aur; gwych 7.4, 16.10n, 17.1,  
 19.48n (gw. hefyd **aur gadwyn**)  
**aur gadwyn** 15.2n  
**awen** ysbrydoliaeth farddol 12.7,  
 21, 15.63n, 18.32, 34, 19.86  
**awengerdd** barddoniaeth 19.46  
**awenydd** bardd, awen farddol  
 8.1n, 9.21, 11.1 **'wenydd** 15.72  
**awr** gw. **yr awr**  
**bach** annwyl, hoff 9.45  
**bad** cwch 18.68n  
**baedd** ymladdwr dewr 13.2  
**baeol** ystên 9.33n  
**bai** diffyg, camwedd,  
 amherffeithrwydd 11.43–4n, 13.10n  
**baich gwiail** 5.12n  
**baidd** gw. **beiddio**  
**balch** gwych, hardd 10.12  
**banc** codiad tir 17.46n  
**baner** 9.12n  
**bâr** cynddaredd 7.69  
**bara bwn** cacen fechan gron a  
 chyrens ynddi 6.24  
**bariaeth** lliidiogrwydd 14.3  
**baril** casgen [win] 13.13, 16.47  
**bawd** 16.41n  
**bed** hyd, cyn belled â 9.47  
**beiddio** mentro 3 *un.pres.myn.*  
**baidd** 13.60; 1 *un.grff.myn.*  
**beiddiais** 17.71n  
**beili** goruchwyliwr gweinyddol  
 13.15n  
**beio** 3 *un.amhff.myn.* **beiai** 11.45n;  
*amhrs.pres.myn.* **beïr** 11.46n  
**bellach** o hyn ymlaen 11.69  
**berw** cynnwrf, ysbrydoliaeth  
 farddol 11.51n, 12.3  
**beudy ll.** **beudyau** 2.32  
**biau** gw. **piau**  
**blaidd** 10.48n, 15.42n  
**blingaw** ysbeilio 18.82  
**blith** llaethog *ll.* **blithion** 1.10,  
 2.34  
**bloneg** bol [mawr], nodd pren  
 17.48  
**blwng** milain, ffyrnig 18.82  
**boda dyn** pob dyn 11.30n  
**bol** 9.33, 13.15n  
**bonog** tindrwm 16.66  
**bontin** pen ôl 18.74  
**bost** ymffrost 6.35  
**brad** 11.49n  
**bragod** diod frag 6.21  
**braich** 19.22n; *ll.* **breichiau**  
 9.44n  
**brathu** gwibio 4.14  
**brau** cain, coeth, gwych, parod  
 3.3, 5, 4.3, 7, 38, 43, 6.22, 51,  
 7.47n, 12.20, 13.62, 16.23  
**brawd** mynach, ffirir *ll.* **brodyr**  
 9.50, 10.21, 24 **brodyr ... o**  
**grefydd** 10.21–2 (gw. hefyd  
**brawd moel**)  
**brawd moel** mynach 7.14n (gw.  
 hefyd **brawd**)  
**brawn** nerth 17.47  
**breferad** bref, rhuad 12.26  
**breithwen** brycheulyd, llawn  
 beiau 14.5n  
**breuder** haelioni 8.2, 26  
**brig** rhagorol, gorau 3.5, 6.24;  
 gwallt y pen 3.46  
**brigog** blodeuog, llewyrchus,  
 llwyddiannus 7.47, 12.19  
**briso** cyflym, buan 19.64n  
**brith** amryliw *b.* **braith** 17.64  
**brodyr** gw. **brawd**  
**brodyr ... o grefydd** gw. **brawd**  
**broesfedd** medd wedi ei dapio  
 o'r gasgen 6.22  
**brol** ymffrost 12.54n



- brud** proffwydoliaeth 19.44  
**brwydr** helynt 18.12  
**bryd** bwriad meddwl 2.29  
**bwbaches** bwgan, mynach mewn abid *ll.* **bwbachesau** 1.45  
**bwla** tarw 17.48 (gw. hefyd **tarw**)  
**bwngler** gweithiwr blêr, trwsogl 13.59  
**bwrديو** cellwair 3 *un.pres.myn.*  
**bwrδια** 3.66  
**bwrdd** corff o gynghorwyr, pwyllgor 19.30n  
**bwrut** gw. **bwrw**  
**bwrw** esgor ar, taflu, bwrw i lawr 12.26, 18.59n; 2 *un.amhff.myn.*  
**bwrut** 16.23  
**bwrw ar** cyhuddo 3  
*un.amhff.myn.* **bwriai ar** 18.71n  
**bwt** casgen [win] 13.16n, 16.48  
**byd** gw. **ail byd**  
**bys** 16.41n  
**bys i ... wegil** enllibus, cyhuddgar 7.69n  
**byw** 11.43–4n  
**bywyd** cyfoeth 1.13n  
**cadair** uned gerddorol sy'n cynnwys 120 o geinciau *ll.* **cadeiriau** 15.34n  
**cadwyn** gw. **aur gadwyn**  
**cainc** alaw 7.49n, 8.33  
**caled** crintachlyd 17.42n  
**caledu** mynd yn gybyddlyd neu'n grintach 3 *un.grff.myn.* **c'ledodd** 17.35n  
**call** doeth, cyfrwys; gŵr doeth 8.7n, 18.64n  
**cannod** cant o nodau 11.18n  
**canu** 16.32n  
**captan** arweinydd 2.13  
**cardod** elusen, rhodd, trugaredd 7.76; *ll.* **cardodau** 10.23n  
**caregl** cwpan y Cymun 19.66n  
**cariad ... ar** 12.81–2n  
**carnfais** camau breision 18.49n  
**carreg** 10.46n  
**carw** arweinydd, arglwydd, noddwr, pendefig 2.12, 13.42n, 61, 16.7, 17.8n, 45n (gw. hefyd **hydd, iwrch**)  
**casulwen** gw. **casulwyn**  
**casulwyn** a chanddo fantell offeiriadol wen **casulwen** 4.12  
**caterwen** pendefig cadarn 15.4n  
**cau** lle caeedig; ffals, twyllodrus 2.43, 16.49  
**cau ar** gwarchae ar, amgylchu 16.7  
**cawr** arwr 13.42, 17.8n, 45n  
**ced** gwobr, rhodd, cymorth 6.29, 10.29, 14.35, 18.28  
**ceden** blewiach *ll.* **cedenod** 1.43  
**cefn** gw. **i'n cefnau**  
**cefnllwyd** a'i chefn yn welwlas / fendigaid 10.1  
**ceg** (am fferi) *S. prow* 10.45n  
**ceiliagwydd** 4.47n, 5.36, 6.38  
**ceiliog** (am Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn) 7.17n  
**celu ar** cuddio, cadw'n ddirgel 14.60n  
**cell** cartref, trigfan 7.74n  
**cellwair** tynnu coes, siarad yn ysgafn 7.10n  
**cerdd dafawd** cerdd dafod 19.84  
**cerdd dant** 14.56n  
**certh** sicr 18.9  
**cerwyn** baril, casgen 5.11, 9.32  
**ceseiliad** baich y gellir ei gario dan y fraich 4.12n  
**cest** bol [mawr] 17.43  
**cil golwg** cil y llygad *ll.* **ciliau ... golwg** 11.47n  
**ciliorni** cyfeiliorni 14.60n  
**ciwed uffern** haid uffern 2.60n  
**claeur** tirion 6.34  
**clap** clefyd gwenerol 14.48n

- clau** clai 17.35n  
**c'ledodd** gw. **caledu**  
**c'lenigfalch** rhoddwych 17.66  
**clera** mynd ar gylch i ganu mawl  
 am lety a rhoddion 13.59  
**clip** diffyg, S. *eclipse* 3.34, 5.15n  
**cloch** ll. **clych** 18.52n  
**clog** mantell 7.4, 17n  
**cloi** caethiwo 12.3, 17.42n  
**closio** tynnu'n agos 2.15n  
**clowsio** dwrddio 2.15n  
**clun** pen ôl 18.76n  
**clwy' du** 3.32n  
**cneifio** eillio, anrheithio 2.58  
**cnot** grŵp o nodau 15.16n  
**cob** gorchudd, clogyn clerigwr  
 1.18n, 2.13  
**cod** bag i ddal telyn 11.17n, 14.8n  
**codi** *1 un.dyf.dib.* **cotwyf** 16.78  
**coed arian** 11.66n (gw. hefyd  
**mawr ei goed**)  
**coeg** ffals, celwyddog 15.63n  
**coelio** ymddiried *1 un.pres.myn.*  
**coelïaf** 18.7  
**cof** deunydd barddoniaeth 18.41n  
 (gw. hefyd **iawngof**)  
**coffost** llond côl o ymffrost 10.9  
**coffâu** 14.48n  
**coffor** cist 13.63, 17.46  
**cog** (yn negesydd) 4.1n  
**colofn** uned gerddorol sy'n  
 cynnwys 240 o geinciau  
 ll. **colofnau** 15.34n  
**côr** cangell, canol [llong] 2.12n,  
 9.37n, 19.9, 55  
**corff Crist** y Cymun 19.23n  
**corodyn** anwylbeth, tegan 9.20n  
**cort** rhaff 9.11  
**coruniad** a'i gorun wedi ei eillio 2.11  
**costio** gosod pris ar 18.89  
**cotwyf** gw. **codi**  
**cowrt** llys 2.5  
**cra'** gw. **crafu**  
**crafu** cribinio [bwyd]  
*3 un.pres.myn.* **cra'** 1.21n  
**cragennog** tebyg i gragen 9.31  
**cras** un o'r pum cywair mewn  
 cerdd dant 8.31n  
**crechwenu** chwerthin yn  
 wawdlyd *2 un.pres.myn.*  
**crechweni** 14.42n  
**crefft** celfyddyd 2.19n  
**crest** 8.34n  
**crib** 9.38n  
**crinrhudd** crimp a choch 6.37  
**crio** deisyfu 12.15  
**cripio** canu'r delyn â'r ewinedd  
 7.55n  
**crochan** dyn glwth 14.41n  
**croenrhwd** â chroen lliw rhwd  
 6.37  
**croyw** peraidd, pur 15.37, 19.55  
**crud** (am long) 9.19n  
**crwn** cyflawn 6.15  
**crwth** 8.10, 15, 34  
**crychiad** dull o daro tant telyn  
 14.57n  
**crychwyn** cyrliog a gwyn 6.36  
**crythor** 13.57  
**cryw** cawell 8.31n  
**cunnog** llestr pren at odro 9.31  
**cur** S. *chagrin* 18.31n  
**curad** offeiriad 2.11  
**curio** nychu, dihoeni  
*3 un.amhff.myn.* **curiai** 7.1  
**cutog** merch lac ei moesau  
 14.30n  
**cwd** ysgrepan 18.65n  
**cwd llinad** ceillgwd 14.45n  
**c'weirgorn** gw. **cyweirgorn**  
**cweirio** cyweirio, tiwnio, paratoi  
 7.50; *amhrs.grff.myn.*  
**cweiriwyd** 9.7  
**cwfaint** cynulliad o grefyddwyr  
 (am griw llong) 9.40n  
**cwitio** talu'r pwyth *1 un.dyf.myn.*

- cwitiaf** 16.78n  
**cwlwm** casgliad o 24 o geinciau telyn *ll.* **clymau** 14.58n  
**cwmpas** helaethrwydd cynnwys, gorchest 19.43  
**cwnstabl** 16.17, 17.80n  
**cwyn** galar 19.4, 50  
**cwysaidd** wedi ei dorri'n gwysi 8.3n  
**cyd** cyhyd ag y 3.41  
**cyfa'** ffyddlon 3.40  
**cyfair** erw, cyfoeth *ll.* **cyfeirion** 8.7n  
**cyfan** diddiffyg 18.17  
**cyfanllon** cwbl lawen 10.1  
**cyfebr** beichiog 1.20  
**cyfedd** gwledd 6.22  
**cyfin** cyfyng 6.49n  
**cyfludd** unedig 3.40  
**cyff** llinach 13.18, 63, 64, 17.7, 46, 18.79  
**cyff clêr** dosbarth isel o feirdd a cherddorion heb gael hyfforddiant rheolaidd a swyddogol 14.48  
**cyffes** 19.27n  
**cyffoden** putain, gordderch 18.79  
**cyffrydio** crynu, cyffroi 3 *un.pres.myn.* **cyffrydia** 9.28n  
**cymell** annog, gorfodi 6.7, 8.33, 16.30  
**cymen** deheuig 18.50  
**cymryd** cludo, derbyn [tâl] 10.41n; 1 *un.amhff.myn.*  
**cymern** 10.27  
**cymyreddwych** gwych ei rwysg 15.35n  
**cynhysgaeth** etifeddiaeth, gwaddol 10.54  
**cynnes** 14.50n  
**cynydd** ceidwad eŵn hela 16.49  
**cyrchu'r heol** cychwyn allan 3 *un.pres.dib.* **cyrcho'r heol** 7.67  
**cythrel** cythraul 16.37n  
**cyweirgorn** allwedd i gyweirio offeryn cerdd dant 8.22n  
**c'weirgorn** 7.46  
**cywydd** 14.15n  
**chwannog** trachwantus, awyddus 2.23n, 16.66  
**chwaræ mig** chwarae ymguddio, *S. hide-and-seek* 10.70n  
**chwedel** stori 7.34  
**chweffrwd** cerhyntoedd croes 9.28n  
**chwileren** lindys 14.49n  
**chwrÿdd** chwaraëydd, arbenigwr 15.68  
**chwyrn** 13.9n  
**da** praid, cyfoeth 2.31, 17.42n; *cmhr.* **gwell** 13.6n  
**dadal** dadl, amddiffynnwr, eiriolwr 19.67n  
**daint** dig, malais 13.24n  
**dal** cydio'n dynn yn, maglu, rhwydo 3 *un.amhff.myn.* **dalief** 10.48n  
**dan gêl** gw. **tan gêl**  
**dant** gwrthwynebiad di-ildio 17.9  
**datgeiniad** 13.12  
**dau** (am Syr Wiliam Gruffudd a Syr Dafydd Trefor) 8.47n; (am delyn a chrwth) 8.12n  
**dau wyneb** twyllodrus 16.21n (gw. hefyd **wyneb**)  
**dawn** 15.48n  
**dawr** gw. **dori, ni'm dawr**  
**degwm** tâl neu dreth yn cyfateb i ddegfed ran o incwm 12.28  
**degymu** talu degfed ran o incwm 3 *un.grch.* **degymed** 7.16  
**delon'** gw. **dyfod**  
**delor** cnocell y coed 18.21–4n  
**derw** 9.14  
**derwbren** 10.7n  
**derwen** rhyfelwr cadarn 13.3

- deubeth** 15.5n  
**deudir** (am Fôn ac Arfon) 9.15n  
**deunawmlwydd** 5.32  
**deuwr** 2.61n  
**dewis** dewisol, gwych 7.64n  
**dewisig** dewisol, dethol 18.6  
**diannoeth** doeth, synhwyrus  
 17.87  
**diawl** 16.42n  
**di-bŵl** eglur, miniog 8.23  
**didol** gwahanu 9.15  
**dieiriach** heb arbed dim 15.79  
**difai** 16.42n  
**difalch** gwylaidd 13.5n  
**difeth** cywir 13.37  
**difingam** gonest, anwatwarus  
 10.66  
**difyr** difyrrwch 13.22n  
**dig** tralodus 18.5  
**digiaw** digio 19.81n  
**digrif** hyfryd, dymunol 15.1  
**digrifwch** hyfrydwch, pleser  
 4.34, 19.8  
**digyngor** annoeth, heb farn [am  
 beth sydd orau i'w wneud]  
 18.21–4n  
**dihareb** 13.7  
**dilithr** cadarn, esmwyth 2.57  
**dinas** nodded 5.21n  
**dir** yn llwyr 8.11n  
**direidlas** drwg angheuol 18.21–  
 4n  
**diriaid** anffodus 14.65  
**dirieidfawr** ysgeler iawn 10.25  
**dirieidwr** gŵr ysgeler  
*ll. dirieidwyr* 10.33  
**dirio** pwyso ar *1 un.amhff.myn.*  
**diriwn** 7.40n  
**diseibiant** diegwyl, prysur 9.5  
**diweniaith** didwyll 7.73  
**diwyd** dilynwr *ll. diwydion*  
 18.83n  
**diwyg** ymddangosiad 11.40, 54  
**diwyno** halogi *amhrs.grff.myn.*  
**diwynwyd** 18.53n  
**doctor** 14.40, 16.27n, 17.88n,  
 18.57n **doctor o'r Glyn** Dr  
 Wiliam Glyn 14.38n  
**dofair** gair tyner 13.37  
**dôr** drws [y bedd] 19.15  
**dori** bod o ddiddordeb neu o  
 bwys i, malio *3 un.pres.myn.*  
**dawr** 1.65, 7.38 (gw. hefyd  
**ni'm dawr**)  
**draenog dro** 12.51n  
**drudwen** gw. **drudwy**  
**drudwy** 11.11n; *b. drudwen*  
 12.10  
**drwg** 12.46n  
**drws** 3.11n  
**dryll** darn 15.78  
**du** pryd tywyll; trist 1.63n,  
 11.67n, 14.40n, 19.7  
**duael** 7.64n  
**dug** gŵr o'r radd uchaf yn y  
 bendefigaeth 17.14  
**dulio** curo, taro 17.72  
**dullio** llunio *amhrs.grff.myn.*  
**dullwyd** 9.35  
**durew** tynged ddrwg 18.29n  
**d'wedut** gw. **dywedyd**  
**d'wedyd** gw. **dywedyd**  
**dwned** llyfr o egwyddorion  
 gramadeg neu fydryddiaeth  
 15.74, 19.62n  
**dŵr** 3.11n, 8.18n, 40  
**dwrn** awdurdod 17.2  
**dwyr allawr** 9.35n  
**dwygrefft** cerdd dant a cherdd  
 dafod 14.12 **dwyr grefft** 2.19n  
**dwyn** lladrata, cario 17.21n,  
 19.50  
**dwyrnt** dwy fywoliaeth  
 eglwysig 1.25n  
**dwystol** dwy stôl 8.43n  
**dwywlad** 6.3n  
**dychan** 11.41n, 16.45, 17.27, 30  
**Dyddbrawd** Dydd y Farn 19.84

**dyfalu** dychanu, gwatwar,  
disgrifio yn null gorchestol y  
Cywyddwyr 4.28, 13.53, 16.51  
**dyfod** 3 *ll.pres.dib.* **delon'** 1.65n  
**dyfrllyd** 5.48n  
**dyfynnu** gorchymyn i  
ymddangos gerbron 3  
*un.pres.myn.* **dyfyn** 19.34  
**dyhuddo** cymodi, ennill ffafwr  
5.27, 7.53  
**dyhuddwr** cymodwr 3.23  
**dylaf** bod yn rhwymedig [i  
wneud rhywbeth], bod dan  
rwymau [i wneud rhywbeth]  
3 *un.pres.myn.* **dyly** 16.46  
**dyly** gw. **dylaf**  
**dyn** merch, gwraig 7.42, 16.66  
**dyn bychan** plentyn 16.60  
**dyrru** gorfodi [i fynd] 3.61n  
**dysg** 19.68, 78  
**dywad** dyfod 14.61  
**dywedyd** dweud **d'wedyd** 12.46n  
2 *un.amhff.myn.* **d'wedut**  
14.29n  
**dywedyd ar** bradychu, cyhuddo  
3 *un.amhff.myn.* **doedai ... ar**  
18.83–4n  
**ebill** peg trwy grib telyn sy'n dal  
y tant fel y gellir ei dynhau neu  
ei lacio *ll.* **ebillion** 7.45n  
**Ebrill** 4.6  
**Ebryw** Hebraeg, iaith ddirgel ac  
urddasol 4.6n  
**echrysaint** pla 3.29n  
**edyn** edn, aderyn 3.55, 5.32  
**efrydd** anafus, egwan 1.9  
**ehedeg** teithio'n gyflym  
3 *un.pres.myn.* **'heda** 18.1n  
**ehudrwydd** twyll 18.19n  
**eiddew** 1.46n  
**eilgwrs** eildro 15.69  
**eilio** plethu 19.78  
**eiliw** ymddangosiad, lliw 7.12  
**eirian** disglair 15.51

**eithaf** uchaf 4.4  
**eithyr** eithr, ond, y tu hwnt i 9.54  
**elain** iyrches, carw ifanc 13.36  
**elawr** elor 19.26n  
**ell** llathen a chwarter 11.16n  
**emyn** cân foliant 8.31n  
**enaid** anwylyd 14.54n, 19.90n  
**ennyg** gw. **annog**  
**enwir** anwir, anfad 10.51  
**enwog** clodfawr 17.10  
**eos** 19.73  
**er** er mwyn 10.40  
**ereill** gw. **arall**  
**eres** rhyfeddol 5.25  
**eryr** arwr 16.47n, 18.71, 19.47n,  
53  
**esgob** 10.67n, 11.36n  
**estron** dieithryn 16.63  
**eurddrych** patrwm rhagorol 4.41  
**eurglau** euraid a chyflym [ei  
drawiad] 17.37  
**euro** anrhydeddu 18.52n;  
*amhrs.grff.myn.* **eurwyd** 1.35;  
*amhrs.grch.* **eurer** 8.25  
**eurwalch** (am bendefig rhagorol)  
15.41n  
**ewin** 3.20n  
**ewinllestr** person a chanddo rym  
arfog i grafangu 13.30n  
**ewyrth** 1.13n  
**ffael** methiant, diffyg 17.68  
**ffagod** bwndel o goed *ll.*  
**ffagodau** 6.57  
**ffair** marchnad, masnach 9.1n  
**'fferen** gw. **offeren**  
**ffisigwraig** iachawr 1.21n  
**fflamddur** llafn neu gledddyf yn  
fflamio 15.14  
**fflwhch** parod, cyflym 15.14,  
18.30  
**ffortun** hap 7.25  
**Ffranc** Ffrancwr, Norman 17.3n  
**ffriw** ymddangosiad, wyneb 9.27,  
29n, 39n

**ffriw-lew** o ymddangosiad llew

17.3

**ffroen** pen blaen fferi 9.27n

**ffrost** ymfrost 18.37

**ffrwd** cerrynt 5.39, 9.29

**ffrwyn** atalfa 5.30

**ffust** offeryn i ddyrnu *ÿd â llaw*

11.14n

**ffwr** 2.13

**ffynadwy** yn ffynnu 18.39

**ffyrfryd** bendithfawr 15.77n

**gadaw** gadael 19.89

**gaeaf** 1.52n

**gafael** 17.85

**gafwlyb** yn wlyb ei arffed 10.9

**gafr** *ll. gafrod* 6.12n, 11.20

**geifr** 12.27n, 38

**gafra** hel geifr at ei gilydd 1.62n

**gair** 16.51n

**galawnt** cwrtais a bonheddig,

*gwyh, hardd, S. gallant* 3.16,

17.86n

**gallt** llechwedd coediog 18.78

**gallu** *l un.pres.myn. gallaf* 7.10n

**gan** oherwydd 12.54n

**garir** coeshir 5.14

**gau** twyllodrus 10.50

**geirwir** gonest 9.9n

**gem** anwylyd, trysor 7.64

**gemaur** aur-emog, *S. golden and*

*begemmed* 15.49

**genef** genau 6.27n

**geuawg (-og)** euog 2.23n, 12.51

**gleisiad** 13.8n

**gloywddur** a chanddo arf(au) dur

*gloyw* 15.8

**gloyw-win** gwin wedi'i loywi a'i

*ddiwaddodi* 16.31

**glwys** hardd 18.81

**glwysber** hardd a pheraidd 15.22

**gofeg** ymadrodd, trachwant 17.55

**gofelyn** tra annymunol 16.37n

**goframu** herio, sarhau 1.28, 6.14

**gofwy** ymweliad 17.23

**gofyn** gwahodd 18.14n

**gogan** dychan 11.58n

**goleuad** goleuni 14.16n

**golud** 1.61n

**gorawen** hyfrydwch 19.8

**gordd** morthwyl 15.12

**gordderch** cariadferch 7.62,

13.48, 16.61

**gorfainc** gorseddfa, sêd 9.37

**gorfedd** gorwedd 3.33

**gorhenaidd** eithriadol ddwl,

*henffasiwn* 7.72n

**gorhoen** llawenydd 12.3

**gorwegi** oferedd 10.68, 17.75

**gorweiddiog** yn glaf mewn

*gwely* 12.2

**gorwyn** claerwyn 9.9n

**gosber** gwasanaeth hwyrol 18.63

**gosod** rheol, defod 9.2

**gostwng** rhannu 15.25n

**gra** ffwr 1.38

**gradd** teilyngdod, dosbarth [o

*glerigwyr*] 13.28, 19.17n

**gramadeg** rheolau cerdd dafod

19.58n

**gras** 16.58n

**grwnial** cwyno, swnian 11.7n

**gwadd** twrch daear 16.46n (gw.

*hefyd twrch)*

**gwaedd** wylofain uchel 19.16;

*l un.amhff. myn. gwaeddw*

19.53

**gwaeddlawn** â llais cryf 17.50

**gwaetio** *S. to wait* 14.30n

**gwal** mur 10.2

**gwalch** 18.48, 51

**gwall** bai, drwg 18.64n, 87

**gwanas** cynhaliwr, bachyn,

*hoelen* 3.25, 8.32

**gwaneg** cwrs 3.49

**gwâr** *S. ware* 2.59n

**gwarant** awdurdod 14.56

**gwarantu** dilysu, sicrhau  
 3 *un.pres.myn.* **gwarant** 18.65–6n  
**gwarcheidwad** gwarchodwr,  
 ymgeleddwr 17.40  
**gwa'rddedig** wedi eu gwahardd  
 10.20  
**gwawd** dirmyg, cerdd foliant,  
 barddoniaeth, cân ddychanol  
 6.53, 7.75, 8.3, 17.28  
**gwawdwr** prydydd 18.30  
**gwawdydd** bardd 12.1  
**gwawr** (am ferch) 7.72  
**gwden** rhaff o wiail 5.9  
**gwe** hwyl 9.16n  
**gweadur** nyddwr, lluniwr 6.53  
**gweddw** 3.9n  
**wegil** gw. **bys i ... wegil**  
**gwehelyth** pendefig 8.24  
**gweinidog** morwyn 9.30  
**gweled** 2 *un.grch.* **gwyl** 8.36n  
**gwell** gw. **da**  
**gwenddyn** merch hardd 7.75  
**gwenfun** merch hardd 17.17  
**gwnnol** 9.15n  
**gwynyn** 11.29n  
**gwêr** toddion 11.20 (gw. hefyd  
**llygad gwêr**)  
**gwern** cors 2.59n  
**gwerthu** bradychu  
 3 *un.amhff.myn.* **gwerthai** 18.9  
**gwiaail** gw. **gwialen**  
**gwiaail aur** 7.4n  
**gwialen** 19.63n; *ll.* **gwiaail** 1.52n,  
 5.12n (gw. hefyd **gwiaail aur**)  
**gwingo** 11.28n  
**gwinau** rhuddgoch, eurfrown,  
 brith 7.65, 19.11n  
**gwingerdd** cerdd felys, goeth  
 19.9  
**gwinllan** (am Forgan ap Hywel)  
 1.15n  
**gwir** 12.45n  
**gwirion** geirwir, diniwed 16.25,

18.69n  
**gwiriondeb** diniweidrydd,  
 unplygrwydd 4.40  
**gwisg** gwisg, gwenwisg, amdo  
 15.3n, 19.64n  
**gwiwgoeth** teilwng a choeth  
 17.13  
**gwladwr** arweinydd gwlad 16.55  
**gwolith** eneniad 11.21  
**gwlyb** 4.26n  
**gwlydd** chwyn 17.39  
**gwneuthur** 2 *un.pres.myn.* **gwnai**  
 13.41n  
**gwni** gwniad, cerdd gywrain  
 17.25n  
**gwragedd** gw. **gwraig**  
**gwraig** cariadwraig *ll.* **gwragedd**  
 10.68n  
**gwrdaeth** gwaedoliaeth uchel,  
 ardderchowgrwydd 10.53n  
**gwrdaaeth** 11.40  
**gwr du** (am Ddafydd ap Gwilym)  
 1.63n  
**gwrdd** cryf 13.63  
**gwr ... gwareiddwych** gwr  
 addfwyn a rhagorol 17.33n  
**gwrldogrudd** a'i rudd yn wrldog  
 15.1  
**gwr llên** ysgolhaig, clerigwr  
 6.33; *ll.* **gwyr llên** 19.48n  
**gwybod** 3 *un.amhff.myn.*  
**gwyddiad** 14.55 (gw. hefyd  
**gwy'r Dduw**)  
**gwydd** 5.31, 35, 12.10;  
*ll.* **gwyddau** 11.12n, 12.28  
**gwydd** defnydd barddoniaeth,  
 llwyni coed 15.22n, 63, 17.28  
**gwyddiad** gw. **gwybod**  
**gwyl Fair** 19.18n  
**gwylan** 3.60n, 9.13n  
**gwylio'r gell** gwylio gartref,  
 cadw tŷ 7.74n  
**gwylog** aderyn môr, *S. common*

- guillemot* 9.17n  
**gwymp** glandeg 10.50  
**gwyn** bendigaidd, teg yr olwg  
 19.9; *b. gwen* 7.66, 10.8, 19.60n  
**gwynafog** dicllon 7.28n  
**gwynfydwr** cenfigennwr 15.88  
**gwynt** sawr, awel gref 7.19,  
 18.20  
**gŵyr Dduw** 12.2n  
**gwyro** troi o'r neilltu [o ran  
 pwysigrwydd] 9.56  
**gwyro ael** *S. beckon*  
*3 un.pres.myn. gwyr* ... ael  
 7.68n  
**gyrru ... dan gerrig** cuddio o  
 ŵydd 10.69n  
**ha'** haf 1.51n  
**haen** gwisg 1.54n  
**haerud** haeru, taeru, mynnu 14.63  
**hafod** trigfan haf ar ucheldir,  
 llaethdy 1.60, 2.35, 38, 7.30, 11.23  
**hafodwraig** 11.24  
**haint** clefyd 2.19n  
**hanner cainc** hanner alaw 7.49n  
**hap** ffyniant 9.10  
**hawnt** hynt, nwyf 3.15  
**heb dranc** yn ddiiddiwedd 19.15n  
**heblaw** y tu hwnt i 15.11  
**heb wedd** yn eithafol 14.17, 19.39n  
**'heda** gw. **ehedeg**  
**hela** ymlid [merched] 18.75  
**helynt** taith, gofid 17.65, 18.13n, 20  
**hir** hen *cmhr.* **hwy** 5.6n  
**hir a byr** 15.30n  
**hirlaes** hir ei barhad  
*ll. hirlaesion* 7.44n  
**hirwen** gw. **hirwyn**  
**hirwyn** tal a goleubryd 16.3;  
*b. hirwen* merch dal, hardd  
 14.63  
**hons** ?llipryn 4.27n  
**horen** putain 9.46  
**hortio** enllibio *2 un.grff.myn.*
- hortiaist** 14.35n  
**hoiwddeg** nwyfus a hardd 9.23  
**hoiwdraul** gwych ei gynhaliath  
 13.42  
**hudol** twyllodrus 18.1  
**'hudrwydd** gw. **ehudrwydd**  
**hwp** ysgogiad, antur 9.16n  
**hwy** gw. **hir**  
**hwyad** hwyaden 17.68  
**hwyl** hwyl [llong], taith 9.32  
**hwylio helynt** efelychu 14.9n  
**hy** eofn, hyderus *eith.* **hyfaf**  
 7.10n  
**hydr** dewr, grymus *eith.* **hydraf**  
 7.9  
**hydraul** hael, afradus 18.19  
**hydref** 13.42n  
**hydyn** ystwyth 9.23  
**hydd** carw 13.43n, 16.49 (gw.  
 hefyd **carw**, **iwrch**)  
**hyfr** bwch gafr [yn enwedig  
 wedi'i ysbaddu] *ll.* **hyfrod**  
 11.20  
**hygar** caruaidd 3.13  
**hyglau** atseiniol 3.15  
**hygoll** hawdd ei gollu 17.1  
**hylith** wedi ei fwydo'n dda 6.2  
**hylithr** yn llithro'n rhwydd a  
 chyflym 10.3  
**hylltraul** hyll ei dreuliad 5.15  
**hynod** difrifol, dwys 16.20  
**hyrio** herio, annos 18.78n  
**i** 9.1n (gw. hefyd **i'm** **hoes**, **i'n**  
**cefnau**)  
**iach** cadarn 16.7  
**iad** corun 12.25  
**iaith** pobl 10.8n; *ll.* **ieithoedd**  
 19.13  
**iâr** (am ferch) *ll.* **ieir** 7.18  
**iarll** 15.86; *b. iarll*es 15.47,  
 17.15n  
**iarll**es gw. **iarll**  
**iawngof** cywir ei wybodaeth am



- y tri 'chof' 13.17n, 15.33n,  
19.46 (gw. hefyd **cof**)
- i'm hoes** yn fy myw oes, *S. for the life of me* 15.43n
- i'n cefnau** y tu ôl i'n cefn 18.31n
- irder** ffresni, helaethrwydd 8.26
- irwydd** glasgoed 12.37
- isgil** o'r neilltu 18.47n
- iwrch** hydd 2.24n (gw. hefyd **carw, hydd**)
- let** rhwystr *ll. lets* 17.64n
- loets** trigfan dros dro, *S. lodge* 13.47n, 14.26, 17.64n
- lowio** *S. to allow*  
*amhrs.pres.myn.* **lowir** 14.13n
- lladd** taro 13.36 **lladd ... celain**  
llofruddio 4.17–18n
- llafasu** beiddio *1 un.pres.myn.*  
**llafasa'** 14.43 **llafasaf** 18.27
- llancwas o Lŷn** (am Ieuan Delynor) 16.38n
- llarieiddfyd** byd gwaraid, hynaws 15.55
- llaswyr** rosari 5.1n, 18.45
- llaswyr** hamddena, canu salm(au), rhodianna 1.22  
**llaswyr**aw 14.23, 17.57
- llaw** 12.49n
- llawer** 7.74n, 12.45n
- lleddfu** ufuddhau 13.35n
- llên** offeiriad 2.15n, 12.21
- llethu** cael y llaw uchaf ar 9.55
- llew** arwr, ymladdwr ffyrnig, gŵr o fonedd 17.3n, 6, 18.54, 19.59n
- llid** 11.42n
- llin** tras 8.24
- llinad** gw. **cwd llinad**
- llith** bwyd 1.7
- lliwgar** glandeg 7.70
- lliwio** edliw *2 un.grff.myn.*  
**lliwiaist** 11.19, 37, 53
- llogail** pared o wiail plethedig 11.50n
- llun** ffurf 9.12n
- lluosog** cydseiniol, mewn harmoni 7.47
- llurig** pais ddur 16.59
- llw** gw. **o'm llw**
- llwyd** [gŵr] a'i wallt wedi britho; bendigaidd, duwiol 9.8, 16.1n, 18.54, 19.59n
- llwyn** ffyniant 19.48n
- llydan** eang [ei ddysg a'i ddaliadau], pwysig 11.60n, 13.11
- llyfr** (am y Beibl) 11.43n
- llygad gŵêr** llygaid [fel] gŵêr, golwg dwp *ll. llygaid gŵêr* 2.55n
- llyn** (am gulfor Menai) 9.24n
- llys** 15.46n, 16.8n **llys y gaer** 16.2; *ll. llysau* 15.50
- llysieuwraig** doctor llyisiau 1.22
- mab maeth** *S. foster son* 19.80n
- macwy** un ifanc 4.18
- mael** lles, elw 5.49
- maen** 16.6n
- maenol** tiriogaeth 7.23
- maeth** magiad 11.39
- Mai** 13.33
- maidd** *S. whey* 9.33
- mail** cawg 5.11
- mainc** sedd [o anrhydedd] 13.26n, 16.44n (gw. hefyd **talfainc**)
- maith** llaes 15.3n
- malais** awydd i achosi niwed 18.57
- mall** gw. **mintai'r fall, y fall**
- mamaeth** mam *ll. mamaethod* 7.11
- man** 15.92n
- maneg**<sup>1</sup> gw. **menig hirion**
- maneg**<sup>2</sup> gw. **mynegi**
- maner**<sup>1</sup> maenor 9.53
- maner**<sup>2</sup> modd 15.48
- manwydd** llwyni isel 17.27
- marcio** craffu ar 13.45n

- march** *ll.* **meirch** 1.11n, 9.19n  
**marchnad** 18.90  
**marchog** (weithiau am Syr  
 Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn)  
 7.3n, 17.11, 24 **marchog**  
**urddol** 7.62, 14.36n  
**marchogwaed** gwaed bonheddig,  
 ach farchogol 17.13n  
**mau** fy, eiddof fi 17.11  
**mawl** canmoliaeth 10.37n  
**mawn** 6.46  
**mawr ei goed** helaeth ei ach 3.42n  
**mawrnerth** 13.10n  
**mawrnwy'** nwydus iawn 10.58  
**mawrwalch** arglwydd grymus  
 17.70n  
**medleilas** o liw glas neu wyrdd  
 amryliw 4.1  
**meddwl** myfyrdod 19.71n  
**meithrin** 14.49n  
**melfed** 18.65n  
**melyn** pengolau 1.37n, 18.57n  
**melys** 16.41n  
**melyster** melyster cerdd 15.25n  
**menig hirion** 19.66n  
**menych** gw. **mynach**  
**menyg** gw. **mynegi**  
**merch** (am delyn) 7.53n  
**merydd** moresg, gwair cwrs 11.9n  
**mes** *S. mace* 13.61n  
**methu** 3 *ll.pres.myn.* **methain'**  
 1.59n  
**mewn** 12.27n  
**mieri** llwyni drain 17.70n  
**minial** murmur, cusanu 16.62  
**mintai'r fall** llw'r diafol 2.51  
 (gw. hefyd **y fall**)  
**modrwyawg** modrwyog,  
 dolennog 12.7  
**monnyn** person sarrug, pwdlyd  
 7.13n  
**mordwy** rhyferthwy[‘r môr] 16.5  
**môr-gaseg** ton fawr wen 9.23  
**mulfran** fwltur 18.40n  
**muriones** meiriones, gwraig  
 ordderch 10.58n  
**murnaidd** twyllodrus, dichellgar  
 10.58  
**murniad** twyll, aflwyddiant  
 17.79n  
**mwawl** pentwr 16.10n  
**mwngl** gwddf 8.32, 15.21  
**mwstwr** cynnwrf, ffræ, llu  
 16.76, 18.5  
**mwyalch** (am ferch) 18.48  
**mwyn** bonheddig 8.4n  
**myfi** 1.20n  
**myfyriaeth** cyfnod o astudio  
 16.39  
**mynach** *ll.* **menych** 9.50 **mynych**  
 11.68n  
**mynachlog** 9.36n  
**mynegi** cyfleu mewn geiriau,  
 datgan 2 *un.grch.* **maneg** 10.17;  
 3 *un.pres.myn.* **menyg** 8.19,  
 10.61  
**mynnu** dymuno, hawlio 9.10;  
 3 *un.pres.myn.* **mynt** 8.42n  
**mynt** gw. **mynnu**  
**mynud** cwrteisi, ystum drwg  
 10.37n; *ll.* **mynudie** 18.72n  
**mynwent** 2.12n  
**mynwes** 14.50n  
**mynych** gw. **mynach**  
**myn y tân!** llw 10.73n  
**nacáu** gwrthod 3 *un.pres.myn.*  
**necy** 4.39  
**nâd** trwst 18.68n  
**nawdd** cynhaliaeth 17.21n  
**nawdd gŵr** 12.86n **nawdd ...**  
**merch** 12.83n  
**necy** gw. **nacáu**  
**neidio** dawnsio 3 *un.pres.myn.*  
**neidia** 7.66  
**neidr** 18.21–4n  
**nemor** fawr ddim 14.40

**nenbren** arglwydd cenedl 13.3n  
**newydd** 14.15n  
**ni'm dawr** 1.65 **ni'm tawr** ni  
 fynnaf 2.63n (gw. hefyd **dori**)  
**nod** marc i ddynodi eiddo, haint y  
 nodau, y Pla Du 1.44n, 19.20n  
**nodi** dal haint y nodau, sef y Pla  
 Du *amhrs.grff.myn.* **noded**  
 19.49n  
**nodwydd ben** pîn *ll.* **nodwyddau**  
**pen** 11.56n  
**noeth** diaddurn 13.20  
**noethi** dinoethi, datguddio 16.75  
**Noswyl Fair** 5.1n  
**nyddiad** cân 15.20  
**ôd** plu eira (weithiau am blu  
 alarch) 3.74n, 7.12, 29  
**od ar** yn rhagori ar 19.47n  
**odl** cerdd *ll.* **odlau** 18.31n  
**oddfyn** lwmpyn mawr 17.52n  
**oed** apwyntiad 16.68  
**oen** 17.5n  
**oer** yn peri tristwch, anhyfryd  
*ll.* **oerion** 15.62  
**oes** gw. **i'm hoes**  
**offeiriad** *ll.* **offeiriaid** 9.49n  
**offer** 2.60n  
**offeren** gwasanaeth lle y  
 gweinyddir y sacrament o  
 Swper yr Arglwydd **'fferen**  
 15.77, 18.63, 19.56n  
**og** oged, S. *harrow* 17.8n  
**olew** 19.26n  
**o'm llw** ar fy llw 11.15n  
**o'm tyb** yn fy marn i 12.12  
**onn** S. *ash* 1.47  
**organ** 17.49n  
**padell** 11.15n  
**pais** tiwnig 6.13  
**palf** troed [aderyn] 3.66  
**palis** pared, amddiffynnwr 16.4  
**palmer** pererin 4.9  
**pân** ffwr 10.59, 11.56

**pa nad?** onid? 19.77n  
**parc** gardd, tir agored 13.44;  
*ll.* **parciau** 14.20  
**pardwn** gw. **taith pardwn**  
**parlwr** 8.29n; *ll.* **parlyrau** 15.54  
**parodwin** dirwystr ei win 15.44  
**parth â** tuag at 10.8n  
**patriarch** hynafgwr hybarch  
*ll.* **padrïeirch** 1.12  
**paun** 6.34, 17.12n  
**pawb** 1.3n  
**pebyll** deildy 1.47  
**pedair iaith** 2.8n  
**pedreuwai**th gwaith perffaith a  
 chyflawn 2.7n  
**pen** gw. **torri pen**  
**penadur** llywodraethwr 15.8,  
 19.49n  
**pencerdd** 13.58  
**pendefig** 16.32n  
**pennill** 15.78  
**person** gŵr eglwysig, offeiriad  
 2.1n, 29, 5.28n  
**person Llanallgo** Syr Dafydd  
 Trefor 3.17–18n  
**pestel** pestl, chwalwr [gelynyion],  
 cal 5.20n  
**piaw** 8.48n  
**pibydd** 13.55  
**pîn** peth diwerth 17.71n  
**pinio** cysylltu â phinnau 10.59n  
**plan** planedig 2.48n  
**planed** 19.6n  
**plant y fall** S. *Furies* 1.53n  
**plâu** plagio 5.19n  
**pluo** ysbeilio, blingo 17.68  
**poeth** gwirodol 18.56  
**pompren** pont bren 9.21  
**porth** porthladd, drws, ceg 9.54,  
 55, 56, 10.28, 12.9  
**Porth Aur**, y Porth yr Aur 9.57n  
**porth Iesu** porth y nefoedd 9.58n  
**porthwr** badwr ar fferi

*ll.* **porthwysion** 9.2n **porthwyr**  
9.57n

**Porthwysion**<sup>1</sup> trigolion

Porthaethwy 9.58n

**porthwysion**<sup>2</sup> gw. **porthwr**

**post** cynheiliad, safle 13.1, 18.89

**praw'** prawf 12.54n

**prifgaine** alaw orau 13.26, 16.44

**prifie** tâl dyledus 18.85–6n

**priffordd** 11.60n

**priodas** 16.57n

**prior** (am gaptlen llong) 9.39n

**profiad** term technegol yng

nglyfundrefn cerdd dant 14.57n

**proffwyd** daroganwr 13.15

**proses** traethiad 2.9n

**prudd** doeth *ll.* **pruddion** 1.46

**prydyddes** menyw sy'n barddoni

*ll.* **prydyddesau** 17.36n

**punt** 2.2n, 9.22n

**pur** 19.56n

**pwn** baich 5.16

**pwnc** mater, testun, digwyddiad,

cân 7.2n, 10.16, 15.26n

**pyynt** safle 2.6

**pybyr** cadarn 1.3

**pyg** pygddu 10.62

**pysio** gwario o bwrs, gwario'n

hael 3 *un.grff.myn.* **pysiodd** 2.1n

**reiol** brenin; gwyach, brenhinol

3.59, 8.35n, 15.86; *cmhr.*

**reiolach** 3.60

**riwlio** rheoli 19.30n

**Romani** gw. *Enwau lleoedd*

**rhad** bendith; rhadlon 1.33n, 9.4

**rhaff flew** 18.30n

**rhagor** uwchlaw 15.10

**rhain** [y] rhai hyn 10.20n

**rhan** nifer, uned 7.39, 8.4n

**rhawd** gyr 2.33

**rhawg** yn awr 2.24 (gw. hefyd

**yrhawg**)

**rhemial** grwgnach 14.7n

**rhemwth** bolgi 6.14

**rhent** bywoliaeth eglwysig 2.11

**rheol** arfer sefydlog, patrwm,

awdurdod 10.3, 17.5n

**rhestr** rhes 13.29

**rhifo** pwyso a mesur, barnu

3 *un.amhff.myn.* **rhifai** 11.43n

**rhodd** 1.3n, 2.2n; *ll.* **rhoddion**

8.7–8n

**rhoddi** 8.11n (gw. hefyd **rhoi**)

**rhof** rhyngof 3.65; **rhof a th'di**

rhyngof a thi 12.64n

**rhoi** 8.4n, 8n (gw. hefyd **rhoddi**)

**rhòl** sgròl 10.3n, 15.74, 17.82

**rhonllyn** cynffon o gulfor 9.20n

**rhudd** gwaedlyd; dillad coch 5.8,

8.35n

**rhwth** glwth 5.16

**rhwyfo** mordwyo, hwylio 10.19

**rhwysg** nerth 16.5

**rhybudd** cerydd 8.36n

**rhyd** afon, culfor *ll.* **rhydau**

9.39n, 17.58

**rhydd** 10.13n

**rhyfas** ac ynddo helaethrwydd o

wisgoedd gwerthfawr 15.89n

**rhyfedd** rhyfedd; syndod 11.43–

4n, 16.77

**rhywbeth** gweithred 8.36n

**rhywiog** ucheldras, gwyach 7.20,

17.7

**rhywiogryw** o linach dda 15.10

**rhywiogwalch** ymladdwr glew

17.1

**rhywiogwledd** gwledd radlon

15.40

**sad** cadarn, dibynadwy, doeth

7.73, 10.60n

**sai'** gw. **sefyll**

**sai' i** gw. **sefyll i**

**saith glefyd**, y 11.6n

**Saith Weithred**, y Saith

Weithred y Drugaredd 10.30n

- sâl** ffiadd 16.51n  
**santwari** seintwar 4.31n  
**sarn** llwybr neu ffordd  
   ddyrchafedig sy'n croesi dŵr,  
   cerrig rhyd 17.61, 18.49  
**sarsiant** 16.15, 17.76n, 18.66n  
**sawd** brwydr 10.6n  
**sawdiwr** milwr *ll.* **sawdwyr** 16.8  
**sefyll** aros, parhau 3 *un.pres.myn.*  
**sai'** 4.31n, 18.4  
**sefyll i** cefnogi 3 *un.pres.myn.*  
**sai' i** 12.5–6n  
**selab** Llad. *celebratio* 10.15n  
**selu** selio 5.26  
**serloyw** disglair fel sêr 15.3n  
**serth** sarhaus *eith.* **serthach** 11.70  
**sglander** enllib 11.51n  
**sglandrio** enllibio 2 *un.grff.myn.*  
**ysglendriaist** 14.17n  
**si** hisiad 11.10, 12.23  
**siad** penglog 11.11  
**siaffer** padell dân 2.56n  
**siambren** 7.59n, 8.5n, 14.18n,  
   15.4n, 18.42n **siambraen** 18.92  
**siastio** cosbi, ceryddu, *S. chasten*  
   1.56n  
**sidan** 10.60n, 11.55  
**simwr** mantell 3.16, 4.10  
**siopwr** ?y dyn yn y lleuad 5.8n  
**sir** *S. [good] cheer* 15.52, 18.18  
**sistio** mynnu, hawlio 1.56n  
**soelio** *S. absolve amhrs.grff.myn.*  
**soeliwyd** 10.15n  
**solas** cysur mewn adfyd,  
   diddanwch 18.55  
**sonio** yngan 5.3  
**sorri** digio 3 *un.pres.myn.* **syrr**  
   8.13n  
**sown** sŵn 7.48  
**stôr** digonedd 2.9  
**swrn** llawer, swm mawr 7.15,  
   16.45  
**swydd** gw. **tair swydd**  
**syber** gwyb, bonheddig 9.5  
**syfrdan** syndod 14.1  
**syll** sylfaen 19.60n  
**sym** swmp 1.43  
**syriol** siriol 15.73n  
**syrr** gw. **sorri**  
**syrthio** digwydd 3.18  
**syth** gonest 10.30  
**taer** dyfal 13.30  
**taeru ar** bygwth, cyhuddo  
   2 *un.amhff.myn.* **taerit arni**  
   11.27n **taerut arno** 14.25n  
**tafawd** 16.42n  
**tair swydd** 16.13n, 19  
**taith pardwn** taith i ddeisyf  
   maddeuant 10.11  
**tâl** talcen 9.29  
**talfainc** sedd anrhydedd, gorsedd  
   14.7n (gw. hefyd **mainc**)  
**talm** ysbaid o amser 12.30  
**tan gêl** tan gysgod, yn  
   gyfrinachol 18.75  
**tannau ... rhawn** tannau telyn  
   wedi eu gwneud o flew ceffyl  
   7.43–4n  
**tarian** (am delyn) rhagflaenydd,  
   *S. harbinger* 3.8n, 18.29n  
**taring** parhau [mewn rhyw  
   gyflwr] 10.74  
**tario** oedi *amhrs.pres.myn.* **terrir**  
   10.71n  
**tarren** bryncyn, clogwyn 3.65,  
   15.41  
**tarw** (weithiau am Syr Wiliam  
   Gruffudd o'r Penrhyn) 7.20n,  
   13.30n, 31, 16.50 (gw. hefyd  
   **bwla**)  
**tau** eiddot ti 8.3, 22  
**tawr** gw. **dori, ni'm dawr**  
**teiliwr** gwneuthurwr dillad /  
   gosodwr teils 6.52n  
**teimlo** archwilio 12.52  
**teirbath** tri math 10.18n

**teiriaith** tair cenedl 13.4n, 15.4n

**telyn** 3.1, 7.41, 55, 59, 61, 77,  
8.10n, 13, 31 (gw. hefyd **tarian**)

**telynawr (-iawr)** telynor 13.56,  
16.40

**tennyn** rhaff 18.16n

**terfysg** anghyngord, aflonyddwch  
19.54

**terrir** gw. **tarío**

**testunio** dychanu [mewn  
barddoniaeth], sarhau 18.59n

**teulu** gosgordd 15.12

**tew** grymus 17.47

**tid** cadwyn 10.43

**tinllaes** tew ei ben-ôl, llegach  
*ll. tinllaesion* 1.48

**tir** 10.32n, 11.29–30n, 17.19n

**tlws** trysor *ll. tlysau* 8.6

**ton** môr 10.1n

**tor** tŵr porth y llys, bol,  
ymchwydd 14.66, 16.1n, 6n,  
18.78 (gw. hefyd **toryn**)

**torbraff** â bol helaeth 10.7

**torch** coler 13.29n, 16.52

**torllaes** â'r bol yn hongian i lawr  
5.48

**torllwyth** moch bach 9.26

**torri** dryllio *amhrs.grff.myn.*

**torred** 19.52n

**torri dydd** torri cymod 3.71n

**torri gwewyr** lleddfu ing 1.55n

**torri pen** dienyddio, lladd  
*amhrs.grff.myn. torred pen* 19.1n

**toryn** bol 9.52n (gw. hefyd **tor**)

**trablin** tra gofidus 17.67

**traean awr** ysbaidd fer 18.2n

**trafael** gw. **ar drafael**

**traï** cwr 13.41

**tramwy** siwrnai 9.4

**traserch** serch anghymesur, blys,  
nwyd 7.53, 15.81

**trawst** postyn pren, pechodau  
11.50n, 12.55

**tref** cartref, maenor 13.41, 15.87

**tremyniad** ymosodwr 13.32n

**trenter** pardynwr 10.27;

*ll. trenteriaid* 9.52n, 10.25

**tri** 19.71n, 90n

**trimwchl** uned gerddorol sy'n  
cynnwys 1,200 o geinciau  
15.31n

**trin** helbul, cynnen 18.73

**troed** 19.52n

**trof** tro 8.46n

**trofa** camedd, gwyrriad 4.26, 46

**trumiog** uchel [ei safon] 15.32

**trwch** ysgeler 19.7

**trwm** pwysig, dylanwadol, trist  
15.31, 19.17, 71n; *cmhr.*

**trymach** 19.50

**trwsio** cyweirio, paratoi 3.68;

*3 un.amhff.myn. trwsiai* 9.24n

**trwst** dadwrdd 19.3

**trwyn** 4.26n, 5.48n

**tu hwnt** gwell 13.20

**tunnell** baril, casgen [win]  
16.72n; *ll. tunellesau* 1.48

**tŵr** rhyfelwr cadarn, tŵr 13.31n,  
16.1n, 6n

**twrch** ymladdwr mileinig, twrch  
daear 13.29n, 16.52n (gw. hefyd  
**gwadd**)

**twrnio** troi 11.27

**tŷ** 3.11n

**tyb** gw. **o'm tyb**

**tybio** *3 ll.amhff.dib. tybynt* 15.5

**tyrru da** pentyrru golud 10.72n

**tywarchen** pridd 19.61n

**tywyn** tywyniad 18.38

**ucho** uchod, uwchben 18.7

**un** 7.78n, 15.92n, 18.76n

**unfodd** *S. likewise* 18.25

**ungest** boliog 16.29n

**urddol** clerigwr ordeiniedig 19.14

**uthur** rhagorol 10.30n

**'wenydd** gw. **awenydd**

- whibanu** chwibanu 7.22  
**wtres** anlladrwydd 2.17n  
**wtreswr** gloddestwr, cariad 5.47  
**wylo** 3 *un.pres.myn.* **wyl** 8.47  
**'wyllys** ewyllys, awydd 17.78  
**wyneb** 16.58n (gw. hefyd **dau wyneb**)  
**wynebu** 3 *ll.pres.dib.*  
**wynebwynt** 12.73n  
**wynebwr** gwrthwynebwr 13.6n  
**y fall** 2.51, 6.15 (gw. hefyd **mintai'r fall**)  
**y Grog** y Groes 17.16n (gw. hefyd **crog**)  
**ynglŷn agos** *S. almost held fast* 17.60n  
**ymaelyd** ymgodymu  
*1 un.pres.myn.* **ymaelaf** 7.52n  
**ymaelydd** ymrysonwr barddol 15.67n  
**ymannerch** cyfarch 6.25  
**ymbluo** bwrw plu 3.22n  
**ymgel** celu, cuddio 18.13n  
**ymgelu** cuddio 17.63  
**ymgrafu** 10.22n  
**ymgytal** cydymwneud 10.56  
**ymliw** ceryddu, edliw 12.52  
**ym mhlaid** *S. in support of* 19.90  
**ymod** rheol *ll.* **ymodau** 19.58n  
**ympir** canolwr 2.3  
**ymprydio** 3 *un.amhff.myn.*  
**ymprydiai** 19.35n  
**ymradwy** ymbil 6.26n  
**ymwan** chwareus 1.28n  
**yna** 10.71n  
**Ynyd** dechrau'r Grawys 5.50n  
**yr awr** 15.18n  
**yrhawg** am amser hir 15.85, 89 (gw. hefyd **rhawg**)  
**ysbryd** 2.54n  
**ysgâl** cwpan 9.34n  
**ysglendriaist** gw. **sglandrio**  
**ysgol** cynhalbren 19.52n  
**ysgraff** fferi 10.7n, 11.25n  
**ysgŵd** rhaeadr, pistyll 17.62  
**ysgyfar** ysgyfarnog 4.24n  
**ysgyleraidd** llithrig, llyfn 9.34n  
**ysmoneth** llastr 1.59n  
**ystafell** cartref 13.5  
**ystlys** ochr 9.37  
**ystol** ysgol, *S. ladder* 5.20n  
**ystôr** thus 8.29n  
**ystrwla** treiglo, gyrru ar led 13.18n  
**ysu gwiail** 1.52n

*Enwau personau*

- Adda Fras** 19.44n  
**Arglwyddes Siân** gw. **Siân**<sup>1</sup>  
**Arthur** y Brenin Arthur 15.6n, 7, 14, 16.9  
**Beuno** 1.26n  
**Brân** Llywarch ap Brân 3.26n  
**Crist** Iesu Grist 19.23n (gw. hefyd **Iesu**)  
**Dafydd bencerdd** gw. **Dai ap Gwilym**  
**Dafydd ... Broffwyd** 11.59–60n  
**Proffwyd Dafydd** 12.70n  
**Dafydd Trefor** gw. **Syr Dafydd**  
**Dai** gw. **Dai ap Gwilym**  
**Dai ap Gwilym** Dafydd ap Gwilym ap Dafydd 1.61n, 3.10n  
**Dafydd bencerdd** 2.27n **Dai** 2.37, 3.12, 19  
**Dâm Siân** gw. **Siân**<sup>2</sup>  
**Duw** 1.33, 3.11, 19, 30, 7.78, 12.2, 16.74, 17.21, 19.12, 34, 81 **Duw Nêr** 18.8 **Duw 'Nhad** 19.89  
**Edwart** Edward I 16.8n  
**Efa ... merch i Rys** Efa ferch Rhys ap Maredudd 3.28–9n **Efa** 3.33 **Merch Rhys** 4.39n  
**Eidol** Eidol, Iarll Caerloyw 16.10n  
**Gallgof** Sant 2.4n  
**Gawen** Gawain 11.61n  
**Geraint** [fab Erbin] 5.14n  
**Gruffudd ... ap Tudur** Gruffudd ap Tudur ap Hywel 11.1–3n  
**Gruffudd** 12.1n  
**Gruffudd, Syr Wiliam** Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn 7.8n **Syr Wiliam** 15.3n, 17.28 **Wiliam** 16.34n, 18.7  
**Gwalchmai** [fab Gwyar] 3.19n, 12.75n  
**Gwenonwy** 13.39n  
**Harri** Harri VIII 16.16n  
**Huw ... fab Gronwy, Syr** 1.29–30n  
**Huw Maelan, Syr** 1.24n  
**Hywel** 4.25n **Hywel ... wŷr** **Adda** 5.17–18n **Hywel Adda** 6.1n  
**Iarlls Siân** gw. **Siân**<sup>1</sup>  
**Iesu** Iesu Grist 9.58n, 18.6, 19.27, 36 (gw. hefyd **Crist**)  
**Ifan** Ieuan Delynor 14.1n, 32, 47, 18.29, 40  
**Ifan ... Amhadog** Ieuan ap Madog ap Dafydd 17.23–4n, 38  
**Ifor** Ifor Hael 2.10n  
**Ingram** ?Siôn Ingram 18.34n  
**Lewys ap Tudur** 6.52–3n  
**Lewys ... o Liwon** Lewys Môn 19.79n  
**Liwsíffer** Liwsiffer, y diafol 2.56n  
**Llen ab Einion** gw. **Llywelyn Llwyteg**, y 3.7n  
**Llywelyn** 9.9n **Llen ab Einion** 9.12n  
**Llywelyn ap Gutun** 14.10n  
**Mair** Mair Forwyn 2.63, 3.72, 4.44, 19.28, 55 (gw. hefyd **Mam Iesu**)  
**Mam Iesu** 5.2 (gw. hefyd **Mair**)  
**Maredudd** gw. **Mredudd ... mab Domas**  
**Merch Rhys** gw. **Efa ... merch i Rys**  
**Mihangel** [yr Archangel] 1.37n  
**Moesen** Moses 3.73n  
**Morgan ... ap Hywel, Syr** 1.15–16n  
**Mredudd ... mab Domas** Maredudd ap Tomas 3.23–5n  
**Maredudd** 3.39 **Mredudd** 3.72, 6.26n, 41  
**Nudd** [Hael ap Senyllt] 5.27n,



13.53n, 17.12n  
**Ofyd** Ofydd 11.57n **Ofydd**  
 12.71n  
**Ofydd** gw. **Ofyd**  
**Pab** 2.5, 10.16  
**Pawl Abostawl** yr Apostol Paul  
 12.13n  
**Pedrog** 17.11n  
**Pedyr** Pedr 2.8n  
**person Llanallgo** Syr Dafydd  
 Trefor 3.17–18n  
**Proffwyd Dafydd** gw. **Dafydd**  
 ... **Broffwyd**  
**Rhisiart ... Amhredudd, Syr**  
 1.35–6n  
**Rhydderch** Rhydderch Hael  
 2.18n  
**Sawl** y Brenin Saul 5.4n  
**Siân**<sup>1</sup> (am Siân Stradling a/neu  
 Siân Pilstwn) 17.20  
**Arglwyddes Siân** 15.52n, 18.18

**Iarlles Siân** 17.15n  
**Siân**<sup>2</sup> Siân Pilstwn **Dâm Siân**  
 7.35n  
**Siôn Maswn** 3.6n  
**Siôn ... Pilstwn** 16.3–4n **Siôn**  
 16.18, 64, 18.84  
**Suddas** Jwdas Iscariot 18.26n  
**Syr Dafydd** Syr Dafydd Trefor  
 1.1n, 5.37, 6.5n 15.64, 19.12, 82  
**Trefor** 1.4n, 2.6, 4.20, 5.40n,  
 12.17, 19.15 **Syr Dafydd ...**  
**Trefor** 8.1–2  
**Syr Wiliam** gw. **Gruffudd, Syr**  
**Wiliam**  
**Trefor** gw. **Syr Dafydd**  
**Tudur** Tudur Aled 18.32n **Tudur**  
 ... **Aled** 19.77–8n  
**Twrog** gw. *Enwau lleoedd*  
**Wiliam** gw. **Gruffudd, Syr**  
**Wiliam**

*Enwau lleoedd*

- Arfon** 9.43  
**Bablon** Babilon 16.17n  
**Bangor** 10.66  
**Conwy** 7.37n  
**Cymru** 9.55  
**Deiniolen** 1.17n  
**Enlli** Ynys Enlli 10.12n, 11.32  
**Eryri** 5.6n, 9.47n  
**Ewias** 17.34n  
**Gwynedd** 16.32n, 17.2, 19.32  
**Llanallgo** 3.18n, 6.31n, 19.10n  
**Llandygái** 18.36n  
**Lliwon** Llifon 19.79n  
**Llŷn** 1.26n, 15.84n, 16.38, 18.16n  
**Maelor** 16.12n  
**Menai** [Afon] Menai 9.10n, 10.14, 16.6n  
**Môn** 1.8, 66, 2.33, 3.43, 74, 4.42, 5.46, 9.1n, 43, 49n, 57, 10.14, 32, 15.61, 84, 19.3, 80  
**Môr Ffrainc** Y Sianel / Môr Udd 5.39n  
**Mynyw** 4.15n  
**Ogfaen** [Afon] Ogwen 17.66n (gw. hefyd **Ogwen**)  
**Ogwen** [Afon] Ogwen 17.60n (gw. hefyd **Ogfaen**)  
**Penrhyn** 17.12n, 18.14, 38  
**Porthaethwy** 9.4n, 54, 10.8, 11.26  
**Porthamal** Porthaml 4.35n, 5.22n, 6.17  
**Pryden** Prydain 11.49n  
**Romani** Rhufain 11.33n (gw. hefyd **Rhufain**)  
**Rug** Llanrug 1.38n  
**Rhaglan** 15.40n  
**Rhufain** 2.6n, 38n, 10.19n (gw. hefyd **Romani**)  
**Rhydychen** 14.46n  
**Tre Ddryw** Tre'r Dryw 4.16n  
**Twrog** Llandwrog 1.32n  
**Yr Wyddfa** 15.55n

## Llawysgrifau

*Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copiwr. Ceisir dyddio'r rhannau hynny y mae gwaith beirdd y gyfrol hon yn digwydd ynddynt yn unig. Diolchir i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth na chrybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.*

*Llawysgrifau yng nghasgliad Prifysgol Bangor*

**Bangor 556:** Hugh Evans, Caernarfon, c. 1772, gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 1–1216 (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor), dan rif y llawysgrif.

**Bangor 13512:** llaw anh., hanner cyntaf y 18g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection', 13473–16978 (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor), dan rif y llawysgrif.

**Bangor (Mos) 9:** llaw anh., ail chwarter yr 17g., gw. E. Gwynne Jones & A. Giles Jones, 'A Catalogue of the (Bangor) Mostyn Collection' i (copi anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1967), dan rif y llawysgrif.

**Bangor (Mos) 11:** llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. *ib.* dan rif y llawysgrif.

**Bangor (Penrhos) 1573:** ?Siôn Brwynog, c. 1590–1637, gw. 'A Catalogue of the Penrhos Papers' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 1940), dan rif y llawysgrif; Eurys I. Rowlands, 'Llaw dybiedig Siôn Brwynog', Cylchg LIGC vii (1951–2), 381.

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**BL Add 9817:** llaw anh., 1580–1600, gw. CMRWBM iv, 934–48.

**BL Add 10313:** Dafydd Jones o Drefriw, ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1836, 29; W. Gerallt Harries, 'Un arall o lawysgrifau Dewi Fardd', B xxvi (1974–6), 161–8.

**BL Add 10314:** Dafydd Jones o Drefriw, ail hanner y 18g., gw. CAMBM 1836, 29; W. Gerallt Harries, *art.cit.* 161–8.

**BL Add 12230 [= RWM 52]:** Griffith Vaughan, c. 1689, gw. RWM ii, 1136–44.

**BL Add 14874 [= RWM 51]:** llaw anh., canol yr 17g., gw. *ib.* 1131–5.

**BL Add 14875 [= RWM 30]:** Siôn Tudur (o bosibl), ar ôl 1570, gw. CAMBM 1844, 19; RWM ii, 1039–48.

**BL Add 14882 [= RWM 31]:** Wiliam ap Wiliam ap Robert o Dregarweth, 1591, gw. *ib.* 1048–53.

**BL Add 14889 [= RWM 25]:** Thomas Davies, *c.* 1600, gw. *ib.* 1019–21.

**BL Add 14962:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’, *c.* 1768–1799, gw. CAMBM 1844, 44.

**BL Add 14965:** Edward Kyffin, *c.* 1580, gw. *ib.* 45–6.

**BL Add 14966:** Wiliam Bodwrda, *c.* 1644–6, gw. *ib.* 46–7; R. Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, ‘Bywyd a gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 266–340; *id.* ‘Wiliam Bodwrda (1593–1660)’, Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10, *passim*.

**BL Add 14969:** Thomas Prys, Huw Machno ac eraill, dechrau’r 17g., gw. CAMBM 1844, 48.

**BL Add 14975:** llaw anh., 16g./17g., gw. *ib.* 51–2.

**BL Add 14978:** llaw anh., *c.* 1600, gw. *ib.* 53.

**BL Add 14979:** John Fowk, *c.* 1579, gw. *ib.* 53–4.

**BL Add 31058:** llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. CAMBM 1876–81, 154.

**BL Add 31059:** Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan, *c.* 1590, gw. *l.c.*

**BL Add 31085:** Owen Jones ‘Owain Myfyr’ a Hugh Maurice, 19g., gw. *l.c.*

*Llawysgrif yng nghasgliad Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Bodewryd 2:** Robert Lewis, *c.* 1724 (y mae’n debyg), gw. ‘Schedule of Bodewryd Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth), 1–2; Daniel Huws, ‘Robert Lewis of Carnau’, Cylchg LIGC xxv (1987–8), 118.

*Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bodley Welsh e 7:** llaw anh., 16g./17g., gw. SCWMBLO vi, 216.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Brog (y gyfres gyntaf) 5:** llaw anh., 1625–30, gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’ i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), 10–12; E.D. Jones, ‘The Brogyntyn Welsh manuscripts’, Cylchg LIGC v (1947–8), 237–57.

**Brog (y gyfres gyntaf) 6:** llaw anh., 1627–30, gw. ‘Catalogue of Brogyntyn Manuscripts and Documents’ i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1937), 13–14; E.D. Jones, *art.cit.* 223–48.

*Llawysgrifau yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd*

**Card 1.20:** Elizabeth Phillips, 1850, gw. Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, ‘Summary Catalogue of the Manuscripts ... commonly referred to as the “Cardiff MSS” ’ (Aberystwyth, 1994), 3.

**Card 1.550:** llaw debyg i law David Ellis, ail hanner y 18g., gw. *ib.* 57.

**Card 2.4 [= RWM 11]:** llaw anh., 16g./17g. (yr un llaw â Card 2.5), gw. RWM ii, 138–41.

**Card 2.5 [= RWM 11]:** llaw anh., 16g./17g. (yr un llaw â Card 2.4), gw. RWM ii, 138, 141–5.

**Card 2.68 [= RWM 19]:** llaw anh., c. 1624, gw. *ib.* 178–93.

**Card 2.114 [= RWM 7]:** llaw anh., 1564–6, gw. *ib.* 110–28; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 88.

**Card 3.68:** Robert Thomas, Beddgelert, c. 1735, gw. *ib.* 230.

**Card 4.10 [= RWM 84]:** Dafydd Jones o Drefriw, canol y 18g., gw. RWM ii, 790–3.

**Card 4.110 [= RWM 47]:** David Ellis, Cricieth, 1771–95, gw. *ib.* 239–43; Graham C.G. Thomas & Daniel Huws, *op.cit.* 328.

**Card 4.156 [= RWM 64]:** Margaret Davies, 1736–7, gw. RWM ii, 272–85.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Cwrtmawr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**CM 5:** Edward Owen, Hengwrt, c. 1600, gw. RWM ii, 878–86; B.G. Owens & R.W. McDonald, ‘A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts’ i (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1980), 5–6.

**CM 10:** David Ellis, 1766, gw. RWM ii, 890–5; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 11.

**CM 27:** David Ellis, 1630, gw. RWM ii, 925–32; B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 30–1.

**CM 39:** Evan Pritchard, 1797, gw. RWM ii, 935.

**CM 242:** llaw anh., nid cyn 1811, gw. B.G. Owens & R.W. McDonald, *op.cit.* 278.

**CM 454:** Peter Bailey Williams, c. 1791–3, gw. B.G. Owens, Rhiannon Francis Roberts & R.W. McDonald, ‘A Catalogue of the Cwrtmawr

Manuscripts', ii (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1993), 509.

*Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies yn Llyfrgell Prifysgol Bangor*

**Gwyn 2:** Watkin Lloyd, *c.* 1600, gw. GSCMB, 30.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen*

**J 137 [= RWM 12]:** llaw anh., *c.* 1600, gw. RWM ii, 41–6.

**J 139 [= RWM 14]:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. *ib.* 56–7; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh manuscripts', Cylchg LIGC vi (1949–50), 223.

**J 140 [= RWM 15]:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. RWM ii, 56–7; E.D. Jones, *art.cit.* 223.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LIGC 162D:** un o gopiŵyr Syr T. Phillipps, 19g., gw. NLWCM 130–2.

**LIGC 165C:** llaw anh., 18g./19g., gw. *ib.* 133–4.

**LIGC 279D:** llaw anh., 17g./18g., gw. *ib.* 194.

**LIGC 644B:** llaw anh., canol yr 17g., gw. HMNLW i, 44.

**LIGC 666C:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. *ib.* 46.

**LIGC 668C:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. *l.c.*

**LIGC 832E:** William Bulkeley, Brynddu, hanner cyntaf y 18g., gw. *ib.* 63.

**LIGC 834B:** un o gopiŵyr John Davies, Mallwyd, *c.* 1610–20, gw. *ib.* 64.

**LIGC 1553A:** Roger Morris, Coedytalwrn, 1580–1600, gw. *ib.* 128–9; CLC<sup>2</sup> 520.

**LIGC 1559B:** Wiliam Bodwrda, canol yr 17g., gw. HMNLW i, 130; R. Geraint Gruffydd, 'Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)', Cylchg LIGC viii (1953–4), 349–50; Dafydd Ifans, 'Bywyd a gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 579–601; *id.*, 'Wiliam Bodwrda (1593–1660)', Cylchg LIGC xix (1975–6), 300–10.

**LIGC 1579C:** llaw anh., 17g.–19g., gw. HMNLW i, 134.

**LIGC 3047C [= Mos 144]:** William Phylip, *c.* 1620, gw. RWM i, 131–51.

**LIGC 3049D [= Mos 146]:** Huw Machno, 1636–7, gw. *ib.* 168–79.

**LIGC 3050D [= Mos 147]:** Edward Kyffin, *c.* 1577, gw. *ib.* 180–96.

**LIGC 3051D [= Mos 148]:** Thomas Davies, ail hanner yr 16g. ond cyn 1594, gw. *ib.* 196–212.

**LIGC 3056D [= Mos 160]:** Humphrey Davies, *c.* 1600, gw. *ib.* 224–42; E.D. Jones, 'The Brogyntyn Welsh manuscripts', Cylchg LIGC v (1947–8), 234; Daniel Huws, 'The transmission of a Welsh classic',

*Recognitions: Essays Presented to Edmund Fryde*, ed. Colin Richmond and Isobel Harvey (Aberystwyth, 1996), 194.

**LIGC 5269B**: un o gopiŵyr John Davies, Mallwyd, c. 1630, gw. HMNLW ii, 82.

**LIGC 5272C**: Edward Kyffin, 1576×1581 (1577, o bosibl), gw. *ib.* 83.

**LIGC 6471B**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. (cyn 1633), gw. *ib.* 183.

**LIGC 6499B**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g. ac nid ar ôl c. 1655, gw. *ib.* 186.

**LIGC 9048E [= copi ffotostat o lawysgrif Rhydychen, Coleg Balliol 353]**: Syr Siôn Prys o Aberhonddu, ail chwarter yr 16g., gw. GP cx–cxi; HMNLW iii, 106; E.D. Jones, ‘Llyfr amrywiaeth Syr Siôn Prys’, *Brycheiniog*, viii (1962), 97–104; R.A.B. Mynors, *Catalogue of the Manuscripts of Balliol College Oxford* (Oxford, 1963), 349–51.

**LIGC 9166B**: llaw anh., canol yr 17g., gw. HMNLW iii, 121.

**LIGC 10748D**: llaw anh., 1722×1734, gw. *ib.* 242.

**LIGC 11816B**: llaw anh., 17g., gw. HMNLW iv, 70.

**LIGC 13125B**: Edward Williams ‘Iolo Morganwg’, 18g./19g., gw. *ib.* 410.

**LIGC 19901B [= J. Gwenogvryn Evans 1]**: llaw anh., canol yr 17g., gw. ‘Schedule of J. Gwenogvryn Evans Collection’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1930), 1.

**LIGC 21248D [= Mos]**: llaw anh., hanner cyntaf yr 17g., gw. ‘Catalogue of Mostyn MSS purchased in 1974’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1975), 24–65.

**LIGC 21291E [= Iolo Aneurin Williams 5]**: Ieuan Tudur Owen o Ddugoed, Mawddwy, y mae’n debyg, c. 1600, gw. ‘A List of Manuscripts from the Collection of Iolo Morganwg among the Family Papers Presented by Mr Iolo Aneurin Williams and Miss H. Ursula Williams, 1953–4’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1978), 4–9.

**LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwllch 1]**: llaw anh., c. 1700, gw. ‘Schedule of the Contents of a Manuscript Volume of Welsh poetry known as the Tanybwllch Manuscript’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 1932), 1–42.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Llst 54**: un o gopiŵyr Moses Williams, c. 1710×1720, gw. RWM ii, 545–9.

**Llst 120**: Jasper Gryffyth, c. 1597–1607, gw. *ib.* 603–9.

**Llst 123:** Wiliam Bodwrda, *c.* 1644–50, gw. *ib.* 620–34; R. Geraint Gruffydd, ‘Llawysgrifau Wiliam Bodwrda o Aberdaron (a briodolwyd i John Price o Fellteyrn)’, *Cylchg LLGC viii* (1953–4), 350; Dafydd Ifans, ‘Bywyd a gwaith Wiliam Bodwrda (1593–1660) o Aberdaron’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1974), 354.

**Llst 135:** llaw anh., ar ôl 1548, gw. RWM ii, 712–15.

**Llst 169:** llaw anh., ail hanner yr 16g., gw. *ib.* 759–60.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Pen 73:** llaw anh., *c.* 1621, gw. RWM i, 486–91.

**Pen 104:** llaw anh., rhwng 1624 a 1651, gw. *ib.* 644–51.

**Pen 112:** John Jones, Gellilyfdy, cyn 1610, gw. *ib.* 671–86; Nesta Lloyd, ‘A history of Welsh scholarship in the first half of the seventeenth century, with special reference to the writings of John Jones, Gellilyfdy’ (D.Phil., Oxford, 1970), 28–31.

**Pen 114:** llaw anh., *c.* 1620–40, gw. RWM i, 689–95.

**Pen 159:** Rhisiart ap Siôn o Ysgorlegan, 1578–85, gw. *ib.* 946.

**Pen 198:** llaw anh., *c.* 1693–1701, gw. *ib.* 1206.

**Pen 221:** John Jones, Gellilyfdy, *c.* 1605, gw. *ib.* 1045; Nesta Lloyd, *op.cit.* 26–7; M.T. Burdett-Jones, ‘Trydydd llyfr cywyddau John Jones Gellilyfdy’, *YB xvi* (1990), 127–40.

**Pen 239:** llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. RWM i, 1063–6.

*Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstey yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Wy 1, i:** llaw gynnar Thomas Wiliems, Trefriw, *c.* 1570–90, gw. ‘Schedule of the Wynnstey Manuscripts and Documents’ (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 1934–40), 1–2.



## *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

	<i>Td.</i>
Cariad merched a'm curiai .....	41
Gruffudd, awenydd annwyl .....	60
Gruffudd, os gwawdydd ydwy' .....	64
Gŵr claf ydyw Syr Dafydd .....	21
Hudol yw'r byd a 'heda.....	88
Hywel Adda hael oeddwn .....	38
Ifan, pa syfrdan y sydd .....	72
Noswyl Fair, fy llaswyr fu.....	36
Pa berson? Pwy a byrsiodd?.....	26
'Pwy'r dwylo piau'r delyn ... ..	31
Syr Dafydd, awenydd wyd .....	48
Torred pen y llawenydd.....	93
'Y don gyfanllon, gefnllwyd ... ..	55
Y fferi fawr i ffair Fôn.....	51
'Y gog fedleilas a gân ... ..	34
Y gŵr digrif gwridogrudd .....	76
Y post hael, hapus, dulwyd .....	68
Y rhywiogwalch aur hygoll.....	84
Y tŵr llwyd a'r tor llydan.....	80



## *Mynegai i'r gwrthrychau a'r eirchiaid*

	<i>cerdd</i>
alarch .....	3, 4, 5, 6
Dafydd ap Gwilym .....	2, 3
Dafydd Trefor, Syr .....	19
fferi Porthaethwy .....	9, 10, 11, 12
geifr .....	1, 2
gordderch a thelyn .....	7, 8
gwŷr eglwysig .....	10
Huw ap Gronwy, Syr .....	1
Huw Maclan, Syr .....	1
Maredudd ap Tomas .....	3
Morgan ap Hywel, Syr .....	1
pedwar person plwyf .....	1, 2
Rhisiart Amhredudd, Syr .....	1
Siôn Pilstwn .....	13, 16
teilyn .....	gw. gordderch a thelyn
ton .....	10
Wiliam Glyn, Dr .....	13
Wiliam Gruffudd, Syr .....	7, 8, 13, 14, 15, 16, 17, 18



## *Mynegai i'r beirdd*

*cerdd*

Dafydd Trefor.....	1, 3, 7, 9, 11, 14
Gruffudd ap Tudur ap Hywel .....	2, 4, 6, 8, 10, 12
Ieuan ap Madog ap Dafydd .....	16, 18, 19
Ieuan Delynor.....	13, 15, 17
Wiliam ap Dafydd ab Ieuan ap Llywelyn.....	5